<i>Gwasanaethau Strôc.....</i>	<i>35</i>
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu .....	37
Gweithio i Wella.....	39
<i>Gwneud lawn.....</i>	<i>39</i>
<i>Cwynion.....</i>	<i>39</i>
<i>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru .....</i>	<i>41</i>
<i>Digwyddiadau.....</i>	<i>42</i>
<i>Hawliadau.....</i>	<i>43</i>
<i>Dyletswydd Ansawdd a'r Dyletswydd Gonestrwydd .....</i>	<i>45</i>
Perfformiad ariannol .....	46
<i>Cyflawni Dyletswyddau Ariannol .....</i>	<i>46</i>
<i>Perfformiad adnodau referniw .....</i>	<i>46</i>
<i>Cynllunio Integredig.....</i>	<i>47</i>
<i>Mesurau perfformio ariannol eraill.....</i>	<i>47</i>
<b>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) .....</b>	<b>48</b>
<i>Mabwysiadau'r Pum Ffordd o Weithio.....</i>	<i>49</i>
<i>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9).....</i>	<i>50</i>
<i>Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus .....</i>	<i>53</i>

<b>Adroddiad Cynaliadwyedd .....</b>	<b>56</b>
<i>Gweithio mewn Partneriaeth .....</i>	57
<i>System Rheoli Amgylcheddol ISO14001:2015 .....</i>	57
<i>Hyfforddiant ynghylch Materion Amgylcheddol a Gwastraff .....</i>	58
<i>Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol .....</i>	59
<i>Rheoli gwastraff.....</i>	59
<i>Grwpiau Gwyrdd.....</i>	60
<i>Rheoli ynni a charbon .....</i>	60
<i>Trafnidiaeth .....</i>	61
<i>Caffael cynaliadwy .....</i>	61
<i>Adeiladu cynaliadwy.....</i>	62
<i>Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol .....</i>	63
<i>Crynodeb o berfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau cyfleustodau .....</i>	64
<b>Y Gymraeg .....</b>	<b>70</b>
<i>Deddfwriaeth a Llywodraethu.....</i>	71
<i>Hyrwyddo a gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' .....</i>	71
<i>Datblygu'r Gweithlu .....</i>	72
<i>Gwasanaethau Cyfieithu .....</i>	73
<b>RHAN DAU - Adroddiad Atebolrwydd</b>	
<b>Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol .....</b>	<b>74</b>
Adroddiad y Cyfarwyddwyr .....	74
<i>Y Bwrdd.....</i>	74
<i>Datganiad o Fuddiannau Cyfarwyddwyr .....</i>	74
<i>Y Pwyllgor Archwilio.....</i>	75
<i>Diogelwch Data .....</i>	75
<i>Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau .....</i>	76
Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr Dros Dro fel Swyddog Atebol y BILI .....	77
Datganiad ar Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon .....	78
Datganiad Llywodraethu Blynyddol.....	78
<b>Adroddiad Tâl.....</b>	<b>79</b>
<i>Polisiau ynghylch Tâl Staff ac Uwch Reolwyr.....</i>	79
<i>Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth.....</i>	80
<i>Perthnasoedd Tâl.....</i>	81
<i>Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000.....</i>	81
<i>Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo .....</i>	83
<i>Cyflog Uwch Reolwyr a Datgeliadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl.....</i>	83
<b>Adroddiad Staff .....</b>	<b>97</b>
<i>Ymrwymadau oddi ar y Gyflogres a Gwaith Ymgynghori.....</i>	98
<i>Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.....</i>	99
<b>Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru .....</b>	<b>101</b>
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd .....	103
Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd .....	109

## RHAN TRI – Cyfrifon Blynyddol

Rhagair .....	1A
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr .....	2A
Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill.....	2A
Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.....	3A
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr.....	4A
Datganiad o Llifau Arian .....	6A
Nodiadau ar y Cyfrifon .....	7A

## ATODIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1 Cwmpas y Cyfrifoldeb.....	1B
2 Y Gallu i Reoli Risg .....	1B
3 Ein Fframwaith Llywodraethu .....	3B
4 Sicrhau Ansawdd Data .....	6B
5 Diben y System Rheolaethau Mewnol .....	6B
6 Asesu Risgiau.....	6B
7 Y Fframwaith Risgiau a Rheolaethau .....	7B
8 Elfennau o'r Fframwaith Sicrwydd.....	9B
Risgiau Allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd .....	9B
9 Archwilio Mewnol.....	11B
10 Llywodraethu Ansawdd .....	13B
11 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru .....	13B
12 Diogelwch Data.....	15B
13 Cynllun Pensiwn y GIG a Threfniadau Cyflogres .....	16B
14 Addasu i Newid yn yr Hinsawdd .....	17B
15 Parodrwydd ar gyfer Argyfwng .....	17B
16 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol.....	19B
17 Trefniadau Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwyo a Llygru .....	20B
18 Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP).....	21B
19 Ymyrraeth wedi'i thargedu .....	22B
20 Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru .....	24B
21 Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) .....	25B
Ymchwiliad HSE, Uned Hergest.....	25B
Ymchwiliad HSE, Cwympiadau Cleifion .....	25B
Ymchwiliad HSE i Ddirgryniad Llaw-Braich (Dwyrain).....	25B
22 Torri Diogelwch Data .....	26B
23 Barn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2022/23 .....	26B
24 Adolygu Effeithlonrwydd .....	27B
25 Casgliad .....	28B
Atodiad 1 - Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2022/23 .....	30B
Atodiad 2 - Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2022/23.....	31B
Atodiad 3 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus 2022/23.....	39B
Atodiad 4 - Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2022/23 .....	41B



**Dyfed Edwards**  
**Cadeirydd Dros Dro**



**Carol Shillabeer**  
**Prif Weithredwr Dros Dro**

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022/23.

Yn ddi-os, mae wedi bod yn flwyddyn anodd a chythryblus iawn i'r sefydliad. Mae nifer o adolygiadau ac adroddiadau critigol wedi canfod methiannau sylweddol o ran rhai agweddau ar ein prosesau a'n perfformiad, gan arwain at benderfyniad Llywodraeth Cymru i newid statws monitro'r Bwrdd Iechyd i fesurau arbennig. Mae hyn wedi dod ynghyd â rhai newidiadau mawr ar lefel y Bwrdd, gan gynnwys ein penodiadau ym mis Chwefror a Mai 2023, yn ôl eu trefn.

Mae hyn yn digwydd ar adeg pan rydym yn dal wrthi'n ceisio mynd i'r afael â chanlyniadau pandemig Covid-19. Er bod tarfu oherwydd Covid ei hun wedi lleihau, rydym bellach yn wynebu her enfawr o ran lleihau rhestrau aros tra'r ydym hefyd yn delio â chynnydd sylweddol mewn gofynion brys.

O ganlyniad, rydym yn canolbwyntio ar yr anawsterau y mae cleifion yn eu profi wrth fanteisio ar wasanaethau, gan gynnwys lleihau pwysau ar ein hadrannau achosion brys a gweithio i gael effaith bositif ar yr anawsterau y mae unigolion yn eu hwynebu o ran gallu cael triniaeth ddeintyddol yn rheolaidd ar y GIG.

Ar yr un pryd, mae'r cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo, yn y tymor byr a'r tymor hirach, yn arbennig yn heriol. Mae gennym ddiffyg ariannol sylfaenol, y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef, ac rydym yn parhau i wynebu prinder o staff sydd wedi'i achosi gan farchnad recriwtio anodd mewn llawer o ddisgyblaethau iechyd.

Serch hynny, mae rhesymau i ni fod yn optimistaidd. Ni ddylem anghofio fyth, am y ffaith bod miloedd o bobl yn derbyn gofal iechyd, cymorth a thriniaeth o ansawdd uchel bob wythnos ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn oherwydd ymroddiad ac arbenigedd parhaus ein staff, ac rydym am dalu teyrnged iddynt, a chynnig ein diolchgarwch diffuant am y cwbl y maent yn ei wneud i ofalu am ein cleifion a'r gymuned ehangach.

Ers ymuno â'r Bwrdd Iechyd, mae gwytnwch a brwdfrydedd staff y rheng flaen a'r staff cymorth rydym wedi cyfarfod â nhw ar draws y rhanbarth, ynghyd â'u hymrwymiad i'r cleifion yr ydym yn eu gwasanaethu, wedi gwneud cryn argraff arnom ni ill dau. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau gwych o arloesi a gwella lleol. Dyna pam, er gwaethaf yr anawsterau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu, ein bod yn optimistaidd ynghylch ei gynnydd yn y dyfodol.

Fel enghreifftiau o'r cynnydd hwnnw, y llynedd gwnaethom gynyddu nifer y gweithredoedd dewisol a gynigiwyd o 5.8% o gymharu â'r flwyddyn gynt, er gwaethaf y ffaith ein bod hefyd wedi gweld cynnydd o 6.2% mewn derbyniadau brys, ein gwasanaethau Gynaecoleg oedd y ddisgyblaeth gyntaf yng Ngogledd Cymru i gynig llawdriniaeth â chymorth robot a gwnaethom lansio clinig diagnostig cyflym newydd ar yr un diwrnod i gleifion sydd â lymphiau amheus yn y gwddf.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na all y Bwrdd Iechyd ddatblygu a ffynnu ar ei ben ei hun. Rydym yn rhan o system ehangach o lawer o iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynnwys contractwyr annibynnol, gwasanaethau awdurdodau lleol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, y Gwasanaeth Ambiwlans a chyrrff eraill y GIG, ynghyd ag addysg uwch, yng Ngogledd Cymru a thu hwnt. Rydym oll yn wynebu heriau tebyg o ran ateb y galw gyda'r adnoddau sydd ar gael a byddwn yn parhau i feithrin perthnasau ac i weithio'n agos ac mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn asiantaethau eraill er mwyn defnyddio ein galluoedd cyfunol i'r eithaf i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y poblogaethau yr ydym yn eu gwasanaethu. Gwyddom y gallwn gyflawni mwy trwy gydweithio'n agos â'n partneriaid a thrwy fod yn agored i ddysgu gan eraill.

Dangoswyd hyn gan ein gwaith i ategu hyfforddi a datblygu gweithwyr iechyd proffesiynol yn lleol, sy'n elfen allweddol o ran mynd i'r afael â heriau recriwtio. Yn ystod y flwyddyn, gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), Cyfadran Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol (AWFDPC) a darparwyr deintyddol ar draws y rhanbarth, gwnaethom agor cyfnod cyntaf datblygiad arloesol Academi Ddeintyddol Gogledd Cymru. Ym mis Medi 2024, bydd myfyrwyr yn dechrau eu hastudiaethau ar y rhaglen gyntaf ar gyfer gradd feddygol lawn yng Ngogledd Cymru diolch i gydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd a darparwyr gofal sylfaenol ledled Gogledd Cymru.

Nid oes amheuaeth y bydd y flwyddyn bresennol yn heriol. Serch hynny, rydym yn hyderus y bydd y cynlluniau sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu'n sicrhau bod y sefydliad yn symud i'r cyfeiriad cywir, gan gofleidio gwelliannau a sefyllfa lle bo mwy o sefydlogrwydd.



## Trosolwg o Berfformiad

Mae'r Trosolwg o Berfformiad wedi'i ddylunio i roi crynodeb byr o waith y Bwrdd Iechyd i'r darllenwyr: y boblogaeth y mae'n ei wasanaethu, yr heriau allweddol yr ydym wedi'u hwynebu dros y flwyddyn ddiwethaf, ein lefelau gweithgarwch a sut yr ydym wedi perfformio wrth gael ein hasesu yn erbyn targedau perfformiad cenedlaethol.

Mae'r Dadansoddiad o Berfformiad yn rhoi mwy o fanylion am yr ystod o wasanaethau iechyd a ddarperir ar gyfer pobl Gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai yr ydym yn eu comisiynu a'r rhai sy'n cael eu rheoli a'u darparu'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd.

## Crynodeb y Prif Weithredwr

Roedd 2022/23 yn flwyddyn weithredu heriol i'r Bwrdd Iechyd. Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaeth y Bwrdd gytuno ar gynllun tair blynedd ar gyfer y cyfnod 2022-25 er mwyn bodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ac i fynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac yn hytrach, gwnaeth y Bwrdd weithio i gyflwyno blwyddyn gyntaf hyn fel cynllun gweithredu blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd pandemig Covid-19 yn parhau i gael effaith ar ddarparu gwasanaethau iechyd. Roedd y rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer gaeaf 2022/23 yn rhagdybio amgylchedd "COVID sefydlog", lle rhagwelwyd tonnau pellach o'r haint ond ni ddaeth i'r amlwg i'r fath raddau nes rhoi pwysau anghynaliadwy ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, ond effeithiodd ar amseroedd mynediad at wasanaethau ar draws ystod o wasanaethau.

Cyfrannodd effaith barhaus y pandemig hefyd at fathau eraill o bwysau yn y system, gan gynnwys prinder yn y gweithlu ar draws y system iechyd a gofal cyfan (sector statudol a sector annibynnol); anghenion cymorth cynyddol ar gyfer iechyd meddwl; iechyd a lles plant; a heriau parhaus wrth ddarparu'r lefelau gweithgarwch a oedd eu hangen i fynd i'r afael ag amseroedd aros hirach a waethgodd yn ystod y pandemig.

Yn ogystal â hynny, codwyd nifer o broblemau anodd a chymhleth gyda'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn:

- Mae pryderon ynghylch nifer o'n gwasanaethau, ein dulliau arwain a llywodraethu yn golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi cael ei roi mewn 'Mesurau Arbennig' ac yn ymgymryd â gweithgareddau gwella sydd â ffocws ychwanegol yn y meysydd hyn;
- Mae amseroedd aros ar gyfer nifer o lawdriniaethau megis cymalau newydd neu lawdriniaeth y llygaid wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig ac er ein bod wedi dechrau lleihau rhai o'r arosiadau hirach, mae llawer mwy i'w wneud a bydd hyn yn gofyn am newidiadau i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau;
- Bu galw eithriadol am wasanaethau gofal sylfaenol, ac maent wedi gorfod addasu'n gyflym i fynd i'r afael â'r angen cymunedol sy'n prysur gynyddu yn ystod cyfnod o anawsterau recriwtio cynyddol;
- Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi profi anawsterau tebyg wrth geisio darparu'r staffio sydd ei angen i ofalu am unigolion yn eu tai eu hunain neu mewn lleoliadau cartrefi gofal mewn modd cynaliadwy, gyda'r galw yn mynd uwchlaw'r capasiti;

- Mae ein gallu i symud cleifion drwy ein hysbytai wedi cael ei effeithio gan yr anawsterau y mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi bod yn eu profi wrth geisio darparu'r staffio sydd ei angen i ofalu am unigolion yn eu cartrefi eu hunain neu mewn lleoliadau cartref gofal. O ganlyniad i hyn, yn ogystal â phwysau arall yn ein sefydliad, mae gormod o bobl wedi gorfod aros am gyfnodau annerbyniol er mwyn cael eu derbyn i'r Adrannau Brys o'r ambiwlansys, cael eu gweld gan glinigwr am asesiad yn yr Adrannau Brys neu dderbyn gwely yn dilyn yr asesiad.
- Fel llawer o sefydliadau GIG, rydym yn wynebu heriau wrth recriwtio a chadw staff mewn amryw o arbenigeddau a grwpiau staff, gan gynnwys ein huchelgais i gynyddu sgiliau dwyieithog; ac
- Mae sefyllfa economaidd y DU gyfan a chostau byw cynyddol wedi cael effaith andwyol ar y boblogaeth, ein staff, a chost cyflenwadau ac ynni a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd.

Er gwaethaf y rhwystrau, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi dangos meysydd o gynnydd drwy gydol y flwyddyn. Mae ein lefelau gweithgarwch wedi cynyddu ar draws bron pob agwedd o'n gwasanaethau a llwyddodd ein staff i ddarparu nifer o brosiectau a datblygiadau strategol allweddol yn llwyddiannus. Bydd cyflwyno ein strwythur Cymunedau Iechyd Integredig yn helpu i ddatblygu ein cydberthnasau gwaith gydag awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac mae cynlluniau fel y model Rhyddhau i Asesu a gyflwynir mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i fynd i'r afael â materion llif cleifion sy'n deillio o'r heriau y mae'r sector gofal ehangach yn eu hwynebu. Manylir ar y rhain ar lefel gwasanaeth yn adran nesaf yr adroddiad.

Yn ogystal â hynny, bodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol statudol er mwyn gweithredu o fewn y cyllid a oedd ar gael ar ei gyfer dros gyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, cafodd hyn ei gyflawni â chymorth gan rhai ffynonellau cyllid anghylchol a chymorth strategol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phwysau cost penodol yn ystod y cyfnod hwn, ac mae angen gwaith yn ystod y flwyddyn hon i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol sylfaenol.

**Carol Shillabeer**  
**Prif Weithredwr Dros Dro**

## Meysydd Cyfrifoldeb

Y Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.99 biliwn a gweithlu o dros 20,000. Mae'r Bwrdd Iechyd yn system iechyd integredig sy'n ymdrechu i ddarparu gofal tosturiol ardderchog mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a sefydliadau trydydd sector eraill.

Rydym yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i fwy na 700,000 o bobl ar draws y chwe sir yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl yn ogystal â gwasanaethau ysbytai aciwt.

Rydym yn gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) a 19 o ysbytai cymunedol ac ysbytai eraill, ynghyd â rhwydwaith o ganolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a safleoedd timau cymunedol, ac rydym hefyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i garchardai, a hynny yng Ngharchar Berwyn, Wrecsam. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 96 practis Meddyg Teulu, a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan 83 o bractisau deintyddol ac orthodonteg, 69 practis optometreg ac optegwyr a 147 o fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn gyfrifol, mewn partneriaeth, am wella iechyd a lles y bobl leol drwy weithgareddau megis ein rhaglenni brechu llwyddiannus a gwasanaethau iechyd ysgolion.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno model gweithredu newydd sy'n dod â gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gofal eilaidd (aciwt) a gwasanaethau plant o fewn tair Cymuned Iechyd Ddaearyddol – Ardal y Dwyrain, Ardal y Canol ac Ardal y Gorllewin, ynghyd. Mae pob un o'r rhain yn cael eu harwain gan gyfarwyddwr, gyda chefnogaeth gan dîm arwain sy'n cynnwys meddygaeth, nyrsio, therapïau a gwyddorau iechyd, meddyginiaethau a llawdriniaethau.

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Merched, Gwasanaethau Canser, a Gwasanaethau Cymorth Diagnostig a Chlinigol yn parhau i fod yn wasanaethau Gogledd Cymru gyfan.

Mae'r model newydd yn seiliedig ar ymchwil, ymgysylltu ac ymgynghori helaeth gyda staff a rhanddeiliaid eraill ac mae wedi cael ei ddylunio i adeiladu ar gryfder trefniadau sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth wrth gael gwared ar raniadau strwythurol rhwng gwasanaethau aciwt, sylfaenol a chymunedol er mwyn gwella gofal integredig a phrofiad ein cleifion.

Ym mis Mawrth 2022, cymeradwyodd y Bwrdd gynllun tair blynedd am gyfnod rhwng 2022-25 a oedd yn cynnwys camau gweithredu i gydymffurfio â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-25. Yn ogystal, gwnaeth ein cynllun nodi sut y byddai'r Bwrdd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion a mesurau a geir yn y Fframwaith Cynllunio, sef:

- Cymru Iachach - fel y cyd-destun polisi cyffredinol;
- Iechyd y boblogaeth;
- Covid - ymateb;
- Adfer y GIG;
- Iechyd Meddwl a lles emosiynol;
- Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal;
- Cyllid y GIG a rheoli gyda'r adnoddau sydd ar gael;
- Gweithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol.

Nid oedd modd i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r cynllun hwn yn ffurfiol oherwydd amryw o heriau wrth ddarparu gofal iechyd ac felly gweithiodd y Bwrdd Iechyd i gyflwyno blwyddyn gyntaf y cynllun hwn.

Ym mis Gorffennaf 2022, derbyniodd y Prif Weithredwr gadarnhad, gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru, o'r amodau atebolrwydd yr oedd disgwyl i'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni, ac a oedd yn sail i gyfarfodydd adolygu ac atebolrwydd parhaus yn ystod y flwyddyn. Roedd yr amodau yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Egwyddor datblygu cynaliadwy "y pum ffordd o weithio"
- Strategaeth glinigol a mynd i'r afael â risgiau clinigol
- Gofal wedi'i gynllunio ymlaen llaw
- Gofal sylfaenol
- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Y Gweithlu
- Newid yn yr hinsawdd
- Effeithiau Ariannol

Yn ogystal, codwyd ystyriaethau pellach mewn perthynas ag iechyd meddwl a dementia, gwasanaethau niwroddatblygiadol, datblygiad digidol ac ymateb i'r argyfwng costau byw.

Darperir sylwebaeth ar lawer o'r pynciau hyn mewn man arall yn yr adroddiad hwn

Ym mis Mawrth 2023, cafodd y Bwrdd Iechyd ei uwchgyfeirio i statws Mesurau Arbennig ac felly bydd yn datblygu cynllun blynyddol wedi'i ddiweddarau ar gyfer 2023/24 er mwyn adlewyrchu gofynion y Mesurau Arbennig.

Roedd ein cynllun yn cydnabod y rhaglenni adfer a ddatblygwyd wrth i ni symud oddi wrth bandemig Covid-19 i sefyllfa lle mae Covid-19 yn endemig o fewn ein poblogaeth. Roedd y gwaith hwn yn gofyn am waith partneriaeth cryf er mwyn cefnogi cymunedau sy'n agored i niwed ac amddiffyn iechyd a lles y boblogaeth i gefnogi egwyddorion 'Cymru Iachach'.

Gwnaethom barhau gyda'n gwaith i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein gwaith o ddydd i ddydd, er mwyn bodloni ysbryd a bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar gyfer y Bwrdd Iechyd gyda chyrrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru er mwyn cyfrannu tuag at gyflawni saith nod lles cenedlaethol, er mwyn ehangu ein rhagolwg ac i feddwl yn y tymor hwy wrth wneud hynny. Yn ystod 2022/23, gwnaethom weithio gyda phartneriaid i adnewyddu'r cynlluniau lles lleol sy'n nodi ein nodau a rennir yn y maes hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ar gryfhau ei ffocws ar iechyd y boblogaeth, gan weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ar draws Gogledd Cymru. Yn ystod 2022/23, gwnaethom weithio gyda phartneriaid i ymateb i ganfyddiadau'r asesiad o anghenion iechyd poblogaeth y rhanbarth sydd wedi'i ddiweddarau drwy ddatblygu cynllun ardal rhanbarthol sy'n cefnogi ein gweithgarwch cynllunio ochr yn ochr â chydweithwyr ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac mae ein rhaglen 'Gogledd Cymru Iach' yn parhau i ddarparu ffocws am y gwaith hwn yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i sicrhau bod modd darparu ystod eang o raglenni cenedlaethol megis sgrinio, brechu ac iechyd plant ar lefel leol.

Yn ogystal â gwella iechyd a darparu gwasanaethau clinigol a gofal, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft, mewn perthynas â materion megis hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygiad cynaliadwy, y Gymraeg ac wrth symud grwpiau sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu blaenau.

Er mwyn cyflawni ein nodau, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner megis yr awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol i drafod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol a manteisio ar gyfleoedd gwaith ar y cyd. Mae'r cyrff yn cynnwys:

- Cyngorau Gwasanaethau Sirol Gwirfoddol;
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam);
- Cydbwyllgor Canolbarth Cymru;
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (o 1 Awst 2023 yn cael ei ddisodli gan Lias);
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus / Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- Bwrdd Arwain Rhanbarthol;
- Partneriaeth Ranbarthol Cymunedau Mwy Diogel;
- Partneriaid Trydydd Sector;
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

## Ein dinasyddion

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl o tua 700,000 o bobl sy'n byw ar draws ardal o tua 2,500 milltir sgwâr, gan roi dwysedd poblogaeth cyfartalog o 114 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Sir y Fflint yw'r mwyaf poblog, gyda 356 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Gwynedd yw'r lleiaf poblog gyda 49 unigolyn fesul cilomedr sgwâr.

Ar y cyfan, mae'r boblogaeth yn hŷn na'r cyfartaledd yng Nghymru, gyda chyfran fwy o bobl yn y grwpiau oedran 65-84 ac 85 a hŷn.

Grŵp oedran	BIPBC (%)	Cymru gyfan (%)
0-15	17.6	17.8
16-64	59.0	61.2
65-84	20.3	18.3
85 a hŷn	3.1	2.7

Mae statws iechyd cyffredinol ein poblogaeth yn cymharu'n ffafriol â rhannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, mae amrywio sylweddol ar draws Gogledd Cymru, ac mae'r rhanbarth yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gorllewin Y Rhyl 2 a Gorllewin Y Rhyl 1 yw'r ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Deg ardal fwyaf difreintiedig yn BIPBC		
Enw LSOA*	Awdurdod Lleol	Safle WIMD**
Gorllewin Y Rhyl 2	Sir Ddinbych	1
Gorllewin Y Rhyl 1	Sir Ddinbych	2
Queensway 1	Wrecsam	9
Gorllewin Y Rhyl 3	Sir Ddinbych	11
De-orllewin Y Rhyl 3	Sir Ddinbych	19
Glyn (Conwy)	Conwy	20
Wynnstay	Wrecsam	45
De-orllewin Y Rhyl 1	Sir Ddinbych	57
Abergele Pensarn 2	Conwy	70
Tudno 2	Conwy	78

\*LSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, Ardaloedd daearyddol ystadegol sefydlog yw'r rhain, gyda phob un â thua 1,500 o drigolion, a ddiffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

\*\*WIMD – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (data 2019)

Mae bron i chwarter o blant a phobl ifanc o dan 20 oed yn byw mewn tldi yng Nghymru; ar draws Ogledd Cymru mae hyn yn amrywio o 18% yng Ngwynedd i 25% yn Sir Ddinbych.

Cydnabyddwn fod amddifadedd yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd y boblogaeth, a bod yr argyfwng costau byw ar hyn o bryd yn gwaethygu hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu grŵp llywio i edrych ar ffyrdd y gall y Bwrdd Iechyd ymateb ar y mater hwn ac mae cyfres o fentrau'n cael eu datblygu fel rhan o ymagwedd yr economi sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys targedu cymorth at gymunedau penodol er mwyn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, prentisiaethau a chydweithio â phartneriaid statudol a thrydydd sector. Gwnaeth llawer o'r hybiau cymunedol a sefydlwyd yn ystod Covid barhau i ddatblygu a darparu pwyntiau mynediad ar gyfer ystod eang o gymorth gan gynnwys gwasanaethau i fynd i'r afael â thlodi bwyd, cymorth o ran tanwydd a gwres, cyngor ar arian, rhagnodi cymdeithasol, ac ystod o gymorth arall o ran iechyd a lles.

Er bod llawer ohonom yn cadw'n iach yn ddiweddarach mewn bywyd, i lawer bydd lefelau cynyddol o gyflyrau hirdymor ac felly bydd angen gofal a chymorth.

Mae hyn yn effeithio, nid yn unig ar unigolion sy'n profi lefelau uwch o angen, ond hefyd ar yr aelodau o'r teulu neu berthnasau sydd efallai'n darparu gofal di-dâl.

Mae nifer yr achosion o gyflyrau iechyd hirdymor yn uwch ar draws poblogaeth Gogledd Cymru o gymharu â chyfartaledd Cymru:

Cyflwr Hirdymor	BIPBC (%)	Cymru Gyfan (%)	BIPBC o gymharu â Chymru
Gorbwysedd (pwysedd gwaed uchel)	16.9	15.8	Uwch
Gordewdra	9.5	10.1	Is
Diabetes mellitus (cleifion 17 oed a hŷn)	7.8	6.1	Uwch
Asthma	7.6	7.1	Uwch
Clefyd y Galon	3.8	3.6	Uwch
Canser	3.7	3.1	Uwch
Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)	2.7	2.4	Uwch
Strôc a Phwl o Isgemia Dros Dro (TIA)	2.2	2.1	Uwch
Methiant y Galon	1.1	1.1	Cyfartal

Yn 2020, roedd gan Ogledd Cymru 279,300 o breswylwyr a oedd yn gallu siarad Cymraeg (Arolwg Blynyddol Poblogaeth Cymru 2021), sy'n cyfateb i 41% o'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, mae data diweddaraf y Cyfrifiad wedi tynnu sylw at ostyngiad ar draws Cymru yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn rhugl yn y Gymraeg. Fel Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'n dyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, rydym yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer ein staff ac yn ein rôl fel cyflogwyr mawr gyda chyfraniad sylweddol i'w wneud o ran cynnal yr iaith yn ein cymunedau. Mae manylion pellach am ein gweithgarwch Cymraeg wedi'u nodi ar dudalennau 70 i 73 o'r ddogfen hon.

## Ein Staff

### Staff a Recriwtio

O 31 Mawrth 2023, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi 20,284 o unigolion, a oedd yn hafalu i 17,574 o weithwyr llawn amser. Adroddir ar nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn, wedi'u rhannu'n ôl grwpiau staff, yn yr adroddiad staff a thâl ar dudalen 97.

Mae'r sefyllfa recriwtio ym maes gofal iechyd yn parhau i fod yn heriol, ac mae prinder staff â chymwysterau addas ar draws llawer o ddisgyblaethau. Fel rhan o roi datblygiad newydd Model Gweithredu Gwasanaethau Pobl ar waith, mae ein timau gweithlu bellach yn gallu darparu datrysiaid recriwtio gwell ac sy'n fwy lleol ar gyfer pob un o'n timau Cymunedau Iechyd Integredig, Iechyd Meddwl a Merched. Ochr yn ochr â hyn, mae tîm Recriwtio Strategol newydd wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar recriwtio meddygon ymgynghorol ac i gynorthwyo datblygu gwasanaeth er mwyn ategu recriwtio meddygol ehangach trwy ddatblygu ymagwedd ddiwygiedig tuag at weithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i ymgeiswyr ar gyfer swyddi gwag parhaol.

Mae ymgyrchoedd recriwtio lleol wedi bod yn llwyddiannus yn ystod 2022/23 a bydd y rhain yn parhau trwy gydol gweddill 2023. Mae gennym nifer o fentrau recriwtio o dramor hefyd sy'n cael eu cynllunio trwy gydol 2023 ac rydym yn disgwyl recriwtio staff meddygol a nyrsio sylweddol i gynorthwyo meysydd penodol ar draws y Bwrdd Iechyd.

### Mentrau Lles i Staff

Mae ein staff yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth i ni adfer o bandemig Covid, mynd i'r afael â'r ôl-groniad o bobl sy'n aros am driniaeth a rheoli'r galw cynyddol am achosion brys. Mae argyfwng costau byw wedi effeithio ar les llawer o staff sy'n wynebu prisiau cynyddol am ynni a bwyd a chostau morgeisi uwch. Mae cefnogi ein gweithwyr yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn ein helpu i gadw staff ac i'w galluogi i ganolbwyntio ar gynnig gofal trugarog o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu grŵp llywio i edrych ar ymateb i'r heriau ar gyfer ein poblogaeth a'n staff. Cynhaliwyd Arolwg Staff ynghylch Costau Byw er mwyn deall pryderon staff ac, o ganlyniad i hyn, canfuwyd tri phrif faes: ynni / tanwydd; bwyd; a chostau teithio. Mewn ymateb i hyn, datblygwyd gwybodaeth am gymorth a mentrau sydd ar gael ac roedd y mentrau hyn ar gael ynghyd ag adnoddau lles ariannol ehangach trwy BetsiNet.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae ein Gwasanaeth Cynnal Lles Staff (SWSS) wedi cael ei ddatblygu ymhellach gan fod penodiadau am gyfnod penodol yn cael eu gwneud yn rhai parhaol erbyn hyn, gan roi mwy o ddiogelwch a sefydlogrwydd i'r gwasanaeth, ynghyd â phenodi staff cymorth ychwanegol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn casglu'r data sydd arnom ei angen yn effeithlon ac yn ei wneud yn hygyrch i wasanaethau perthynol fel tîm newydd y Tîm Gweithlu Iechyd.

Ynghyd â chydweithwyr Iechyd Galwedigaethol a Lles (OHWB), mae SWSS yn cynnig ystod eang o gymorth unigol gan gynnwys adnoddau hunangymorth, seicoleg glinigol, cwnsela, a hyfforddiant a mynediad at gwnsela/therapi seicolegol a ddarperir gan ddarparwr allanol lleol sy'n rhoi'r opsiwn i staff fynd y tu hwnt i'r Bwrdd Iechyd am gymorth seicolegol ac mae'n ategu ein hadnoddau mewnol.

Mae SWSS yn cydweithio â thimau eraill fel TRiM (Rheoli Risg Trawma) a'n gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol er mwyn darparu strwythur cymorth cydgysylltiedig ar gyfer ein staff a lleihau rhwystrau at fanteisio ar gymorth.

Hyd yma, mae SWSS wedi canolbwyntio ar roi cymorth o ran lles emosiynol a seicolegol gweithwyr unigol. Wrth i ymwybyddiaeth o SWSS wella, mae ceisiadau am gymorth ar gyfer timau o staff a rheolwyr llinell wedi cynyddu, gan adlewyrchu'r angen i gefnogi lles cyfunol staff yn ogystal â lles unigol staff. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynnig cyfleoedd arfer myfyriol i grwpiau ac mae wedi hwyluso manau ar gyfer timau sydd wedi gweld digwyddiadau neu brofiadau anodd, a manau ymgynghori ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr a fyddai'n hoffi cael gweithio ar broblem yn eu tîm neu eu hadran gyda rhywun sydd ag arbenigedd seicolegol.

Mae hyfforddiant yn parhau gyda'n rhwydwaith o Hyrwyddwyr Lles er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i hybu iechyd a lles yn eu meysydd gwaith.

Mae SWSS ac OHWB yn darparu rhaglen o ymyriadau a gweithdai lles fel rhan o gwrs ar bynciau'n cynnwys Ymwybyddiaeth o'r Menopos, Ymdopi â Phryder pan fo Argyfwng Ariannol, Iechyd a Lles Dynion, Rheoli Straen a Gwytnwch Emosiynol i Weithwyr Proffesiynol, a fydd yn galluogi staff i ddysgu am ffyrdd o gynnal eu lles eu hunain ac ymarfer dulliau da o ran hunanofal. Rydym wedi cynyddu nifer yr hyfforddwyr mewnol yn sylweddol er mwyn gwella ein capasiti i ddarparu'r sesiynau.

Mae Rowndiau Schwartz yn cynnig man diogel, strwythuredig a chynhwysol i'r holl staff fyfyrion ynghylch effeithiau emosiynol a chymdeithasol gweithio ym maes gofal iechyd a dangoswyd eu bod yn hybu diwylliant trugarog, lleihau ynysu a hybu cysylltiad rhwng y naill a'r llall. Maent wedi bod ar waith dros y flwyddyn ddiwethaf ac maent yn parhau i ehangu, gan gael eu cynnal bob chwe wythnos.

Mae mentrau Iechyd Galwedigaethol a Lles wedi cynnwys rhaglen 'Bwyd Iach / Staff Iach', sesiynau hyfforddiant lles; sesiynau 'Byw Nawr' er mwyn rhoi cymorth i staff sy'n delio â phrofedigaeth, cyngor pwrpasol ar iechyd a lles wedi'i roi i dimau ac adrannau a, gweithio gyda chydweithwyr yn y tîm Cydraddoldeb, gwella ymwybyddiaeth o'r menopos ac ar ffurf gweithdai a chaffis y menopos.

Mae tîm o Warcheidwaid Codi Llais yn Ddiogel wedi'i sefydlu hefyd er mwyn gwrandao ar staff a'u cefnogi, yn gyfrinachol, o ran tynnu sylw at bryderon mewn perthynas â'u gwaith, boed hynny i warchod diogelwch cleifion ac ansawdd gofal, gwella profiad staff neu i gefnogi gwelliant a dysgu parhaus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau hyn ac i hwyluso mynediad atynt trwy fewnrwyd BetsiNet y Bwrdd Iechyd. Rydym yn cydnabod nad pawb sy'n cyrchu mewnwyd y staff felly rydym hefyd wedi defnyddio ystod o dulliau eraill i hyrwyddo lles a gwasanaethau lles, yn cynnwys cyflwyniadau mewn cyfarfodydd tîm, hyrwyddo sesiynau ymsefydlu a digwyddiadau ymsefydlu ac arwain a rhaglen o sioeau teithiol lle bydd SWSS ac OHWB yn ymweld ag ardaloedd o'r Bwrdd Iechyd i siarad â staff yn y gweithle.

Mae'n amlwg bod staff yn ymateb i'r dulliau cyfathrebu hyn a'u bod yn gofyn am gymorth, gan fod y galw am wasanaethau Iechyd Galwedigaethol a Lles wedi codi'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

## Ein Hystad

Mae gan y Bwrdd Iechyd un o'r portffolios eiddo mwyaf yng Nghymru; mae gwasanaethau'n cael eu darparu o fwy na 230 eiddo (gan gynnwys eiddo meddyg teulu, datblygwr trydydd parti a safleoedd gofal sylfaenol landlordiaid preifat), gydag arwynebedd llawr o tua 420,000m<sup>2</sup> a gwerth tua £569m. Yn 2021/22 roedd y costau cynnal blynyddol yn £73m.

Yn ystod 2022/23, cafodd Strategaeth Ystadau'r Bwrdd Iechyd ei diweddarau, yn dilyn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a chyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Cafodd y strategaeth ei chymeradwyo ym mis Ionawr 2023.

Ar lefel agregedig, nid yw ein hystad yn cyrraedd targedau cenedlaethol a gwerthoedd cyfartalog GIG Cymru ar gyfer pob cyflwr ystâd a dangosydd perfformiad, ac eithrio defnyddio gofod. Mae cyfran sylweddol o'r ystad (tua 45%) yn dyddio'n ôl dros 40 mlynedd. Cyfanswm yr ôl-groniadau o ran cost cynnal a chadw'r ystad yw £348m, sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r fersiwn flaenorol o'r Strategaeth Ystadau gael ei datblygu yn 2019.

Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys yr ystad gofal sylfaenol, lle mae ôl-groniadau tebyg o ran gofynion cynnal a chadw ac addasiadau tebyg sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio yn llawn â gofynion mynediad, yn ogystal â lefelau uchel o ddefnydd gofod, gydag gorlenwi sylweddol wedi'i adrodd.

## Gweithgarwch Ysbyty 2022/23

Mae'r rhan fwyaf o gysylltiadau cleifion â'r gwasanaethau iechyd yn digwydd yn y gymuned – er enghraifft, practisau meddygon teulu, fferyllfeydd neu gartrefi'r cleifion. Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan gontractwyr annibynnol (megis practisau meddygon teulu a phractisau deintyddol sy'n cael eu cynnal gan y partneriaid) neu gwmnïau preifat (megis fferyllfeydd y stryd fawr), o dan gontractau â'r Bwrdd Iechyd.

Mae gwasanaethau ysbyty yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd. Yn ystod 2022/23, gwelsom y canlynol yn ein hysbytai:

	2021/22	2022/23
Apwyntiadau Cleifion Allanol	695,445	721,515
Mynychu'r Adran Achosion Brys neu'r Uned Mân Anafiadau	221,071	222,786
Nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn fel achos brys	87,547	93,007
Llawdriniaethau dewisol (wedi'u cynllunio ymlaen llaw) i gleifion mewnol	11,448	11,591
Llawdriniaethau Achosion Dydd	88,635	94,303
Nifer y genedigaethau	6,023	5,648

Heblaw am nifer y genedigaethau mewn ysbytai, mae lefelau gweithgarwch wedi cynyddu ym mhob categori, gan adlewyrchu'r pwysau brys y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wynebu a'r gwaith i gynyddu ein gweithgarwch triniaeth wedi'i chynllunio wrth i ni geisio adfer o'r tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19.

## Perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol allweddol

Mesur	Targed	Y cyfnod data diweddaraf sydd ar gael	Perfformiad ar hyn o bryd	Safle	Cymru Gyfan
Canran y cleifion sydd wedi cael diagnosis strôc sydd â mynediad uniongyrchol at uned strôc o fewn 4 awr i amser dechrau cloc y claf	Y SSNAP DU Chwarterol diweddaraf (40.9%)	Mawrth 2023	22.4%	4ydd o 5 Bwrdd Iechyd	27.0%
Canran y cleifion sy'n treulio llai na 4 awr ym mhob cyfleuster gofal brys mawr a mân (h.y. ED) o'r amser y maent yn cyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau	95%	Mawrth 2023	66.9%	6ed o 7 Bwrdd Iechyd	69.5%
Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn cyfleusterau gofal brys mawr a mân ym mhob ysbyty o'r amser y maent yn cyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau	0	Mawrth 2023	2,871	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	10,039
Amser canolrif (munudau) o amser cyrraedd adran frys i frysbenneu gan glinigwr	Tuedd gostwng 12 mis	Mawrth 2023	30	5ed o 6 Bwrdd Iechyd	23
Amser canolrif (munudau) o amser cyrraedd mewn adran frys i asesiad gan uwch benderfynwr clinigol	Tuedd gostwng 12 mis	Mawrth 2023	372	6ed o 6 Bwrdd Iechyd	96
Canran y cleifion (60 oed a hŷn) gyda thoriad i'r glun a gafodd asesiad orthogeriateg o fewn 72 awr	Tuedd gwella 12 mis	Mawrth 2023	68.0%	4ydd o 6 Bwrdd Iechyd	67.0%
Canran y cleifion strôc sy'n derbyn thrombectomi mecanyddol	10%	Mawrth 2023	0.0%	4ydd o 5 Bwrdd Iechyd	0.8%
Nifer y cleifion ambiwlans sy'n cael eu trosglwyddo dros 1 awr	0	Mawrth 2023	2,192	6ed o 6 Bwrdd Iechyd	6,832

Mesur	Targed	Y cyfnod data diweddaraf sydd ar gael	Perfformiad ar hyn o bryd	Safle	Cymru Gyfan
Canran y cleifion sy'n dechrau eu triniaeth canser ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod o bwynt amheuaeth (waeth beth yw'r llwybr cyfeirio)	Llwybr gwella tuag at darged cenedlaethol o 80% erbyn 2026	Mawrth 2023	63.1%	1af o 6 Bwrdd Iechyd	55.3%
Nifer y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am endosgopi diagnostig	Llwybr gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn gwanwyn 2024	Mawrth 2023	2,098	4ydd o 7 Bwrdd Iechyd	15,637
Nifer y cleifion sy'n aros am fwy na 8 wythnos am ddiagnostig penodol	0	Mawrth 2023	8,119	6ed o 7 Bwrdd Iechyd	43,325
Nifer y cleifion sy'n aros am fwy na 14 wythnos am therapi penodol	Tuedd gostwng 12 mis tuag at sero erbyn gwanwyn 2024	Mawrth 2023	2,192	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	7,089
Nifer y cleifion sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol newydd	Llwybr gwella tuag at ddileu dros 52 wythnos erbyn 31.12.2022	Mawrth 2023	12,090	6ed o 7 Bwrdd Iechyd	52,925
Nifer y cleifion sy'n aros am apwyntiad cleifion allanol dilynol sy'n gweld oedi o dros 100%	Llwybr gwella tuag at ostyngiad o 30% erbyn 31.03.2023 yn erbyn llinell sylfaen o 31.03.2021	Mawrth 2023	80,322	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	246,662
Canran yr apwyntiadau Offthalmoleg R1 a fynychwyd a oedd o fewn eu dyddiad targed clinigol neu o fewn 25% y tu hwnt i'w dyddiad targed clinigol	95%	Mawrth 2023	56.2%	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	61.4%
Nifer y cleifion sy'n aros am fwy na 104 wythnos am gyfeiriad am driniaeth	Llwybr gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn 2024	Mawrth 2023	9,515	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	31,726

Mesur	Targed	Y cyfnod data diweddaraf sydd ar gael	Perfformiad ar hyn o bryd	Safle	Cymru Gyfan
Nifer y cleifion sy'n aros am fwy na 36 wythnos am gyfeiriad am driniaeth	Llwybr gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn 2026	March 2023	56,339	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	227,967
Canran y cleifion sy'n aros am fwy na 26 wythnos am gyfeiriad am driniaeth	Llwybr gwella tuag at darged cenedlaethol o sero erbyn 2026	Mawrth 2023	57.9%	6ed o 7 Bwrdd Iechyd	58.5%
Canran y cleifion sy'n aros am lai na 28 diwrnod am apwyntiad cyntaf gyda'r Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (sCAMHS)	80%	Mawrth 2023	87.5%	5ed o 6 Bwrdd Iechyd	93.2%
Canran yr asesiadau iechyd meddwl a gynhaliwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cyfeiriad ar gyfer pobl o dan 18 oed	80%	Mawrth 2023	61.1%	6ed o 7 Bwrdd Iechyd	67.9%
Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn (hyd at ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS ar gyfer pobl o dan 18 oed	80%	Mawrth 2023	35.1%	5ed o 7 Bwrdd Iechyd	41.8%
Canran y preswylwyr yn y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer pobl o dan 18 oed	90%	Mawrth 2023	93.2%	4ydd o 7 Bwrdd Iechyd	90.9%
Canran y plant a phobl ifanc sy'n aros am lai na 26 wythnos i ddechrau asesiad ADHD neu asesiad ASD niwroddatblygiadol	80%	Mawrth 2023	38.2%	3ydd o 7 Bwrdd Iechyd	31.9%

Mesur	Targed	Y cyfnod data diweddaraf sydd ar gael	Perfformiad ar hyn o bryd	Safle	Cymru Gyfan
Canran y defnyddwyr gwasanaeth (oedolion 18 oed a hŷn) sydd wedi cael eu derbyn i ysbyty seiciatryddol rhwng 09:00 a 21:00 awr sydd wedi derbyn asesiad porthgadw gan y gwasanaeth CRHT cyn cael eu derbyn	95%	Chwarter 4 22/23	100%		
Canran y defnyddwyr gwasanaeth (oedolion 18 oed a hŷn) sydd wedi cael eu derbyn i ysbyty seiciatryddol nad ydynt wedi derbyn asesiad porthgadw gan y CRHTS sydd wedi cael asesiad dilynol gan y CRHTS o fewn 24 awr o gael eu derbyn	100%	Chwarter 4 22/23	100%		
Canran yr asesiadau iechyd meddwl a gynhaliwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod o ddyddiad derbyn cyfeiriad ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn.	80%	Mawrth 2023	74.9%	7fed o 7 Bwrdd Iechyd	86.4%
Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn (hyd at, ac yn cynnwys) 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan LPMHSS ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn.	80%	Mawrth 2023	85.3%	5ed o 7 Bwrdd Iechyd	75.5%
Canran y cleifion sy'n aros am lai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol mewn Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion .	80%	Mawrth 2023	92.1%	1af o 7 Bwrdd Iechyd	65.7%
Canran y preswylwyr Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer oedolion 18 oed a hŷn.	90%	Chwarter 4 22/23	85.2%		

## Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Gofal sylfaenol yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl lle bo angen gofal iechyd, ac mae'n cynnwys Ymarfer Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Optometreg a Fferylliaeth Gymunedol, yn ogystal ag Uwch Ymarferwyr Nyrsio, Ffisiotherapyddion Cyswllt Cyntaf, Cymdeithion Meddygol, Technegwyr Fferyllol a Chydlynwyr Gofal. Mae tua 4 o bob 5 cyswllt â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn dod gan wasanaeth neu dîm sydd wedi'i leoli ym maes gofal sylfaenol.

Nod gwasanaethau gofal sylfaenol yw:

- Atal cyflwyno gyda salwch neu glefyd difrifol mewn gofal brys ac argyfwng drwy ddull cymunedol o wneud diagnosis o ran clefydau fel clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes;
- Creu amgylchedd lle y gall ymarferwyr gofal sylfaenol ddefnyddio ystod lawn eu sgiliau i ofalu am bobl yn ddiogel ac yn agos at eu cartref.
- Darparu gwasanaethau gofal sylfaenol brys sy'n hawdd eu canfod a'u cyrchu ar gyfer pobl sydd efallai'n ofnus, mewn poen, sy'n ddryslud, yn orbryderus ac yn ynysig.

### Practisau Meddyg Teulu

Oherwydd y galw cynyddol ar Bractis Cyffredinol, mae cydbwysio galw brys ar y diwrnod ynghyd ag anghenion iechyd hirdymor yn heriol.

Mae'r pwysau ariannol presennol, yr heriau parhaus â recriwtio a chadw, a'r lefelau uchel o alw wedi parhau i osod pwysau sylweddol ar wasanaethau meddygon teulu, gan wneud adferiad gofal sylfaenol yn dilyn y pandemig yn anoddach na'r disgwyl.

Wedi'r pandemig, mae Practisau meddygon teulu yn gwneud mwy o ddefnydd o wasanaethau teleffoni digidol a gwasanaethau ar-lein fel 'e-ymgyngori', 'accuRx' a mynediad arferol at ymgynghoriadau dros y ffôn fel ffordd o wella mynediad cleifion at wasanaethau. Mae Safonau Mynediad Newydd wedi'u cyflwyno, sy'n gosod gofynion clir ar gyfer practisau o ran y disgwyliadau lleiaf mewn perthynas â mynediad, gan gynnwys cynnig digidol gwell. Mae practisau yn parhau i weithio tuag at gyflawni'r Safonau Mynediad newydd hyn, a gefnogir gan y tîm Contractio Gofal Sylfaenol a thimau'r Cymunedau Iechyd Integredig (IHC).

### Clystyrau

O fewn ein Cymunedau Iechyd Integredig, mae practisau meddygon teulu cyfagos yn gweithio gyda'i gilydd mewn grwpiau, y cyfeirir atynt fel clystyrau, i ddatblygu a darparu gwasanaeth newydd i fynd i'r afael ag anghenion cleifion lleol. Mae hyn yn caniatáu sefydlu gwasanaethau na fyddent fel arall yn hyfyw ar sail practis unigol.

Ar draws Gogledd Cymru, mae 14 o glystyrau sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn canfod anghenion cleifion yn eu cymunedau lleol a sefydlu atebion arloesol er mwyn ymateb i'r rhain.

Tros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld y rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam yn cael ei gweithredu'n gynnar, gan gynnwys sefydlu Prosiectau Cydweithredol Proffesiynol ar draws Ymarfer Cyffredinol a Fferylliaeth Gymunedol, gyda chynlluniau ar gyfer datblygu Cydweithrediad Proffesiynol ar gyfer Optometreg, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, a Nyrsio Cymunedol.

Mae cydweithwyr IHC wedi gweithio'n agos â'r awdurdod lleol a phartneriaid trydydd sector er mwyn sefydlu Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan (PCPGs) strategol ar lefel sirol. Bydd y cyfarfodydd partneriaeth pwysig hyn yn sicrhau bod llais gofal sylfaenol yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol.

Mae clystyrau wedi parhau i ddatblygu mentrau sydd â'r nod o helpu pobl sydd â chlefydau cronig i reoli eu cyflwr gartref yn fwy effeithiol ac i leihau nifer yr achosion cynyddol sy'n achosi derbyniadau i'r ysbyty. Mae Nyrsys Clefyd Cronig Eiddilwch wedi llwyddo i ddarparu cymorth er mwyn rheoli cleifion bregus ac sy'n agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain. Mae Hybiau Cymorth Sbirometreg yn IHC y Gorllewin wedi darparu cymorth ar gyfer hyfforddi staff gofal sylfaenol i ymgymryd â sbirometreg mewn meddygfeydd ar gyfer eu cleifion eu hunain a chleifion o bractisau cyfagos.

Yn IHC Ardal y Canol, mae'r Gwasanaeth Diabetes wedi gwella'r cymorth sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer pobl sydd â Diabetes Math 2, neu sydd mewn perygl o ddatblygu'r cyflwr. Sefydlwyd Hybiau Cyflyrau Hirdymor er mwyn defnyddio dull Profion Pwynt Gofal i bobl sydd â diabetes ganfod arwyddion cynnar cymhlethodau, darparu'r driniaeth orau bosibl, a thrwy hunanreoli ac addysg, lleihau unrhyw ddirywiad pellach a hyrwyddo llesiant.

Mae clystyrau wedi parhau i flaenoriaethu'r gwaith o ddarparu cymorth iechyd meddwl yn y gymuned, drwy ddarparu ystod o fentrau gyda'r nod o wella iechyd meddwl a lles emosiynol eu poblogaeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys ymyriadau i fynd i'r afael â materion sylfaenol sy'n achosi cysylltiadau rheolaidd megis unigrwydd, ynysu, gorbryder, hwyliau isel a phroblemau cymdeithasol a phroblemau tai. Mae ystod o wasanaethau gofal brys yr un diwrnod hefyd wedi'u darparu, gan ddarparu cymorth iechyd meddwl brys i oedolion sydd â symptomau argyfwng, gorbryder, iselder a straen.

### **Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau (OOH) a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys (UPCC)**

Yn unol â'r Rhaglen Strategol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol, mae Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys wedi'u sefydlu ac wedi'u hagor ar draws Gogledd Cymru.

Yn IHC y Dwyrain, mae 39 o bractisau meddygon teulu ar draws Wrecsam a Sir y Fflint, yn ogystal ag Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam, yn darparu gwasanaeth brys yr un diwrnod. Mae UPCC Dwyrain wedi'i leoli yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Cymuned Y Wyddgrug ac mae'n darparu gwasanaeth sydd wedi'i staffio gan feddygon teulu (gan gynnwys Meddyg Teulu Cyflogedig/Arweinydd Clinigol) ac Uwch Ymarferwyr Nyrsio (ANPs). Ymgynghorir ag unigolion sy'n mynd at UPCC drwy ymgynghoriad dros y ffôn neu maent yn derbyn apwyntiad wyneb yn wyneb pan fo hynny'n briodol.

Sefydlwyd yr UPCC yn IHC y Canol yng Nghlwtwr Gogledd Sir Ddinbych ac fe'i cynhelir gan Bractis Meddyg Teulu Prestatyn Iach, sy'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd. Mae'n darparu capasiti brys, ar y diwrnod, i bobl sy'n byw yn y Clwstwr. Uwch Ymarferwyr sy'n arwain y gwasanaeth ac ymgynghorir â phobl yn rhithiol ac yn bersonol lle bo hynny'n briodol. Mae contract hefyd wedi'i sefydlu gydag elusen MIND (drwy ffrwd ariannu ar wahân) i weld pobl sy'n ceisio cymorth oherwydd eu bod yn profi gorbryder ac iselder.

Mae dull IHC y Gorllewin yn dilyn model 'prif ganolfan a chanolfan ategol' ar draws tri safle, gyda dau yn gweithredu ar yr un pryd, bum diwrnod yr wythnos, yn eu tro. Mae'r model yn cefnogi 28 o bractisau meddyg teulu, yn ogystal ag Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd. Wedi'i staffio gan feddygon teulu ac Uwch Ymarferwyr Nyrsio (ANPs), ymgynghorir ag unigolion sy'n mynd at yr UPCCs drwy ymgynghoriad dros y ffôn neu maent yn derbyn apwyntiad wyneb yn wyneb lle bo hynny'n briodol.

Gwnaeth Adolygiad gan Gymheiriaid o'r tri gwasanaeth a gynhaliwyd eleni argymhelliad y dylid datblygu model BIPBC cyfan cyson, er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a thegwch y ddarpariaeth ar draws y rhanbarth. Mae adolygiad o wasanaethau gofal brys y tu allan i'r ysbyty bellach ar waith fel rhan o brosiect ehangach – *'Datblygu fframwaith BIPBC cyfan ar gyfer trawsnewid gofal brys yr un diwrnod'* ac adroddir ar hyn yn ddiweddarach yn 2023.

## Fferylliaeth

Ar hyn o bryd mae 147 o fferyllfeydd cymunedol ar waith yng Ngogledd Cymru, gyda dwy wedi cau yn ystod y flwyddyn. Mae'r fferyllfeydd hyn yn darparu ystod eang o wasanaethau clinigol yn ogystal â dosbarthu meddyginiaethau o ddydd i ddydd a chynnig fferyllfa fasnachol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- 116 o fferyllfeydd sy'n darparu Profi a Thrin Dolur Gwddf;
- 57,905 o ymgynghoriadau o dan y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin;
- 36,102 o ymgynghoriadau Gwasanaeth Meddyginiaethau Brys;
- 1,940 o ymgynghoriadau Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys;
- 41,218 o ymgynghoriadau fflw tymhorol;
- 75 o fferyllfeydd sy'n cynnig Rhaglen Nodwyddau a Chwistrell, a oedd yn cynnwys 13,034 o drafodion.

Roedd gwasanaethau eraill yn cynnwys Hybiau Meddyginiaethau Brys, Gwasanaeth Adolygu Mewnanadlwyr, Cymorth cartref gofal ar gyfer rheoli meddyginiaethau, Gwasanaeth Ysmygu Lefel 2, Helpa fi i Stopio yn y Fferyllfa, Rhoi Meddyginiaeth dan Oruchwyliaeth a Gwasanaeth Gwaredu Offer Miniog i Gleifion.

## Deintyddiaeth

Yn 2022/23 roedd 21,096 o gleifion, ar gyfartaledd, yn derbyn triniaeth ddeintyddol y GIG bob mis gan y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, cynnydd o ychydig dros 2,000 o gleifion y mis o gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.

Cynhaliodd Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd 39,286 o apwyntiadau wyneb yn wyneb a 1,979 o ymgynghoriadau ffôn, a derbyniwyd 16,355 o alwadau gan y llinell gymorth ddeintyddol.

Yn dilyn pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau a fu ar wasanaethau deintyddol yn ystod y cyfnod hwn, mae amseroedd aros hir yn parhau mewn practisau deintyddol cyffredinol (61 lleoliad) ac yng Ngwasanaeth Deintyddol Cymunedol y Bwrdd Iechyd (26 lleoliad).

Mae problem o ran recriwtio a chadw staff o fewn deintyddiaeth yn parhau ledled y DU, ac mae'n broblem ddifrifol yng Ngogledd Cymru. Cyfrannodd hyn at benderfyniad pedwar practis deintyddol yng Ngogledd Cymru i roi eu contractau GIG yn ôl yn ystod 2022/23, gan greu pwysau ychwanegol sylweddol ar y system ddeintyddol.

Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'n hymateb i'r heriau hyn, agorwyd practis Academi Deintyddol Gogledd Cymru i gleifion am y tro cyntaf. Yn ogystal â thrin ei chleifion ei hun, bydd yr Academi yn darparu hyfforddiant, addysg a chefnogaeth i bob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol, gan helpu i wneud y rhanbarth yn fan mwy deniadol i glinigwyr deintyddol symud iddo. Mae'r gwaith ar y llawr hyfforddi bron wedi'i gwblhau, a bydd yn agor yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal trafodaethau gyda phum practis arall ynghylch ffyrdd i gefnogi uwchsgilio ac addysgu Clinigwyr Gogledd Cymru. Mae'n trafodaethau gydag Ysgol Ddeintyddol Caerdydd ynghylch allgymorth, darparu hyfforddiant yng Ngogledd Cymru, datblygu cymwysterau micro a darparu cysiau modiwlaid yn parhau.

## Optometreg

Mae 69 o bractisau Optometryddion cymunedol ar draws Gogledd Cymru; Mae 67 o'r rhain yn darparu gwasanaethau Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru, mae 29 o bractisau'n darparu Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru ac mae gennynt 14 o ddarparwyr gwasanaeth yn y cartref.

Mae Optometreg yn y gymuned wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr mewn ysbytai i ddarparu llwybrau trin glawcoma a lensys cyffwrdd arbenigol, i ehangu llwybr trin Retinopathi Diabetig dros dro, a llwybr mesur Pwysedd Mewnllwygadol (IOP) newydd.

Yn ystod 2022, cafodd diwygiadau i'r contract optometreg cenedlaethol eu cymeradwyo gan weinidogion ac wrth baratoi ar gyfer y trefniadau newydd bydd y Bwrdd Iechyd a'r proffesiwn Optometreg lleol yn sefydlu trefniadau cydweithio Optometreg i gefnogi'r gwaith parhaus o wella sgiliau cydweithwyr Optometreg er mwyn bod mewn sefyllfa dda i weithredu'r llwybrau clinigol newydd hyn.

## Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (CYPS) yn cwmpasu darpariaeth gwasanaethau cleifion mewnol aciwt a cleifion allanol, gwasanaethau'r newyddenedigol, gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, gwasanaeth niwroddatblygiadol, gwasanaethau pediatreg yn y gymuned, ymwelwyr iechyd a nyrsio ysgol yn ogystal â'r gwasanaeth 'Plant sy'n Derbyn Gofal' sydd ynghlwm â phob Cymuned Gofal Iechyd Integredig.

Mae yna hefyd Uned Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig dan ofal Ysbyty Glan Clwyd ac uned ranbarthol cleifion mewnol i blant a phobl ifanc dan ofal Cymuned Gofal Iechyd Integredig y Canol yn Abergele.

Darperir gwasanaethau trydyddol i drigolion Gogledd Cymru gan Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl, Lloegr.

Yn 2022/23 roedd llwyddiannau allweddol y gwasanaethau yn cynnwys:

- Lleihau nifer y plant sy'n aros am asesiad iechyd meddwl;
- Cynllunio a chyd-gynhyrchu Siarter Hawliau Plant ar gyfer Gogledd Cymru;
- Gwella mynediad at ein gwasanaethau CAMHS trwy gynnig ymgynghoriadau rhithwir ac wyneb yn wyneb i gleifion allanol, a defnyddio partneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau;
- Ymestyn y gwasanaeth imiwneiddio unigolion o fewn oedran ysgol;
- Datblygu'r uned MST FIT (Therapi Aml-Systemig - Pontio Teuluol Integredig) cyntaf yng Nghymru, sydd yn cynnwys 4 gwely pontio, i roi cymorth i bobl ifanc ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys o bosibl trais, camddefnyddio sylweddau neu redeg i ffwrdd sy'n achosi aflonyddwch difrifol i fywyd teuluol a gallai fod wedi arwain at gysylltiad â Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a'r Heddlu.

Mae cynaliadwyedd y gweithlu meddygol, iechyd meddwl a seicoleg yn heriol mewn cyfnod o alw cynyddol am wasanaethau megis y gwasanaeth niwroddatblygiadol a'r cynnydd yn niferoedd y sawl sydd mewn grwpiau risg uchel oherwydd dadleoli (gan gynnwys plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid rhyfel) neu leoliadau o'r tu allan (gan awdurdodau lleol eraill).

## Gwasanaethau Newyddenedigol

Mae'r Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (SuRNICC), sydd wedi'i lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd, yn cynnig gwasanaethau Uned Gofal Dwys (ICU) rhanbarthol i fabanod o bob rhan o Ogledd Cymru ac mae gan yr uned 5 crud ICU a 9 crud gofal arbennig. Mae'r gwasanaeth yn gartref i Wasanaeth Cludo Babanod Newydd-anedig Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae 2 grud dibyniaeth uchel (HDU) a 9 crud gofal arbennig yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac mae 1 crud dibyniaeth uchel ac 8 crud gofal arbennig yn Ysbyty Gwynedd; mae gan bob un o'r tair uned grud sefydlogi.

Yn ystod 2022/23 mae'r Unedau Newyddenedigol ar draws PBC wedi ymrwymo i Raglen Diogelwch MatNeo, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Gwelliant Cymru, ac mae pob uned wedi ymrwymo i Ofal Integredig i Deuluoedd (Fi Care).

## Gofal Lliniarol Arbenigol

Mae Adran Gofal Lliniarol Arbenigol Gogledd Cymru yn wasanaeth arbenigol rhanbarthol, sy'n cynnwys tri Thîm Gofal Lliniarol Arbenigol amlddisgyblaethol (SPCTs), un yr un yn ardaloedd y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin, ac un Gwasanaeth Hosbis yn y Cartref (ardal y Dwyrain). Mae'r timau'n gweithio'n hyblyg i ddarparu gofal arbenigol integredig, saith diwrnod yr wythnos, ar draws pob arbenigedd a lleoliad gofal gan ddarparu:

- Aseiad clinigol arbenigol ac ymyrraeth i bobl sydd ag anghenion gofal lliniarol cymhleth wrth ddynesu at ddiwedd eu hoes;
- Arweiniad, hyfforddiant ac addysg i'r gweithlu ehangach, ac ymchwil a datblygu;
- Datblygiad strategol ar gyfer gofal lliniarol, diwedd oes a gofal profedigaeth.

Mae'r galw ar y gwasanaeth yn drwm gyda 4,241 o gyfeiriadau newydd yn ystod y flwyddyn; a 32,204 o ymweliadau/cyswllt â cleifion.

Ymhlith llwyddiannau'r gwasanaeth mae:

- 79% o gleifion a gyfeiriwyd at y Tîm Hosbis yn y Cartref wedi cael cymorth i gyrraedd eu dewis le i farw yn eu cartref eu hunain;
- Gweithredu'r pecyn CARIAD yn llwyddiannus (Rhoi meddyginiaeth isgroenol gan ofalwyr, yn ôl yr angen, lle ceir symptomau cyffredin mewn pobl sy'n marw yn y cartref yng Nghymru). Cafodd ein gwaith lleol sylw y llynedd mewn pennod o 'Inside Health' ar BBC Radio 4 ac mae wedi'i dderbyn ar gyfer cyflwyniad llafar yng Nghyngres y Gymdeithas Ewropeaidd er Gofal Lliniarol eleni;
- Darparu hyfforddiant ac addysg, gan gynnwys y pecyn hyfforddi 'Chwe Cham at Lwyddiant' i Gartrefi Gofal ar draws Gogledd Cymru sy'n helpu preswylwyr i fod yn eu dewis le gofal wrth gyrraedd diwedd oes;
- Gwaith partneriaeth llwyddiannus gyda Charchar Berwyn i weithredu'r Siarter Marw gydag Urddas yn y Ddalfa.

## Nyrsio Ardal

Mae Gwasanaethau Nyrsio Ardal yn defnyddio gweithlu nyrsio â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol i ddarparu gofal 24 awr yn y gymuned a'r tu allan i safleoedd ysbytai.

Yn ystod 2022/23, bu 687,000 o ymweliadau gan Nyrsys Ardal, dan arweiniad Metron Ardal Leol, lle darparwyd gofal yn seiliedig ar anghenion yr ardal leol a'r adnoddau ymarferol oedd ar gael.

Er mwyn darparu ystod deg a hygyrch o wasanaethau, roedd tua 161,000 o ymweliadau y tu allan i oriau craidd, gyda'r nos a dros nos, a bu 100,000 o ymweliadau eraill dros benwythnosau.

Mae'r Timau Nyrsio Ardal yn rhan bwysig o ddarparu addysg a dysg i gleifion, perthnasau a gofalmwyr er mwyn eu helpu i reoli eu cyflwr a'u triniaeth yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal, gan osgoi derbyniadau diangen neu aildderbyniadau i'r ysbyty.

Yn ogystal â gofalu am y rhai sy'n gaeth i'r tŷ, bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n dewis marw yn eu cartref ac mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal wedi bod ar flaen y gad o ran darparu'r gofal diwedd oes yma, gan sicrhau urddas a pharch i'r cleifion hynny a'u teuluoedd. Cynhaliodd y gwasanaeth 51,224 o ymweliadau i gefnogi gofal diwedd oes urddasol.

Yn ogystal â'i weithgarwch arferol, mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ardal hefyd wedi brechu miloedd o unigolion ar draws gogledd Cymru, gyda brechiadau fflw a COVID-19, yn enwedig y bobl hynny sy'n gaeth i'r tŷ.

## Gwasanaethau Therapi

Darperir Gwasanaethau Therapi gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPS) sy'n Therapyddion Cymwys yn y gwasanaethau canlynol:

- Therapiau Celf;
- Dieteg;
- Therapi Galwedigaethol;
- Ffisiotherapi;
- Podiatreg ac Orthoteg;
- Iaith a Lleferydd;
- Ystum Corff a Symudedd (rhan o wasanaeth Cymru gyfan, wedi'i leoli yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain ac sy'n gwasanaethu'r Gogledd gyfan a rhannau o ganolbarth Cymru);
- Gwasanaethau Asesu/Therapi Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS).

Mae therapiau yn rhan hanfodol o'r tîm gofal iechyd, gan ddarparu gofal i gleifion ar draws pob grŵp oedran a phob lleoliad – yn gleifion mewnol, cleifion allanol a chymunedol, gan gynnwys ysgolion, clinigau, cartrefi nyrsio, meddygfeydd, gyda Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac yng nghartrefi cleifion.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd gwasanaethau therapi 119,272 o gyfeiriadau newydd, ac roedd 37,113 o gyfeiriadau pellach i CMATS. O ganlyniad:

- Cynhaliwyd 78,667 o apwyntiadau newydd i gleifion allanol;
- Cynhaliwyd 237,099 o apwyntiadau dilynol;
- Roedd 327,431 o gleifion wedi'u trin/gweld mewn ysbytai.

Oedwyd gweithgarwch therapi arferol yn ystod y pandemig, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn amseroedd aros, a bu hyd at 79 wythnos ar gyfer y gwasanaeth ffisiotherapi ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd lleihau'r amseroedd hyn er mwyn anelu at y ffigwr targed o 14 wythnos yn ffocws allweddol yn 2022/23. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd nifer y cleifion oedd yn aros am fwy na 14 wythnos wedi gostwng i 2192 a disgwylir na fydd neb yn aros am fwy na 14 wythnos erbyn mis Mawrth 2024.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi:

- Penodi ymgynghorydd therapi Strôc;
- Agor tair canolfan arbenigol adsefydlu cleifion mewnol yn dilyn strôc dan arweiniad therapi, gydag arbenigwyr penodedig yn cefnogi cleifion i wella eu canlyniadau ar ôl strôc;
- Derbyn buddsoddiad i gyflwyno Gwasanaeth COVID Hir newydd;
- Cefnogi 18 o glinigwyr o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd i gwblhau eu hastudiaethau MSc.

## Gwasanaethau Merched (Mamolaeth a Gynecoleg)

Darperir Gwasanaethau Mamolaeth, Bydwreigiaeth a Gynecoleg ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru yn ogystal â charfan o ferched o Ogledd-ddwyrain Powys a Gororau Swydd Amwythig gan y Bwrdd Iechyd.

Cafwyd 6,200 o enedigaethau yng Ngogledd Cymru yn 2022, gyda 300 o ferchoed ychwanegol yn dewis geni eu plant y tu allan i Ogledd Cymru, yn Ysbyty Iarlles Caer neu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y genedigaethau'n lleol. Yn gyffredinol yn 2021, gwelwyd cynnydd o 1.8% yn y genedigaethau byw yng Nghymru a Lloegr o gymharu â 2020, ond mae hynny'n dal yn is na ffigwr 2019, sy'n adlewyrchu'r duedd hirdymor o ostyngiad yn niferoedd genedigaethau byw a welwyd cyn pandemig COVID-19.

Er bod y gyfradd genedigaethau cyffredinol wedi gostwng, bu cynnydd mewn achosion mamol cymhleth ac yng nghyfraddau ymyrraeth glinigol, yn sgil canllawiau cenedlaethol i leihau cyfraddau marwolaeth a marwoldeb cyffredinol.

Mae ein gwasanaethau Mamolaeth yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant, sy'n darparu gofal newyddenedigol i fabanod newydd-anedig a chynamserol, a gyda'i gilydd maent wedi cefnogi'r datblygiadau canlynol, yn unol â dysgu cenedlaethol, yn ystod y flwyddyn:

- Ymyriadau PERIPrem Cymru;
- Hyrwyddwr Gofal Mamolaeth y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol (a ariennir gan LIC tan fis Medi 2023);
- Gweithredu'r Bwndel 2 Achub Bywydau Babanod, (SBLCB2);
- Adolygu'r Gwasanaethau Bydwreigiaeth Cymunedol ar draws Gogledd Cymru;
- Tîm Galar Mamolaeth a Chlinigau Cymorth Enfys;
- Profi Ffactor Twf y Brych (PLGF), profi ar gyfer cyneclampsia

Gwelwyd cynnydd mewn cyfeiriadau canser anfalaen, achosion brys, ac achosion lle'r oedd amheuaeth o ganser gan y gwasanaeth Gynecoleg yn dilyn pandemig COVID. Cefnogodd y Gwasanaeth y datblygiadau arloesol a'r adolygiadau canlynol:

- Cyflwyno Llawfeddygaeth Robotig mewn Gwasanaethau Gynecoleg;
- Cyflwyno Hyfforddiant Ymyrraeth Leiaf ac ehangu'r gwasanaeth yng Ngogledd Cymru;
- Cyflwyno Gwasanaeth Endometriosis a Menopos Gogledd Cymru;
- Adolygiad GIRFT o Wasanaethau Gynecoleg;
- Adolygiad CSW o Wasanaethau Colposgopi Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant yng Ngogledd Cymru, ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y Rhanbarth i symud y gwaith hwn ymlaen i 2023/24. Yn ystod 22/23, ymgwymerodd y Bwrdd Iechyd â gwaith arsylwi lleol a chanolbwyntiwyd ar y camau gweithredu canlynol;

- Datblygu Strategaeth Cyn Cenhedlu;
- Cyflwyno cynllun cymell rhoi'r gorau i ysmegu a rhaglenni i hybu bwyta'n iach ac yfed llai o alcohol yn ystod beichiogrwydd;
- Parhau â'r Strategaeth Bwydo Babanod Lleol yn unol â Strategaeth LIC;
- Datblygu'r cynnig Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol.

## Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio

Mae gofal wedi'i gynllunio yn cyfeirio at y diagnosis a'r triniaethau y mae cleifion yn eu derbyn yn dilyn cyfeiriad i'r ysbyty gan feddyg teulu.

Yn ystod 2022/23 ein nod oedd sefydlogi ac adennill ein perfformiad ym mhob maes gofal wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau o ran amseroedd aros, nid ydynt wedi cyrraedd y nod yn ein hysbytai nac yn y gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol. Rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu'r gwaith yma a mynd i'r afael â'r rhestrau aros hir sy'n dal i fod gennym ar gyfer rhai triniaethau yn dilyn y pandemig.

### Maint Rhestrau Aros ac Amseroedd Aros, gan gynnwys Pennu Lefel Risg


Mae llwybr cyfeirio at driniaeth (RTT) yn cwmpasu'r pedwar cam y bydd claf yn eu dilyn ar ôl cael eu cyfeirio ar gyfer triniaeth ysbyty yn y GIG yng Nghymru. Dyma'r camau:

- yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau ysbyty cychwynnol (claf allanol - cam 1)
- profion, sganiau neu driniaeth arall y gallai fod eu angen cyn y driniaeth (diagnosteg - camau 2 a 3) ac yna
- aros i driniaeth ddechrau (claf mewnol neu glaf allanol - cam 4).

Y targed gwreiddiol oedd bod 95% o gleifion yn aros am llai na 26 wythnos ar ôl eu cyfeirio cyn derbyn triniaeth, ac eithrio cyfeiriadau brys (yn benodol y rhai yr amheuir bod canser arnynt), fyddai'n cael eu rhoi ar lwybr pythefnos ar gyfer cleifion allanol. Yna dylid cwblhau'r elfen ddiagnostig o fewn 8 wythnos.

Fodd bynnag, lleihaodd pandemig COVID-19 ein gallu i ddarparu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio yn ein hysbytai yn sylweddol a chynyddodd nifer y cleifion ar bob cam o'r rhestrau aros, a hefyd hyd amseroedd aros unigol. Mae effaith hynny i'w weld o hyd wrth i ni geisio cynyddu'r capasiti i fynd i'r afael â'r ôl-groniad tra'n cynnal y gallu i ymdrin â chleifion sy'n cael eu cyfeirio o'r newydd.

## Cyfanswm y Llwybrau RTT sydd ar agor fesul Cyfnod Mis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2023



Bu cynnydd o 76% yng nghyfanswm y llwybrau agored o gymharu â'r sefyllfa cyn COVID, ac ar ddiwedd y flwyddyn mae 20% o'r llwybrau (36,095 o gleifion) wedi bod yn aros am fwy na deuddeg mis. Dyma'r Arbenigeddau sydd â'r niferoedd uchaf o gleifion yn aros mwy na deuddeg mis:

- Llawfeddygaeth Gyffredinol (6,520 o gleifion);
- Orthopedeg (6,159 o gleifion);
- Y Glust, y Trwyn a'r Gwddf (4,419 o gleifion);
- Offthalmoleg (4,313 o gleifion).

Mae 12,340 o'r cleifion hyn wedi bod yn aros mwy na deuddeg mis am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol, yn bennaf yn yr arbenigeddau canlynol:

- Offthalmoleg (2,805 o gleifion);
- Dermatoleg (2,674 o gleifion);
- Y Glust, y Trwyn a'r Gwddf (2,247 o gleifion);
- Wroleg (976 o gleifion);
- Gastroenteroleg (919 o gleifion).

Mae ein rhestrau aros yn cael eu hadolygu a'u dilysu'n gyson i wirio bod y rhestr yn gywir ac yn gyfredol trwy ddulliau dilysu gweinyddol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod ein cleifion sydd angen eu gweld yn cael apwyntiad cyn gynted â phosibl, yn unol â'u hanghenion clinigol.

Heb ddulliau dilysu gweinyddol gall cleifion aros yn hwy na'r angen oherwydd bod apwyntiadau'n cael eu gwastraffu, er enghraifft gan gleifion nad ydynt yn mynychu oherwydd eu bod wedi symud o'r ardal, wedi cael eu trin yn rhywle arall, oherwydd bod eu symptomau wedi cilio neu nad ydynt yn deall beth yw diben yr apwyntiad.

Rydym yn mynd i'r afael â'r her hon ac mae gennym bellach gynnig datblygedig a fydd yn rhoi system Bwrdd Iechyd cyfan ar waith i gefnogi'r gwaith yma. Bydd y datblygiad yn ein galluogi hefyd i reoli'n well cyfeiriadau electronig drwy Gofal Sylfaenol, i sicrhau ein bod yn archebu ein capasiti clinigol yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon ac i ddarparu llwyfan ar gyfer gwasanaethau digidol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ein cleifion yn cael y profiad gorau pryd bynnag y mae angen iddynt gael mynediad at unrhyw un o'n gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio.

Rydym hefyd yn datblygu prosesau cymorth yn gyffredinol, gan ddefnyddio ein staff ein hunain yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau partner, i gysylltu ag unigolion tra byddant yn aros. Mae hyn yn ein galluogi i gyfeirio cleifion a/neu deuluoedd at gymorth lle bo hynny'n briodol, ac i ganfod cyfeiriadau sydd angen eu hailflaenoriaethu neu uwchgyfeirio a diwygio blaenoriaeth amser aros y claf. Rydym yn arloeswyr o ran defnydd technoleg sgwrsfot a ni yw'r bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i dreialu'r dechnoleg yma. Mae'r canlyniadau cynnar yn addawol a bydd cam un y cyfnod treialu, a ddaw i ben yn ystod haf 2023, yn llywio penderfyniadau ynghylch ei gyflwyno'n ehangach.

## **Gwasanaethau Cancer**

Rydym yn parhau i ymdrechu i wneud diagnosis a thrin pawb sydd â chanser cyn gynted â phosibl.

Darperir y rhan fwyaf o'n gwasanaethau diagnostig cancer ym mhob un o'n tri safle ysbyty aciwt. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer delweddu (radioleg) a biopsi naill ai o dan anesthetig lleol neu gyffredinol.

Ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael diagnosis o ganser, rydym yn cynnal llawdriniaeth naill ai yn eu hysbyty aciwt lleol neu, ar gyfer rhai llawdriniaethau mwy arbenigol, mewn un safle ysbyty neu hyd yn oed y tu allan i Ogledd Cymru os oes angen. Mae gennym unedau cemotherapi ar bob un o'n tri phrif safle; darperir pob radiotherapi yng Nghanolfan Trin Cancer Gogledd Cymru, sydd yn Ysbyty Glan Clwyd.

Yn 2022/23 derbyniasom bron i 44,000 cyfeiriad achos brys lle'r amheuwyd cancer gan ofal sylfaenol, cynnydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol. Mae'n anhebyg bod hyn yn arwydd bod cynnydd sylweddol yn nifer isorweddol y cleifion â chanser, ond yn hytrach mae'n adlewyrchu'r broses o wneud iawn ar ôl y gostyngiad yn nifer y bobl oedd yn cysylltu â'u meddyg teulu, y saib yn y gwasanaethau sgrinio a'r gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau rheolaidd lle gallai symptomau sy'n achos pryder fod wedi eu canfod yn ystod pandemig COVID.

Ni fydd gan y mwyafrif o'r cleifion hyn ganser, ond mae angen gweld bob un ohonynt a rhoi diagnosis iddynt yn gyflym fel y gallant naill ai ddechrau derbyn triniaeth cyn gynted â phosibl neu gael sicrwydd na ganfuwyd unrhyw dystiolaeth o ganser.

Yn 2022/23 cafodd ychydig dros 5,000 o bobl â chanser ddiagnosis a thriniaeth gennym, a'r canserau mwyaf cyffredin a gafodd eu trin oedd cancer y croen, cancer wrolegol a chanser y fron. Roedd ychydig dros hanner y canserau a gafodd eu trin gennym yn gleifion a gyfeiriwyd yn uniongyrchol gan eu tîm gofal sylfaenol, gyda 7% pellach o ganserau wedi derbyn diagnosis yn dilyn cyfeiriad gan wasanaeth sgrinio cancer.

O'r cleifion â chanser a dderbyniodd driniaeth, dechreuodd 63% ohonynt ar driniaeth o fewn targed amseroedd aros cenedlaethol Llywodraeth Cymru (mae'r targed llwybr lle'r amheuir cancer yn anelu at gychwyn triniaeth i 75% o gleifion o fewn 62 diwrnod i godi'r amheuron o ganser am y tro cyntaf). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae rhoi diagnosis i gleifion mor gyflym ag y byddem yn dymuno wedi bod yn heriol a hynny oherwydd y cynnydd yn nifer y cleifion sydd angen eu hasesu.

Yn ystod 2022/23 adolygwyd nifer o'n llwybrau clinigol er mwyn gwneud gwelliannau. Mae'r adolygiadau'n cynnwys sicrhau bod profion ar gael yn haws ar gyfer gofal sylfaenol, cyflwyno llwybrau syth i brawf lle bo hynny'n bosibl er mwyn lleihau'r amser cyn derbyn diagnosis, a lansio ein clinig un-stop ar gyfer lwmp yn y gwddf yn Ysbyty Glan Clwyd fel y gall cleifion â lwmp gwddf amheus gael diagnosis neu dawelu eu meddwl ar y diwrnod. Rydym hefyd wedi cyflwyno technolegau triniaeth newydd gan gynnwys llawdriniaeth robotig ar gyfer cleifion cymwys sydd â chanserau gynecolegol yn Ysbyty Gwynedd.

## Gwasanaethau Radioleg

Mae radioleg yn wasanaeth diagnostig clinigol hanfodol a ddarperir yn ein tri phrif ysbyty aciwt ac hefyd mewn sawl un o'n ysbytai cymunedol. Mae dulliau diagnostig yn cynnwys pelydr-X ffilm plaen, delweddu trawsdoriadol (CT / MRI), uwchsain yn ogystal â gwasanaethau arbenigol fel delweddu ymyriadol, meddygaeth niwclear a PET-CT.

Yn 2022/23, cynyddodd y galw cyffredinol am y tri phrif ddull diagnostig CT / MRI ac uwchsain 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd o 15% ers y flwyddyn cyn-bandemig ddiwethaf (2019/20), gyda CT yn arbennig yn gweld cynnydd o 25% yn y galw dros y cyfnod hwn.

O ystyried y cynnydd hwn yn y galw, ac er gwaethaf cynnal y nifer uchaf erioed o sganiau yn 2022/23 (14% yn fwy nag yn 2019/20) mae cyfanswm nifer y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos i gael y sganiau hyn wedi cynyddu tua 1,500 i ychydig dros 4,000 ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae capasti wedi cynyddu'n raddol yn ystod 2022 a, gan ddibynu ar y galw, disgwylir y gellir lleihau amseroedd aros cleifion yn gyffredinol yn ystod 2023/24.

Profion Radioleg	Y Canol	Y Dwyrain	Y Gorllewin	Cyfanswm
Sgan CT	27,292	28,109	23,614	79,015
Deintyddol	3,797	1,737	2,850	8,384
Fflworosgopeg	1,349	1,280	1,319	3,948
Ymyriadol (gan gynnwys angiogramau)	347	1,119		1,466
Mamograffeg	2,478	2,260	3,441	8,179
Sgan MRI	8,915	10,156	7,657	26,728
Uwchsain anobstetrig	28,364	27,858	26,009	82,231
Meddygaeth niwclear	1,143	2,385	1,062	4,590
Uwchsain Obstetrig	12,027	17,211	11,031	40,269
Ffilm plaen	87,624	79,278	87,130	25,4032
Gwasanaethau Arbenigol			1,090	1,090
Theatr	1,558	1,075	1,137	3,770
Uwchsain Fasgiwlaidd		1,844		1,844

## Gwasanaethau Gofal Heb ei Gynllunio

Mae system gofal heb ei gynllunio'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau trwy Adran Achosion Brys tri ysbyty sy'n gweithredu 24 awr y dydd, a 9 uned mân anafiadau (MIU), gyda dwy ohonynt yn gweithredu 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae'r Adrannau Achosion Brys yn Unedau Trawma dynodedig sy'n gallu trin derbyniadau cychwynnol, dadebru a rheoli cleifion trawma cymhleth lefel 1.

Mae hyn yn cynnwys gallu bob ED i drin cleifion sy'n dioddef o gyflyrau sydd angen sylw cyflym critigol gan gynnwys strôc a thorri asgwrn y ffemwr (cluniau wedi torri). Mae gan y tair adran y gallu i drin derbyniadau cychwynnol trawiadau ar y galon; maent yn cael eu cefnogi yn hyn o beth gan wasanaeth canolog sy'n cefnogi gofal uwch a leolir yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae yna hefyd uned ganolog yn Ysbyty Glan Clwyd sy'n cefnogi achosion fasgwlaidd a chardiaidd ac yn sicrhau mynediad uniongyrchol i gleifion o'r Adran Achosion Brys a Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.

Mae gan bob Adran Achosion Brys adnoddau i gefnogi cleifion pediatrig, trin mân anafiadau cleifion ac, yn ddiweddar iawn, mân anhwylderau cleifion Gogledd Cymru.

Mae perfformiad gofal heb ei gynllunio wedi bod dan straen yn ystod y blynyddoedd diweddar ac ar hyn o bryd mae'n mynd trwy broses ailosod yn dilyn pandemig COVID-19 pan ostyngodd nifer y derbyniadau yn y lle cyntaf.

Mae nifer y derbyniadau bellach yn dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig, a bu cynnydd amlwg yn y cleifion sydd angen gofal dwys (o ran difrifoldeb a chymhlethdod) sy'n mynd at yr Adran Achosion Brys yn ystod y dydd a'r nos, gan gynyddu'r pwysau ar y system drwy gydol y cyfnod 24 awr. Mae cyfartaledd lefelau defnydd ein Hadrannau Achosion Brys ddwywaith yn fwy na'r capasiti bwriadedig ar gyfer pob adran.


Ledled Cymru, mae perfformiad gofal heb ei gynllunio dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar ei waethaf ers cyflwyno'r targed pedair awr. Mae'r perfformiad yng Ngogledd Cymru wedi bod ymhlith yr isaf yng Nghymru, gyda 66.9% o gleifion yn treulio llai na phedair awr yn ein Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau ym mis Mawrth 2023, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 69.5%, a ffigwr targed o 95%.

Er mai'r twf yn y galw yw achos mwyaf arwyddocaol y pwysau ar ein gwasanaethau gofal heb ei gynllunio, ychwanegir at hyn gan y ffactorau ehangach sy'n effeithio ar y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan. Yn benodol, mae'r cynnydd yn yr amser a gymerir i gytuno ar becynnau gofal i alluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn golygu nad oes gwelyau ar gael i dderbyn cleifion o'n Hadrannau Achosion Brys. Mae hyn yn effeithio ar lif cleifion drwy'r adrannau, sy'n golygu oedi cyn derbyn cleifion newydd ac mae hyn yn atal ambiwlansys rhag dadlwytho cleifion mewn modd amserol.

Mewn ymateb i hyn, mae pob Cymuned Iechyd Integredig yn cefnogi gwasanaeth asesu Rhyddhau 2 (D2RA) sy'n cynnig cymorth ar gyfer gofal cleifion yn nes at y cartref trwy wasanaethau amlddisgyblaethol therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a gofal cymdeithasol. Cefnogir hyn ymhellach gan adolygiadau o'r oedi cyn trosglwyddo gofal (DTC) a gynhelir mewn partneriaeth â chydweithwyr gwasanaethau cymdeithasol yn rheolaidd er mwyn cynnig cymorth i ryddhau cleifion yn ddiogel ar gyfer y rhai lle bo angen ymyriadau penodol.

Mae gwelliannau i ofal heb ei gynllunio yn cael eu datblygu yn unol â Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng. Mae'r rhain yn rhoi fframwaith sydd â ffocws strategol clir ar gefnogi gofal yn nes at y cartref, ynghyd â chynllunio gofal wrth ryddhau claf. Bwriedir i'r rhaglen redeg tan 2026.

## Chwe nod polisi ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng Llywodraeth Cymru



Gyda'r Bwrdd Iechyd, mae'r gwaith o anelu at bob nod yn cael ei oruchwylio gan aelod o'r uwch dîm arwain, gyda chynrychiolwyr enwebedig o'r Cymunedau Iechyd Integredig yn cymryd rhan ym mhob nod. Mae'r rhaglen wella yma yn cael ei datblygu gyda'r templedi gweinidogol a chamau gweithredu mesurau arbennig i sicrhau ein bod yn dilyn y dull "Lle cywir, Gofal Cywir".

Ymhlith y datblygiadau penodol sydd wedi digwydd ers 2022 i fynd i'r afael â'r galw mewn Adrannau Achosion Brys a'r system gofal heb gynllunio ehangach mae:

- Gofal brys ar yr un diwrnod (SDEC) – gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos sy'n cefnogi cleifion sy'n cael eu cyfeirio o ofal sylfaenol, gofal cymunedol, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Adrannau Achosion Brys i gael mewnbyn arbenigol, sy'n lleihau'r angen iddynt gael eu derbyn, sydd hefyd yn gwella profiad cleifion;
- Canolfannau gofal sylfaenol brys (UPCC) – gwasanaeth gofal sylfaenol wedi'i leoli ochr yn ochr â'r Adrannau Achosion Brys sy'n cynorthwyo'r gofal sylfaenol i fodloni'r galw ac sy'n lleihau'r angen am fewnbyn yr Adran Achosion Brys ar gyfer cleifion sy'n mynychu'r adrannau ond sydd angen ymyrraeth gofal sylfaenol;
- Ffrydio – i sicrhau bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y man mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion (efallai nad ED fyddai hynny- er enghraifft at SDEC neu gymorth mewn fferyllfa), o'r pwynt brysbennu;
- Consultant Connect – system i gefnogi gofal sylfaenol trwy ddarparu ffyrdd iddynt gysylltu'n uniongyrchol ag arbenigwyr gofal eilaidd i gael cyngor a chefnogaeth dros y ffôn ar gyfer cwynion cleifion penodol.

## Gwasanaethau Strôc

Gall strôc fod naill ai'n isgemig (o ganlyniad i glot gwaed) neu'n waedlifol (o ganlyniad i waedu, yn aml o ganlyniad i drawma ehangach). O ran strôc isgemig, gellir cynnig dau wasanaeth:


- Thrombolysis, sef triniaeth frys i doddi clotiau gwaed a weinyddir ym mhob un o'n tri ysbyty aciwt;
- Thrombectomi Mecanyddol, sef triniaeth lawfeddygol.

Mae pob un o'n tri ysbyty aciwt yn darparu gwasanaethau diagnosis a thriniaeth aciwt i gleifion sydd wedi cael strôc, heblaw am driniaeth thrombectomi a gomisiynir gennym yng Nghanolfan Arbenigol Walton yn Lerpwl.

Mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-weithio â'r timau sy'n darparu pob elfen o'r llwybr gofal strôc, o ffyrdd iach o fyw i ymyrraeth arbenigol, gan gynnwys unedau Strôc Acíwt, canolfannau Adsefydlu Cleifion Mewnol Arbenigol a gwasanaethau Rhyddhau'n Gynnar gyda Chymorth.

Yn 2022/23, cafodd 1,144 o gleifion eu hasesu a'u trin gan ein gwasanaethau yn dilyn strôc.

Er bod angen gwella perfformiad yn erbyn metrigau canlyniadau allweddol ar draws y tri safle, disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn 2023/24 yn dilyn buddsoddiadau a wnaed yn 2022/23 a rhaglenni gwaith ychwanegol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer y deuddeg mis i ddod.



Mae'r datblygiadau a gychwynnodd yn 2022/23 yn cynnwys:

- Gwasanaethau Rhyddhau'n Gynnar â Chymorth (ESD) newydd, gan ddarparu hyd at chwe wythnos o gymorth ychwanegol dan arweiniad therapi gartref i gleifion strôc cymwys sy'n cael eu rhyddhau o'n safleoedd aciwt neu gymunedol ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig (IHC);
- Canolfannau Adsefydlu Arbenigol Strôc newydd ar gyfer Cleifion Mewnol yn ysbytai cymunedol Llandudno, Glannau Dyfrdwy, ac Eryri, sy'n cynnig:
  - llety ar gyfer cleifion mewnol a chymorth gan gynnwys wardiau, cyfleusterau campfa bwrpasol newydd ac offer ar gyfer asesu a chefnogi therapi, ystafelloedd clinigol a gweinyddol,
  - Timau Amlddisgyblaethol integredig, gan ddilyn llwybr gofal cyffredinol ar bob safle,
  - rhagor o staff o wasanaethau therapi a seicoleg i ddarparu'r gwasanaethau newydd;
- Nyrs Glinigol Arbenigol a Gweinyddwyr Strôc ychwanegol ymhob safle aciwt i ganiatáu gwell ymateb clinigol;
- Swyddi nyrsys arbenigol sy'n gweithio gyda Gofal Sylfaenol i helpu i nodi a thrin cleifion sydd â risg uchel o strôc.

## Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Yn ystod 2022/23, mae'r Uwch Adran Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi canolbwyntio ar adferiad yn dilyn effaith pandemig Covid-19 ar ddefnyddwyr gwasanaeth, staff a darpariaeth gwasanaeth, ynghyd â'r gwelliannau dysgu sydd eu hangen yn dilyn sawl archwiliad gwasanaeth gan reoleiddwyr a chymau gweithredu gan grwneriaid.

Eleni, mae gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi gweld cyfeiriadau yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

Wrth i'r gwasanaeth symud yn ôl at fwy o ryngweithio wyneb yn wyneb, maent wedi defnyddio'r cyfle i fyfrio ac adolygu sut yr ymatebwyd i anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, cynhaliodd yr Uwch Adran bedwar gweithdy yng Ngogledd Cymru a ddaeth ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ynghyd, gan gynnwys pobl â phrofiad byw, gofalwyr, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Defnyddiwyd y wybodaeth a gafwyd trwy'r ymgysylltu a'r cyd-gynhyrchu hwn, ynghyd ag arbenigedd ein gweithlu, yn glinigol ac anghlinigol fel ei gilydd, i wella'r gwaith o gyflawni cynlluniau gwella gwasanaethau presennol a hefyd wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer 2024/25 a thu hwnt.

Mae ein gwasanaethau iechyd meddwl (CAMHS a gwasanaethau i oedolion) wedi llwyddo i gydymffurfio â nifer o'r safonau cenedlaethol allweddol:

- Canran y cleifion sy'n aros llai na 28 diwrnod am apwyntiad cyntaf gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS);
- Canran o breswylwyr y Bwrdd Iechyd sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd sydd â chynllun gofal a thriniaeth ddilys ar gyfer pobl o dan 18 oed;
- Canran y defnyddwyr gwasanaeth (oedolion 18 oed a hŷn) a dderbyniwyd i ysbyty seiciatryddol rhwng 09:00 a 21:00 sydd wedi derbyn asesiad porthgadw gan y gwasanaeth Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfwng (CRHT) cyn cael eu derbyn;
- Canran y defnyddwyr gwasanaeth (oedolion 18 oed a hŷn) a dderbyniwyd i ysbyty seiciatryddol sydd heb dderbyn asesiad porthgadw gan y gwasanaeth CRHT, ond sydd wedi derbyn asesiad dilynol gan y CRHTS o fewn 24 awr;
- Canran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd (hyd at ac yn cynnwys) o fewn 28 diwrnod yn dilyn asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) i oedolion 18 oed a hŷn;
- Canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i ddechrau therapi seicolegol mewn Iechyd Meddwl Arbenigol i Oedolion.

Mae ein Timau Iechyd Meddwl Cymunedol yn ardal y Dwyrain wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd y caiff cleifion eu gweld o dan Rannau 1a ac 1b yn y Mesur Iechyd Meddwl (MHM) ac, ym mis Mehefin 2022, llwyddom i gyflawni ac rydym wedi cydymffurfio'n barhaus â'r targedau, ac yn uwch na'r targedau MHM Cenedlaethol.

Er ein bod wedi diffinio'r gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu, mae nifer o'r rhain yn cael effaith ar ei gilydd ac yn rhyngweithio â'i gilydd. Wrth gydnabod hyn, rydym yn awyddus i ddatblygu model system gyfan o weithio. Mae mynediad cynnar at wasanaethau priodol yn hollbwysig i adferiad cyflym a rheoli cyflyrau'n effeithiol, ac yn ystod y flwyddyn cyflwynodd yr Uwch Adran y gwasanaeth '111 Pwyso 2' yn llwyddiannus ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn rhoi mynediad uniongyrchol i'r rhai sy'n galw ac sy'n pryderu am eu hiechyd meddwl eu hunain, iechyd meddwl aelod o'r teulu neu anwyliaid eraill, i ymarferwyr iechyd meddwl arbenigol, sy'n gallu cyfeirio'r unigolion at y gwasanaethau hynny sy'n bodloni eu hanghenion orau, gan sicrhau bod ganddynt fynediad amserol i'r cymorth mwyaf priodol. Mae'r gwasanaeth hwn ar waith 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, ers mis Mawrth 2023.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau *Fedra' i fel ffordd* o ddarparu ystod o ymyriadau cynnar ac ymyriadau atal i gefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl lefel isel i hunanreoli eu cyflyrau mewn lleoliad cymunedol. Mae wyth o hybiau a phedwar ar ddeg o gysylltwyr yn cael eu darparu gan sefydliadau'r Trydydd Sector ar draws y rhanbarth. Yn ystod 2022/23, cefnogodd y trydydd sector bron i 15,000 o bobl gydag amrywiaeth o gyfeiriadau, cefnogaeth ac ymyriadau.

Yn ogystal, rydym wedi llwyddo i gyflawni cynlluniau i sefydlu gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis yng Ngogledd Cymru gan ddarparu cymorth arbenigol a dwys o'r pwl cyntaf o seicosis i bobl 16 oed a hŷn. Mae'r tîm yn gwbl weithredol yn Sir y Fflint a bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r gwelliannau eraill ar draws yr Uwch -Adran yn cynnwys:

- Cynnydd parhaus gyda'r ymgyrch recriwtio, sydd, erbyn diwedd y flwyddyn, wedi arwain at 1225 o ymholiadau a datganiadau o ddiddordeb, yn ogystal â phenodi 22 o weithwyr i swyddi gwag yn llwyddiannus.
- Mae'r targed amser aros 26 wythnos ar gyfer therapïau seicolegol wedi'i gyflawni ac mae cydymffurfiaeth yn parhau i fod yn uwch na'r targed ar ôl cael ei gynnal am gyfnod o 6 mis.
- Yn dilyn ymgysylltu a gwaith datblygu hir, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r achos busnes amlinellol ar gyfer aiddatblygu Uned Ablett ar gyfer cyfleuster iechyd meddwl newydd o'r radd flaenaf yn Ysbyty Glan Clwyd.
- Mae Gwasanaethau Amenedigol Iechyd Meddwl wedi ehangu eu gwasanaethau yn ystod 2022/23 i fodloni isafswm y gofynion staffio a amlinellir yn safonau Rhwydwaith Ansawdd Amenedigol (PQN) y Ganolfan Gwella Ansawdd (CGA) ar gyfer darparu gofal iechyd meddwl ôl-enedigol arbenigol i ddefnyddwyr gwasanaeth am hyd at flwyddyn ar ôl rhoi genedigaeth. Mae'r Tîm hefyd wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid i lywio'r gwaith o gomisiynu a datblygu Uned Mamau a Babanod ar gyfer cleifion mewnol a fydd yn gwasanaethu Gogledd Cymru, Swydd Gaer, Cilgwri a Glannau Mersi. Lleolir yr uned yn Ysbyty Iarlls Caer, sy'n ganolog i'r dalgylch ar gyfer cleifion a theuluoedd, a bydd yn agor yn 2023/24.
- O fewn y gwasanaeth Anableddau Dysgu, derbyniodd ward Foelas Wobr y Nursing Times ar gyfer Anableddau Dysgu am fenter a oedd wedi gwella gofal cleifion yn aruthrol Symudodd y claf ifanc oedd yn ganolog i'r fenter o fod ar lwybr gofal lliniarol ac yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser mewn cadair olwyn, i sefyllfa lle 'roedd yn ddigon iach i fynd ar gefn beic a bellach mae'n cael ei ystyried ar gyfer trawsblaniad aren.
- Dyfarnwyd Gwobr Seren Betsi i dîm Llinell Gymorth CALL, gan gydnabod eu gwaith caled a'u hymroddiad i ddarparu cymorth a chefnogaeth 24 awr, saith niwrnod yr wythnos i gleifion o bob rhan o Gymru trwy linell gymorth iechyd meddwl CALL Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru, DAN 24/ 7 Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol a Llinell Gymorth Dementia Cymru.
- Defnyddiwyd yr hyn a ddysgwyd o ddarpariaeth gwasanaeth, adborth gan ddefnyddwyr, tystiolaeth glinigol ac effeithiau pandemig Covid-19 i amlygu a chryfhau ein cydnabyddiaeth a'n dealltwriaeth o gymhlethdodau a chyd-ddibyniaethau iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

## Gweithio i Wella

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (a elwir yn Gweithio i Wella neu 'PTR'), mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu sicrwydd a thystiolaeth i gymuned a rhanddeiliaid y sefydliad i ddangos ein bod yn parhau i ddelio â phryderon ac yn dysgu oddi wrthynt.

Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd y pryderon canlynol gan y Bwrdd Iechyd:

- Cwynion derbyniwyd 2,957 o gwynion newydd;
- Digwyddiadau daeth 41,423 o ddigwyddiadau newydd i law;
- Hawliadau agorwyd 281 o hawliadau newydd yn ymwneud â honiadau o esgeulustod clinigol ac anafiadau personol.

### Gwneud Iawn

O dan y rheoliadau PTR, pan fo'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymchwiliad i bryder yn unol â Rheoliad 23 a phan benderfynir bod atebolrwydd cymwys yn bodoli neu y gall fodoli, rhaid i'r Bwrdd Iechyd benderfynu, yn unol â'r darpariaethau, a ddylid cynnig iawndal ai peidio.

Mae Gwneud Iawn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae'r claf wedi cael ei niweidio a bod y niwed hwnnw wedi'i achosi gan y Bwrdd Iechyd.

Yn 2022/23, daeth 101 o achosion i ben yn dilyn ystyriaeth Gwneud Iawn:

- Gwnaed 21 o gynigion ar gyfer iawndal ariannol fel gwneud iawn a chawsant eu derbyn, a oedd yn gyfanswm o £147,950;
- Gwnaed 18 o gynigion eraill ar gyfer iawndal ariannol ac maent yn aros i gael eu derbyn, cyfanswm gwerth £79,950;
- Dim ond 4 cynnig o ymddiheuriad fel ffordd o wneud iawn a wnaed;
- Aeth 9 achos gwneud iawn ymlaen i fod yn hawliadau yn ymwneud â honiadau o esgeuluster clinigol;
- Cynghorwyd 48 o achosion i fynd ar drywydd hawliad yn ymwneud ag esgeuluster clinigol gan y byddai unrhyw gynnig o iawndal ariannol a wneir yn fwy na'r uchafswm o £25,000 a ganiateir o dan Gweithio i Wella;
- Nodwyd 2, yn dilyn ymateb dros dro (Rheoliad 26) gan dderbyn bod tordyletswydd ac ymchwiliad pellach, nad oedd unrhyw Atebolrwydd Cymwys y byddai gwneud iawn yn cael ei gynnig (Rheoliad 33).

### Cwynion

Nod y Bwrdd Iechyd yw darparu datrysiad i gwynion cyn gynted â phosibl, a lle bo'n briodol, bydd yr achosion hyn yn cael eu rheoli fel 'datrysiad cynnar', sy'n golygu eu bod yn cael eu datrys o fewn deuddydd i'w derbyn ac er boddhad yr achwynydd. Mae'r rhai sydd heb eu datrys o fewn yr amserlen hon, neu'r rhai sy'n fwy cymhleth, sydd yn aml yn cynnwys honiadau bod niwed wedi'i hachosi, yn cael eu rheoli o dan PTR.

Mae rhan fwyaf o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwasanaethau gofal eilaidd, gyda'r mwyafrif o gwynion ffurfiol mewn perthynas â thriniaethau ac asesiadau clinigol, cyfathrebu gwael ac amseroedd aros am apwyntiadau. Themâu eraill a oedd yn ymddangos dro ar ôl tro oedd mynediad at feddyginiaeth, oedi wrth dderbyn meddyginiaeth, ac agweddau ac ymddygiad staff tuag at yr achwynwyr a chleifion.

Mae pob cwyn a dderbynnir yn cael ei chydnabod i ddechrau ac, ar ôl hynny, yn cael ymateb sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd. Nifer fach o'r cwynion hyn sy'n cael eu hystyried fel rhai lle rydym wedi methu yn ein dyletswydd gofal. Caiff unrhyw achos o'r fath sydd wedi, neu a allai fod wedi achosi niwed gwirioneddol ei ymchwilio'n gadarn, i nodi beth oedd wrth wraidd yr achosion neu'r risgiau posibl fel y gallwn ddileu neu liniaru'r cyfle am unrhyw dordyletswydd gofal tebyg yn y dyfodol.

O'r holl gwynion a dderbyniwyd, cafodd 2,048 eu rheoli gan PTR, ac roedd 909 ohonynt yn Ddatrasiadau Cynnar.

Mae cwynion a reolir o dan PTR yn cael eu graddio yn erbyn lefelau difrifoldeb a bennir yn genedlaethol, yna caiff hyn ei adolygu fel rhan o'r ymchwiliad. Mae'r tabl canlynol yn darparu dadansoddiad o raddfeydd difrifoldeb ar gyfer cwynion, yn dilyn ymchwiliad a chau'r cwynion (mae'r ffigur hwn yn is na'r hyn a nodwyd uchod gan na fydd yr holl gwynion a dderbynnir yn 2022/23 wedi cael eu cau yn ystod y flwyddyn):

Graddio	Nifer y cwynion a reolir o dan PTR
Gradd 5 (niwed dybryd)	24
Gradd 4 (niwed difrifol)	101
Gradd 3 (niwed cymedrol)	614
Gradd 2 (niwed isel)	668
Gradd1 (dim niwed)	515

Rhaid cydnabod y gall cwynion ddod â nifer o wahanol agweddau ar ofal i'n sylw, ac mae'r rhain yn cael eu trin yn unigol yn ein hymateb. Mae sylwedd y pryderon yn cael eu categoreiddio mewn perthynas â'r prif bwnc, yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, i gefnogi nodi themâu sy'n dod i'r amlwg a meysydd penodol sy'n peri pryder sy'n arwain at waith gwella penodol.

Y tri phwnc a nodwyd amlaf o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

- triniaeth/asesiad clinigol (ar draws yr holl wasanaethau);
- materion cyfathrebu (ar draws yr holl wasanaethau);
- apwyntiadau (mewn perthynas â gwasanaethau llawfeddygol yn bennaf).

Mae'r weithdrefn gwynion yn sicrhau bod y gwasanaethau'n deall eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd wrth ymchwilio i'w cwynion wrth archwilio niwed a thordyletswydd, a bod cynlluniau gweithredu cadarn yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod newidiadau cadarnhaol yn cael eu gwneud er mwyn gwella diogelwch a phrofiad y claf.

Mae dadansoddiad thematig yn cael ei gynnal yn wythnosol i nodi meysydd sy'n peri pryder a bydd unrhyw ddigwyddiadau rheolaidd yn cael eu rhannu gyda'r uwch dîm rheoli yn y gwasanaethau i ymchwilio a nodi cyfleoedd i wella. Mae'r themâu dysgu yn cael eu cofnodi a'u hadrodd yn ein Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr, gyda mentrau allweddol yn cael eu trafod a ffocws clir ar rannu arferion da i wella profiad y claf.

Mae cyfathrebu yn thema eang ymhlith y cwynion; derbyniwyd 496 o gwynion yn 2022/23, a'r brif elfen oedd cyfathrebu. Fel Bwrdd lechyd, rydym yn parhau i ymdrechu i wella pob agwedd ar gyfathrebu. Gwnaed y camau canlynol y llynedd:

- Mae'r Tîm Cwynion yn cynnal 'clinigau cwynion' tair gwaith yr wythnos trwy Microsoft Teams i gefnogi staff. Mae hwn yn gyfle i wasanaethau gysylltu â'r Tîm Cwynion a chael cyngor arbenigol er mwyn sicrhau datrysiad amserol i'r cwynion.
- Er mwyn helpu i wella cyfathrebu a'r staff sy'n cefnogi defnyddwyr y gwasanaeth, mae'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr yn parhau i ddarparu sesiynau Hyfforddi Profiad Cleifion a Gofalwyr wyneb yn wyneb ar draws y Cymunedau lechyd Integredig. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cyfathrebu effeithiol, grymuso staff i ddatrys materion yn lleol er mwyn datrys y cwynion cyn gynted â phosib a chodi ymwybyddiaeth ynghylch rôl y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS).
- Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gyda Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI), sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, i archwilio datrysiadau digidol arloesol i wella cyfathrebu rhwng staff a pherthnasau pan fydd anwyliad yn yr ysbyty. Mae staff, cleifion a gofalwyr wedi bod yn rhan o'r grwpiau ffocws i rannu eu profiadau ynghylch yr hyn a allai weithio'n dda. Bydd yr adborth hwn yn llunio'r datrysiad digidol yn y dyfodol i gefnogi cyfathrebu ymhlith teuluoedd â'u hanwyliad pan fyddant o dan ein gofal fel claf mewnol.
- Mae staff sy'n Eiriolwyr Cleifion a Gofalwyr wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Profiad Cleifion a Gofalwyr trwy rannu gwybodaeth a chymryd rhan yn y gwaith o gasglu adborth y cleifion. Mae'r Eiriolwyr Cleifion a Gofalwyr yn bwynt cyswllt i wella ymgysylltiad rhwng y tîm, gwasanaethau clinigol a chleifion, trwy geisio, monitro a gweithredu ar adborth y cleifion.
- Er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y cleifion, teuluoedd a staff, lansiodd y Bwrdd lechyd Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) yn ddigidol gan ddarparu mynediad 24 awr i ddehonglwyr. Mae'r dehongliad fideo yn cefnogi cleifion sydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty yn annisgwyl gan nad oes angen archebu fideo BSL (Iaith Arwyddion Prydain) a dehongliad iaith arall ymlaen llaw. Ers cyflwyno'r WITS yn ddigidol, gwelwyd cynnydd o 50% yn y defnydd o gyfieithu digidol fel dull o gyfathrebu rhwng y cleifion a'u teuluoedd ynghylch eu gofal.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am ddarparwyr gofal yng Nghymru.

Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Bwrdd lechyd gyfanswm o 225 o gysylltiadau gan yr Ombwdsmon. Mae'r ffigwr hwn wedi'i gael gan yr Ombwdsmon a'i groeswrio â data mewnol ac mae'n gywir ar adeg ysgrifennu hyn.

O dro i dro, gall yr Ombwdsmon lunio 'adroddiad er budd y cyhoedd' (o dan Reoliad 23), gan wneud y cyhoedd yn ymwybodol o achos o fath penodol. Yn ystod y cyfnod hwn derbyniodd y Bwrdd lechyd ddau adroddiad er budd y cyhoedd.

Roedd yr ymchwiliad cyntaf yn ymwneud â'r gofal a'r driniaeth yn dilyn cyfeiriad at Ymddiriedolaeth Ysbyty'r GIG yn Lloegr, a gafodd ei gomisiynu gan y Bwrdd lechyd. Methodd yr Ymddiriedolaeth â gwneud diagnosis o sglerosis ymledol y claf rhwng mis Mai 2018, a mis Medi 2019, a dylai'r Bwrdd lechyd fod wedi archwilio opsiwn cyfeirio yn lleol cyn anfon y claf i'r Ymddiriedolaeth.

Roedd yr ail ymchwiliad yn ymwneud ag oedi wrth osod stentiau (draeniau) i arenau claf, a arweiniodd yn ddiweddarach at gymhlethdodau gyda'i chyflwr. Roedd yr Ombwdsmon yn fodlon gyda thriniaeth aren y claf a'i bod yn rhesymol ac nad oedd yn bwrw ymlaen â'r rhan hon o'r gŵyn. Fodd bynnag, roedd y gŵyn hefyd yn ymwneud â gofal annigonol o'r coluddyn tra roedd y claf yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2020. Yn ogystal, gwelodd ymchwiliad yr Ombwdsmon enghreifftiau o brosesau gwael o ran cadw cofnodion ar ochr y staff.

## Digwyddiadau

Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau sy'n cael eu cofnodi yn cael eu hystyried yn 'dim' gan nad achoswyd unrhyw niwed gan y digwyddiad dan sylw.

Cofnodwyd cyfanswm o 41,724 o ddigwyddiadau yn 2022/23, sy'n ostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol, lle cofnodwyd 42,292.

Y tri math mwyaf cyffredin o ddigwyddiadau a gofnodwyd ar system adrodd digwyddiadau'r Bwrdd Iechyd yn y flwyddyn 2022/23 yw:

- llithro, baglu a syrthio;
- wlsarau gwasgu, categori 2;
- achosion o haint / cyfnod cynyddol o ddigwyddiadau

Mae'r Tîm Diogelwch Cleifion yn monitro digwyddiadau i nodi themâu a lle mae angen i'r rhain lywio blaenoriaethau sefydliadol. Ar hyn o bryd, y themâu a nodwyd yw:

- Oedi wrth gydnabod bod claf yn dirywio;
- Wlsarau gwasgu sy'n tarddu o ofal Iechyd (HAPU);
- Codymau cleifion.

Mae'r tri maes hyn yn cael eu hategu gan y mater sy'n codi dro ar ôl tro yn ymwneud â chadw cofnodion sydd, er nad yw'n achosi digwyddiad yn uniongyrchol, mae'n cyfrannu at yr amgylchiadau sy'n creu amodau anniogel.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weld digwyddiadau a godwyd mewn perthynas â COVID-19 yn unol â lledaeniad yr amrywiolion newydd ar draws Cymru. Roedd y digwyddiadau a adroddwyd yn cynnwys brigadau o achosion ac achosion unigol o'r firws (ymhlith staff a chleifion). Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddefnyddio dull safonol Cymru gyfan wrth ymchwilio i'r achosion hyn o dan reoliadau PTR.

Mae grŵp codymau strategol y Bwrdd Iechyd yn parhau i graffu ar ddigwyddiadau'n cynnwys codymau. Mae'r dull hwn yn galluogi'r grŵp i nodi unrhyw themâu a thueddiadau neu fannau problemus sy'n dod i'r amlwg ac i wneud argymhellion ar gyfer eu gwella. Cyflwynwyd grŵp cydweithredol codymau i gyfarfod yn ddeufisol gyda llinellau adrodd clir a threfniadau llywodraethu. Mae'r grŵp hwn wedi cyflwyno modiwlau e-ddysgu gorfodol ynghylch codymau, sy'n cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod y modiwlau'n gyfredol gan gynnwys y dystiolaeth a'r arfer diweddaraf. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig un yng Nghymru sydd wedi cymryd agwedd orfodol tuag at yr hyfforddiant hwn ar gyfer yr holl staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael ei ganmol gan Rwydwaith Codymau Cleifion Mewnol Cymru Gyfan, sy'n argymhell bod y modiwlau e-ddysgu a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd yn cael eu gweithredu gan bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru fel y safon ar gyfer e-ddysgu.

Mae'r Prosiect Cydweithredol Wiserau Gwasgu sy'n tarddu o Ofal Iechyd (HAPU) wedi'i chyflwyno, gyda chynrychiolaeth o'r holl Gymunedau Iechyd Integredig (CII). Datblygwyd offeryn hunanasesu, sy'n adlewyrchu Polisi Hyfywedd Meinwe NU03, er mwyn i'r wardiau dan sylw ganfod eu sefyllfa bresennol yn erbyn y polisi. Mae Polisiâu Hyfywedd Meinwe'r Bwrdd Iechyd yn y broses o gael eu hadolygu, eu diweddarau a'u cadarnhau.

Ar hyn o bryd mae arweinydd y Tîm Hyfywedd Meinwe mewn cydweithrediad â grŵp hyfforddiant gorfodol y Bwrdd Iechyd yn argymhell ei bod hi'n ofynnol i'r holl staff clinigol gwblhau hyfforddiant mewn perthynas ag atal HAPU fel modiwl gorfodol.

Mae Nyrsio Corfforaethol yn gweithio ar y cyd ag arweinwyr diogelwch cleifion ar draws y Cymunedau Iechyd Integredig (IHC) i ddatblygu dull safonol ar gyfer adolygu niwed craidd o bob math (codymau, (HAPU); a meddyginiaethau) a rhannu'r dysgu ar draws pob IHC fel un siart llif syml ar gyfer yr holl staff.

Mae cynlluniau'r ddau brosiect cydweithredol o ran y dyfodol yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd strategol.

Yn 2022/23, cofnodwyd 6 o 'ddigwyddiadau byth'. Mae hyn yn ostyngiad o 50% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae Digwyddiadau Byth yn ddigwyddiadau diogelwch cleifion difrifol, y dylai ein systemau a'n prosesau sicrhau na fydd modd iddynt fyth ddigwydd. Er bod y niferoedd wedi gostwng, mae themâu cyffredin yn parhau i fod yn fethiant wrth ddefnyddio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Gweithdrefnau Mewnwithiol (LocSSIP) a methiant wrth ddefnyddio rhestr wirio diogelwch llawfeddygol Sefydliad Iechyd y Byd yn ei gyfanrwydd. Mae Cymrawd Gwella Ansawdd Clinigol wedi gweithio'n gyson i adolygu ein dull o ymdrin â rhestrau gwirio diogelwch llawfeddygol ac mae wedi gweithio'n agos gyda staff y theatr a'r adran lawfeddygol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae rhannu ac ymgorffori dysgu yn y system yn parhau i fod yn risg i'r Bwrdd Iechyd ac rydym yn cydnabod bod angen mwy o waith i ddod yn sefydliad dysgu. Mae cynlluniau ar waith i gryfhau'r broses o echdynnu, rhannu ac ymgorffori'r dysgu i gynnwys:

- Fforwm Dysgu Sefydliadol bob mis – dechreuodd hyn ym mis Chwefror 2023;
- Fforwm Gofal Heb Niwed bob wythnos – dechreuodd hyn ym mis Ionawr 2023;
- Templed ar dudalen newydd "gwersi wedi'u dysgu";
- Bwletin diogelwch rheolaidd a fformat rhybudd diogelwch;
- Llyfrgell Dysgu o Ansawdd digidol newydd;
- Gwell Digwyddiadau Dysgu;
- Cyflwyniad i *Greatix* i gefnogi Dysgu o Ragoriaeth;
- Dull cryfach tuag at ffactorau dynol yn y sefydliad.

## Hawliadau

Mae 281 o achosion wedi eu hagor yn ystod 2022/23, sy'n gynydd ar y rhai a agorwyd y llynedd (238). Mae'r cyfanswm eleni yn cynnwys 240 hawliad yn ymwneud â honiadau o esgeuluster clinigol a 41 ymwneud â honiadau o anafiadau personol. Mae'n debyg y gellir priodoli'r cynnydd i'r hawliadau hynny a oedd wedi'u gohirio yn ystod cyfnod y pandemig ond sydd bellach yn cael eu cynnwys.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd 819 o hawliadau yn ymwneud â honiadau o esgeuluster clinigol ac anafiadau personol ar agor ar ddiwedd y flwyddyn.

Yn ogystal, mae'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn rheoli'r holl gwestau a gyflwynwyd gan Grwner EF ac yn cefnogi'r staff clinigol ehangach gyda materion y Llys Gwarchod ac ymholiadau yn ymwneud â chyngor cyfreithiol cyffredinol gan gynnwys adolygu datganiadau ar gyfer materion yr heddlu ac achosion cyfraith teulu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gweld nifer yr hawliadau'n parhau i godi o ganlyniad i bandemig COVID-19, er nad yw graddau llawn hyn yn hysbys eto. Mae'n debygol y bydd hawliadau yn ymwneud â honiadau o'r fath yn ymwneud nid yn unig ag effeithiau uniongyrchol COVID 19 (h.y. heintiau nosocomaidd posibl), ond hefyd yr effeithiau anuniongyrchol (h.y. cleifion ag amseroedd aros hwy am lawdriniaeth o ganlyniad i roi'r gorau i wasanaethau drwy 2020-22). Credir y gallai mwyafrif y rhai sy'n gwneud yr hawliad fod yn aros i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 ddod i ben. Mae didwylledd, tryloywder, gwella diogelwch cleifion a dysgu gwersi yn parhau i fod yn allweddol i'r Bwrdd Iechyd.

Drwy gydol 2022/23, sylwodd y Bwrdd Iechyd ar dueddiadau mewn hawliadau yn y meysydd canlynol:

- Mae'r defnydd o Rwyll Trawsweiniol hefo Tâp Di-densiwn (TTD) mewn achosion gynaeoleg yn parhau i ddangos cynnydd bach. Mae hyn yn dilyn hawliad yn ymwneud â honiad grŵp mwy, sydd wedi'i ddwyn yn erbyn cynhyrchwyr y Dyfeisiadau Rhwyll TTD. Yn gyffredinol, mae'r honiadau'n seiliedig ar ba un a gafwyd caniatâd priodol cyn mewnblannu'r ddyfais ac a oedd y gofal, y rheolaeth a'r driniaeth a dderbyniwyd o'r safon briodol.
- Mae hawliadau a gyflwynwyd mewn perthynas â 'thriniaeth/gweithredoedd' honedig a fethodd, a methiannau mewn perthynas ag 'asesiad/ymchwiliad/diagnosis' yn parhau i fod y mathau uchaf o gategoriâu a dderbyniwyd ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol.
- Ar gyfer hawliadau yn ymwneud â honiadau o anafiadau personol, mae'r duedd yn parhau i fod ynghylch llithro a baglu, trais/ymosodiad a materion codi a chario.
- Er nad y rhain yw'r nifer uchaf, hawliadau yn ymwneud â honiadau o anafiadau yn ymwneud â genedigaeth sy'n cyfrif am y symiau setlo mwyafrif a dalwyd ar gyfer hawliadau yn ymwneud â honiadau o esgeuluster clinigol.

Mae camau gweithredu a gwelliannau a wnaed yn dilyn ymchwiliad i hawliadau yn ymwneud â honiadau yn cynnwys:

- Mae gweithdrefn adolygu gan gymheiriaid eisoes wedi'i sefydlu o fewn y Bwrdd Iechyd ar gyfer adrodd am Radiograffwyr sy'n adrodd ar ddelweddau ffilm blaen confensiynol yn unig. Mae hyn yn cynnwys 5% o adroddiadau unigol a dynnir o'r system radioleg bob mis sy'n cael eu hadolygu gan gymheiriaid a chofnodir cywirdeb yr adroddiadau. Mae'n broses anoddach i weithredu adolygu gan gymheiriaid ar gyfer Radiolegwyr Ymgynghorol oherwydd amrywiaeth a chymhlethdod eu llwyth gwaith; fodd bynnag, mae hwn bellach yn cael ei gyflwyno a'i ddatblygu.
- Cydnabyddir bod angen prosesau cadarn ar gyfer cael a chofnodi caniatâd gan gleifion, sy'n amlygu nid yn unig y risgiau a'r cymhlethdodau cydnabyddedig ond sy'n galluogi cleifion i bwysu a mesur yr holl opsiynau ar gyfer triniaeth (gan gynnwys dim). Mae'r Bwrdd Iechyd yn symud tuag at broses cydsynio â chymorth electronig a fydd yn cefnogi pob parti i ddeall ei gilydd yn well, a darparu llwybr tystiolaeth o'r hyn a drafodwyd.
- Mae trosglwyddiadau amserol ysbyty ar gyfer cleifion sy'n cael eu cludo mewn ambiwlans ac sydd angen gofal heb ei drefnu yn elfen allweddol o sicrhau profiad a mynediad o safon. Mae'r weithdrefn ar gyfer rheoli cleifion sy'n wynebu oedi mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau achosion brys wedi'i hadolygu a'i diweddarau. Bu adolygiad hefyd o bolisi dwysáu ysbytai er mwyn dad-ddwysáu'r pwysau ar leoedd lle mae pwysau. Mae'r protocol ar gyfer rheoli pwysau brys a chynllun dwysáu wedi'i roi ar waith. Yn ogystal, mae canllawiau safonol wedi'u drafftio ar gyfer cyfeirio uniongyrchol gan barafeddygon i unedau Gofal Brys yr Un Diwrnod (GBUD).

- Oherwydd y pryderon a godwyd o ran gweithredoedd Rwyll Trawsweiniol hefo Tâp Diddensiwn, dylid ond cynnig y driniaeth hon i ferched mewn amgylchiadau eithriadol, gyda'r holl gleifion yn cael triniaeth llawr y pelfis dan oruchwyliaeth cyn ystyried rheoli anymataliaeth straen wrinol llawfeddygol. Dim ond fesul achos y byddai'r gweithredoedd hyn yn cael eu gwneud ar ôl cwnsela helaeth, trafodaeth gyda'r Tîm Aml-ddisgyblaethol, a chymeradwyaeth gan Gyfarwyddwr Meddygol yr Ysbyty.

## **Dyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd**

O fis Ebrill 2023, mae'r ddyletswydd gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol ar holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru. Mae'n ofynnol iddynt fod yn agored ac yn eglur gyda defnyddwyr gwasanaeth pan fyddant yn profi niwed wrth dderbyn gofal iechyd. Bydd angen iddynt:

- siarad â defnyddwyr gwasanaeth am ddigwyddiadau sydd wedi achosi niwed;
- ymddiheuro a'u cefnogi drwy'r broses ymchwilio i'r digwyddiad;
- dysgu a gwella o'r digwyddiadau hyn;
- canfod ffyrdd o atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod wrthi'n paratoi ar gyfer y ddyletswydd statudol newydd, a bydd yn adrodd ar gydymffurfiaeth yn ei adroddiad dyletswydd gonestrwydd blynyddol cyntaf y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y ddyletswydd statudol newydd ynghylch ansawdd, sydd hefyd yn dod i rym o fis Ebrill 2023. Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am ei berfformiad a'i ganlyniadau o ansawdd, ac yn gweithio i ymgorffori'r ddyletswydd newydd yn ystod y flwyddyn a bydd yn llunio ei Adroddiad Ansawdd Blynyddol cyntaf y flwyddyn nesaf.

## Perfformiad ariannol

### Cyflawni Dyletswyddau Ariannol

Mae Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 yn gosod dwy ddyletswydd ariannol ar y Byrddau Iechyd Lleol:

- Perfformiad adnoddau refeniw: Dyletswydd i sicrhau nad yw'r gwariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a neilltuwyd dros gyfnod o 3 blynedd ariannol.
- Cynllunio Integredig: Dyletswydd i baratoi cynllun, yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, i sicrhau cydymffurfiaeth â pherfformiad adnoddau refeniw tra'n gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt. Ar ben hynny, darparu gofal iechyd i bobl o'r fath, ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo.

### Perfformiad adnodau refeniw

O ran y ddyletswydd gyntaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli ei wariant o fewn y cyllid cyfanredol a ddarparwyd dros y cyfnod 2020/21 i 2022/23, felly mae wedi cyflawni'r ddyletswydd gyntaf. Gwelir hyn yn y tabl isod.

	2020-21 £000	2021-22 £000	2022-23 £000	Cyfanswm £000
<b>Costau gweithredu net am y flwyddyn</b>	1,808,719	1,873,353	1,991,335	5,673,407
Gwariant gwasanaethau offthalmig llai cyffredinol a gwariant cyfyngedig arall nad yw'n arian parod	538	637	1,790	2,965
Cyfanswm y costau gweithredu	1,809,257	1,873,990	1,993,125	5,676,372
Dyraniad Adnoddau Refeniw	1,809,747	1,874,279	1,993,514	5,677,540
<b>Gwariant o dan (yn is) yn erbyn y dyraniad</b>	<b>490</b>	<b>289</b>	<b>389</b>	<b>1,168</b>

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn 2022/23, llwyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i danwario o £389,000 o'i gymharu â'i ddyraniad adnoddau refeniw gan Lywodraeth Cymru am y flwyddyn.

Fodd bynnag, roedd y llwyddiant hwn yn dibynnu ar nifer o ffynonellau cyllid anghylchol a chefnogaeth strategol Llywodraeth Cymru o £82m. Mae diffyg sylfaenol sylweddol y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn her wrth symud ymlaen. Y diffyg bwriadol cychwynnol ar gyfer 2023/24 yw £134.2 miliwn.

Ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gymorth ariannol o ran arian parod ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

## Cynllunio Integredig

Roedd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer y cyfnod 2022/2025 a gyhoeddwyd i Fyrddau Iechyd yn gosod gofyniad arnynt i baratoi a chyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs) i Lywodraeth Cymru.

Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022/2025, wedi'i lunio gan ein strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach ac yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cynllun ariannol cytbwys ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2022.

Fodd bynnag, yn dilyn proses graffu gadarn ac o ystyried nifer yr heriau yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, penderfynodd y Gweinidog nad oedd yr IMTP yn bodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn llawn. Yn hytrach, derbyniodd y Gweinidog y cyflwyniad fel Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022/23, a oedd yn destun monitro parhaus.

Felly, methodd y Bwrdd Iechyd â chyflawni ei ddyletswydd statudol i baratoi cynllun integredig 3 blynedd.

## Mesurau perfformio ariannol eraill

### Asedau cyfalaf

Mae gan y Bwrdd Iechyd sylfaen asedau cyfalaf sylweddol (dros £700 miliwn a ddangosir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023) ac mae'n derbyn cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn unol â hynny. Yn 2022/23, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei raglen gyfalaf y cytunwyd arni ac mae wedi adrodd tanwariant bach o'i gymharu â'r Dyraniad Adnoddau Cyfalaf.

Yn ystod 2022/23, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithredu'r trefniadau cyfrifon trosiannol ar gyfer asedau Hawl eu Defnyddio, sydd wedi arwain at asedau o tua £30 miliwn yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol am y tro cyntaf.

### Rheoli Arian Parod

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd reoli llif ac all-lif arian parod sylweddol, a gwneud hynny'n effeithiol o fewn ffynonellau cyllid cysylltiedig ac wrth fodloni'r rhwymedigaethau talu staff, cyflenwyr ac awdurdodau (fel CTheF). Mae crynodeb o lif arian parod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y flwyddyn i'w weld yn y Datganiad o Lif Arian Parod yn y cyfrifon blynyddol (gweler tudalen 6A).

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd dalu 95% o ran nifer y biliau nad ydynt yn filiau'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau, neu anfoneb ddilys, pa un bynnag sydd hwyraf. Cyrhaeddom y targed hwn ym mlwyddyn ariannol 2022/23.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi manylion am y ffordd y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, weithio i wella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn gwneud i ni feddwl am y tymor hir a sut y mae'n rhaid i ni feddwl yn wahanol i wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio i'r un diben, mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant ac mae'n ei gwneud hi'n glir bod rhaid i ni weithio i gyflawni'r holl nodau, nid dim ond un neu ddau ohonynt:



Cymru Lewyrchus



Cymru Gydnherth



Cymru Iachach



Cymru sy'n Fwy Cyfartal



Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



Cymru o Gymunedau Cydlynus



Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r cyrrff cyhoeddus eraill a restrir, osod a chyhoeddi amcanion lles a mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth osod amcanion sy'n llywio gweithredoedd a phenderfyniadau, dylid gwreiddio datblygu cynaliadwy yn y prosesau corfforaethol presennol, yn hytrach na'i drin fel endid ar wahân.

Cafodd *Byw'n Iach, Aros yn Iach*, ein strategaeth hirdymor ar gyfer iechyd, llesiant a gofal iechyd ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2018, a'i hadnewyddu yn 2022. Yn 2021/22, cadarnhaodd ymarfer ymgysylltu llai manwl â'n staff, sefydliadau partner a'r cyhoedd fod ein nodau a'n hamcanion yn dal yn berthnasol o ystyried y tair blynedd a aeth heibio, a'r profiadau a gafwyd yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon ynghylch sut yr oeddem yn cyflawni yn erbyn yr amcanion, ac o ganlyniad, mae'r strategaeth *Byw'n Iach, Aros yn Iach* ar ei newydd wedd yn cynnwys set gliriach o flaenoriaethau a chamau gweithredu CAMPUS y disgwyliwn eu cyflawni o 2022 ymlaen.

Ein hamcanion llesiant yw:

- gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb;
- targedu ein hadnoddau at yr unigolion sydd â'r anghenion mwyaf, a lleihau anghydraddoldebau;
- cefnogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd;
- gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl - unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau - i gyflawni eu hamcanion llesiant eu hunain;
- gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau;
- parchu unigolion a'u hurddas;
- gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau.

Wrth gyflawni'r amcanion hyn byddwn yn:

- defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil;
- cefnogi ein staff, eu hyfforddi a'u datblygu i ragori.

Bydd yr amcanion llesiant yn sylfaen ar gyfer y gwaith parhaus i wella sut rydym ni fel Bwrdd Iechyd Integredig, yn gweithio i wella iechyd a lles a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Yn 2022, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio sy'n gyson â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru Llywodraeth Cymru. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Garbon. Mae'n mynd i'r afael ag allyriadau carbon o bob math o nwyon tŷ gwydr ac allyriadau, gan gynnwys y rhai a ddaw o adeiladau, defnyddio tir, trafnidiaeth, gwastraff, dŵr, caffael nwyddau a gwasanaethau, a darparu gofal iechyd clinigol ehangach. Mae hefyd yn rhoi ffocws ar yr allyriadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu ac adnewyddu. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Datgarboneiddio i oruchwylio rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith.

Mae gwybodaeth am ein gwaith i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i chynnwys ar dudalennau 70 i 73 yr adroddiad hwn.

### Mabwysiadau'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r Ddeddf yn nodi pum ffordd o weithio sy'n cefnogi'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy:



**Cydweithio**



**Hirdymor**



**Atal**



**Cynnwys**



**Integreiddio**

Trwy gydol y broses o ddatblygu ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022/23, rydym wedi ceisio defnyddio'r pum ffordd o weithio i lywio ein penderfyniadau a'n helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i weithio tuag at ein hamcanion llesiant. Bydd y rhain yn eu tro, yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Gwnaed rhagor o waith â phartneriaid drwy'r byrddau partneriaeth ffurfiol – Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, a Sir y Fflint a Wrecsam).

## **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Bwrdd Rhan 9)**

### Cefndir

Rhoddodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bwerau i Weinidogion Cymru i weithio gyda byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i gymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth i gyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRPB) yn hwyluso trefniadau'r bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, awdurdodau lleol Gogledd Cymru a phartneriaid eraill megis tai, addysg, y trydydd sector, darparwyr, cynrychiolwyr dinasyddion a gofalmwyr, er mwyn bwrw ymlaen yn effeithlon â darparu gwasanaethau integredig yng Nghymru.

### Cynllun Cyfalaf Strategol

Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu Cynllun Cyfalaf Strategol (SCP) deng mlynedd sy'n dod â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector, addysg ac adfywio at ei gilydd i ddatblygu cyfleusterau darparu gwasanaethau integredig a datrysiadau integredig sy'n seiliedig ar lety. Mae'n ofynnol cyflwyno drafftiau cyntaf y cynlluniau hyn i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill 2023, a chyhoeddi'r cynlluniau terfynol erbyn 31 Gorffennaf 2023.

Mae'r gwaith wedi dechrau gyda'r partneriaid statudol yn coladu cynlluniau cyfalaf gan y Bwrdd Iechyd a'r chwe awdurdod lleol er mwyn datblygu SCP ar gyfer y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol flaenoriaethu cynlluniau yn y dyfodol, ac y bydd yr SCP yn hanfodol i'r broses flaenoriaethu. Mae hyn yn golygu y bydd angen SCP y cytunwyd arno ar bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w galluogi i wneud cais am gyllid. Bydd y tîm rhanbarthol fel rhan o ddatblygu SCP, yn datblygu adnodd blaenoriaethu i gynorthwyo gyda'r broses hon.

### Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Cronfa bum mlynedd i gyflawni rhaglen o newid o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027 yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y RIF). Mae'r NWRPB wedi arwain ar ddatblygu a gweithredu'r Gronfa yn ystod y 18 mis diwethaf.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Gronfa, sefydlwyd rhaglen gynhwysfawr o gynlluniau sy'n cefnogi'r holl flaenoriaethau canlynol:

- Gofal yn y gymuned – atal a chydgysylltu cymunedol;
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at y cartref;
- Hybu iechyd a lles emosiynol;
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig i blant sydd wedi bod mewn gofal;
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty;
- Datrysiadau seiliedig ar lety.

Mae gan y rhaglen RIF gyllid o £30,163,907 gan Lywodraeth Cymru.

### Cronfeydd Cyfalaf

Mae'r NWRPB yn gyfrifol am reoli dwy gronfa gyfalaf: Cronfa Tai â Gofal (HCF) a model y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ar y ffordd orau o ddefnyddio'r ddau gynllun. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ddeuddeg cynllun hyd yma.

## Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu

Prosiect sy'n cefnogi pobl a sefydliadau i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn gallu byw bywyd gwyd yw Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd. Mae'r tîm yn gweithio gyda llawer o wahanol bobl a sefydliadau i ddarganfod beth sy'n gweithio'n dda, a sut y gallwn ni gefnogi newidiadau lle mae eu hangen.

Mae cynnydd yn ystod 2022/23 yn cynnwys:

- datblygu strategaeth ddrafft Cyflogaeth dan Gymorth Rhanbarthol
- hyfforddiant hygyrch wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein (yn enwedig meithrin perthynas amhriodol) i'r rhai ag anabledd dysgu a phobl awtistig;
- hyfforddiant ar dimau gweithredol cyflogaeth â chymorth a chyfleoedd dydd/gwaith;
- gweithio gyda chydweithwyr ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol ar gynllun gweithredu Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol;
- ariannu swydd rheoli prosiect yn uwch adran lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC;
- nodi manau priodol ar gyfer gweithgareddau i blant a theuluoedd ag anableddau dysgu;
- datblygu pecyn cymorth Taliadau Uniongyrchol.

### Is-grŵp Plant

Ym mis Mawrth 2022, datblygodd y Bwrdd gynllun cyfathrebu a chynhaliodd ddigwyddiad lansio llwyddiannus. Dros y misoedd dilynol aeth ati i gytuno ar flaenoriaethau a blaenraglen waith.

Y nod yw sicrhau bod llais y plentyn wrth graidd gwaith yr is-grŵp. Cafodd y gwaith cychwynnol ei lywio gan blant a phobl ifanc, drwy'r gweithgareddau ymgysylltu lleol a chenedlaethol a lywiodd asesiad o anghenion y boblogaeth.

Cynhaliwyd digwyddiad ffocws ar ofalwyr ifanc yn ystod mis Hydref 2022. Cafwyd amrywiaeth o wybodaeth ar ffurf pecyn gwybodaeth, cyflwyniad a fideos a oedd yn crynhoi'r dystiolaeth gan gynnwys ystadegau a data, adborth gan ofalwyr ifanc ac enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn meysydd eraill. Yn dilyn amser i fyfrio a sgwrsio am y cyflwyniad a'r fideos, bu'r grwpiau'n gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu cwestiynau i drafod beth yr oedd plant a phobl ifanc yn ei deimlo am y cymorth y maent yn ei dderbyn. Cawsant hefyd fel rhan o'r dull cymuned ymholi, gyfle i feddwl a siarad am yr hyn y byddent yn cydweithio arno.

Ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd sesiwn ffocws arall yn ymwneud â phlant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae dwy sesiwn arall wedi eu cynllunio yn 2023 - anabledd a salwch (mis Mawrth) a'r blynyddoedd cynnar (mis Mehefin).

Mae'r gwaith o roi'r strategaeth Dim Drws Anghywir ar waith wedi parhau. Cynhaliwyd gweithdai i ystyried gweithgarwch presennol y drefn un mynediad at wasanaethau a 'hwb' er mwyn cymharu dulliau gweithredu a nodi mecanweithiau cyflawni cyffredin. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wneir o fapio'r gwasanaeth, ac yn galluogi tîm y rhaglen i nodi'r gweithgarwch presennol ar draws y model cysyniad, o ymyrraeth gynnar / atal, hyd at wasanaethau ar gyfer achosion cymhleth iawn. Mae rhagor o weithdai yn cael eu cynllunio ar gyfer y 12 mis nesaf.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Plant Integredig (ICSB) gydag Is-grwpiau Plant Ardal Integredig (ar gyfer y Gorllewin, y Canolbarth, a'r Dwyrain) a grwpiau gorchwyl a gorffen ad hoc yn ystod ail hanner 2022/23 er mwyn cefnogi'r gwaith hwn.

## Hyb Cydlynu Ymchwilio, Arloesi a Gwella

Nod y ganolfan yw cydlynu arloesedd yng Ngogledd Cymru er mwyn llywio modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd. Mae'n rhan o ymrwymiad Cymru Iachach i sefydlu rhwydwaith o ganolfannau a gydlynir yn genedlaethol sy'n tynnu gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwella ynghyd ym mhob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Dyma fanylion rhai o'r gweithgareddau allweddol a gwblhawyd eleni:

- dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad Gogledd Cymru 2021, gan gynnwys demograffeg a mudo a chyn-filwyr lluoedd arfog y DU.
- datblygu cynllun ar gyfer cydlynu asesu anghenion a datblygu data ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, gan gynnwys sefydlu is-grŵp o'r Bwrdd Data a Thechnoleg Ddigidol newydd a fydd yn ystyried y 'tirwedd data' ar gyfer defnydd eilaidd o ddata, gyda'r bwriad o symleiddio, safoni a rhannu.
- cefnogi sesiwn ffocws ar gynllun peilot gofalwyr ifanc, gan ddwyn ynghyd y gwahanol fathau o dystiolaeth fel ysgogiad ar gyfer Cymuned Ymholi i gefnogi twf arferion arloesol a'u lledaenu ar draws y rhanbarth.
- gyda chefnogaeth gan Gomisiwn Bevan, gweithio gydag Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, canolfannau RIC Powys a Gorllewin Cymru i edrych ar bosibiliadau eraill i frw ymlaen â'r cais am Ysbyty Rhithwir

Mae'r Hwb wedi coladu'r wybodaeth am gymorth sydd ar gael i ddatrys heriau iechyd a gofal, a datblygu syniadau ar gyfer arloesi a gwella, y maent yn eu hyrwyddo trwy ddigwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol a'u gwefan

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/hwb-cydlynu-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/>

## Cynllun Ardal Rhanbarthol

Mae Cynllun Ardal Rhanbarthol drafft wedi'i ddatblygu sy'n nodi sut y bydd y Bwrdd yn ymateb i ganfyddiadau Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022.

Y prif themâu yw'r angen cynyddol am ofal a chymorth, yn arbennig felly o ran y cynnydd mewn anghenion cymhleth ac anghenion cymorth i ofalwyr. Er bod comisiynwyr a darparwyr yn gweithio'n galed i ddarparu gofal rhagorol mewn sawl maes, mae heriau o ran recriwtio a chadw staff iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithio'n ddifrifol ar allu'r sector i ddiwallu anghenion pobl. Mae'r adroddiadau ar gael yn:

- <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/>
- <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/comisiynu/asf2022/>

Mae ffocws y cynllun hwn ar flaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer gweithio integredig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar raddfa ranbarthol. Mae llawer o ganfyddiadau'r asesiad poblogaeth yn cael sylw gan bartneriaid fel rhan o'u busnes craidd, neu gan bartneriaethau presennol rhwng asiantaethau ar draws amrywiaeth o ffiniau daearyddol. Mae'r cynllun yn disgrifio'n gryno ble mae hyn yn digwydd ac yn cysylltu â gwybodaeth bellach. Gellir defnyddio'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a'r Cynllun Rhanbarthol i gefnogi cynllunio lleol a rhanbarthol eraill. Cyhoeddir y Cynllun ar 1 Ebrill 2023.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Ym mis Ebrill 2016, sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) statudol ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r BGCau hyn yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio i wella llesiant eu siroedd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o sefydliadau partner gan gynnwys Cyfarwyddwyr Cymuned Iechyd Integredig (IHC) y Bwrdd Iechyd sy'n cymryd rhan yn rhinwedd eu rolau fel uwch arweinwyr eu cymunedau. Mae'r BGCau yn gweithio ar y cyd fel sefydliadau partner i sicrhau bod ein cynlluniau strategol yn cyd-fynd ag amcanion llesiant lleol ac yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni ac i'r gwrthwyneb; a hefyd i sicrhau bod cyfraniad y BGC yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i gynlluniau'r sefydliadau statudol eu hunain.

Yn ystod 2022/23, mae tri BGC Gogledd Cymru wedi canolbwyntio ar ddatblygu a chyhoeddi eu Hasesiadau Llesiant, y mae'n rhaid eu cynhyrchu bob pum mlynedd fel gofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Aseidiadau Llesiant yn asesu llesiant lleol ar draws pedwar piler: pileri cymdeithasol, economaidd, yr amgylchedd, a diwylliant, a chawsant eu defnyddio i lywio'r amcanion llesiant sydd yn y Cynlluniau Llesiant lleol. Mae'r Cynlluniau'n ceisio mynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n peri'r angen neu'r her fwyaf i gymunedau ac sy'n disgrifio lle gall y BGCau wneud y cyfraniad mwyaf, gan ychwanegu gwerth at y partneriaethau a'r gwasanaethau craidd presennol.

Cafodd y BGCau gymorth ymgysylltu gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru (i sicrhau bod lleisiau nas clywir yn aml yn cael y cyfle i gyfrannu) a Phartneriaeth Mewnwelediad ac Ymchwil Gogledd Cymru.

### Gwynedd a Môn

Cyhoeddir Cynllun Llesiant drafft BGC Gwynedd a Môn 2023-2028 ym mis Mai 2023. Mae ganddo dri amcan llesiant cyffredinol:

- lliniaru effeithiau tlodi ar lesiant cymunedau lleol;
- blaenoriaethu llesiant a chyflawniadau plant a phobl ifanc;
- cefnogi cymunedau i symud tuag at garbon sero net.

Mae'r Gymraeg yn edefyn sy'n rhedeg drwy'r cynllun a bydd yn cael ei hyrwyddo ym mhob agwedd o waith y BGC. Bydd y BGC yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r cynnydd a wnaed yn 2022 yn cynnwys:

- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r gwasanaethau iechyd integredig ymhellach – gan ganolbwyntio ar wasanaethau cymunedol a chymorth iechyd meddwl;
- darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff derbynfeydd y sector cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn er mwyn annog aelodau'r cyhoedd i gael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg;
- cydweithio ar Grŵp Newid Hinsawdd i ymateb i heriau newid hinsawdd lleol.

## Conwy a Sir Ddinbych

Y prif ffocws a'r prif gyflawniad yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn 2022, fu adolygu a diweddarau'r Aseiad Llesiant Lleol a datblygu'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae'r meysydd cynnydd eraill yn cynnwys:

- dylanwadu ar y gwaith ar gysylltedd digidol i sicrhau bod cymunedau'n deall y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt;
- cymryd rhan mewn gweithdai a gynhaliwyd gyda'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych i ddadansoddi eu data caffael, ac adolygu eu polisiau a gweithdrefnau caffael gyda'r nod o gefnogi datgarboneiddio'r gadwyn gyflenwi;
- datblygu cofrestr risg ar y cyd i helpu i fonitro risgiau lleol.

Wrth symud ymlaen, bydd y BGC yn:

- canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar yr argyfyngau hinsawdd a natur;
- parhau i gynnwys ac ymgysylltu â chymunedau lleol i archwilio pa wybodaeth a chymorth sydd eu hangen arnynt i adeiladu eu gwytnwch cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol;
- helpu i liniaru effaith costau byw cynyddol, a gwneud y mwyaf o incwm trwy gefnogi mynediad at gyngor, gwybodaeth a chymorth.

## Wrecsam a Sir y Fflint

Cynhyrchodd BGCau Sir y Fflint a Wrecsam Aseidiadau Llesiant ar wahân ond, gan fanteisio ar y cydweithio agos a wnaed yn ystod pandemig COVID-19, daethant ynghyd ym mis Ionawr 2023 fel un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a chytunwyd i gynhyrchu un Cynllun Llesiant ar gyfer y ddwy sir. Maent yn gweithio tuag at gyhoeddi eu Cynllun Llesiant Lleol cyntaf ar y cyd ym mis Mai 2023.

Yn 2022 gwnaeth BGCau Wrecsam a Sir y Fflint gynnydd ar y cyd yn y meysydd canlynol:

- gweithio gyda Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru i ddatblygu ffyrdd newydd o ymgysylltu i ddod â chymunedau ac ymarferwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector at ei gilydd; Mae'r rhwydweithiau'n gweithio i herio arferion presennol a chyfnewid syniadau;
- nodi cyfres o gamau gweithredu i wella hygyrchedd i 'fannau gwyrdd' a lleihau carbon;
- datblygu prosiectau cydnerthedd cymunedol yn y Fflint, yr Holway a Gwersyllt.

Yn 2022, rhoddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint flaenoriaeth i ddau amcan llesiant allweddol:

- Diogelwch cymunedol, gyda phedair menter flaenoriaeth sef Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), Diogelu Oedolion Agored i Niwed, Diogelu Pobl Ifanc Agored i Niwed ac Amddiffyn Ein Cymunedau.
- Byw'n iach ac annibynnol, gyda saith menter flaenoriaeth, fel a ganlyn:
  - Datblygu Canolfan Asesu Plant Tŷ Nyth yn yr Wyddgrug;
  - Rhaglen fraenaru Integreiddio a Thrawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar;
  - Gwasanaeth rhyddhau i adfer ac asesu (D2RA) yng Nghartref Gofal Marleyfield House ym Mwcle;
  - Model gwasanaeth newydd i gefnogi pobl sy'n byw â heriau eiddilwch;
  - Astudiaeth ddichonoldeb, cynllunio a gwaith dylunio ar gyfer adleoli ac ehangu Cartref Gofal Croes Atti yn y Fflint;
  - Gwaith parhaus gyda phartneriaid gwasanaethau pobl hŷn, sefydliadau lleol a grwpiau cymunedol;
  - Datblygu Strategaeth Dementia Sir y Fflint.

Mae enghreifftiau o gynnydd yn cynnwys:

### **Diogelwch Cymunedol – Mae Pobl yn Ddiogel:**

- Cynnydd o 40% yng nghyfradd cyfeirio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Bu'r gwaith o weithredu'r Cynllun 4P (Amddiffyn, Paratoi, Rhwystro ac Ymlid) sy'n ymwneud ag argymhellion Proffiliau Cymunedol a'u cyflawni ar draws Sir y Fflint, yn symud ymlaen trwy gynnull cyfarfod misol i Bartneriaid Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Sir y Fflint.

### **Byw'n Iach ac Annibynnol**

- Cwblhau ehangu Cartref Gofal Marleyfield House ym Mwcle. Cwblhawyd y gwaith o ddatblygu canolfan asesu plant newydd yn Nhŷ Nyth yn yr Wyddgrug a disgwylir iddi agor ym mis Ebrill 2023;
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi unigolion a grwpiau cymunedol i gadw mewn cysylltiad a chadw rhwydweithiau cymorth cryf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg i helpu i hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein rheolaidd. Cynhaliodd y partneriaid gofal cymdeithasol ddigwyddiadau awyr agored gan gadw pellter cymdeithasol trwy gydol y flwyddyn, gan wneud defnydd o barciau a manau gwyrdd rhagorol y sir.

Yn ystod pandemig COVID-19 rhoddodd BGC Wrecsam y rhan fwyaf o'u gwaith cynllunio strategol o'r neilltu er mwyn galluogi sefydliadau sector cyhoeddus a chymunedau i ganolbwyntio eu hymdrechion ar ddarparu ymateb cydgysylltiedig i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Roedd y sefydliadau sy'n rhan o BGC Wrecsam yn teimlo ei bod yn hollbwysig cadw at eu hymrwymiad ar hawliau plant fel y gallai hyn fwydo i mewn i'r asesiadau llesiant a'r gwaith cydnerthedd cymunedol sy'n digwydd ar y cyd â BGC Sir y Fflint. Yn 2022 mae cyflawniadau'r BGC yn y maes hwn yn cynnwys:

- Meithrin perthynas arbennig gyda Senedd yr Ifanc (Senedd Ieuenctid Wrecsam) sydd wedi mynd ati i lywio'r ffordd y mae'r BGC yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phobl ifanc;
- Cefnogi Rhaglen Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru drwy gynhyrchu tystiolaeth ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar iechyd meddwl a gwynwch plant a phobl ifanc;
- Adeiladu seiliau cadarn ar gyfer Prifysgol Plant i Wrecsam a Sir y Fflint.

Drwy gydol y flwyddyn rhoddodd BIPBC ddiweddariadau rheolaidd i'w Bwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth. Ceir rhagor o fanylion ar dudalennau gwe'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Gwynedd a Môn: <https://www.llesiantgwyneddaron.org/cy/>
- Conwy a Sir Ddinbych: <https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/>
- Sir y Fflint: <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-and-Democracy/Flintshire-Public-Services-Board.aspx>
- Wrecsam: <https://www.bgcwrecsam.org/>

Y Bwrdd Iechyd yw'r Bwrdd Iechyd Lleol mwyaf yng Nghymru, ac mae'n gwasanaethu bron i un rhain o dair o ehangdir y wlad. Caiff ein gwasanaethau eu cynnig o amrywiaeth o leoliadau gan amrywio rhwng ysbytai cyffredinol dosbarth a chlinigau cymunedol ac ymweliadau â chartrefi gan glinigwyr. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, byddwn yn achosi effaith ar yr amgylchedd y mae'n rhaid ei rheoli'n ofalus er mwyn osgoi goblygiadau ariannol ac amgylcheddol sylweddol.

Mae ein portffolio eiddo'n cynnwys tri phrif ysbyty cyffredinol aciwt, 19 o ysbytai cymunedol a thros 70 o glinigau cymunedol ac adeiladau ac ystafelloedd ategol bach eraill (y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio dan brydles), sy'n golygu bod dros 140 o safleoedd yn y portffolio.

Er bod y galw am ofal iechyd yn parhau i gynyddu, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i fodloni heriau sydd ynghlwm wrth leihau carbon, lleihau gwastraff a diogelu cynhyrchion ac adnoddau o ffynonellau cynaliadwy lle bo'n bosibl er mwyn sicrhau bod ein heffaith amgylcheddol yn cael ei lleihau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, rydym yn cynnal System Reoli Amgylcheddol (EMS) ffurfiol, sydd â'r bwriad o gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygu cynaliadwy;
- Cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion eraill;
- Atal llygredd;
- Amddiffyn yr amgylchedd;
- Lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd;
- Diwylliant sy'n rhoi pwyslais ar wella'n barhaus.

Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei chyflawni drwy'r prosesau canlynol:

- Hybu'r polisi amgylcheddol i'r holl randdeiliaid perthnasol;
- Nodi pob agwedd amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd o ganlyniad i newidiadau i wasanaeth a deddfwriaeth newydd;
- Sefydlu amcanion a thargedau a'u monitro gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru;
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl bersonél perthnasol;
- Archwiliadau allanol a mewnol rheolaidd;
- Adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol yn rheolaidd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol;
- Cydweithio â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni dull cyson gan y sector cyhoeddus o ymdrin â rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod gweithdrefnau arfer gorau yn cael eu dynodi a'u rhoi ar waith.

Mesurir ein perfformiad gan ddefnyddio offerynnau amrywiol a thrwy gyfrwng ein cydweithredu a nifer o gyrrff partneriaeth:

- System Reoli Amgylcheddol BS EN ISO 14001 2015;
- Adrodd Blynyddol am yr Ymroddiad i Leihau Carbon;
- System Fonitro Perfformiad Ynni a Chyfleusterau Blynyddol;
- Fforwm Amgylcheddol Ystadau Iechyd Cymru;
- Gwasanaeth Cyfleusterau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru;
- Systemau monitro defnydd gwasanaethau mewnol, amser real;
- Aseidiadau BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) ynghylch cynlluniau cyfalaf mawr.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei wneud at safonau arfer gorau presennol a bod gwelliannau parhaus yn cael eu hymgorffori yn niwylliant y sefydliad.

Mae'r data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiadau hyn wedi'u dilysu gan ddarparwyr gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol, yn cynnwys BM TRADA (corff archwilio ac ardystio allanol sydd wedi'i achredu gan UKAS) ac Archwilio Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ennill Safon Blatinwm Safon Iechyd Corfforaethol Cymru Iach ar Waith, a bu ein defnydd o dechnoleg gynaliadwy, caffael moesegol a chynaliadwy a gwaith ar drafnidiaeth sy'n gyfrifol ar lefel amgylcheddol yn rhan o'r hyn a gyflwynwyd.

### **Gweithio mewn Partneriaeth**

Cynrychiolir y Bwrdd Iechyd ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Ngogledd Cymru, ac mae pob un o'r byrddau hyn yn ymgymryd â gwaith ynghylch materion amgylcheddol a chynaliadwyedd, fel y nodir yn adran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr adroddiad hwn (tudalennau 53 i 55)

### **System Rheoli Amgylcheddol ISO14001:2015**

Mae safon ISO14001:2015 o ran systemau rheoli amgylcheddol wedi'i rhoi ar waith a'i hymgorffori erbyn hyn yn y Bwrdd Iechyd drwyddo draw, a sicrhawyd ardystiad ISO ym mis Ebrill 2018. Cyflwynwyd y safon newydd er mwyn gwneud y Bwrdd Iechyd a'i staff yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys atebolrwydd cyfreithiol a rheoleiddio, ac mae'n caniatáu i'r risgiau cysylltiedig gael eu rheoli'n fwy effeithiol.

Mae Swyddogion yr Amgylchedd wedi cael eu hardystio gan Sefydliad Siartredig Ansawdd a Chofrestr Ryngwladol yr Archwilwyr Ardystiedig, sy'n eu galluogi i fod yn Archwilwyr Arweiniol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae aelodau'r Grŵp Llywio Rheolaeth Amgylcheddol wedi mynd ati i roi fersiwn 2015 y safon ar waith trwy amlygu:

- Y newidiadau allweddol y mae angen i ddarparwyr gwasanaethau eu gwneud;
- Ymrwymiad a chyfraniad uwch reolwyr yn yr EMS;
- Cydymffurfiaeth â'r Polisi Amgylcheddol;
- Anghenion a disgwyliadau partïon sydd â buddiant;
- Materion allanol a mewnol, rhwymedigaethau cydymffurfio ac agweddau arwyddocaol;
- Beth mae pob adran o'r safon yn ei olygu i'w gwasanaeth/adran;
- Perfformiad, gwerthuso a monitro.

Mae ISO14001:2015 yn cynnig fframwaith i amddiffyn yr amgylchedd ac i ymateb i amodau cyfnewidiol yr amgylchedd, ochr yn ochr ag anghenion economaidd-gymdeithasol. Mae ISO14001:2015 yn helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni canlyniadau bwriadedig ei EMS, sy'n cynnig gwerth i'r amgylchedd, y Bwrdd Iechyd ei hun a phartïon sydd â diddordeb. Yn unol â Pholisi Amgylcheddol y Bwrdd Iechyd, mae canlyniadau bwriadedig yr EMS yn cynnwys:

- Gwella perfformiad amgylcheddol;
- Cyflawni rhwymedigaethau o ran cydymffurfiaeth;
- Cyflawni amcanion amgylcheddol.

Mae asesiadau wedi dangos bod conglfeini'r system – canfod prosesau corfforaethol a safle penodol sy'n cael effaith amgylcheddol (yr Agweddau a'r Effeithiau Amgylcheddol) a rhaglen o amcanion a thargedau amgylcheddol a bennwyd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol i liniaru'r effeithiau hyn - ar waith. Mae'r Rhaglen Archwilio Mewnol ar y trywydd cywir ac mae'n cael ei chynnal yn effeithiol; mae'r broses o fethiant i gydymffurfio'n effeithiol ac mae'n gweithio'n effeithlon.

Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddyfarnu contract newydd i BM TRADA i barhau i ddarparu ardystiad Rheoli Amgylcheddol parhaus ISO14001:2015 ac archwiliadau goruchwylio parhaus. Cychwynnodd y contract ym Mehefin 2022.

Archwiliwyd pump o ysbytai a chlinigau'r Bwrdd Iechyd ym Medi/Tachwedd 2022, ac archwiliwyd pedwar o glinigau'r Bwrdd Iechyd yn Chwefror 2023.

Ni ddygwyd sylw at yr un mân achos newydd o fethiant i gydymffurfio yn ystod yr archwiliadau arolygu a gynhaliwyd eleni. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw achosion mawr o ddiffyg cydymffurfiaeth.

### **Hyfforddiant ynghylch Materion Amgylcheddol a Gwastraff**

Mae safon ISO 14001:2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddiant a galluoedd unrhyw unigolion sy'n gallu cael effaith ar y System Rheoli Amgylcheddol.

Mae'r pecyn e-hyfforddiant pwrpasol ynghylch rheoli gwastraff a rheolaeth amgylcheddol a luniwyd gan Swyddogion Amgylchedd y Bwrdd Iechyd wedi cael ei ymgorffori ledled y Bwrdd Iechyd yn y platform e-ddysgu ac mae'n rhan orfodol o'r hyfforddiant i staff.

Mae'r hyfforddiant hwn yn gwella ymwybyddiaeth staff a'u gwybodaeth am faterion amgylcheddol, yn cynorthwyo ein gwaith i wella dulliau rheoli gwastraff a sicrhau ein bod yn ateb gofynion Safon System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001. Mae'r pecyn hyfforddiant wedi'i addasu fel y gellir ei ddefnyddio ledled Cymru. Mae lefel y gydymffurfiaeth ledled y Bwrdd Iechyd ers Medi 2022 yn 82%.

## Rhaglen Amcanion Amgylcheddol Corfforaethol

Mae'r Rhaglen Amcanion Amgylcheddol wedi cael ei chymeradwyo ar gyfer y tair blynedd nesaf (2022-2025). Mae cyflawni amcanion amgylcheddol yn ein helpu i ddangos gwelliant parhaus ac ateb gofynion System Rheoli Amgylcheddol BIPBC a'r Cynllun Gweithredu ynghylch Datgarboneiddio.

Dyma'r amcanion:

- Adolygu a chyhoeddi cynllun yn unol â'r ddyletswydd fioamrywiaeth o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- Cynnal a gwella cynefinoedd bioamrywiaeth trwy blannu coed a phlanhigion sy'n llesol i fyd natur;
- Datblygu newidiadau i weithredu gofynion y Ddeddfwriaeth Amgylcheddol newydd mewn perthynas â gwahanu gwastraff;
- Darparu Hyfforddiant Llythrennedd Carbon trwy ddatblygu Rhaglen Llythrennedd Carbon addas;
- Arolwg o Systemau Gwresogi;
- Gosod goleuadau LED yn lle'r holl oleuadau presennol erbyn 2025;
- Rhaglen inswleiddio atigau yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam;
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio offer gwres a phŵer cyfun (CHP) yn Ysbyty Glan Clwyd a gosod offer newydd yn ei le;
- Datblygu amcanion amgylcheddol yn ymwneud â gwastraff.

## Rheoli gwastraff

Dros y 12 mis diwethaf, mae holl safleoedd BIPBC wedi dychwelyd i sefyllfa 'busnes arferol' o ran gwastraff ac wedi ailgyflwyno'r bag clir ar gyfer gwastraff cyffredinol/ailgylchadwy. Mae hyn wedi lleihau cyfanswm y gwastraff clinigol sy'n cael ei gynhyrchu a'i waredu.

Mae prif gontractwr gwasanaethau ailgylchu a gwastraff cyffredinol BIPBC hefyd wedi'n galluogi i leihau cyfanswm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Mae ymgyrchoedd 'tacluso annibendod' y Bwrdd Iechyd yn dal yn hynod o lwyddiannus, ac maent yn annog wardiau ac adrannau i dacluso annibendod ac eitemau nad ydynt yn cael eu defnyddio, gwella taclusrwydd a hwyluso glanhau eu manau ac ategu ein hymdrechion i gynnal amgylchedd diogel a glân.

Mae Ysbyty Maelor Wrecsam yn cynnal arbrawf yn ymwneud â biniau aildefnyddiadwy i waredu offer miniog am dri mis yn y theatrau, yn yr uned gwasanaethau mamolaeth ac mewn dwy ward. Gellir defnyddio'r biniau aildefnyddiadwy hyd at 500 gwaith, sy'n hollol wahanol i'n biniau untro sy'n cael eu llosgi. Amcangyfrifir, pe bai Ysbyty Maelor Wrecsam yn cyflwyno hyn ledled safle'r ysbyty, byddai'n diddymu 22 tunnell fetrig o blastigau untro bob blwyddyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ynghylch Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru a Gorfodaeth ynghylch casglu deunyddiau gwastraff ar wahân ar gyfer safleoedd y Bwrdd Iechyd a fydd yn cael eu rhoi ar waith mewn canolfannau iechyd o 1<sup>af</sup> Hydref 2023 ymlaen ac mewn ysbytai o 1<sup>af</sup> Hydref 2025 ymlaen.

## Grwpiau Gwyrdd

Ceir Grŵp Gwyrdd sy'n cael ei gefnogi gan staff clinigol yn nhair ardal y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grwpiau Gwyrdd wedi llwyddo i sicrhau nawdd am ddeuddeg mis i ariannu tri Swyddog Cynaliadwyedd i gefnogi prosiectau'r Grwpiau Gwyrdd.

## Rheoli ynni a charbon

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i chwilio am fesurau ac i'w rhoi ar waith er mwyn gwella ei effeithlonrwydd ynni ac i leihau allyriadau carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau. Lleihad o 3% mewn allyriadau CO<sub>2</sub> flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r Targed Perfformiad Corfforaethol Lleihau Carbon presennol fel sy'n ofynnol gan Gynllun Cyflenwi Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd i Leihau Allyriadau Llywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau lleihau carbon yn dibynnu'n bennaf ar adnoddau a ddyrennir gan y Rhaglen Cyfalaf Disgresiynol flynyddol a Chynlluniau Datblygu Cyfalaf Mawr. Yn 2022/23, bu llai o fuddsoddiad oherwydd dyraniad ariannol y cynllun datblygu cyfalaf. Fodd bynnag, fel rhan o'r ymateb i bandemig COVID-19, bu'n rhaid gwneud newidiadau i ffurfwedd adeiladau, ac fe wnaeth hynny gynnig cyfle i fynd o'r afael â rhywfaint o'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ac ymgorffori gwaith adnewyddu'r seilwaith, er enghraifft, gosod goleuadau LED nad ydynt yn defnyddio llawer o ynni.

Fel y gwnaethom yn ystod blynyddoedd blaenorol, rydym wedi cydweithio â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'u partneriaid, yr Ymddiriedolaeth Garbon, sydd wedi rhoi arweiniad i'r Bwrdd Iechyd ynghylch cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni ymhellach yn ein hadeiladau. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddatblygu Strategaeth Lleihau Carbon BIPBC. Mae hon yn dasg enfawr i'r ddau sefydliad ac mae'n adeiladu ar sail cyhoeddi ôl troed Datgarboneiddio GIG Cymru a gyhoeddwyd y llynedd. Hon fydd y ddogfen arweiniad allweddol am flynyddoedd o ran cydymffurfio â gofynion i ddatgarboneiddio safleoedd.

Yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol o ran monitro a, lle bo'n bosibl, lleihau defnydd o ynni, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni cenedlaethol sy'n cysylltu â strategaeth ynni'r DU. Rydym yn parhau i gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n ceisio lleihau'r defnydd o drydan yn Ysbyty Gwynedd gymaint â phosibl ar adegau o alw brig ar seilwaith trydanol y DU. Mae hyn yn cael ei gynnal gan ddefnyddio generaduron brys y safle yn rhedeg ar y cyd â'r cyflenwad grid cenedlaethol felly nid oes unrhyw risg i'r cyflenwad trydanol ar y safle ysbyty, pan fo'r gweithgaredd ar y gweill. Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru, ac am gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn, mae BIPBC yn derbyn budd-dal ariannol.

Rydym hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd yn nifer o'n safleoedd i sefydlu araeau solar ffotofoltaidd ar raddfa fach a graddfa ganolig, a gallai hynny gynnig manteision i'r sefydliad gynnwys lleihad pellach yng nghyfanswm y carbon deuocsid a gynhyrchir. Mae'r cynlluniau hyn bellach wedi'u comisiynu ac maent yn weithredol yn rhai o'n hysbytai cymunedol. Mae trefniadau ynghylch contractau cysylltiadau trydan wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau y caiff unrhyw drydan a gynhyrchir ar y safle ond na chaiff ei ddefnyddio ei uwchlwytho i'r grid trydan cenedlaethol.

## Trafnidiaeth

Mae allyriadau teithio ac allyriadau sy'n gysylltiedig â charbon y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu monitro, ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys teithio busnes gan staff yn eu ceir eu hunain, a cherbydau fflyd y Bwrdd Iechyd, a chludo cleifion cymwys i'r ysbyty ac oddi yno.

Gwnaeth milltiroedd busnes cyffredinol ar gyfer y Bwrdd Iechyd godi am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn adlewyrchu dychwelyd yn raddol at y drefn arferol yn dilyn pandemig COVID-19, wrth i gyfyngiadau teithio lacio a gostyngiad y nifer y rheiny sy'n gweithio o'r cartref. Fodd bynnag, cyn y pandemig, roedd cyfanswm milltiroedd wedi bod yn lleihau flwyddyn ar ôl blwyddyn, a'r cyfanswm milltiroedd a adroddwyd ar gyfer 2022/23 yw rhyw 23% yn is na'r hynny a adroddwyd ar gyfer 2019/20, y flwyddyn olaf cyn y pandemig, ac mae mentrau i leihau hyn ymhellach yn parhau, gan gynnwys adolygu'r fflyd lwyd, defnydd o geir prydles a cheir cronfa, a hybu ffyrdd o osgoi teithio gan gynnwys defnyddio fideo-gynadledda a thechnoleg gysylltiedig.

	2020/21		2021/22		2022/23	
	Tunelli Metrig o CO <sub>2</sub>	Milltiroedd	Tunelli Metrig o CO <sub>2</sub>	Milltiroedd	Tunelli Metrig o CO <sub>2</sub>	Milltiroedd
Defnydd Preifat Ceir ar Brydles	316	1,369,274	297	1,284,487	336	1,455,514
Fflyd Lwyd	967	4,184,555	1,069	4,627,088	1,319	5,707,762
Ceir a Faniau sy'n eiddo i'r Bwrdd Iechyd	981	3,952,274	967	3,985,452	1,009	4,245,274
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,264</b>	<b>9,506,103</b>	<b>2,333</b>	<b>9,897,027</b>	<b>2,665</b>	<b>11,408,550</b>

## Caffael cynaliadwy

Cyflwynodd NWSSP Bolisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) yn 2011. Caiff contractau i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau eu trefnu ar sail genedlaethol, ranbarthol neu leol, gyda chymorth staff NWSSP, a chaiff yr holl weithgarwch ei ategu gan ddefnyddio'r Polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Caiff Gwasanaethau Caffael eu hasesu trwy Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy Sector Cyhoeddus Cymru (SPAF).

Caiff ymagweddau caffael eu hanelu at ddod o hyd i gynhyrchion a gwasanaethau'n lleol a chefnogi mentrau bach a chanolig lle bo hyn yn ymarferol. Mae oddeutu 50% o'r holl contractau bwyd Cymru gyfan gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr o Gymru – daw'r holl laeth a gyflenwir i GIG Cymru o ffermydd yng Nghymru, caiff yr holl gig eidion ei fagu yng Nghymru, defnyddir cig oen o Gymru ar adegau o'r flwyddyn pan fydd ar gael a hynny am brisiau cystadleuol. Yn ogystal â chefnogi cymunedau ac economïau lleol, mae hyn yn lleihau effaith amgylcheddol cludo a dosbarthu.

## Adeiladu cynaliadwy

Yn ystod 2022, gwnaeth y Bwrdd Iechyd ddiwygio ei Strategaeth Ystadau. Datblygwyd y strategaeth i gyd-fynd â strategaethau presennol eraill y Bwrdd Iechyd yn cynnwys Byw yn Iach, Aros yn Iach, y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol, y Strategaeth Ddigidol, y Strategaeth Pobl a'r Cynllun Pobl, a'r Cynllun Gweithredu ynghylch Datgarboneiddio.

Ers cwblhau'r strategaeth ystadau flaenorol yn Chwefror 2019, mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ystâd y Bwrdd, yn enwedig o ran capasiti, addasrwydd a sefydlu darpariaeth ddigidol, ac adlewyrchir hynny yn y dadansoddiadau a'r argymhellion isod. Mae'r Strategaeth wedi'i strwythuro i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol ac ateb y tri chwestiwn allweddol: ble'r ydym ni ar hyn o bryd, ble'r ydym ni'n dymuno bod, a sut allwn ni gyrraedd yno.

Mae'r Strategaeth yn hybu ystâd ar gyfer y dyfodol sy'n addas i'w diben ac yn darparu amgylchedd diogel ac effeithiol sy'n diwallu anghenion clinigol a busnes y Bwrdd Iechyd; yn gwella gofal ar gyfer cleifion; yn cynorthwyo gofalmwyr, teuluoedd ac ymwelwyr; ac yn darparu amgylchedd gwaith priodol i staff. Mae'n cadarnhau ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i:

- sicrhau cynllun cynhwysol trwy gyfranogiad cymunedau lleol;
- cydymffurfio â rheoliadau statudol ac arweiniad arfer gorau;
- ceisio cyflawni safon "da iawn" o ran Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) fel gofyniad lleiaf gan anelu at safon "ardderchog" lle bo hynny'n ymarferol;
- lleihau ôl troed carbon y Bwrdd Iechyd yn unol â'r Cynllun Datgarboneiddio;
- cefnogi atebion o ran teithio cynaliadwy a Chynllun Teithio Gwyrdd;
- optimeiddio caffael a llafur lleol i gynorthwyo'r economi leol.

Ar gyfer 2022/23 dyrannwyd £13 miliwn i'r Bwrdd Iechyd er mwyn cyflawni ystod o brosiectau cyfalaf.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y gwaith i gynllunio Unedau Iechyd Meddwl Oedolion a Phobl Hŷn a'r Cynllun Meddyginiaethau Niwclear. Llunnir y prosiectau hyn mewn modd sy'n ymateb i'r strategaeth dadgarboneiddio Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru. Mae'r ddau gyfleuster yn cael eu cynllunio i fod yn adeiladau sy'n defnyddio trydan yn unig, ac mae defnydd effeithlon o ynni yn elfen allweddol o'r holl benderfyniadau a wneir ynghylch llunio'r adeiladau er mwyn lleihau'r galw am ynni. Mae'r ddau gynllun yn targedu safon Ragorol BREEAM ac maent yn rhagori ar fodelu ynni Rhan L o gymharu â'r adeilad tybiannol. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio paneli ffotofoltäig a sicrhau defnydd effeithlon o ynni yng nghynllun a manyleb yr offer mecanyddol a thrydanol.

Mae cynlluniau cyfalaf eraill yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn ac sy'n sicrhau buddion amgylcheddol nodedig yn cynnwys:

- Ailwampio wardiau 6 a 10 yn Ysbyty Glan Clwyd;
- Addasu ac ailwampio Plas Gororau, Cam 1 (yn mynd rhagddo ar hyn o bryd);
- Uwchraddio isadeiledd trydanol Ysbyty Dolgellau;
- Uwchraddio generadur trydan Ysbyty Cefni;
- Uwchraddio goleuadau stryd i sefydlu system LED yn Ysbyty Penrhos Stanley ac Ysbyty Alltwen;
- Uwchraddio elfennau strwythur adeiladau yn Ysbyty Abergele;
- Uwchraddio elfennau strwythur adeiladau ym Modnant, Llandudno;
- Uwchraddio'r orsaf trin carthion yn Ysbyty Cymuned yr Wyddgrug;
- Gosod manau gwefru Shoreline ar gyfer cerbydau'r Gwasanaethau Ambiwlans yn y tri ysbyty aciwt.

## Rhaglen Gosod Offer Newydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r uchelgais i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a bennir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a dylanwad deddfwriaeth ehangach yn y DU ac yn yr UE. Mae'r gofyniad hwn i leihau carbon, ynghyd â'r angen i leihau costau ynni referniw, yn sail i'r angen i ddatblygu prosiectau yn ymwneud â defnydd effeithlon o ynni ac ynni adnewyddadwy ar raddfa eang ac yn gyflym.

Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Rhaglen Lleihau Carbon, ac mae gwerth cwmpas cychwynnol y buddsoddiad yn £7m, yn fras, a ffafrir cyflawni hynny trwy gyfrwng fframwaith Re:fit gan ddefnyddio Contractau Perfformiad Ynni a chyllid sydd ar gael trwy Raglen Nawdd Cymru, dau gynllun sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Sail y rhaglen yw datblygu cynllun Re:fit ac adeiladau ar archwiliadau ynni blaenorol a gwaith rydym wedi'i nodi i sefydlu ehangder ac addasrwydd cyfle. Disgwylir i Ddarparwr Gwasanaethau Re:fit nodi'r union fesurau ac arbenigon, a nodi atebion arloesol i sicrhau carbon isel. Dylai buddsoddiad cychwynnol o £7m i'w ad-dalu dros 8 mlynedd sicrhau arbediad a wnaiff leihau gwariant blynyddol y Bwrdd Iechyd ar ynni.

Mae cyfleoedd am brosiectau penodol sydd eisoes wedi'u nodi trwy gyfrwng proses waith iterus rhwng BIPBC, Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru a phartneriaethau lleol yn cynnwys:

- Goleuadau a rheolyddion goleuadau;
- Bwyleri ac ôl-osod gwelliannau;
- Strategaethau ynghylch systemau gwresogi trydanol;
- Gwella Unedau Trin yr Aer (AHU) - motorau EC, Gyriannau Cyflymder Newidiol (VSD);
- Rheoli a chylchfaeo'r rhwydwaith gwresogi a'i fetru'n strategol;
- Dilyniannu oerwyr;
- Gosod falfiau thermostatig newydd mewn gwresogyddion;
- Inswleiddio toeau.

Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu trwy gyfrwng Proses Marchnad Feddal ar y cyd â thri chwmni sydd wedi mynegi diddordeb mewn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r targed ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r Rhaglen gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd fel y gellir mynd ati i gynnis Gwahoddiadau i Dendro (ITT).

### **Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol**

Mae safleoedd y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu arwynebedd mawr o dir. Mae llawer o'n safleoedd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwylt, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid, adar a phryfed, y mae rhai o'r rhain yn rhywogaethau a warchodir.

Rydym wedi gweithredu Blaengynllun Bioamrywiaeth i gydymffurfio ag Adran 6 yn Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, i gynnal bioamrywiaeth a'i gwella fel rhan o'r ddyletswydd i hybu gwytnwch ecosystemau.

Mae Grŵp Gwyrdd Ysbyty Maelor Wrecsam wedi datblygu clos bioamrywiaeth ar safle'r ysbyty. Gobeithio y gwnaiff planhigion cynhenid annog adar, gwenyn a mathau eraill o fywyd gwylt. Ceir bath dŵr sydd wedi'i wneud o ddeunyddiau a addaswyd at ddiben gwahanol yn y clos, ac mae plant ysgolion lleol wedi llunio a chyflenwi gwestai pryfed. Bydd aelodau'r Grŵp Gwyrdd yn dod ynghyd i gynnal y clos ac mae'r grŵp yn cynllunio i drefnu noson plannu bylbiau ar hyn o bryd. Yn ogystal â'r buddion o ran bioamrywiaeth, gall staff ddefnyddio'r ardd hefyd i fwyta eu cinio neu fyfyrion mewn lle cyn hyfryd.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd Grŵp Gwyrdd Wrecsam a'i gais am goed gan grŵp cadwraeth, ac yn sgil hynny, plannwyd 100 o goed a llwyni cynhenid ifanc yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Mae clos anniben a llawn chwyn yng nghanol Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei ailddatblygu trwy gyfrwng prosiect teirffordd yn cynnwys tîm Ystadau Gweithredol y Bwrdd Iechyd, Soroptimyddion y Rhyl a'r coleg garddwriaethol lleol. Y briff oedd datblygu'r lle cyn yn ardd hawdd ei chynnal a chadw i ddarparu lliw trwy gydol y flwyddyn a gwella bywyd gwyllt a denu pryfed peillio. Mae'r ardd yn cynnig lle gwych y gall cleifion, ymwelwyr a staff ei fwynhau trwy gydol y flwyddyn.

Mae cleifion dementia yn Ysbytai Bae Colwyn a Llandudno wedi elwa yn sgil sgysiau wythnosol ynghylch natur a garddio ar fyrddau, ac mae hynny wedi bod yn addysgiadol ac yn ddiddorol ac wedi helpu cleifion a theuluoedd i roi sylw i greu'r amgylchedd priodol i leihau straen a gorbryder a hybu lles yn gyffredinol.

## **Crynodeb o berfformiad - defnydd a gwastraff o ran adnoddau cyfleustodau**

### Mesur Cyfleustodau

Caiff data ei gasglu o amrywiaeth o ffynonellau, sy'n cynnwys datganiadau blynyddol gan gyflenwyr gwasanaethau, anfonebau casglu data, systemau monitro gwasanaethau mewnol mewn amser real a datganiadau ariannol blynyddol.

Mae cyflenwr ynni'r Bwrdd Iechyd yn hwyluso rhaglen barhaus i osod mesuryddion nwy a thrydan deallus lle nad yw'r rhain eisoes ar waith ar safleoedd y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am ddefnydd yn uniongyrchol i'r sawl sy'n casglu data, a ddylai ganiatáu dosbarthu biliau sy'n fwy cywir ac amserol, ond mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd darlleniadau lleol er mwyn rhoi sicrwydd bod y darlleniadau awtomatig yn fanwl gywir.

Mae gan ein mesuryddion nwy mwy o faint gywirwyr sy'n ystyried amrywiadau i dymereddau lleol er mwyn cael darlleniadau manylach o ddefnydd, mae ein mesuryddion trydan yn mesur tariffau gwahanol; yn ei hanfod, gall hyn adlewyrchu cyfraddau gwahanol ddydd a nos, yn achos ein safleoedd mwy o faint, efallai y bydd tariffau lluosog yn berthnasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda Dŵr Cymru hefyd er mwyn cael mynediad at eu rhwydwaith cenedlaethol o delemetreg mesuryddion dŵr masnachol, sef "Water Core". Mae hyn yn ein galluogi i fonitro ein defnydd o ddŵr o bell ar gyfer Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Cyffredinol Llandudno, Ysbyty Abergele ac Ysbyty Bryn-y-Neuadd yn Llanfairfechan. Mae hyn yn ein galluogi i sylwi ar unrhyw ddefnydd gormodol yn gyflym, gan helpu i nodi unrhyw ollyngiadau posibl y gallai fod angen ymchwilio iddynt. Byddwn yn ystyried ychwanegu safleoedd Bwrdd Iechyd pellach at y rhwydwaith hwn.

Rydym hefyd yn gwirio defnydd o wasanaethau pan gaiff biliau eu talu. Unwaith eto, mae'r gwiriadau hyn yn ein helpu i nodi unrhyw gynnydd annisgwyl o ran defnydd a allai awgrymu bod naill ai anghysondeb gyda'r broses bilio neu broblemau eraill sy'n gofyn am ymchwilio a sylw, fel gollyngiadau o'n systemau dŵr neu olew tanwydd.

Mae Gwasanaeth Cymorth Busnes yr Adran Ystadau yn archwilio'r posibilrwydd o gael pecyn meddalwedd cyfan i reoli ynni a fydd yn coladu darlleniadau mesuryddion cyflenwyr ac yn darllen data yn awtomatig gan ddadansoddi tueddiadau cymeriant a defnydd. Mae gwaith ymchwil ynghylch arloesi cynnyrch yn parhau er mwyn darparu awtomatiaeth ar gyfer gwirio, dilysu a thalu drwy ffrwd data allanol i system dalu'r GIG i dalu'r anfonebau gwasanaeth.

Caiff y gymhariaeth â data 2022/23 sydd ar gael yn y tabl Crynodeb o Berfformiad ei lunio ar sail data a dderbynnir hyd at ddiwedd blwyddyn 2022/23. Os derbynnir anfonebau hwyr gan y cwmnïau cyfleustodau neu os byddant yn addasu biliau, gall hyn addasu'r gwerth terfynol.

## Allyriadau Ynni a Charbon

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2019/20	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2021/22	Newid ers 2019/20	2022/23	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion Heb fod yn ariannol  (tunelli o CO <sub>2</sub> )	Cyfanswm Allyriadau Gros	36,912	-6.6%	36,538	-1.01%	32,875	-10.03%
	Cyfanswm Allyriadau Net	36,912	-6.6%	36,538	-1.01%	32,875	-10.03%
	Cwmpas Allyriadau Gros 1* (Uniongyrchol) Nwy ac Olew	25,320	-1.48%	26,084	3.01%	22,962	-11.97%
	Cwmpas Allyriadau Gros 2 a 3** (Anuniongyrchol)	11,591	-16.15%	10,455	-9.81%	9,913	-5.18%
Defnydd Ynni Cysylltiedig (tunelli o CO <sub>2</sub> )	Trydan: Heb fod yn Adnewyddadwy	0		0		0	
	Trydan: Contract Cyflenwi "Gwyrdd" Adnewyddadwy	11,591	-16.15%	10,455	-9.81%	9,913	-5.18%
	Nwy	21,822	-1.36%	23,751	8.84%	20,297	-14.94%
	LPG	12.11	0%	10.54	-12.96%	12.78	21.25%
	Arall - Olew***	3,498	-2.18%	2,333	-33.30%	2,665	14.93%
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant ar Ynni	10,573,940	7.04%	13,188,306	24.72%	25,322,875	92.01%
	Gwariant ar Drwydded CRC (2010 ymlaen)	120		0		0	
	Gwariant ar Atredau Achrededig (e.e. GCOF)	0		0		0	
	Gwariant ar Deithio Busnes****	9,646,777	0.84%	7,065,526	-26.76%	11,408,550	61.47%

Oherwydd gofynion adrodd diwygiedig yn ystod pandemig COVID-19, nid yw'r data ynni blynyddol ar gyfer 2020-21 ar gael.

## Nodiadau

\* **Cwmpas 1 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Uniongyrchol** - Mae'r rhain yn codi o ffynonellau y mae'r sefydliad yn berchen arnynt neu a reolir ganddo ac mae enghreifftiau yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i hysogiad mewn boeleri gwresogi y mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt neu a reolir ganddo, allyriadau gan ein cerbydau ac allyriadau o ollyngiad nwy o oergell.

\*\* **Cwmpas 2 - Allyriadau Ynni Anuniongyrchol** - Allyriadau o ganlyniad i gynhyrchu trydan a nwy a gyflenwir gan barti arall ar gyfer ei ddefnyddio mewn adeiladau eraill.

\*\* **Cwmpas 3 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Anuniongyrchol Eraill** - Allyriadau sy'n digwydd o ganlyniad i'n gweithgareddau, ond nad yw'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt yn uniongyrchol neu nad yw'n eu rheoli yn uniongyrchol, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â threuliant gwastraff a dŵr, caffaeliad cynaladwyedd, cynllunio camau gweithredu bioamrywiaeth ac allyriadau sy'n gysylltiedig â chostau teithio busnes swyddogol a delir yn uniongyrchol gan y sefydliad.

\*\*\***Arall (olew)** - Mae'r wybodaeth a roddir yn dangos cyfanswm cyfaint (litrau) o danwydd cerbydau a brynrir ar gyfer ceir a faniau'r Bwrdd Iechyd trwy gardiau tanwydd a'u troi'n dunelli o CO<sub>2</sub>.

\*\*\*\*Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cyfanswm costau tanwydd trwy gyfrwng cardiau busnes ac ad-dalu costau i staff, yn ogystal â chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r defnydd o gerbydau yn cynnwys yswirio a chynnal a chadw cerbydau'r Bwrdd Iechyd, gwasanaethau tacsï a chludo a chludeant i gleifion nad ydynt yn achosion brys a ddarperir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mesurir Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr drwy gasglu data treuliant corfforaethol a throsi'r data hwn i gyfwerthoedd carbon deuocsid (CO<sub>2</sub>e). Gwneir hyn drwy ddefnyddio ffactorau cyfnewid swyddogol a gyhoeddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ar gyfer mathau gwahanol o danwydd, yn achos trydan, yn unol â gwlad y tarddiad i adlewyrchu amrywiadau cenedlaethol o ran sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu ac effeithlonrwydd trawsyriad. Mae'r ffigyrau hyn wedi cael eu defnyddio i gyfrifo allyriadau carbon deuocsid corfforaethol, a gall y newidiadau o ran allyriadau carbon deuocsid y Bwrdd Iechyd a adroddir arnynt uchod gael eu priodoli yn rhannol i newidiadau yn y ffactorau cyfnewid hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld datblygiadau mawr ar safle Ysbyty Glan Clwyd a gweithgarwch adeiladu newydd yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd, yn ogystal â datblygu cyfleusterau cymunedol newydd.

Rydym yn achub ar y cyfleoedd hyn i gyflwyno technolegau newydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau defnydd pŵer a dŵr. Fodd bynnag, caiff y gwelliannau hyn eu gosod i raddau mwy neu lai, fel arfer, gan yr angen i gynnig amgylchedd clinigol modern, a allai fod yn fwy o faint ac a allai gynnwys offer a chyfarpar i gynorthwyo gwresogi ac aerdymheru manau penodol er mwyn cynnal tymereddau critigol ac ansawdd aer. Efallai hefyd y bydd datblygiadau newydd yn cynnwys technolegau clinigol a gwasanaethau arbenigol newydd i gynorthwyo'r prosesau diagnostig a thriniaeth sy'n creu galw ychwanegol ar gyflenwadau trydanol.

Rydym wedi sicrhau lleihad o 10.03% mewn allyriadau CO<sub>2</sub> gros cyfatebol sy'n deillio o'n defnydd o ynni dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, bu cynnydd o 92.01% yn ein gwariant ar ynni, sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn prisiau ynni, ac amodau ansefydlog a chyfnewidiol ar y lefel fyd-eang a hefyd addasiadau i'r ffactorau trosi sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo ein hallyriadau carbon deuocsid. Bu newid o ran cydbwysedd ein defnydd o ffynonellau ynni, gyda defnydd llai o ynni a defnydd cynyddol o nwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhan o grŵp ynni GIG Cymru sy'n prynu nwy a thrydan ymlaen llaw, am brisiau mwy ffafriol na'r pris "diwrnod ymlaen llaw" y bydd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn ei dalu. Mae hyn yn ffordd o ddiogelu rhag amrywiadau pris sydd wedi achosi gan newidiadau i alw a chyflenwad, fel y rhai sy'n deillio o effaith y tywydd, cytundebau cynhyrchu OPEC neu darfu ar gyflenwadau.

Mae prisiau nwyddau'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r bil ynni cyffredinol, a chaiff y gweddill ei gyfrifyddu ar ffurf taliadau trawsyrru/cludo, costau mesuryddion ac ardollau newid yn yr hinsawdd. Mae grŵp ynni GIG Cymru yn monitro'r ffactorau hyn i ragweld yr amser gorau i brynu ymlaen llaw.

O fis Hydref 2023, bydd y contractau ar gyfer nwy a thrydan yn newid i gael eu rheoli trwy fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron (CCS) trwy wasanaethau Caffael y GIG a bydd y cyflenwr cyfleustodau presennol yn newid, gobeithio, i gynnig gwell gystadleuaeth ar y farchnad er mwyn darparu cyfleustodau.

Yn wahanol i farchnadoedd domestig, nid yw'r sector masnachol/busnes yn elwa ar y gap ar brisiau tanwydd. Yn yr un modd â defnyddwyr mawr eraill y cyfleustodau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i effeithio gan gynnydd ym mhrisiau tanwydd/cyfleustodau ar y lefel fyd-eang ers dechrau 2022. Ar un adeg, fe wnaeth elfen nwydd nwy (ppt - ceiniogau fesul therm), a oedd wedi amrywio o 40 i 45 ppt yn ystod blynyddoedd blaenorol, gynyddu i 800 ppt. Llwyddodd grŵp caffael ynni'r GIG i liniaru rhywfaint o'r cynnydd mewn prisiau yn sgil prynu ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae'r gwariant cyffredinol ar gyfleustodau wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil hyn, a rhagwelir y bydd y prisiau uchel ar y lefel fyd-eang yn parhau yn ystod 2023/24.

Mae gwariant ar dreuliau teithio wedi lleihau, sy'n adlewyrchu'r newid yn yr amgylchiadau a achoswyd gan bandemig Covid-19 a llawer o staff a oedd yn gweithio mewn swyddfeydd yn cychwyn gweithio o bell neu yn eu cartref, gyda llawer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

## Gwastraff

Gwastraff		2019/20	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2021/22	Newid ers 2019/20	2022/23	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion Heb Fod yn Ariannol (tunelli)	Cyfanswm y Gwastraff	5,494	3.9%	3,329	-39.41%	2,937	-11.78%
	Tirlenwi	54.2	-53%	53.9	-0.55%	6.8	-87.38%
	Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd	3,399	6.2%	1,885	-44.48%	1,567	-16.87%
	Compostiwyd	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	323	-1.5%	1,389	330.14%	1,363	-1.87%
	Llosgwyd heb adfer ynni	0		0		0	
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm Costau Gwaredu	1,234,635	7.1%	570,198	-53.82%	630,782	10.62%
	Tirlenwi	9,170	-64%	15,620	70.34%	2,086	-86.65%
	Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd	519,539	13%	258,483	-50.25%	248,288	-3.94%
	Compostiwyd	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	140,343	8.3%	296,095	110.98%	380,409	28.47%
	Llosgwyd heb adfer ynni	0		0		0	

### Nodiadau

Mae cyfanswm tunelli a chostau gwastraff yn cynnwys gwastraff i'w losgi, gwastraff i'w ailgylchu a gwastraff ar gyfer safleoedd tirlenwi.

Bydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn cael gwared ar rywfaent o ddeunyddiau trwy gyfrwng dulliau eraill nas nodir fel categori ar wahân yn y gofynion i adrodd am gynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys gwastraff 'bag oren' sy'n cael ei drin â gwres i ddiheintio cyn ei waredu. Yn 2022/23, roedd hyn yn cyfrif am 2,172 o dunnelli o wastraff, am gost trin a gwaredu o £846,144 (2021/22: 2337 o dunnelli am gost o £749,661). Felly, nid yw'r data uchod yn cwmpasu holl weithgarwch gwaredu gwastraff y Bwrdd Iechyd.

Mae cyfanswm gwastraff y Bwrdd Iechyd (fel yr adroddwyd uchod, ac yn cynnwys gwastraff bag oren) wedi lleihau o 9.8% (557 o dunnelli) yn 2022/23 o gymharu â 2021/22.

Mae ffactorau sydd wrth wraidd hyn yn cynnwys gostyngiad yn y defnydd o gyfarpar diogelu personol a oedd eu hangen yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19. Mae hyn wedi cyfrannu at leihad mewn gwastraff mewn bagiau oren a gostyngiad mewn becynnau cysylltiedig sy'n cael eu hanfon i gael eu hailgylchu. Hefyd, ym mis Ebrill 2022, gwnaeth llywodraeth y DU gyflwyno treth ar becynnau plastig sydd wedi arwain gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr at adolygu faint o ddeunyddiau pecynnu y byddant yn eu defnyddio.

Yn ychwanegol, yn dilyn y pandemig, mae cyfran fwy o staff yn gweithio o bell, rydym yn gwneud defnydd ehangach o ymgynghoriadau rhithiol ac mae cyflwyno systemau digidol ar raddfa ehangach yn parhau i leihau ein defnydd o bapur yn ymwneud â swyddogaethau gweinyddol.

Roedd modd adfer ynni o ran yr holl wastraff a losgwyd.

### Dŵr

Defnydd o Adnoddau Terfynedig		2019/20	Newid o'r flwyddyn flaenorol	2021/22	Newid ers 2019/20	2022/23	Newid o'r flwyddyn flaenorol
Dangosyddion Heb Fod yn Ariannol (m <sup>3</sup> )	Defnydd o Ddŵr (yr holl ddefnydd) cyflenwyd echdynnwyd	510,933 0	-13.1%	489,033 0	-4.3%	412,340 0	-15.7%
	Defnydd o Ddŵr (Ystadau ac eithrio swyddfeydd) cyflenwyd echdynnwyd	0 0		0 0		0 0	
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau Cyflenwi Dŵr (Yr holl gostau)	1,323,303	-20.8%	1,368,572	3.4%	1,235,617	-9.7%
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystadau ac eithrio swyddfeydd)	0		0		0	

Gwelwyd lleihad o ran defnydd o ddŵr yn 2022/23, ond, ar adeg llunio'r adroddiad hwn, roedd ymchwiliadau'n parhau yn ymwneud â gollyngiad tybiedig o dan y wyneb yn Ysbyty Gwynedd.

Mae darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn eu hiaith ddewisol yn ffactor allweddol wrth ddarparu gofal o ansawdd uchel, ac mae'n arbennig o bwysig i'n cleifion sy'n fwy agored i niwed.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu'n unol â fframwaith deddfwriaethol o ran y Gymraeg ar ffurf cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac mae'n atebol i Gomisiynydd y Gymraeg at ddibenion cydymffurfio a chraffu allanol.

Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cofleidio Cynllun Pum Mlynedd newydd ei gyhoeddi Llywodraeth Cymru, sef *'Mwy na Geiriau'*, sy'n gosod egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' o gynnig gwasanaethau yn Gymraeg heb fod angen i'r defnyddiwr gwasanaeth ofyn amdanynt, wrth wraidd ei weledigaeth.

Mae'n galonogol bod y prif themâu a'r amcanion yn y cynllun yn alinio â nodau'r Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym eisoes wedi gwneud cryn dipyn o gynnydd o ran tair thema'r cynllun, sef:

- Cynllunio a pholisïau Gymraeg yn cynnwys data;
- Cefnogi a datblygu sgiliau Gymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol;
- Rhannu arfer gorau ac ymagwedd sy'n galluogi.

Mae Fforwm Strategol y Gymraeg y Bwrdd Iechyd, sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, yn rhoi cyfarwyddyd a chymhelliant cyffredinol ar gyfer darpariaeth Gymraeg y Bwrdd Iechyd. Adroddir ar yr holl faterion yn ymwneud ag atebolrwydd, rheoli risg, adrodd ar bryderon a dathlu llwyddiant yng nghyfarfodydd y Fforwm a gynhelir bob chwarter.

Mae'r pwyslais dros y flwyddyn flaenorol wedi bod ar y canlynol:

- Dangos gwerthfawrogiad o gymhelliant y gweithlu i ddarparu lefel uwch o wasanaeth, trwy roi fframwaith hyfforddiant â ffocws pwrpasol ar waith;
- Cryfhau'r fframwaith cydymffurfio trwy ddatblygu llinell sylfaen o gydymffurfiaeth gyfredol, ac amlygu meysydd o arfer gorau ar draws y system;
- Dangos cynnydd o ran cyflawni terfynau cyflawni cyfieithiadau sy'n diwallu anghenion y gwasanaeth.

Wrth sefydlu'r llinell sylfaen hon, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar gleifion er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gofal prydlon ac sy'n briodol ar lefel iaith er mwyn diwallu eu hanghenion.

Mae strwythur Tîm y Gymraeg wedi'i alinio â phedair ffrwd waith benodol fel y'i hamlinellir isod, sy'n cynorthwyo'r gwaith o gyflawni ei ofynion a'i amcanion. Mae gwaith wedi bod yn mynd yn ei flaen yn yr holl feysydd er mwyn cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd ymhellach i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

## Deddfwriaeth a Llywodraethu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, gan ganolbwyntio'n bennaf ar lunio cynllun pum mlynedd yn unol â Safon 110, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd wella ei gapasiti i ddarparu ymgynghoriadau clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun hwn yn y lle cyntaf yn canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau dwyieithog i'r grwpiau sy'n agored i niwed, sy'n cynnwys pobl hŷn, plant a defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, therapi lleferydd, anawsterau dysgu a strôc.

Mae dangosyddion allweddol yn cynnwys gwella lefelau'r staff sy'n manteisio ar wersi Cymraeg, sicrhau bod staff wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg yn y Cofnod Electronig i Staff at ddibenion cynllunio, hyrwyddo'r "Cynnig Rhagweithiol" a defnyddio systemau amrywiol i ganfod a chofnodi dewis iaith cleifion.

Mae cynnydd wedi cael ei wneud hefyd o ran rhoi cyngor a chymorth i'r sefydliad ar gydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn wedi cynnwys datblygu Apiau dwyieithog a fideos hyfforddiant a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gynllunio gwasanaethau a datblygu polisïau a gweithdrefnau. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori i Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod datblygiadau'n cael effeithiau positif ar y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, ac er mwyn trin y Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Caiff unrhyw gwynion neu sylwadau a dderbynnir trwy'r dulliau adborth amrywiol sy'n cael eu gweithredu neu eu defnyddio gan y Bwrdd eu defnyddio fel cyfleoedd i wneud newidiadau adeiladol i arferion gwaith ac i wella ymwybyddiaeth o effaith bositif rhoi gofal i gleifion yn eu dewis iaith.

## Hyrwyddo a gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol'

Er mwyn sicrhau bod modd cyflwyno Safonau'r Gymraeg a '*Mwy na Geiriau*' yn llwyddiannus, mae gwaith wedi cael ei wneud eleni i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gwasanaethau Cymraeg, tynnu sylw at arfer gorau ar draws y sefydliad, a chryfhau gwaith partneriaeth ar draws Gogledd Cymru.

Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg bob amser wedi bod yn ffocws i'r Bwrdd Iechyd, ac mae modiwl hyfforddiant ar-lein newydd ar gyfer Cymru Gyfan wedi cael ei greu at y diben hwn. Cafodd y cynnwys ei ddatblygu gan Dîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd, ac mae'r modiwl wedi cael ei rannu'n adrannau sy'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog.

Ochr yn ochr â chanolbwyntio ar Safonau'r Gymraeg a '*Mwy na Geiriau*', mae'r cwrs hefyd yn cynnwys uned 'Profiad Cleifion' sy'n rhyngweithiol ac yn gynhwysfawr. Mae'r is-adran hon yn cynnwys dwy stori wedi'u hanimeiddio, sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau gwirioneddol ac sy'n pwysleisio pwysigrwydd dewis iaith mewn perthynas ag asesu, diagnosis a chydsyniad.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch bod y prosiect pwysig hwn, a fydd yn hwyluso darparu gwasanaethau gofal iechyd dwyieithog ledled Cymru, wedi'i gwblhau'n llwyddiannus erbyn hyn, ac ni ellid fod wedi cyflawni hyn heb gymhelliant a dyfeisgarwch Tîm y Gymraeg. Cafodd y cwrs newydd ei lansio'n swyddogol ym mis Tachwedd 2022 ac mae wedi cael ei ddynodi fel hyfforddiant gorfodol i holl staff GIG Cymru.

Cynhaliwyd pumed digwyddiad blynyddol Wythnos y Gymraeg yn y Bwrdd Iechyd rhwng 17 a 21 Hydref 2022, a'r prif bwrpas oedd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darpariaeth gofal iechyd dwyieithog. Roedd hefyd yn gyfle i ddathlu'r gwaith ardderchog sy'n parhau i gael ei wneud gan ein staff er mwyn sicrhau bod ystod eang o wasanaethau'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cynhaliwyd gweithgareddau a digwyddiadau fel stondinau hyrwyddo mewn ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol i gynnig cymorth, adnoddau ac arweiniad i staff ar bynciau sy'n ymwneud â darpariaeth gwasanaeth dwyieithog. Cafodd digwyddiadau arbennig i ddysgwyr y Gymraeg, fel 'Cinio Clebran' eu cynnal i ddathlu dysgwyr ac ymgysylltu â nhw, gan gynnig amgylchedd cynnes a chyfeillgar i ymarfer eu sgiliau. O ganlyniad i gydweithio â Menter Iaith Fflint a Wrecsam, fel rhan o ddathliadau wythnos o hyd, cafodd digwyddiad ei gynnal yn Uned y Plant yn Ysbyty Maelor Wrecsam lle cafodd 'Magi Ann' (cymeriad Cymraeg i blant) groeso cynnes gan y cleifion ifanc ar y ward.

Roedd Wythnos y Gymraeg hefyd yn gyfle i ddangos sut mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei roi ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Cafodd fideo newydd yn ymwneud â phrofiad cleifion ei lansio, yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn rhagweithiol i blant a'u rhieni. Gwnaeth mam rannu ei phrofiad fel rhiant i blentyn bach sy'n derbyn triniaeth canser, a mynegodd faint o wahaniaeth y mae derbyn y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg wedi'i wneud iddynt fel teulu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i arwain y ffordd o ran cynnal cydymffurfiaeth eang â'r nodau a'r egwyddorion sy'n cael eu hyrwyddo yn *'Mwy na Geiriau'*, ac mae rhywfaint o waith y Bwrdd Iechyd yn hyn o beth naill ai'n cael ei lywio, ei arwain neu ei gefnogi gan Fforwm amlasiantaethol Mwy na Geiriau yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Fforwm, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau, gan gynnwys yr holl chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor, yn cyfarfod bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig y Bwrdd Iechyd (y Gorllewin).

Tîm Cymraeg y Bwrdd Iechyd oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu'r fforwm rhanbarthol pwysig, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â llais cryf a dylanwadol yn y grŵp hwn ac mae'n manteisio ar gyfleoedd gymaint â phosibl i gydweithio ar bob lefel.

## **Datblygu'r Gweithlu**

Mae tîm hyfforddiant Cymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall wrth greu a chyflwyno amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg er mwyn diwallu anghenion y sefydliad. Dros y flwyddyn, mae Tiwtor y Gymraeg wedi cynnig ystod o gyrsiau i dros 240 o aelodau o staff. Mae'r cyrsiau a'r ddarpariaeth wedi cael croeso cynnes, ac mae'r adborth yn dangos bod staff yn ddiochgar am y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i gynorthwyo eu datblygiad yn y gweithle.

Mae Tiwtor y Gymraeg yn parhau i weithio ar lefel strategol, trwy alinio hyfforddiant â gofynion deddfwriaethol, a chanfod unrhyw fylchau o ran dysgu yn y sefydliad. Ymhlith y cyrsiau a ddarparwyd oedd sesiynau blasu a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer meysydd gwahanol yn y sector iechyd e.e. cyrsiau derbynfa a blaen y tŷ, ateb ymholiadau ffôn a delio â'r ymholiadau hynny, a chadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog. Mae gwerthusiadau ac adborth wedi bod yn bositif, ac mae llawer o aelodau o staff wedi parhau â'u dysgu trwy gymryd rhan mewn gwersi wythnosol.

Cafodd contract deuddeg mis gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei adnewyddu hefyd o dan *'Gynllun Cymraeg Gwaith'* a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn sicrhau bod modd parhau â chyfleoedd i gydweithio, yn ogystal â chyflogi Swyddog Cefnogi Hyfforddiant.

Gwnaeth dysgwyr Cymraeg y Bwrdd Iechyd hefyd fynd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022, a gynhaliwyd yn Ninbych, a gwnaethant gymryd rhan mewn digwyddiad holi ac ateb ym mhafiliwn Llywodraeth Cymru gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn gyfle gwych i arddangos ein dysgwyr ac i ddathlu eu llwyddiant.

## Gwasanaethau Cyfieithu

Mae'r Tîm Cyfieithu yn parhau i roi cymorth o ran holl wasanaethau'r Bwrdd Iechyd ar ffurf cyfieithiadau ysgrifenedig a gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, ac mae wedi gweld cynnydd yn y galw dros y flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn ateb y galw, mae'r tîm wedi ehangu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gwasanaeth dwyieithog didor a phrydlon ar gyfer y cyhoedd yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae'r tîm yn parhau i sicrhau bod safonau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal o ran pob agwedd ar gyfieithu, ac mae'n sicrhau bod gwybodaeth amserol yn cael ei blaenoriaethu.

Mae'r tîm wedi parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu cadarn ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru trwy gytundeb lefel gwasanaeth, a bydd hyn yn parhau hyd at y flwyddyn adrodd nesaf. Yng ngoleuni llwyddiant y model hwn, bydd y Bwrdd Iechyd yn ehangu ei gymorth cyfieithu trwy fabwysiadu'r un cytundeb gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan dros y flwyddyn adrodd nesaf.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn llunio adroddiad blynyddol ar wahân yn canolbwyntio'n benodol ar Wasanaethau Cymraeg, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion adrodd a amlinellir yn Safonau'r Gymraeg. Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol a bydd ar gael o <https://bcuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/welsh-language/>.

### Llofnodwyd:

**Carol Shillabeer**  
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol Dros Dro

**Dyddiad: 24 Awst 2023**

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

#### Y Bwrdd

Ar ddechrau'r flwyddyn Cadeirydd y Bwrdd Iechyd oedd Mark Polin a'r Prif Weithredwr oedd Jo Whitehead.

Ymdeolodd Jo Whitehead ar 16 Tachwedd 2022 a Gill Harris oedd Prif Weithredwr Dros Dro o'r dyddiad hwnnw tan ddiwedd y flwyddyn. Yn dilyn hynny, ar 3 Mai 2023, penodwyd Carol Shillabeer i swydd y Prif Weithredwr Dros Dro.

Ar 27 Chwefror 2023 ymddiswyddodd Mark Polin fel Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, a phenodwyd Dyfed Edwards yn Gadeirydd Dros Dro. Ar yr un diwrnod, ymddiswyddodd Aelodau Annibynnol y Bwrdd hefyd, ac wedi hynny penodwyd Gareth Williams, Karen Balmer a Rhian Watcyn Jones yn Aelodau Annibynnol dros dro.

Ymunodd Angela Wood â ni ym mis Awst 2022 fel Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth, yn dilyn penodi Gill Harris yn Ddirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig.

Penodwyd Steve Webster yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ar 3 Ionawr 2023.

Ym mis Chwefror 2023, gwnaeth Sue Green, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, roi gwybod y byddai'n gadael y Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2023 i ymgymryd â rôl newydd gyda Chyflogwyr GIG Cymru.

Rhoddir manylion aelodaeth lawn y Bwrdd yn Atodiad 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalennau 31B i 32B), ac yn yr Adroddiad Tâl ar dudalennau 84 i 89 o'r ddogfen hon. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn nodi manylion llawn strwythur pwyllgorau ategol y Bwrdd (Adran 3.7 tudalen 4B) a'u haelodaeth (Atodiad 2 tudalennau 32B i 38B).

#### Datganiad o Fuddiannau Cyfarwyddwyr

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a allai effeithio ar eu didueddrwydd o ran eu gwaith o fewn y Bwrdd Iechyd.

Cyhoeddir y datganiadau a wnaed gan Gyfarwyddwyr ac Aelodau'r Bwrdd ar gyfer 2022/23 yn Nodyn 30 o'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalennau 70A i 72A y ddogfen hon, ac maent ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd ar <https://bipbc.gig.cymru/amdanom-ni/cyfarfodydd-ac-aelodau-r-bwrdd/aelodau-r-bwrdd-iechyd/>

## Y Pwyllgor Archwilio

Yn unol â'r safonau llywodraethu da sy'n ofynnol gan y GIG yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor Archwilio rôl allweddol o gynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd bod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith a'i fod yn cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn. Roedd ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Cadeirydd	Y Cyng Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol (hyd at 27 Chwefror 2023) (Bydd Karen Balmer, Aelod Annibynnol dros dro yn dod yn Gadeirydd ym mis Mai 2023)
Aelodau	Jacqueline Hughes	Aelod Annibynnol (hyd at 27 Chwefror 2023)
	Richard Micklewright	Aelod Annibynnol (hyd at 27 Chwefror 2023)
	(Bydd Gareth Williams, Aelod Annibynnol dros dro yn dod yn aelod ym mis Mai 2023)	
Yn bresennol (Cyfarwyddwr Arweiniol)	Molly Marcu	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro

## Diogelwch Data

Yn ystod 2022/23, y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol oedd yn bennaf gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol Cydymffurfiaeth a Rheoli Busnes yn ymgymryd â'r rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott penodedig y Bwrdd Iechyd, a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yw'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO). Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwn i'r Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth ym mis Ionawr 2023.

Hunangofnododd y Bwrdd Iechyd saith o doriadau diogelwch data a ysgogodd gyfeiriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a Llywodraeth Cymru. Mae'r holl ddioglyddiadau hunangofnodedig wedi'u cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach oherwydd y camau gweithredu a'r gwelliannau uniongyrchol a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd. Gwnaeth yr ICO ddeuddeg argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd gan gynnwys:

- Gwirio bod polisiau a gweithdrefnau'n dal i fod yn addas at eu diben ac y dylai'r holl staff sy'n trin data personol dderbyn hyfforddiant diogelu data rheolaidd.
- Adolygu'r rheolaethau sydd ar waith o amgylch data personol i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel. Cynnal archwiliadau cyfnodol, gan gynnwys archwiliadau prosiect penodol, i fonitro a yw staff yn cadw at bolisiau a gweithdrefnau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth.
- Profi effeithiolrwydd y mesurau sydd gan bartneriaid prosiect ar y cyd yn rheolaidd, gan gynnwys gwirio ar hap a yw eu staff yn cadw at fesurau megis y polisi defnydd derbyniol.
- Sicrhau bod unrhyw systemau a phrosesau newydd, megis y cytundeb lefel gwasanaeth, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod yr amodau ar gyfer diogelu data, mynediad at gofnodion, a hyfforddiant yn cael eu bodloni.
- Adolygu prosesau ar gyfer dogfennau copi caled i sicrhau bod y rhain yn cael eu storio'n briodol. Ystyried rhoi log ar waith i staff lofnodi dogfennau i mewn ac allan oherwydd gallai hyn helpu i olrhain dogfennau ac ystyried a ellid darparu a storio'r wybodaeth hon yn electronig.
- Sicrhau bod y canllawiau ar sut i uwchgyfeirio gwrthdaro buddiannau posibl yn cael eu cyfleu i'r holl staff a'u bod ar gael yn hawdd pan gânt eu cynhyrchu.

Mae'r holl argymhellion hyn wedi'u gweithredu neu'n mynd i gael eu gweithredu gan y Bwrdd Iechyd ac yn cael eu monitro gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Ni chafodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gosb ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'n toriadau data llywodraethu gwybodaeth wedi'i chynnwys ym mharagraff 12.5 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalen 16B).

### **Cydymffurfio â Gofynion Dyrannu Costau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r holl wybodaeth nad yw'n bersonol a gedwir gan gorff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, oni bai bod cost neu eithriad yn berthnasol.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon, ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ac ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi: <https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/>

## **Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr Dros Dro fel Swyddog Atebol y BILI**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorchymyn mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Bwrdd Iechyd.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau, cyn belled ag y gŵyr ef neu hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd y camau priodol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i ddangos bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae gofyn i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am y rhain a'r dyfarniad angenrheidiol ar gyfer pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd y gwn i ac y creda i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a fynegwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn gywir.

**Llofnod:**

**Carol Shillabeer**  
**Swyddog Atebol a Phrif Weithredwr Dros Dro**

**Dyddiad: 24<sup>th</sup> Awst 2023**

## Datganiad ar Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae gofyn i'r Cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, â chymeradwyaeth y Trysorlys, yn gorchymyn y dylai'r cyfrifon hyn gyfleu darlun gwir a theg o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso'n gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a bennir gan Weinidogion Cymru â chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- datgan p'un ai a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau sylweddol a ddatgelir neu a esbonnir yn yr adroddiad.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr awdurdod ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru a grybwyllir uchod.

### Trwy Orchymyn y Bwrdd

#### Llofnod

**Dyfed Edwards**  
Cadeirydd Dros Dro  
24 Awst 2023

**Carol Shillabeer**  
Prif Weithredwr Dros Dro  
24 Awst 2023

**Russell Caldicott**  
Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro  
24 Awst 2023

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau, a'r system rheolaeth fewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd;
- Ein trefniadau i reoli risg a'r meysydd risg allweddol a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd;
- Prosesau Ansawdd a Llywodraethu;
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Adolygiadau allanol annibynnol o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd a materion a nodwyd;
- Ein trefniadau cynllunio;
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb i gael ei roi mewn Mesurau Arbennig.

Caiff Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn ei ddarparu fel atodiad i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

### Polisiau ynghylch Tâl Staff ac Uwch Reolwyr

Y diffiniad o Uwch Reolwyr yw'r rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo a rheoli gweithgareddau mawr y Bwrdd Iechyd cyfan; mae'r diffiniad hwn yn cynnwys y gweithwyr a'r Aelodau Annibynnol hynny sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Caiff enwau a theitlau aelodau'r Bwrdd eu datgelu yn y tabl o gyflogau isod.

Yn Hydref 2004, cyflwynwyd proses Agenda ar gyfer Newid y GIG, i gyflawni cysondeb o ran contractau ac amodau a thelerau ar draws GIG Cymru. Rhoddir contract Cymru gyfan i'r holl staff a'r rheolwyr (ac eithrio cyfarwyddwyr) pan gânt eu penodi.

O 1<sup>af</sup> Ebrill 2022 ymlaen, bu cynnydd cyfunol o £1,400 i bob pwynt cyflog ar yr Agenda ar gyfer Newid. Mae Band 7 a brig Band 6 wedi cael cynnydd ychwanegol cyfwerth â 4%. Cafodd Bandiau 1 a 2 gynnydd gwerth £1,400 o godiad ar ben y swm atodol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru sydd eisoes wedi'i dderbyn ers 1<sup>af</sup> Ebrill 2022 er mwyn cyd-fynd â'r addewid ynghylch y Cyflog Byw Go lawn. Fel rhan o'r cytundeb cyflog aml-flwyddyn blaenorol (2018-2021), cwblhawyd y gwaith o ddiwygio bandiau 8a-9 a daeth hynny i rym ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2020 pan symudodd y bandiau cyflog i strwythur dau bwynt; pwynt mynediad a phwynt uchaf. Mae nifer o staff sydd, o 1<sup>af</sup> Ebrill 2020 ymlaen, wedi cael taliad cyfunol i sicrhau y cyflawnir y cymal 'dim anfantais' yn y cytundeb fframwaith.

Gweithredwyd taliad ychwanegol anghyfunol o 1.5% ar gyfer y sawl sydd ar fandiau 1-9 yr Agenda ar gyfer Newid; cafodd hyn ei roi ar waith ym mis Mawrth 2023. Mae hwn yn daliad anghyfunol ac amhensiynadwy ac nid yw'n cynyddu unrhyw gyfraddau fesul awr.

Cafodd taliad cyfunol ychwanegol o 1.5% ei roi ar gyfer y rhai sydd ar fandiau 1-9 yr Agenda ar gyfer Newid; cafodd hyn ei roi ar waith ym mis Mai 2023.

Rhoddwyd taliad untro ychwanegol adfer y GIG ym mis Mehefin 2023, gyda gwerth cyfartalog o £3%. Mae taliad Adfer y GIG yn daliad dosranedig untro anghyfunol ar gyfer staff parhaol a gweithwyr banc ar y sail ganlynol:

- Band 1 i 4	£900
- Band 5 i 8a	£1,005
- Band 8b i 8c	£1,050
- Band 8d	£1,100
- Band 9	£1,190

Mae GIG Cymru wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw. Felly, caiff cyflog staff sydd islaw ffigur gofynnol Cyflog Byw ei addasu i gyrraedd cyfradd fesul awr y Cyflog Byw. Ar gyfer 2022/23, cafodd cyflog staff ym Mand 1 yr Agenda ar gyfer Newid (pwyntiau cyflog 1 i 3) a Band 2 (pwyntiau cyflog 1 i 2) ei addasu i sicrhau'r gyfradd ofynnol sef £9.90 fesul awr.

Llywodraethir staff meddygol a staff deintyddol gan amodau a thelerau meddygon a deintyddion sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru. Cafodd y gweithwyr hyn gynnydd o 4.5% i'w cyflog sylfaenol a chafodd y cynnydd ei ôl-ddyddio i 1<sup>af</sup> Ebrill 2022. Gweithredwyd taliad ychwanegol anghyfunol untro o 1.5% ar gyfer y sawl a gyflogir yn unol â thelerau ac amodau Meddygol a Deintyddol. Mae hwn yn daliad anghyfunol ac amhensiynadwy ac nid yw'n cynyddu unrhyw gyfraddau fesul awr.

Nid yw Cyfarwyddwyr Gweithredol yn rhan o'r broses hon a chânt eu talu ar raddfa gyflog uwch rheolwyr ar wahân a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl ar y lefel genedlaethol a defnyddir y dyfarniadau yn lleol ar sail cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Ar gyfer 2022/23, bu cynnydd cyfunol o £1400 yn achos yr holl bwyntiau cyflog ar gyfer unigolion sydd â swyddi gweithredwyr ac uwch. Yn ogystal, cafodd taliad ychwanegol anghyfunol untro o 1.5% ei roi ym mis Mawrth 2023. Taliad anghyfunol ac anhensiynadwy yw hwn ac nid yw'n uwchraddio unrhyw gyfraddau fesul awr. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system dâl ar sail perfformiad ar gyfer rheolwyr ar lefelau uchel iawn. Mae'r holl gontractau ar gyfer rolau parhaol yn barhaol a thri mis yw'r cyfnod o rybudd yn achos rheolwyr ar lefelau uchel iawn.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd (a gellir eu penodi am uchafswm o wyth mlynedd). Mae Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl a benderfynir arno ar y lefel genedlaethol yn ystod eu penodiad.

## Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

Bwriad y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yw cynnig sicrwydd a chynngor i'r Bwrdd ynghylch tâl a thelerau gwasanaeth tîm gweithredwyr ac aelodau eraill o'r staff uwch, nid ynghylch tâl yr Agenda ar gyfer Newid. Mae hefyd yn cynnig sicrwydd ynghylch trefniadau tâl a thelerau gwasanaeth ar gyfer yr holl staff ac mae'n cyflawni swyddogaethau dirprwyedig penodol. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd ar y pryd, Mark Polin.

Roedd y Pwyllgor wedi'i amserlennu fel mater o drefn i gyfarfod bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd ac ar adegau eraill pe bai'r Cadeirydd yn ystyried bod hynny'n ofynnol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith.

Dyma oedd prif eitemau allweddol yr agenda a ystyriwyd yn ystod cyfnod adrodd 2022/23:

- Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor;
- Diweddarau telerau ac amodau cenedlaethol, polisi a thâl;
- Adroddiad Tribiwnlys a chynnig ar bamedrau ar gyfer achosion disgyblu amlwg a thribiwnlysoedd cyflogaeth;
- Diweddariad ynghylch Uwch Reolwyr Dros Dro;
- Ymddygiad, Gallu ac Iechyd Meddygon a Deintyddion;
- Adroddiad gan Aelod Penodedig y Bwrdd ar Gynnal Safonau Proffesiynol yng Nghymru (UPSW);
- Penodi Prif Swyddog Gweithredol;
- Strwythur Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd;
- Penodi a Newid Cyfarwyddwr Gweithredol gan gynnwys newidiadau i Bortffolios;
- Adolygiad Perfformiad a Datblygu - Prif Weithredwr;
- Ailgylchu Pensiynau;
- Diweddariad ynghylch y Model Gweithredu a Rhyddhau yn Gynnar yn Wirfoddol;
- Codi Tâl Gweithwyr a Chyflogau sydd ar gyfraddau tâl ad hoc.

Y canlynol oedd aelodau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

Cadeirydd	Mark Polin	Cadeirydd y Bwrdd Iechyd (hyd at 27 Chwefror 2023)
Aelodau	Lucy Reid	Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd (hyd at 27 Chwefror 2023)
	Cyng. Medwyn Hughes	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (hyd at 27 Chwefror 2023)
	Jacqueline Hughes	Aelod Annibynnol (hyd at 27 Chwefror 2023)
Yn bresennol	Jo Whitehead	Prif Weithredwr (hyd at 16 Tachwedd 2022)
	Gill Harris	Prif Weithredwr Dros Dro (o 17 Tachwedd 2022)
	Nick Lyons	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
	Sue Green / Jason Brannan	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol / Dirprwy
	Molly Marcu	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd

## Perthnasoedd Tâl

Mae'n ofynnol i gyrrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr / gweithiwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Nodyn 9.6 i'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalennau 35A-36A yn y ddogfen hon.

Ar gyfer staff cymwys y GIG, rhoddwyd taliad anghyfunol untro o 1.5% yn ystod y flwyddyn ariannol ynghyd â dyfarniad cyflog cyfunol ychwanegol o 1.5% wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2022, a fydd yn cael ei dalu yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Ni chynhwysir y rhain yng nghyfrifiadau'r Adroddiad Tâl.

Y swydd cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn ystod 2022/23 oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn 2021/22 swydd y Prif Swyddog Gweithredol oedd â'r cyflog uchaf. Ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf (o gymharu â 16 o weithwyr yn 2021/22).

## Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000

Mae Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhoi arweiniad ar dryloywder pecynnau tâl ar gyfer cyrff y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i becynnau sy'n werth mwy na £100,000 gael eu datgelu mewn bandiau o £5,000. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r rheiny sy'n derbyn dros £100,000, a chaiff rhagor o fanylion eu darparu yn yr ail dabl.

Grŵp Staff	Nifer y Pecynnau Tâl dros £100,000
Y Prif Weithredwr ac Aelodau Gweithredol y Bwrdd	10
Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill	49
Staff Clinigol	619
Staff clinigol asiantaethau (net o'r comisiwn rhagamcanedig)	72

£'000	Prif Weithredwr ac Aelodau'r Bwrdd	Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill	Staff Clinigol	Asiantaethau
100 - 105	-	7	38	6
105 - 110	-	6	27	7
110 - 115	1	10	40	6
115 - 120	-	5	32	6
120 - 125	-	3	36	3
125 - 130	-	3	36	2
130 - 135	-	2	32	7
135 - 140	1	1	44	3
140 - 145	-	1	32	-
145 - 150	1	1	29	2
150 - 155	2	3	34	2
155 - 160	-	1	35	1
160 - 165	-	1	30	-
165 - 170	-	-	31	2
170 - 175	-	-	26	3
175 - 180	1	-	16	1
180 - 185	-	1	13	-
185 - 190	1	1	14	4
190 - 195	1	-	13	2
195 - 200	-	1	9	3
200 - 205	-	-	5	1
205 - 210	-	1	8	1
210 - 215	1	-	6	-
215 - 220	-	-	4	2
220 - 225	-	-	3	-
225 - 230	-	-	2	2
230 - 235	-	-	3	1
235 - 240	-	-	3	1
240 - 245	1	-	3	1
245 - 250	-	-	1	-
250 - 255	-	-	-	1
255 - 260	-	-	2	-
260 - 265	-	-	2	-
265 - 270	-	-	1	-
270 - 275	-	-	2	-
275 - 280	-	-	2	-
280 - 285	-	-	1	-
285 - 290	-	-	1	1
290 - 295	-	-	-	-
295 - 300	-	-	-	-
300 - 305	-	-	-	-
305 - 310	-	-	-	-
310 - 315	1	-	2	-
315 - 320	-	-	1	-
320 - 325	-	-	-	-
325 - 330	-	-	-	-
330 - 335	-	-	-	-
335 - 340	-	-	-	-
340 - 345	-	-	-	-
345 - 350	-	-	-	-
350 - 355	-	-	-	-
355 - 360	-	-	-	-
360 - 365	-	-	-	1
365 - 370	-	-	-	-
370 - 375	-	-	-	-

£'000	Prif Weithredwr ac Aelodau'r Bwrdd	Cyfarwyddwyr ac Uwch Reolwyr eraill	Staff Clinigol	Asiantaethau
375 - 380	-	-	-	-
380 - 385	-	-	-	-
385 - 390	-	-	-	-
390 - 395	-	-	-	-
395 - 400	-	-	-	-
400 - 405	-	-	-	-
405 - 410	-	-	-	-
410 - 415	-	-	-	-
415 - 420	-	-	-	-
420 - 425	-	-	-	-
425 - 430	-	1	-	-
<b>Total</b>	11	49	619	72

## Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo

Mae manylion yr holl daliadau diswyddo y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn ar gael yn Nodyn 9.5 i'r Cyfrifon Blynyddol, ar dudalen 34A yn y ddogfen hon.

## Cyflog Uwch Reolwyr a Datgeliadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigur Tâl

Mae cyfanswm y ffigurau yn y tabl isod (Cyfanswm y Ffigur Tâl Unigol) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigur ar gyfer buddion pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan Asiantaeth Bensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigur hwn yn cynrychioli'r swm gwirioneddol a gafodd ei dalu i unigolyn yn ystod y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu asesiad cyfrifyddu o'r cynnydd mewn buddion hirdymor wedi'u haddasu am chwyddiant. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn gan gynnwys newidiadau i gyflog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wnaed gan unigolion a ffactorau prisio isorweddol ar y cynllun cyfan.

**Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV)** yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn wedi'i asesu gan actiwariaid sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddion wedi'u prisio yw buddion yr aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn i briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddion sydd wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan â'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn rôl uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi. Mae ffigurau CETV a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn arall mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Caiff CETVs eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a bennir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.

**Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV:** Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr i bob pwrpas. Mae'n ystyried y cynnydd o ran pensiwn wedi'i gronni oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion sy'n cael eu trosglwyddo o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)	Cyflog	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)
	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000
<b>J Whitehead</b> Prif Weithredwr 01/04/22 - 15/11/22	175-180 ( <i>nodyn 1</i> )	3,200	-- ( <i>nodyn 1</i> )	<b>180-185</b>	220-225	220-225	5,700	20	<b>245-250</b>	--
<b>G Harris</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Clinigol Integredig a Dirprwy Brif Weithredwr 01/04/22 - 15/11/22	115-120 ( <i>nodyn 2</i> )	--	-- ( <i>nodyn 2</i> )	<b>115-120</b>	175-180	175-180	--	--	<b>175-180</b>	--
Prif Weithredwr Dros Dro 16/11/22 - 31/03/23	75-80	--	--	<b>75-80</b>	205-210					
<b>Yr Athro A Guha</b> Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro 01/04/21 - 22/08/21						95-100	--	--	<b>95-100</b>	230-235
<b>Dr N Lyons</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol 01/04/22 - 15/11/22 Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr 16/11/22 - 31/03/23	205-210 ( <i>nodyn 3</i> )	--	-- ( <i>nodyn 3</i> )	<b>205-210</b>	210-215	120-125	--	--	<b>120-125</b>	200-205

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)	Cyflog	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)
	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000
<b>Dr J C Stockport</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu. 01/04/22 - 31/03/23	155-160 (nodyn 4)	5,900	-- (nodyn 4)	<b>160-165</b>	--	145-150	6,000	--	<b>150-155</b>	--
<b>T Owen</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/04/22 - 31/03/23	145-150 (nodyn 5)	--	22	<b>165-170</b>	--	140-145	--	90	<b>230-235</b>	--
<b>A Thomas</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd 01/04/22 - 16/10/22	185-190 (nodyn 6)	--	-- (nodyn 6)	<b>185-190</b>	110-115	110-115	--	53	<b>160-165</b>	--
<b>S G Evans</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Dros Dro 01/04/22 - 31/03/23	115-120	3,100 (nodyn 7)	32	<b>150-155</b>	--	5-10	--	--	<b>5-10</b>	110-115
<b>S Hill</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid 01/04/22 - 31/03/23	150-155 (nodyn 8)	--	37	<b>185-190</b>	--	145-150	--	40	<b>185-190</b>	--

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)	Cyflog	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)
	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000
<b>R Nolan</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro 02/09/22 - 12/10/22	15-20 (nodyn 9)	--	--	<b>15-20</b>	135-140					
<b>S Webster</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro 03/01/23 - 31/03/23	75-80	--	--	<b>75-80</b>	305-310					
<b>M Wilkinson</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad 01/04/21 - 24/08/21						60-65	--		<b>60-65</b>	145-150
<b>S Green</b> Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol 01/04/22 - 31/03/23	150-155	--	15	<b>165-170</b>	--	145-150	--	42	<b>185-190</b>	--
<b>G Thomason</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/04/22 - 31/07/22	105-110 (nodyn 11)	--	--	<b>105-110</b>	465-470					

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)	Cyflog	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)
	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000
<b>A Wood</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/08/22 - 31/03/23	90-95	--	-- (nodyn 12)	<b>90-95</b>	135-140					
<b>M Marcu</b> Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro 01/04/22 - 31/03/23	-- (nodyn 13)	--	--	--	--					
<b>A L Breton</b> Ysgrifennydd y Bwrdd 01/04/22 - 03/04/22	0-5	--	-- (nodyn 14)	<b>0-5</b>	100-105	100-105	--	55	<b>155-160</b>	--
<b>M Polin</b> Cadeirydd 01/04/22 - 27/02/23	80-85 (nodyn 15)	--	--	<b>80-85</b>	65-70	65-70	--	--	<b>65-70</b>	--
<b>D Edwards</b> Cadeirydd 27/02/23 - 31/03/23	5-10	--	--	<b>5-10</b>	65-70					
<b>L Reid</b> Is-gadeirydd 01/04/22 - 27/02/23	65-70 (nodyn 16)	--	--	<b>65-70</b>	55-60	55-60	--	--	<b>55-60</b>	--
<b>Cyng. C Carlisle</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 17)	--	--	<b>15-20</b>	15-20	15-20	--	--	<b>15-20</b>	--

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)	Cyflog	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)
	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000
<b>J Cunliffe</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 18)	--	--	<b>15-20</b>	15-20	15-20	--	--	<b>15-20</b>	--
<b>Cyng. R M Hughes</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 19)	--	--	<b>15-20</b>	15-20	15-20	--	--	<b>15-20</b>	--
<b>E L Tomos</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 20)	--	--	<b>15-20</b>	15-20	15-20	--	--	<b>15-20</b>	--
<b>J Hughes</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	-- (nodyn 21)	--	--	--	--	--	--	--	--	--
<b>Yr Athro N Callow</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	-- (nodyn 22)	--	--	--	--	--	--	--	--	--
<b>R Micklewright</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 23)	--	--	<b>15-20</b>	15-20	5-10	--	--	<b>5-10</b>	15-20
<b>H Hesketh Evans OBE</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 24)	--	--	<b>15-20</b>	15-20					

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*  (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau  (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn  (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm  (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)  £'000	Cyflog  (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau  (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn  (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm  (bandiau o £5,000) £'000	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)  £'000
<b>J Gallanders BEM</b> Aelod Annibynnol 01/04/22 - 27/02/23	15-20 (nodyn 25)	--	--	<b>15-20</b>	15-20	5-10	--	--	<b>5-10</b>	15-20
<b>R Watcyn Jones</b> Aelod Annibynnol 27/02/23 - 31/03/23	0-5	--	--	<b>0-5</b>	15-20					
<b>K Balmer</b> Aelod Annibynnol 27/02/23 - 31/03/23	0-5	--	--	<b>0-5</b>	15-20					
<b>G Williams</b> Aelod Annibynnol 27/02/23 - 31/03/23	0-5	--	--	<b>0-5</b>	15-20					
<b>L Meadows</b> Aelod Annibynnol 01/04/21 - 31/03/22						15-20	--	--	<b>15-20</b>	--
<b>H E Jones</b> Aelod Annibynnol 01/04/21 - 31/08/21						5-10	--	--	<b>5-10</b>	15-20
<b>S G Evans</b> Aelod Cyswllt o'r Bwrdd 01/04/21 - 28/02/22						-- (nodyn 7)	--	--	--	--

Enw a Rôl	2022/23					2021/22				
	Cyflog*	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)	Cyflog	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm	Cyflog cyfwerth ag amser llawn (os yw'n flwyddyn rannol)
	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000	(bandiau o £5,000) £'000	(i'r £100 agosaf) £	(i'r £1,000 agosaf) £'000	(bandiau o £5,000) £'000	£'000
<b>M Edwards</b> Aelod Cyswllt o'r Bwrdd 01/04/22 - 25/06/22	-- (nodyn 26)	--	--	--	--	--	--	--	--	--
<b>C Budden</b> Aelod Cyswllt o'r Bwrdd 01/04/22 - 31/03/23	-- (nodyn 26)	--	--	--	--	--	--	--	--	--
<b>J Wild</b> Aelod Cyswllt o'r Bwrdd 01/04/22 - 31/03/23	-- (nodyn 26)	--	--	--	--					
<b>F Roberts</b> Aelod Cyswllt o'r Bwrdd 29/07/22 - 31/03/23	-- (nodyn 26)	--	--	--	--					

## Nodiadau

- \* Mae'r holl dâl a roddir i unigolion wedi'i adlewyrchu yn y tabl uchod gan gynnwys unrhyw daliadau yn lle rhybudd lle bo'n berthnasol.
1. Bu J Whitehead y Prif Weithredwr yn ei swydd tan 15 Tachwedd 2022. Mae costau'r cyflog yn cynnwys cyfnod o wyliau blynyddol gwerth £2,556 a thâl yn lle rhybudd gwerth £34,234. Cafodd y gweithiwr fuddion gwerth £3,000 ond dewisodd beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol.
  2. Cyfarwyddwr Gweithredol Darpariaeth Glinigol Integredig yw swydd barhaol G Harris, am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 tan 15 Tachwedd 2022. Gan fod y Prif Weithredwr wedi gadael ei swydd yn gynnar, daeth G Harris yn Brif Weithredwr Dros Dro o 16eg Tachwedd 2022 ymlaen. Gwnaeth y gweithiwr werthu gwyliau blynyddol gwerth £4,027 yn ôl i'r sefydliad a dewisodd beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
  3. Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw swydd barhaol Dr N Lyons. Mae lwfans cyfrifoldeb o £3,750 wedi'i gynnwys yn y cyflog ar gyfer swydd Dirprwy Brif Weithredwr dros dro o 16 Tachwedd 2022 ymlaen. Dewisodd y gweithiwr i beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
  4. Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio a Chomisiynu yw swydd Dr J Stockport o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae costau cyflog yn cynnwys gwyliau blynyddol gwerth £5,674 a werthwyd yn ôl i'r sefydliad a buddion o £5,900. Dewisodd y gweithiwr i beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
  5. Mae T Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus yn derbyn lwfans cyfrifoldeb ychwanegol o £10,000 i gyflawni swydd Arweinydd Gweithredol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
  6. Mae A Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd wedi bod ar absenoldeb salwch hirdymor ac ymddeolodd ar 16 Hydref 2022. Mae hanes ei gyflog yn cynnwys cyfnod o wyliau blynyddol gwerth £14,000 a phhecyn setlo o £111,798. Dewisodd y gweithiwr hwn i beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol.
  7. S G Evans yw Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd ers 1af Mawrth 2022. Mae costau cyflog yn cynnwys buddion mewn nwyddau gwerth £3,100. Cyn 1 Mawrth 2022, roedd S G Evans wedi'i gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac roedd yn Aelod Cyswllt o'r Bwrdd ac yn Gadeirydd y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol. Nid oedd S G Evans yn derbyn tâl am ei rôl fel Aelod Cyswllt o'r Bwrdd. Ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn a buddion mewn nwyddau sy'n ymwneud yn unig â'r rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
  8. Bu S Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar gyfnod absenoldeb ar 31 Mawrth 2023, o 5 Rhagfyr ymlaen.
  9. R Nolan oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro ar gyfer y cyfnod o 2 Medi 2022 tan 12 Hydref 2022. Ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn a buddion mewn nwyddau sy'n ymwneud yn unig â'r rôl fel Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro.
  10. S Webster, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro o 3 Ionawr 2023 ymlaen. Dewisodd y gweithiwr i beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG.

11. G Thomason oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro am y cyfnod o 1 Ebrill 2022 tan 31 Gorffennaf 2022. Roedd y gweithiwr yn destun telerau ac amodau banc a dewisodd i beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG.
12. Dechreuodd A Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn ei swydd o 1 Awst 2022. Gwnaeth y gweithiwr yma ymuno â'r sefydliad hanner ffordd trwy'r flwyddyn ac ni fu'n bosibl rhannu'r cynnydd mewn budd-dal pensiwn rhwng y Bwrdd Iechyd a chyflogwr blaenorol A Wood..
13. Dewisodd A Brereton, Ysgrifennydd y Bwrdd, i beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol.
14. Dechreuodd M Marcu, Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro yn ei swydd o 4 Ebrill 2022. Cafodd swydd Ysgrifennydd y Bwrdd ei chyflawni trwy asiantaeth, cyfanswm y gost oedd £243,625. Ni all y Bwrdd Iechyd bennu'r cyflog unigol ond caiff ei asesu o fewn cwmpas prosesau pennu trethi IR35.
15. Gadawodd M Polin, Cadeirydd, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
16. Gadawodd L Reid, Is-gadeirydd, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
17. Gadawodd C Carlisle, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
18. Gadawodd J Cunliffe, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
19. Gadawodd R M Hughes, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
20. Gadawodd E L Tomas, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023.
21. Mae J Hughes wedi'i chyflogi gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n Aelod Annibynnol sy'n dod o gefndir Undebau Llafur. Gadawodd J Hughes y rôl fel Aelod Annibynnol o 27 Chwefror 2023 ymlaen. Nid oedd J Hughes yn cael ei thalu am ei rôl Aelod Annibynnol.
22. Gadawodd yr Athro N Callow, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen. Yr Athro N Callow oedd cynrychiolydd y Brifysgol ar y Bwrdd ac nid oedd yn cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd.
23. Gadawodd R Micklewright, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
24. Gadawodd H Hesketh Evans OBE, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
25. Gadawodd J Gallanders, Aelod Annibynnol, y sefydliad o 27 Chwefror 2023 ymlaen.
26. Mae Aelodau Cyswllt y Bwrdd M Edwards, C Budden, J Wild a F Roberts yn gynrychiolwyr ar y bwrdd ac nid ydynt yn derbyn tâl gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r rolau hyn.

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig  (bandiau o £2,500) <b>£'000</b>	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad  (bandiau o £2,500) <b>£'000</b>	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023  (bandiau o £5,000) <b>£'000</b>	Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023  (bandiau o £5,000) <b>£'000</b>	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022  <b>£'000</b>	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2023  <b>£'000</b>	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod  <b>£'000</b>	Nodiadau
<b>J Whitehead</b> Prif Weithredwr 01/04/22 - 15/11/22	--	--	--	--	176	--	--	<i>nodyn 1</i>
<b>G Harris</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflawni Clinigol Integredig a Dirprwy Brif Weithredwr; Prif Weithredwr Dros Dro 01/04/22 – 31/03/23	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
<b>Dr N Lyons</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol 01/04/22 - 31/03/23	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
<b>A Thomas</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd 01/04/22 - 16/10/22	--	--	--	--	1,169	--	--	<i>nodyn 1</i>

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig  (bandiau o £2,500) <b>£'000</b>	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad  (bandiau o £2,500) <b>£'000</b>	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023  (bandiau o £5,000) <b>£'000</b>	Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023  (bandiau o £5,000) <b>£'000</b>	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022  <b>£'000</b>	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2023  <b>£'000</b>	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod  <b>£'000</b>	Nodiadau
<b>S G Evans</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd 01/04/22 -31/03/23	0-2.5	(0-2.5)	45-50	95-100	834	911	38	
<b>Dr J C Stockport</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu.. 01/04/22 -31/03/23	--	--	--	--	--	--	--	<i>nodyn 2</i>
<b>T Owen</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/04/22 - 31/03/23	0-2.5	(0-2.5)	60-65	115-120	1,065	1,144	26	
<b>S Hill</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid 01/04/22 - 31/03/23	2.5-5.0	--	25-30	--	310	368	28	

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig  (bandiau o £2,500) <b>£'000</b>	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad  (bandiau o £2,500) <b>£'000</b>	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023  (bandiau o £5,000) <b>£'000</b>	Cyfandaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023  (bandiau o £5,000) <b>£'000</b>	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2022  <b>£'000</b>	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2023  <b>£'000</b>	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod  <b>£'000</b>	Nodiadau
<b>R Nolan</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dro Dro 02/09/22 - 12/10/22	0-2.5	(0-2.5)	55-60	120-125	1080	1168	38	<i>nodyn 3</i>
<b>A Wood</b> Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth 01/08/22 - 31/03/23	20.0-22.5	25.0-30.0	30-35	40-45	--	543	348	
<b>S Green</b> Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol 01/04/22 - 31/03/23	0-2.5	(0-2.5)	30-35	35-40	449	497	12	
<b>A L Brereton</b> Ysgrifennydd y Bwrdd 01/04/22 - 03/04/22	0-2.5	0	10-15	0	149	157	0	

## Nodiadau

1. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol.
2. Dewisodd y gweithwyr hyn beidio â manteisio ar drefniadau pensiwn y GIG yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r flwyddyn adrodd bresennol.
3. R Nolan oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid am y cyfnod o 2 Medi 2022 tan 12 Hydref 2022. Oddi allan i'r cyfnod hwn, cafodd R Nolan gyflogi gan y Bwrdd Iechyd mewn swydd barhaol ac ni fu'n bosibl cyfrifo'r elfen o fuddion pensiwn sy'n ymwneud yn unig â rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.

## Adroddiad Staff

Adroddir ar nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) a gyflogwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2022/23 isod.

Grŵp Proffesiynol	FTE Cyfartalog 2022/23
Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	694
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	3,615
Gweinyddol a Chlercyddol	3,503
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,156
Ystadau ac Ategol	1,328
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	261
Meddygol a Deintyddol	1,626
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	5,291
Myfyrwyr	20
<b>Cyfanswm</b>	<b>17,494</b>

Roedd nifer gwirioneddol y staff yn eu swyddi ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2023 yn 20,284 ac mae manylion y gymysgedd o ran y rhywiau i'w gweld yn y tabl isod.

Cymysgedd Staff	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Cyfarwyddwr	5	3	8
Rheolwr (Band 8c neu'n uwch)	132	79	211
Staff	16,212	3,853	20,065
<b>Cyfanswm</b>	<b>16,349</b>	<b>3,935</b>	<b>20,284</b>

\*At ddiben yr adroddiad hwn, diffinnir rheolwr fel aelod o staff ar Fand 8c neu'n uwch (neu lefel gyfatebol ar gyfer staff meddygol) sydd wedi'i leoli mewn swyddogaeth gorfforaethol neu Uwch Adran weithredol sydd â chyfrifoldebau sylweddol fel rheolwr neu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan. Nid yw rheolwyr yn cynnwys swyddi Nyrsys Ymgynghorol, Bydwragedd Ymgynghorol a Gwyddonwyr Clinigol Ymgynghorol

Mae'r data ynghylch absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2022/23 i'w gweld isod:

	2021/22	2022/23
Diwrnodau FTE a gollwyd (hirdymor)* <sup>1</sup>	259,713	241,743
Diwrnodau FTE a gollwyd (byrdymor)* <sup>1</sup>	118,023	150,885
<b>Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd</b>	<b>377,736</b>	<b>392,628</b>
Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	14	14
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer yr unigolion)* <sup>2</sup>	19,066	19,694
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn ystod cyfnod na fu'n absennol o gwbl (nifer yr unigolion)* <sup>2</sup>	5,457	4,985
Canran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch* <sup>3</sup>	30.48%	24.71%

\*1 - Caiff y ffigurau hyn eu cyfrifo ar sail Cyfwerth ag Amser Llawn. Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei fesur gan ddefnyddio diwrnodau calendr ar system y Cofnod Staff Electronig, sy'n cynnwys yr holl ddiwrnodau o ddechrau hyd at ddiwedd cyfnod absenoldeb, yn cynnwys penwythnosau neu ddiwrnodau pan na fyddai aelod o staff wedi cael ei roi ar y rhestr ddyletswyddau i weithio. Felly mae nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd yn is na'r ffigur sy'n ymwneud â diwrnodau a gollwyd. Sylwch fod hyn yn cynnwys staff newydd a ddechreuodd yn ystod y cyfnod adrodd fel yr argymhellir gan safonau data Cymru Gyfan.

\*2 - Cyfartaledd dros 12 mis. Sylwch fod hyn yn cynnwys staff newydd a ddechreuodd yn ystod y cyfnod adrodd fel yr argymhellir gan safonau data Cymru Gyfan.

\*3 - Cyfrif pennau o Brif Benodiadau yn unig, ac eithrio'r sawl a ddechreuodd o 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2023.

Roedd cyfanswm cyffredinol yr absenoldeb oherwydd salwch yn 2022/23 yn 6.28% (2020/21, 6.3%). Mae ffactorau megis cadw pellter cymdeithasol, gweithio gartref a chofnodi absenoldeb staff a oedd yn cysgodi ac yn hunanynysu fel absenoldeb arbennig wedi effeithio ar ganran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch.

## Ymrwymadau oddi ar y Gyflogres a Gwaith Ymgynghori

Mae gofyn i'r Bwrdd lechyd ddatgelu gwariant ar ymrwymadau oddi ar y gyflogres ac ar ymgynghori. Mae'r tablau isod yn amlinellu manylion am yr ymrwymadau oddi ar y gyflogres sydd gan y Bwrdd lechyd ar waith. Dylid nodi bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cyflwyno rheolau newydd mewn perthynas â rheoliadau treth a ddaeth i rym ar 6<sup>ed</sup> Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu cyfrifoldebau'r Bwrdd lechyd o ran rheoli'r ymrwymadau oddi ar y gyflogres a bydd y rhan fwyaf o'r ymrwymadau'n ddarostyngedig i dreth ac Yswiriant Gwladol wrth eu tarddiad.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnal asesiadau IR35 ar gyfer yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres sy'n berthnasol.

<b>Nifer yr ymrwymadau cyfredol am fwy na £245 y dydd ac yn para mwy na chwe mis, ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>364</b>
<i>O blith y rhain...</i>	
Nifer sy'n bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	253
Nifer sy'n bodoli ers 1 - 2 flynedd ar adeg adrodd	15
Nifer sy'n bodoli ers 2 - 3 blynedd ar adeg adrodd	15
Nifer sy'n bodoli ers 3 - 4 blynedd ar adeg adrodd	51
Nifer sydd wedi bodoli ers pedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd	30

<b>Nifer yr ymrwymadau newydd oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023</b>	<b>262</b>
<i>O blith y rhain...</i>	
Nifer a aseswyd fel rhai a oedd yn berthnasol i IR35	262
Nifer a aseswyd fel rhai nad oeddent yn berthnasol i IR35	0
Nifer a ymrwymodd yn uniongyrchol (trwy PSC o dan gontract i'r adran) ac sydd ar y gyflogres adrannol	0
Nifer yr ymrwymadau a gafodd eu hailasesu at ddibenion cysondeb / sicrwydd yn ystod y flwyddyn	0
Nifer yr ymrwymadau lle gwelwyd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb	0

<b>Nifer yr ymrwymadau oddi ar gyflogres o ran aelodau'r bwrdd a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023</b>	<b>0</b>
<i>(Nifer yr unigolion sydd wedi'u hystyried yn "aelodau o'r bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol" yn ystod y flwyddyn ariannol, yn cynnwys ymrwymadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres)</i>	
	34*

\*Aelodau'r Bwrdd a'r Uwch Swyddogion a ystyrir i fod yn Uwch Reolwyr yw'r unigolion y mae manylion eu cyflogau wedi'u datgelu ar y tudalennau o dudalen 84 i 89 yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn, £2.403m oedd gwariant y Bwrdd lechyd ar wasanaethau ymgynghori allanol.

## Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cytunwyd ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar gyfer y cyfnod 2020-2024 gan y Bwrdd a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn <https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/>

Yn ystod 2022/23, parhaodd y gwaith i wella cydraddoldeb trwy gyflawni trydedd flwyddyn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gan fod y Bwrdd lechyd bellach ym mlwyddyn olaf y cynllun presennol, mae paratodau'n mynd rhagddynt i ddechrau'r gwaith cyd-gynhyrchu i nodi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y pedair blynedd nesaf, a'r cynllun gweithredu a fydd yn ein galluogi i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae llwyddiannau allweddol mewn perthynas â chydraddoldeb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

### **Trefniadau llywodraethu a chymorth gan y Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol:**

Rydym wedi cysoni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol â modelau gweithio a threfniadau llywodraethu newydd y Bwrdd lechyd.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb Corfforaethol wedi darparu cymorth, cyngor ac arweiniad rheolaidd i ymgorffori cydraddoldeb yn strategaethau allweddol y Bwrdd lechyd, er enghraifft, y Strategaeth Ansawdd a'r Strategaeth Pobl, a phrosiectau trawsnewid ac adolygiadau o wasanaethau ar raddfa fawr, gan gynnwys cynllunio at adolygiadau o'r Canolfannau Triniaethau Rhanbarthol a gwasanaethau y Tu Allan i Oriau.

### **Ymgyrchoedd a gweithgarwch hyrwyddo:**

Rydym wedi cynyddu ein gwaith hyrwyddo, yn allanol ac yn fewnol i hyrwyddo materion cydraddoldeb a hyrwyddo hawliau dynol ledled y Bwrdd lechyd. Mae'r gwaith o hyrwyddo digwyddiadau allweddol wedi dod â llawer o bobl ynghyd i rannu arferion da a dirnadaeth ynghylch profiadau bywyd ar gyfer amrywiaeth o ymgyrchoedd yn ymwneud â chydraddoldeb. Roedd mynychu digwyddiadau megis Pride Gogledd Cymru yn gyfle gwych i ddathlu amrywiaeth ledled Gogledd Cymru.

### **Gweithredu cynlluniau a strategaethau Llywodraeth Cymru ynghylch cydraddoldeb:**

Ym Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Rydym wedi datblygu cynllun lleol cynhwysfawr i fynd i'r afael â'r camau gweithredu ynghylch iechyd ac rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i weithredu'r cynllun. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu LHDTG+ Llywodraeth Cymru yn Chwefror 2023, ac mewn ymateb i hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a chyd-lunio cynllun gweithredu ar gyfer y Bwrdd lechyd.

Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith Gymdeithasol-economaidd mewn perthynas â'r holl strategaethau cenedlaethol ynghylch iechyd, er enghraifft, Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.

## **Hyfforddiant i wella ymwybyddiaeth:**

Cynhaliwyd ystod eang o hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb yn ystod 2022/23, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ynghylch yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a'r effaith gymdeithasol-economaidd ar y cyd â thimau lechyd y Cyhoedd, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, a Thrawsnewid a Chynllunio. Mae hyfforddiant cyffredinol ynghylch cydraddoldeb wedi cael ei ddarparu ar gyfer Eiriolwyr Cleifion a Gofalwyr ac i staff meddygfeydd mewn ymateb i geisiadau, ac mae sesiynau i wella ymwybyddiaeth o Niwroamrywiaeth ar gael i bob tîm ar gais.

Hyrwyddir digwyddiadau hyfforddiant gan gyrff allanol hefyd, yn cynnwys hyfforddiant ynghylch Troseddau Casineb trwy law Cymorth i Ddiodefyr, i helpu timau i ddatblygu eu gwybodaeth ynghylch ffyrdd gwell o gynorthwyo pobl sy'n profi gwahaniaethu. Mae Diverse Cymru wedi rhedeg hyfforddiant ynghylch Cynhwysedd Diwylliannol, gan sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o ofal sy'n sensitif o safbwynt diwylliannol a mwy o gydnabyddiaeth i'r amrywiaeth sy'n bodoli ledled Cymru a thu hwnt.

## **Gwella ymwybyddiaeth - canllawiau:**

Mae ystod o ganllawiau wedi'u llunio i helpu i lywio penderfyniadau a wneir yn y Bwrdd Iechyd. Cyhoeddir y canllawiau hyn yn fewnol ar BetsiNet, sef mewnwyd y Bwrdd Iechyd. Mae hynny'n cynnwys canllawiau ynghylch Gofal i Bobl Draws a'r Pecyn Cymorth ynghylch Iaith sy'n Gynhwysol o ran Rhywedd, a ddatblygwyd mewn ymateb i gais. Datblygwyd y Pecyn Cymorth ynghylch Cydraddoldeb ar gyfer Gofal Sylfaenol yn ystod 2022/23 i annog dealltwriaeth well o anghenion gwahanol cymunedau.

Lluniwyd canllaw gwybodaeth Pecyn Croeso ar gyfer staff rhyngwladol sy'n ymuno a'r Bwrdd Iechyd, ac mae'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i staff newydd ynghylch popeth o siopa'n lleol i lywio'r broses o agor cyfrif banc.

Datblygir yr holl ddogfennau i gynnig arweiniad ynghylch cydraddoldeb gan ddefnyddio egwyddorion cyd-ddylunio ar y cyd â rhanddeiliaid ym maes cydraddoldeb.

## **Llofnodwyd:**

**Carol Shillabeer**

**Prif Weithredwr a Swyddog Atebol Dros Dro**

**Dyddiad: 24<sup>th</sup> Awst 2023**

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd Iunio a chyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd, y pennir ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru.

### Rheoleidd-dra Gwariant

Mae Trysorlys Ei Fawrhydi yn diffinio rheoleidd-dra fel gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdodau dirprwyedig cymwys a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hawl i wario yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n derbyn dyraniadau refeniw ac adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Nod proses pennu cyllideb y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws y sefydliad at ddibenion dilys. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau dirprwyedig gyda deiliaid cyllidebau ac mae'n rhaid iddynt weithredu'n unol â'u Cytundebau Atebolrwydd, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) y Bwrdd Iechyd.

Mae trefniadau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r SFI ac adroddir ar y rhain i bob Pwyllgor Archwilio trwy'r Adroddiad Cydymffurfiaeth. Yn ogystal â rhaglen gynhwysfawr o Archwilio Mewnol, mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwrth-dwyll Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safonau adrodd cydnabyddedig i'r graddau y maent yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a chaiff y cyfrifon eu llunio'n unol â'r Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynir ffurflenni monitro ariannol sy'n cynnwys esboniad am amrywiannau, i Lywodraeth Cymru bob mis.

Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol blynyddol 2022-23 oherwydd bod afreoleidd-dra o ran gwariant, a bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei gyfarwyddiadau ariannol sefydlog wrth wneud taliadau i un o Gyfarwyddwr Gweithredol interim y Bwrdd. Ceir rhagor o fanylion yn Nhystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd.

Adroddodd y Bwrdd Iechyd warged o £0.389m yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw am y flwyddyn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd ei darged statudol i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2023 ac mae wedi cofnodi gwarged cronol o £1.168m..

### Ffioedd a Thaliadau

Ni chodir ffioedd a thaliadau ar gleifion y GIG fel mater o drefn oni chaniateir i'r Bwrdd Iechyd wneud hynny o dan y ddeddfwriaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwaith deintyddol a mynediad at gofnodion iechyd. Cadarnheir bod y Bwrdd Iechyd, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn cydymffurfio â chyfarwydddebau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfraddau codi tâl.

## **Rhwymedigaethau Digwyddiadol Pell**

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd roi cyfrif am eitemau digwyddiadol pell yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 (IAS37). Mae'r rhain wedi'u datgelu'n llawn yn Nodyn 21 y Datganiad Cyfrifon.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol pell eraill nad ydynt yn dod o dan IAS37 yn cynnwys llythyrau cysur a gwarantau trydydd parti a roddir gan reolwyr. Hyd eithaf ein gwybodaeth, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw rwymedigaethau o'r fath y mae angen eu datgelu.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi'r datganiadau yn cynnwys cyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi eu mabwysiadu gan y DU, fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ac eithrio effeithiau posibl y materion a ddisgrifir yn yr adran Sail i'r Farn Amodol ar y Datganiadau Ariannol a nodir isod, mae'r datganiadau ariannol ym mhob ffordd berthnasol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2023 ac o'i warged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi eu mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; a
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y ddeddf honno.

## Sail i'r farn amodol ar y datganiadau ariannol

Rhoddais farn amodol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021-22 oherwydd fy mod wedi nodi lefelau sylweddol o wallau ac ansicrwydd yn y datganiadau ariannol hynny. O ganlyniad, argymhellais fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal ymarfer cynhwysfawr i nodi a chywiro'r gwallau a nodwyd ac, yn benodol, ei fod yn nodi'r cywiriadau sydd eu hangen i sicrhau bod ei gyfrifon ar gyfer 2022-23 yn rhoi darlun cywir a theg. Ni chynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad o'r fath.

Felly, ac o ganlyniad i'r methiant hwn, nid wyf wedi derbyn tystiolaeth ddigonol a phriodol ynghylch bodolaeth symiau taladwy a chroniadau o £73.2 miliwn ar 1 Ebrill 2022, nac a oedd gwariant 2022-23 o £122 miliwn yn Nodyn 3.3 'Gwariant ar Wasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol' yn ystod y flwyddyn honno, ac a roddwyd cyfrif priodol amdano yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Gan nad wyf wedi gallu asesu maint llawn y gwallau a'r ansicrwydd yn y balansau hyn yn y datganiadau ariannol, a fy mod wedi methu â phenderfynu a oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r symiau, rwyf yn rhoi barn amodol ar yr archwiliad ar y sail nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi darparu digon o dystiolaeth archwilio briodol bod y gwariant hwn o £122.2 miliwn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn a'i fod wedi'i adrodd yn briodol yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Ceir rhagor o fanylion yn fy adroddiad sydd ynghlwm.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r mater a ddisgrifir yn yr adran Sail i'r Farn Amodol ar Reoleidd-dra yn fy adroddiad, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail i'r farn amodol am reoleidd-dra

Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gydymffurfio â pharagraff 14.1.4 o'r cyfarwyddiadau ariannol sefydlog a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wrth benodi Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro ar bwynt cyflog a oedd yn uwch na'r hyn a bennwyd gan Lywodraeth Cymru heb dderbyn y gymeradwyaeth briodol. Yn unol â hynny, gwnaeth y Bwrdd Iechyd daliadau afreolaidd o £105,648 ynghyd ag argostau i Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, ar gyfradd tâl sy'n cyfateb i gyflog blynyddol llawn amser o £469,500 (ac eithrio argostau). Y pwynt cyflog uchaf a gymeradwywyd oedd £149,334. Rwyf wedi rhoi barn amodol yn unol â hynny.

Ceir rhagor o fanylion yn fy adroddiad sydd ynghlwm.

## Sail i'r farn

I conducted my audit in accordance with applicable law and International Standards on Auditing. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi ar gyfer y datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a all yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu'r corff i barhau i gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unol â'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, Trysorlys ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu dulliau cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir hynny yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu ddatganiad sy'n ymddangos yn gamddatganiad, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol a pherthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, byddaf yn dod i'r casgliad bod camddatganiadau sylweddol o'r wybodaeth arall, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y ddeddf honno; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

## Materion rwyf yn eu hadrodd yn ôl eithriad

Yn sgil yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Bwrdd Iechyd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Mewn perthynas yn unig â'r materion y cyfeirir atynt uchod yn y sail i fy marn amodol am y datganiadau ariannol:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd gwybodaeth sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad; a
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd wedi eu harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn, y byddwn yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill; ac
- ni wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

### **Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y canlynol:

- cynnal cofnodion cyfrifyddu digonol
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaeth fewnol fel y'i pennir yn angenrheidiol gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr er mwyn caniatáu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wallau; a
- asesu gallu'r Bwrdd lechyd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio dulliau cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd lechyd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Lechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion yw derbyn sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfryw yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i roi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn i.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant bod archwiliad a ymgwymerwyd yn unol â ISA (DU) bob amser yn darganfod camddatganiadau perthnasol, os ydynt yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn faterol, os, yn unigol neu ar y cyd, gallent ddisgwyl dylanwadu'n rhesymol ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr, yn sgil y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn ddigwyddiadau o ddiffyg cydymffurfio gyda chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddatgelu camddatganiadau perthnasol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn cynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd lechyd yn ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un ai a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - datgelu ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth o unrhyw dwyll gwirioneddol, neu a amheuir; a
  - rheolau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau yn ymwneud a thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a lle y gall twyll ddigwydd o fewn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll yn y meysydd canlynol: diffyg ystyriaeth gan reolwyr a dyddyfrau anarferol.
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Bwrdd lechyd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol eraill y mae'r Bwrdd lechyd yn gweithredu yn unol â hwy, a chanolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd wedi cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a oedd wedi cael effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Bwrdd lechyd.
- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a ddynodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu'r datgeliadau i'r datganiadau ariannol a phrofi'r ddogfennaeth gefnogol i asesu cydymffurfiaeth gyda'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol fel y trafodwyd uchod.
- Holi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithio a hawliadau posibl a gwirioneddol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd.
- Wrth ymdrin â'r risg o dwyll trwy ddiystyru rheoliadau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu p'un a yw'r farn a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes o unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Yn ychwanegol, hysbysais holl aelodau'r tîm archwilio am y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd ac roeddwn yn wylidwrus am unrhyw ddangosyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar allu fy ngweithdrefnau i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Bwrdd lechyd, a natur, amseriad ac ehangder y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Gellir gweld disgrifiad manylach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## **Cyfrifoldebau eraill yr Archwilydd**

Mae'n rhaid i mi hefyd dderbyn tystiolaeth sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y diben a fwriedid gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## **Adroddiad**

Gweler fy Adroddiad atodedig.

**Adrian Crompton**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**25 Awst 2023**

**1 Capital Quarter**  
**Stryd Tyndall**  
**Cardiff CF10 4BZ**

## Rhagarweiniad

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus 2004, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd am ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Rwy'n adrodd am y datganiadau ariannol hyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 i ddwyn sylw at faterion allweddol ar gyfer fy archwiliad, fel a ganlyn:

- amodi fy marn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg oherwydd ansicrwydd sylweddol yn y balansau agoriadol ac a yw gwariant ar gyfer 2022-23 wedi'i danddatgan yn sylweddol. Mae'r ddau fater yn ymwneud â'm hamodau ar gyfer 2021-22 yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, sy'n codi o'm hanallu i gael digon o dystiolaeth briodol yn ymwneud â chroniadau penodol, symiau taladwy a gwariant a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol;
- amodi fy marn ar reoleidd-dra o ganlyniad i dorri cyfarwyddiadau ariannol sefydlog ar dalu cyflog i Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro; a
- methiant y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol.

## Barn amodol yn sgil methu cael tystiolaeth ddigonol am falansau agoriadol

Nododd fy mhroffion archwilio o ddatganiadau ariannol 2021-22 y Bwrdd Iechyd lefelau sylweddol o wallau ac ansicrwydd ynghylch pa un ai a oedd symiau taladwy a chroniadau yn bodoli ar 31 Mawrth 2022 ac a roddwyd cyfrif priodol am wariant yn 2021-22. Amodais fy marn ar gyfrifon 2021-22 yn unol â hynny.

O ganlyniad i'r amodi yna, argymhellais fod y Bwrdd Iechyd:

- yn cynnal ymarfer cynhwysfawr i nodi'r gwallau yn ei gofnodion cyfrifyddu ac yn eu hunioni;
- yn nodi'r cywiriadau y mae angen iddo'u gwneud i sicrhau bod ei gyfrifon ar gyfer 2022-23 yn cyfleu darlun gwir a chywir; a
- yn cynnal adolygiad i ddeall pam y digwyddodd y materion hyn a chryfhau ei reolaethau yn unol â hynny.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi methu â chynnal ymarfer i adolygu a chywiro ei gofnodion cyfrifyddu ar gyfer 2021-22 ac wedi methu â nodi'r cywiriadau sydd eu hangen i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 2022-23 yn rhoi darlun cywir a theg.

O ganlyniad i'r methiant hwn, nid oeddwn yn gallu cael tystiolaeth ddigonol a phriodol ynghylch bodolaeth symiau taladwy a chroniadau o £73.2 miliwn ar 1 Ebrill 2022 nac a oedd gwariant 2022-23 o £122 miliwn yn Nodyn 3.3 'Gwariant ar Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol' wedi digwydd yn ystod y flwyddyn neu bod cyfrif priodol ohono yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Gan nad wyf wedi gallu asesu graddau llawn y gwallau a'r ansicrwydd yn y balansau hyn yn y datganiadau ariannol, rwy'n amodi fy marn archwilio ar y sail nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu digon o dystiolaeth archwilio briodol bod y gwariant hwn o £122.2 miliwn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn neu bod cyfrif priodol ohono yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Paratôdd y Bwrdd Iechyd gynllun gweithredu yn dilyn adolygiad a oedd yn nodi nifer o weithgareddau gyda'r nod o gryfhau'r amgylchedd rheolaeth ariannol ar draws y sefydliad. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i fonitro cynnydd wrth weithredu'r gweithgareddau.

### **Barn amodol ar reoleidd-dra gan fod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i wariant afreolaidd ac wedi torri ei gyfarwyddiadau ariannol sefydlog wrth wneud taliadau i aelod gweithredol interim o'r Bwrdd**

Mae paragraff 14.1.4 o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 19.1 o Ddeddf GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i dderbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru pan fydd swydd cyfarwyddwr gweithredol yn cael ei thalu uwchlaw'r raddfa y cytunwyd arni.

Cymeradwyodd Pwyllgor Tâl y Bwrdd Iechyd daliadau i Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro a oedd yn fwy na'r pwynt cyflog uchaf o £149,334 ar gyfer y rôl fel y'i nodir gan Lywodraeth Cymru. Rhwng 1 Ebrill a 31 Gorffennaf 2022, talwyd £105,648 i'r Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ynghyd ag argostau ar gyfradd tâl sy'n gyfwerth â chyflog blynyddol llawn amser o £469,500 (ac eithrio argostau). Roedd y taliad o £105,648 yn fwy na'r swm a gymeradwywyd gan Bwyllgor Tâl Bwrdd Iechyd, ac ni chafwyd cymeradwyaeth y Bwrdd na chwaith Llywodraeth Cymru yn groes i ofynion ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

### **Dyletswyddau ariannol**

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol gyflawni dwy ddyletswydd ariannol statudol, sef y ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol fel y'u gelwir.

#### Y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd sicrhau nad yw eu gwariant yn fwy na chyfanred y cyllid a ddyrennir iddo dros gyfnod o dair blynedd ariannol.

Fel y nodir uchod, rwyf wedi amodi fy marn ynghylch a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg oherwydd ansicrwydd sylweddol yn y balansau agoriadol ac a yw gwariant ar gyfer 2022-23 wedi'i danddatgan yn sylweddol.

Fodd bynnag, oherwydd parhad yr ansicrwydd sylweddol a adroddwyd yn 2021-22 oherwydd gwahaniaethau amseru a gwallau ansylweddol a nodwyd, rwyf felly wedi dod i'r casgliad bod y ddyletswydd ariannol wedi'i chyflawni ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

Bydd adroddiadau'r Bwrdd Iechyd ar ei gydymffurfiaeth â'i ddyletswydd ariannol gyntaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 yn cael ei effeithio gan fy amodi yn natganiadau ariannol 2022-23. Yn unol â hynny, byddaf yn adrodd ar gydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â'i ddyletswydd ariannol gyntaf wrth gwblhau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y datganiadau ariannol hynny.

## Methiant yr ail ddyletswydd ariannol

Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Baratoi cynllun tymor canolig integredig ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd, a chael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r cynllun hwnnw. Mae'r ddyletswydd hon yn sail hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Ystyrir y bydd Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2022-23 os yw wedi cyflwyno cynllun ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2025 i Weinidogion Cymru ac wedi cael eu cymeradwyaeth.

Fel y gwelir yn Nodyn 2.3 y Datganiadau Ariannol, ni wnaeth y Bwrdd Iechyd gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol i sefydlu cynllun tymor canol integredig tair blynedd yn cwmpasu'r cyfnod o 2022-25.

**Adrian Crompton**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**25 Awst 2023**

Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am gynnal gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac am ei chywirdeb, nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno i'r wefan yn y lle cyntaf.

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

## Rhagair

Paratowyd y cyfrifon hyn gan y Bwrdd Iechyd Lleol o dan atodlen 9 adran 178 Para 3(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c.42) ar y ffurf y mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn amdano, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

### Cefndir statudol

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 yn dilyn gweithredu Rhaglen Genedlaethol Diwygio Cymru'n Un Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru a chyfuno Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru a'r chwe chyn Fwrdd Iechyd Lleol canlynol. :

- Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn
- Bwrdd Iechyd Lleol Conwy
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint
- Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod lawn o wasanaethau ysbyty sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac aciwt i boblogaeth Gogledd Cymru o dri prif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith y meddygfeydd a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

### Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 yn disodli WHC/2015/014 'Dyletswyddau Cyllidol Statudol a Gweinyddol yr Ymddiriedolaethau GIG a Byrddau Iechyd Lleol' ac yn egluro ymhellach dyletswyddau cyllidol statudol cyrff GIG Cymru ac mae yn effeithiol ar gyfer 2022-23. Diddymwyd y ddyletswydd ariannol flynyddol ac mae'r ddyletswydd statudol i fantoli eu cyllideb wedi dychwelyd i ddyletswydd tair blynedd, gyda'g asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn 2016-17.

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru gydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys i'r graddau sy'n berthnasol iddynt. O ganlyniad, y prif ddatganiad o incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn yw'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n dangos y gost gweithredu net a achoswyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu wrth ei dderbyn yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Dan Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 mae'r gofynion i gyflawni'r balans yn erbyn Cyfyngiadau Adnoddau wedi cael ei amnewid gyda dyletswydd i sicrhau, mewn cyfnod treigl 3 blynedd nad yw cyfanswm ei wariant, yn fwy na chyfanswm ei gyfyngiadau cymeradwy.

Daeth y Ddeddf i rym o 1 Ebrill 2014, ac o dan y Ddeddf cynhaliwyd yr asesiad cyntaf o'r ddyletswydd ariannol treigl 3 blynedd ddiwedd 2016-17.

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

	Nodyn	2022-23 £000	2021-22 £000
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol	3.1	342,928	340,935
Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill	3.2	447,773	428,395
Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty a Gwasanaethau Iechyd Cyr	3.3	1,356,042	1,260,458
		<b>2,146,743</b>	<b>2,029,788</b>
Wedi tynnu: Incwm Amrywiol	4	(155,369)	(156,644)
<b>Costau gweithredu BILI cyn llog ac enillion a cholledion eraill</b>		<b>1,991,374</b>	<b>1,873,144</b>
Refeniw Buddsoddi	5	0	0
(Enillion) / Colledion Eraill	6	(16)	219
Costau cyllid	7	(23)	(10)
<b>Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol</b>		<b>1,991,335</b>	<b>1,873,353</b>

Manylion perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddyraniadau Refeniw a Chyfalaf dros y tri chlyfnod ariannol a ddarperir yn Nodyn 2 ar dudalennau 24A-245.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 80A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

## Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill

	2022-23 £000	2021-22 £000
(Enillion) / colledion net ar ailbrisiadau adeiladau, peiriannau ac offer	(72,188)	(16,545)
Elw / (colled) net ar ailbrisiadau asedau hawl i ddefnyddio	0	
(Enillion) / colledion net ar ailbrisiadau asedau anghyffwrddadwy	0	0
(Enillion) / colledion ar gronfeydd eraill wrth gefn	0	0
(Enillion) / colledion ar ailbrisiadau PPE ac asedau anghyffwrddadwy a ddelir ar werth	0	0
(Enillion) / colledion ar ailbrisiadau asedau cyllidol a ddelir ar werth	0	0
Gostyngiadau a childroadau	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	0	0
Trosglwyddiadau (i) / o gyrff eraill o fewn y Ffiniau Cyfrifo Adnoddau	0	0
Ailddosbarthu addasiad ar warediad o asedau ariannol ar werth sydd ar gael	0	0
Gwariant net cynhwysfawr eraill ar gyfer y flwyddyn	<b>(72,188)</b>	<b>(16,545)</b>
<b>Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>1,919,147</b>	<b>1,856,808</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 80A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

		31 Mawrth 2023 £000	31 Mawrth 2022 £000
<b>Asedau anghyfredol</b>			
Adeiladau, peiriannau ac offer	11	672,558	617,716
Asedau Hawl i Ddefnyddio	11.3	35,314	
Asedau anghyffwrddadwy	12	1,536	988
Masnach ac eitemau derbyniadwy	15	78,888	63,074
Asedau ariannol eraill	16	0	0
<b>Cyfanswm asedau anghyfredol</b>		<b>788,296</b>	<b>681,778</b>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Rhestr eiddo	14	20,308	19,106
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	15	77,387	105,783
Asedau ariannol eraill	16	0	0
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	17	2,913	6,678
		<b>100,608</b>	<b>131,567</b>
Asedau anghyfredol a ddsberthir fel "Cedwir i'w Werthu"	11	0	0
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>		<b>100,608</b>	<b>131,567</b>
<b>Cyfanswm asedau</b>		<b>888,904</b>	<b>813,345</b>
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>			
Masnach a symiau taladwy eraill	18	(237,833)	(257,141)
Rhwymedigaethau ariannol cyfredol	19	0	0
Darpariaethau	20	(34,309)	(52,031)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>		<b>(272,142)</b>	<b>(309,172)</b>
<b>Asedau/ (rhwymedigaethau) cyfredol net</b>		<b>(171,534)</b>	<b>(177,605)</b>
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>			
Masnach a symiau taladwy eraill	18	(28,030)	(841)
Rhwymedigaethau ariannol eraill	19	0	0
Darpariaethau	20	(76,673)	(61,998)
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>		<b>(104,703)</b>	<b>(62,839)</b>
<b>Cyfanswm asedau a ddefnyddir</b>		<b>512,059</b>	<b>441,334</b>
<b>Ariannwyd gan :</b>			
<b>Ecwiti Trethdalwyr</b>			
Cronfa Gyffredinol		304,389	298,002
Cronfa wrth gefn ailbriso		207,670	143,332
<b>Cyfanswm ecwiti trethdalwyr</b>		<b>512,059</b>	<b>441,334</b>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 2A-6A gan y Bwrdd ar 24 Awst 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Prif Weithredwr  
a'r Swyddog Atebol:

Carol Shillabeer

Dyddiad: 24 Awst 2023

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 80A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr  
ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023**

	<b>Cronfa Gyffredinol £000</b>	<b>Cronfa Wrth Gefn Ailbriso £000</b>	<b>Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000</b>
<b>Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2022-23</b>			
Balans ar 31 Mawrth 2022	298,002	143,332	<b>441,334</b>
Trosglwyddiad GIG Cymru	0	0	<b>0</b>
Addasiad Trosi Ased RoU	1,092	0	<b>1,092</b>
<b>Balans ar 1 Ebrill 2022</b>	<b>299,094</b>	<b>143,332</b>	<b>442,426</b>
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	<b>(1,991,335)</b>		<b>(1,991,335)</b>
Enillion / (colledion) net ar ailbriso eiddo, peiriannau ac offer	0	72,188	<b>72,188</b>
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau hawl i ddefnyddio	0	0	<b>0</b>
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau anghyffwrddadwy	0	0	<b>0</b>
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau ariannol	0	0	<b>0</b>
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	<b>0</b>
Gostyngiadau a childroadau	0	0	<b>0</b>
Symudiadau wrth gefn eraill	0	0	<b>0</b>
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	7,850	<b>(7,850)</b>	<b>0</b>
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	<b>0</b>
Trosglwyddiadau i / o BILlau	100	0	<b>100</b>
<b>Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2022-23</b>	<b>(1,983,385)</b>	64,338	<b>(1,919,047)</b>
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	1,950,306		<b>1,950,306</b>
Cyllideb Llywodraeth Cymru tybiannol	38,374		<b>38,374</b>
<b>Balans ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>304,389</b>	<b>207,670</b>	<b>512,059</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 80A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans a gedwir yn y gronfa wrth gefn ailbriso ar gyfer asedau anghyfredol o ganlyniad i'r ailbrisiad pum mlynedd y flwyddyn ariannol hon.

**Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr  
ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2022**

	Cronfa Gyffredinol £000	Cronfa Wrth Gefn Ailbriso £000	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000
<b>Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr ar gyfer 2021-22</b>			
<b>Balans ar 31 March 2021</b>	288,642	132,567	421,209
Trosglwyddiad GIG Cymru	0	0	0
Addasiad Trosi Ased RoU			
<b>Balans ar 1 Ebrill 2021</b>	288,642	132,567	421,209
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(1,873,353)		(1,873,353)
Enillion / (colledion) net ar ailbriso eiddo, peiriannau ac offer	0	16,545	16,545
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau hawl i ddefnyddio			
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau anghyffwrddadwy	0	0	0
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau ariannol	0	0	0
Enillion / (colledion) net ar ailbriso asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	0
Gostyngiadau a childroadau	0	0	0
Symudiadau wrth gefn eraill	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	5,780	(5,780)	0
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	0
Trosglwyddiadau i / o BILlau	0	0	0
<b>Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2021-22</b>	(1,867,573)	10,765	(1,856,808)
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	1,841,350		1,841,350
Cyllideb Llywodraeth Cymru tybiannol	35,583		35,583
<b>Balans ar 31 Mawrth 2022</b>	298,002	143,332	441,334

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 80A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans a gedwir yn y gronfa wrth gefn ailbriso ar gyfer asedau anghyfredol y cafwyd gwared arnynt yn ystod y flwyddyn (£153,000) a dibrisiad ychwanegol a godwyd ar asedau sydd wedi bod yn amodol ar ailbrisiad i fyny (£5,627,000).

## Datganiad o Llifau Arian ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2023

	2022-23	2021-22
	£000	£000
<b>Llif Arian o weithgareddau gweithredu</b>		
	Nodyyn	
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol	<b>(1,991,335)</b>	(1,873,353)
Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio	27 <b>(7,018)</b>	(28,644)
Addasiadau llif arian eraill	28 <b>104,097</b>	136,299
Darpariaethau a ddefnyddir	20 <b>(26,517)</b>	(29,640)
<b>All-lif arian net o weithgareddau gweithredu</b>	<b>(1,920,773)</b>	(1,795,338)
<b>Llifau Arian o weithgareddau buddsoddi</b>		
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	<b>(28,749)</b>	(43,644)
Elw o gael gwared ar eiddo, peiriannau ac offer	<b>16</b>	294
Prynu asedau anghyffwrddadwy	<b>(933)</b>	(390)
Elw o gael gwared ar asedau anghyffwrddadwy	<b>0</b>	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill	<b>0</b>	0
Elw o gael gwared ar asedau ariannol eraill	<b>0</b>	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill	<b>0</b>	0
Elw o gael gwared ar asedau eraill	<b>0</b>	0
<b>Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>(29,666)</b>	(43,740)
<b>Mewnlif / (all-lif) arian parod net cyn cyllido</b>	<b>(1,950,439)</b>	(1,839,078)
<b>Llifau arian o weithgareddau cyllido</b>		
Cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf)	<b>1,950,306</b>	1,841,350
Derbynebaw cyfalaf a ildwyd	<b>0</b>	0
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	<b>460</b>	1,221
Elfen gyfalaf o dâl o ran prydles gyllidol a Chynlluniau on-SoFP PFI	<b>(59)</b>	(57)
Elfen gyfalaf taliadau o ran prydles cyllid ac ar SoFP	<b>0</b>	0
Elfen gyfalaf taliadau o ran Asedau Hawl i Ddefnyddio	<b>(4,033)</b>	0
Arian a drosglwyddwyd (i) / gan gyrrff GIG eraill	<b>0</b>	0
<b>Cyllid net</b>	<b>1,946,674</b>	1,842,514
<b>Cynnydd / (gostyniad) net mewn arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod</b>	<b>(3,765)</b>	3,436
<b>Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2022</b>	<b>6,678</b>	3,242
<b>Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2023</b>	<b>2,913</b>	6,678

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7A i 80A yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

### 1. Polisiâu Cyfrifyddu

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gofyn i ddatganiadau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol (BILI) yng Nghymru fodloni gofynion cyfrifyddu Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol canlynol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon 2022-23. Mae'r polisiâu cyfrifo a gynhwysir yn y llawlyfr hwn yn dilyn y Llawlyfr Adrodd Ariannol 2022-23 (FReM) yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mewn cydymffurfiaid â gofynion y Ddeddf Cwmnïau 2006, i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG yng Nghymru.

Lle bo Llawlyfr Cyfrifon y BILI yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewisir y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol y BILI er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiâu penodol a fabwysiadwir gan y BILI isod. Mae'r polisiâu hyn wedi cael eu defnyddio yn gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol o ran y cyfrifon.

#### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn dan gonfensiwn cost hanesyddol a addaswyd ar gyfer ailbrisiu eiddo, offer, cyfarpar, asedau anniriaethol a rhestrau eiddo.

#### 1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau a derfynwyd

Ystyrir bod gweithgareddau yn 'gaffaeledig' dim ond os ydynt yn cael eu cymryd o'r tu allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir bod gweithgareddau 'wedi'u terfynu' os ydynt yn darfod yn llwyr. Nid ydynt yn cael eu hystyried 'wedi'u terfynu' os ydynt yn trosglwyddo o un corff cyhoeddus i un arall.

#### 1.3 Incwm a chyllid

Prif ffynhonnell o arian ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol (BILI) yw dyraniad gan Lywodraeth Cymru (Cyllid Llywodraeth Cymru) o fewn cyfyngiad arian cymeradwy, sy'n cael ei roi i Gronfa Gyffredinol y BILI. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol y mae'r arian yn cael ei dderbyn.

Mae cyllid annewisol y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw yn cael ei ddyrannu i gyd-fynd â gwariant gwirioneddol a achoswyd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwariant annewisol yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon, a'u tynnu o'r costau gweithredu a godir yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw.

Mae cyllid ar gyfer caffael asedau sefydlog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi yn y Gronfa Gyffredinol.

Mae incwm amrywiol yn incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) ac nid yw'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn unigryw gan y BILI ar gyfer Llywodraeth Cymru megis cyllid a ddarperir i asiantaethau a chostau nad ydynt yn weithgareddau a achoswyd gan y BILI yn ei rôl darparwr. Mae incwm a dderbyniwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn trafod â Byrddau Iechyd eraill yn cael ei drin bob amser fel incwm amrywiol.

O 2018-19, mae IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio, fel y dehonglwyd ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus, yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM). Mae'n cymryd lle'r safonau IAS 11 blaenorol Contractau Adeiladu ac IAS 18 Refeniw, a dehongliadau SIC ac IFRIC perthnasol. Mae'r diwygiadau posibl a nodwyd o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 15 yn arwyddocaol is na'r lefelau perthnasedd

Mae incwm yn cael ei gynnwys drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn ystod y cyfnod y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Os derbyniwyd incwm gan drydydd partion ar gyfer gweithgaredd penodol i'w ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr incwm hwnnw yn cael ei ohirio.

Dim ond incwm nad yw'n rhan o'r GIG y gellir ei ohirio.

## 1.4 Budd-daliadau gweithwyr

### 1.4.1 Budd-daliadau gweithwyr byrdymor

Mae cyflogau, tâl a thaliadau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn gan weithwyr.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23, caniatwyd i weithwyr gario hyd at 37.5 awr (pro rata) o wyliau blynyddol nas defnyddiwyd drosodd i 2023-24 gydag awdurdodiad rheolwr llinell. Mewn amgylchiadau eithriadol (lle'r oedd angen sefydliadol clir wedi atal gweithwyr rhag cymryd gwyliau blynyddol) caniatwyd cario hyd at 75 awr (pro rata) drosodd a hynny'n amodol ar gymeradwyaeth ar y lefel briodol.

Mae cost y gwyliau a ennillwyd ond nas cymerwyd gan weithwyr ar ddiwedd y cyfnod ariannol yn cael ei chydabod yn y datganiadau ariannol i'r graddau bod gweithwyr yn cael hawl i gario gwyliau ymlaen i'r cyfnod nesaf.

### 1.4.2 Costau budd-dal ymddeol

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu, sy'n darparu ar gyfer cyflogai'r GIG, Practisau Cyffredinol a chyrrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'n fwriad rhedeg y cynllun mewn modd a fyddai'n galluogi cyrrff GIG i ddynodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sylfaenol. Felly, cyfrifir y cynllun fel y byddai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

Mae canlyniadau gwerth Cynllun Pensiwn diweddaraf y GIG yn dangos bod angen cynnydd mewn buddion o 6.3% (14.38% i 20.68%) a weithredwyd o 1 Ebrill 2019.

Fel sefydliad o fewn y sgôp cyllido llawn, byddai'r cyd-drefniant trawsnewidiol (yn GIG Cymru a GIG Lloegr) a weithredwyd yn 2019-20, ble byddai cyflogwyr yn y Cynllun yn parhau i dalu 14.38% o gyfraniadau cyflogwyr dan eu proses dalu misol arferol, yng Nghymru mae'r 6.3% ychwanegol yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r gweinyddydd Cynllun Pensiwn, yr Awdurdod Gwasanaethau Busnes GIG (BSA, Asiantaeth Bensiynau'r GIG).

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Bllau roi cyfrif am eu cyfraniadau cyflogwr i **staff** o 20.68% yn llawn ac ar sail gros, yn eu cyfrifon blynyddol. Cyfrifir taliadau a wnaed ar eu rhan gan Lywodraeth Cymru ar sail tybiannol. Am wybodaeth fanwl, gweler Nodyn Arall o fewn y cyfrifon hyn.

Ar gyfer ymddeoliadau cynnar ar wahân i rai salwch, nid yw'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu gan y cynllun. Mae cost lawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol yn cael ei chodi ar wariant ar yr adeg mae'r BILI yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, waeth beth fo'r dull o dalu.

Lle mae cyflogeion yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig mae hyn yn cael ei ddatgelu. Gall asedau a rhwymedigaeth y cynllun sydd i'w priodoli i'r gweithwyr hynny gael eu dynodi, ac maent yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon sefydliad GIG Cymru. Mae'r asedau'n cael eu mesur ar werth teg, a'r rhwymedigaethau ar y gwerth presennol o oblygiadau'r dyfodol. Mae'r cynnydd yn yr atebolrwydd o'r gwasanaeth pensiynadwy a enillwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o fewn y treuliau gweithredu. Mae'r cynnydd disgwylid yn ystod y flwyddyn o asedau cynllun yn cael ei gydnabod o fewn incwm cyllid. Mae'r gost llog yn ystod y flwyddyn sy'n codi o ddatod y disgownt yn rhwymedigaethau'r cynllun yn cael ei gydnabod o fewn costau cyllid.

### 1.4.3 Cynllun Pensiwn NEST

Mae'n rhaid i gynllun pensiwn amgen i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno â chynllun Pensiynau'r GIG gael ei gynnig. Felly, mae cynllun Pensiwn NEST (Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol) yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifyddu.

### 1.5 Costau eraill

Mae costau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cydnabod pan maent yn cael eu derbyn, ac i'r graddau y maent wedi cael eu derbyn. Maent yn cael eu mesur ar y gwerth teg o'r ystyriaeth sy'n daladwy.

### 1.6 Eiddo, peiriannau ac offer

#### 1.6.1 Cydnabyddiaeth

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu cyfalafu os:

- y'u cedwir ar gyfer eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
- yw'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i, neu os bydd potensial gwasanaeth yn cael ei gyflenwi i'r sefydliad GIG Cymru;
- disgwylir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer mwy nag un flwyddyn ariannol;
- yw cost yr eitem yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy; a
- bod yr eitem yn costio o leiaf £5,000; neu
- ar y cyd, mae gan nifer o eitemau werth o o leiaf £5,000 ac yn unigol maent werth mwy na £250, lle mae'r asedau yn rhyngddibynnol yn ymarferol, lle mae ganddynt ddyddiadau prynu cydamserol yn fras, rhagwelir bod ganddynt yr un dyddiadau gwaredu, ac maent o dan reolaeth unigol; neu
- bod yr eitemau yn rhan o gost sefydlu a chyfarparu cychwynnol adeilad newydd, ward neu uned, waeth beth fo'u cost unigol neu gost ar y cyd.

Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o elfennau sydd ag oes ased gwahanol iawn, mae'r elfennau yn cael eu trin fel asedau ar wahân, ac yn cael eu dibrisio dros eu bywyddau economaidd defnyddiol eu hunain.

#### 1.6.2 Prisio

Mae bob eiddo, peiriant ac offer yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r gost sydd i'w phriodoli'n uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased, a dod ag ef i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n briodol iddo fod yn gallu gweithredu yn y modd y bwriedir iddo gan reolwyr.

Nodir y tiroedd a'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (SoFP) ar eu gwerthoedd a ail-brisiwyd, sef gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisiad, wedi tynnu unrhyw ddibrisiad a cholledion gostyngiadau cronedig olynol. Mae ailbrisiadau yn cael eu perfformio yn ddigon cyson i sicrhau nad yw symiau dwyn ymlaen yn sylweddol wahanol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerthoedd teg yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol - gwerth y farchnad ar gyfer deunydd presennol;
- Adeiladau arbenigol - cost amnewid wedi'i dibrisio.

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi mabwysiadu dull safonol at brisiadau cost amnewid wedi'i dibrisio yn seiliedig ar asedau cyfwerth modern, a, lle y byddai'n bodloni gofynion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prisio safle amgen. Mae cyrff GIG Cymru wedi cymhwyso'r gofynion prisio newydd hyn o 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo sy'n cael ei adeiladu at ddibenion gweinyddol neu wasanaeth yn cael eu cynnal ar gost, wedi tynnu unrhyw golledion gostyngiad. Mae costau yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond dim costau benthyca, sy'n cael eu cydnabod fel treuliau ar unwaith, fel y caniateir gan IAS 23 ar gyfer asedau agedwir ar werth teg. Mae ailbriso a dibrisio asedau yn dechrau pan maent yn dechrau cael eu defnyddio.

Yn 2022-23 defnyddiwyd ymarfer ailbriso ffurfiol ar gyfer tir ac eiddo. Bydd gwerth dwyn ymlaen yr asedau presennol ar y dyddiad yn cael ei ddileu dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill, ac mae darnau gosod ac offer newydd yn cael eu cynnal ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio, gan nad yw hwn yn cael ei ystyried i fod yn wahanol o ran deunyddiau o'r gwerth teg.

Mae cynnydd sy'n codi wrth ailbriso yn mynd i'r gronfa wrth gefn ailbriso ac eithrio pan mae'n gwrthdroi gostyngiadau ar gyfer yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y gwariant, ac felly mae'n cael ei roi i wariant i'r graddau gostyngiad a godir yn flaenorol. Mae gostyngiad ailbriso nad yw'n arwain at golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa ailbriso i'r graddau bod balans yn y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedyn, i'r gwariant. Dylai colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y gwariant.

Mae'r cyfeiriadau yn IAS 36 at gydnabod colled gostyngiad o ased wedi'i ailbriso sy'n cael ei drin fel gostyngiad ailbriso i'r graddau nad yw'r gostyngiad yn fwy na'r swm yn y warged ailbriso ar gyfer yr un ased, yn cael eu haddasu fel mai'r colledion gostyngiad nad ydynt o ganlyniad i dreuliant clir o fuddion economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig (yn cynnwys o ganlyniad i golled neu niwed sy'n deillio o weithrediadau busnes arferol) sy'n mynd i'r gronfa wrth gefn ailbriso. Dylai colledion gostyngiadau sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

Rhaid cydymffurfio â Mesurau Gwerth Teg IFRS 13 yn llawn o 2015-16. Er hynny, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle mae prisiau yn cael ei baratoi dan IFRS 13. Dylai asedau a gedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ac sy'n cael eu defnyddio gael eu mesur ar eu gwerth cyfredol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar gyfer asedau arbenigol, dylai gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gael ei ddehongli fel gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill, y gellir ei gymryd ei fod yn gyfartal o leiaf i gost amnewid y potensial gwasanaeth. Os nad oes dosbarth sengl o ased sy'n disgyn o fewn IFRS 13, dylai datgeliadau fod ar gyfer eitmau materol yn unig.

Yn unol ag addasiadau IAS 16 yn nhabl 6.2 o'r FReM, ar gyfer asedau nad ydynt yn arbenigol mewn deunydd gweithredol, mae gwerth cyfredol mewn deunydd presennol yn cael ei ddehongli fel gwerth marchnad ar gyfer deunydd presennol sy'n cael ei ddiffinio yn Llyfr Coch RICS fel Gwerth Deunydd Presennol (EUV).

Dylai asedau a gadwyd fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth ond sy'n weddill, gael eu priso ar werth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, os oes cyfyngiadau ar y sefydliad GIG neu'r ased fyddai'n atal mynediad at y farchnad ar y dyddiad adrodd. Pe byddai'r sefydliad GIG yn cael mynediad at y farchnad yna dylid defnyddio'r ased gwarged ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased nad yw'n cael ei ddefnyddio yn warged, dylid gwneud asesiad a oes cynllun clir i ddod â'r ased yn ôl i ddeunydd fel ased gweithredol. Os oes cynllun clir, nid yw'r ased yn warged, a dylid cynnal y gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fel arall, dylai'r ased gael ei asesu fel bod yn warged a'i briso dan IFRS 13.

Dylai asedau nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial gwasanaeth gael eu priso yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40 yn dibynnu ar a yw'r ased yn cael ei gadw'n weithredol i'w werthu. Os nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac nid oes cynllun i'w ddefnyddio eto, heb unrhyw gyfyngiadau rhag gwerthu, ac nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 a IFRS 5, mae'r asedau hyn yn warged ac yn cael eu priso ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

### 1.6.3 Gwariant dilynol

Lle mae gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Lle mae gwariant dilynol yn adennill yr ased i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu, ac mae unrhyw werth dwyn ymlaen yr eitem sy'n cael ei amnewid yn cael ei gofnodi a'i godi ar y SoCNE. Fel y pwysleisiwyd yn y blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau yn eu lle i sicrhau y gall yr holl eitemau sy'n cael eu "hamnewid" gael eu dynodi, ac felly dyna pam mae'r gost sy'n gysylltiedig yn cael ei meintioli. Felly mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon cyn belled ag y bo'n gallu, sy'n cael ei amlinellu ym mhennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon. Mae hyn yn pennu i sicrhau nad yw asedau sy'n cario gwerthoedd yn cael eu gorbwysleisio'n faterol ar gyfer y Cynlluniau Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael eu cwblhau mewn blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG sicrhau ailbrisiad yn ystod y flwyddyn dan sylw (cyn iddynt gael eu defnyddio) ac mae angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer pob Cynllun Adeiladu Disgresiwn a gwblhawyd sydd â gwariant mwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau a ddynodwyd yng ngwerth yr asedau yna'n cael eu cynnwys yn y costau gweithredu.

## 1.7 Asedau anniriaethol

### 1.7.1 Cydnabyddiaeth

Mae asedau anniriaethol yn asedau heb fod yn rhai ariannol heb sylwedd ffisegol, sy'n gallu cael eu gwerthu ar wahân i weddill y busnes, neu sy'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill. Maent yn cael eu cydnabod yn unig pan mae hi'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo isefydliad GIG Cymru, neu pan fydd potensial gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r BILL; lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle mae'r gost o leiaf £5,000.

Mae asedau anniriaethol a gafwyd ar wahân yn cael eu cydnabod ar werth teg i ddechrau. Mae meddalwedd sy'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft system weithredu, yn cael ei chyfalafu fel rhan o'r eitem berthnasol o eiddo, peiriannau ac offer. Mae meddalwedd nad yw'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft meddalwedd gymwysiadau, yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu: mae'n cael ei gydnabod fel treuliant gweithredu yn y cyfnod a achoswyd. Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cydnabod, a dim ond os yw pob un o'r canlynol yn cael eu harddangos:

- y dichonolrwydd technegol o gwblhau'r ased anniriaethol fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio;
- y bwriad i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio;
- y gallu i ddefnyddio'r ased anniriaethol;
- sut bydd yr ased anniriaethol yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol y dyfodol;
- argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill digonol i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio;
- y gallu i fesur gwariant i'w briodoli yn ddibynadwy i'r ased anniriaethol yn ystod ei ddatblygiad.

### 1.7.2 Mesur

Y swm a gydnabyddir i ddechrau ar gyfer asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol yw'r swm o'r gwariant a achoswyd o'r dyddiad pan mae'r meini prawf uchod wedi eu bodloni i ddechrau. Lle na ellir cydnabod unrhyw asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol, mae'r gwariant yn cael ei gydnabod yn y cyfnod yr achoswyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau anniriaethol yn cael eu cynnal ar werth teg drwy gyfeirio at farchnad weithredol, neu, lle nad oes marchnad weithredol yn bodoli, ar gost amnewid wedi'i hamorteiddio (sail asedau cyfwerth modern), yn cael eu mynegri o ar gyfer cynnydd mewn pris perthnasol, fel dirprwy ar gyfer gwerth teg. Mae meddalwedd a ddatblygir yn fewnol yn cael ei chadw ar gost hanesyddol i adlewyrchu'r effeithiau gwrthwynebus o gynnydd mewn costau datblygiad a datblygiadau technolegol.

## 1.8 Dibrisio, amorteiddio ac amhariadau

Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ac asedau a gedwir i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

Fel arall, mae dibrisio ac amorteiddio yn cael eu codi i gael gwared ar gostau neu brisiad yr eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol anghyfredol, wedi tynnu unrhyw werth dros ben, dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, mewn modd sy'n adlewyrchu'r treuliant o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau. Yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol ased yw'r cyfnod y mae'r sefydliad GIG Cymru yn disgwyl cael buddion economaidd neu botensial gwasanaeth gan yr ased. Mae hwn yn benodol i'r sefydliad GIG Cymru, ac efallai y bydd yn llai nac oes gorfforol yr ased ei hun. Mae amcangyfrif o oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn, gydag effaith unrhyw newid yn cael ei gydnabod ar sail arfaethedig. Mae asedau a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu dibrisio dros gyfnod byrraf y brydles, ac amcangyfrif o oes ddefnyddiol.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, bydd sefydliad GIG Cymru yn gwirio a oes unrhyw arwydd bod unrhyw rai o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anniriaethol wedi dioddef o golled amhariad. Os oes awgrym bod colled amhariad, mae gwerth adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif i benderfynu a oes colled wedi bod, ac os oes, ei swm. Mae asedau anniriaethol nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto yn cael eu profi ar gyfer amhariadau'n flynyddol.

Mae colledion amhariad nad ydynt o ganlyniad i golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael eu cydnabod fel amhariad a godir i'r gronfa wrth gefn ailbrisio i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac wedyn, i'r SoCNE. Mae colledion amhariad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd yn cael eu cynnwys yn y SoCNE. Mae balans unrhyw gronfa ailbrisio (hyd at lefel yr amhariad) y byddai'r amhariad wedi eu codi arni dan IAS 36 yn cael eu trosglwyddo i'r enillion argadwedig.

## 1.9 Ymchwil a Datblygiad

Mae gwariant ymchwil a datblygiad yn cael ei godi ar gostau gweithredu yn y flwyddyn yr achoswyd, ar wahân i'r ffaith ei fod yn berthnasol i brosiect a ddiffinnir yn glir, a ellir ei wahanu o weithgaredd gofal cleifion, a gellir yn rhesymol ystyried buddion o hynny ymlaen fel rhai sicr. Mae gwariant gohiriedig yn gyfyngedig i werth buddion y dyfodol disgwylidig, ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r SoCNE ar sail systematig dros y cyfnod a ddisgwylir i elwa o'r prosiect.

## 1.10 Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel eu bod yn cael eu cadw i'w gwerthu os bydd eu swm dwyn ymlaen yn cael ei adennill drwy werthiant am arian parod yn bennaf yn hytrach na thrwy ddeunydd parhaus. Ystyrir bod y cyflwr wedi'i fodloni pan mae'r gwerthiant yn debygol iawn, bod yr ased yn barod i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol, a bod rheolwyr yn ymroddedig i'r gwerthiant, y disgwylir iddo gymhwyso ar gyfer cydnabyddiaeth fel gwerthiant gorffenedig o fewn blwyddyn o ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu yn cael eu mesur ar y lefel isaf o'u swm dwyn ymlaen blaenorol a gwerth teg, wedi tynnu'r costau i werthu. Mae gwerth teg yn werth marchnad agored yn cynnwys dibenion amgen.

Yr enillion neu'r colledion sy'n codi o gael gwared ar ased yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a'r swm dwyn ymlaen, ac mae'n cael ei gydnabod yn y SoCNE. Wrth gael gwared arno, mae balans yr ased yn y gronfa ailbrisio, yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Nid yw eiddo, peiriannau ac offer sydd i'w sgrapio neu eu chwalu yn gymwys ar gyfer ei gydnabod fel eu bod yn cael eu gadw i'w gwerthu. Mae'n cael ei gadw fel ased gweithredol yn hytrach ac mae ei oes economaidd yn cael ei addasu. Rhoddir y gorau i gydnabod yr ased wth gael ei sgrapio neu ei chwalu.

## 1.11 Prydlesi

Mae prydles yn gytundeb neu'n rhan o gytundeb sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am gyfnod o amser yn gyfnewid am dâl.

Mae prydlesi IFRS 16 yn weithredol ar draws y sector cyhoeddus ers 1 Ebrill 2022. Mae'r trosiant i IFRS 16 wedi'i gwblhau yn unol â pharagraff C5 (b) o'r Safon, gan osod gofynion IFRS 16 yn ôl-weithredol tra'n cydnabod yr effeithiau cronol ar ddyddiad y cais cychwynol.

Wrth drosglwyddo i IFRS 16, defnyddiwyd nifer o ddewisiadau ac atebion ymarferol a gynigir yn y safon. Mae'r rhain fel a ganlyn: Mae'r endid wedi defnyddio'r dewis ymarferol a gynigiwyd yn y safon ym mharagraff C3 i gymhwyso IFRS 16 i gontractau neu drefniadau y nodwyd yn flaenorol eu bod yn cynnwys prydles o dan y safonau prydlesu blaenorol prydlesi IAS 17 ac IFRIC 4 sy'n pennu a yw trefniant yn cynnwys prydles ac nid i'r rhai y gwelwyd nad oeddent yn cynnwys prydles o dan safonau prydlesu blaenorol.

Wrth ddechrau rhoi hyn ar waith, mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mesur asedau hawl i ddefnyddio ar gyfer prydlesi a nodwyd yn flaenorol fel prydlesi gweithredu yn unol â IFRS 16 C8 (b)(ii), ar werth sy'n hafal i rwymedigaeth y brydles wedi'i haddasu ar gyfer taliadau prydles cronodig neu ragdaledig.

Nid oes unrhyw addasiadau wedi'u gwneud ar gyfer prydlesi gweithredu lle mae'r ased sylfaenol o werth isel yn ôl paragraff C9(a) o'r safon.

Nid yw'r gofynion trosiannol wedi'u gosod ar brydlesi gweithredu y mae eu telerau yn dod i ben o fewn 12 mis i ddyddiad y cais cychwynol gael ei weithredu yn unol â pharagraff C10 (c) o IFRS 16.

Defnyddir ôl-ddoethineb i bennu cyfnod prydles pan fo cytundebau neu drefniadau yn cynnwys opsiynau i ymestyn neu derfynu'r brydles yn unol â C10(e) o IFRS 16.

Oherwydd y defnydd o ddarpariaeth trosiannol nid yw'r gofynion ar gyfer adnabod prydles o fewn paragraffau 9 i 11 o IFRS 16 yn cael eu defnyddio ar gyfer prydlesi sydd eisoes yn bodoli ar ddyddiad cychwynol y cais. Bydd prydlesi yr ymrwymir iddynt ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022 yn cael eu hasesu o dan ofynion IFRS 16.

Mae atebion neu dewisiadau pellach wedi'u defnyddio gan [yr endid] wrth gymhwyso IFRS 16. Mae'r rhain yn cynnwys:

- nad yw gofynion y mesuriad o dan IFRS 16 yn berthnasol i brydlesi gyda chyfnod o 12 mis neu lai o dan baragraff 5 (a) o IFRS 16;
- nid yw gofynion y mesuriad o dan IFRS 16 yn berthnasol i brydlesi lle mae'r ased sylfaenol o werth isel a nodir bod yr asedau hynny werth llai na £5,000, heb gynnwys unrhyw TAW anadferadwy, o dan baragraff 5(b) o IFRS 16

Ni fydd yr endid yn rhoi'r IFRS 16 ar waith ar unrhyw brydlesi newydd o asedau anniriaethol ond yn hytrach byddant yn cael eu trin yn unol â'r hyn ddisgrifir yn adran 1.14.

Mae'r endid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gymhwyso IFRS i drefniadau sy'n debyg i brydlesi y cytunir arnynt gydag endidau sector cyhoeddus eraill sydd mewn sylwedd yn debyg i gontract y gellir ei gorfodi, na fyddant o bosibl ar eu ffurf gyfreithiol yn bosibl eu gorfodi. Cyn rhoi cyfrif am drefniadau o'r fath o dan IFRS 16, mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi asesu, ym mhob ffordd arall, fod y trefniadau hyn yn bodloni diffiniad prydles o dan y safon.

Mae'n ofynnol i'r endid gymhwyso IFRS 16 i drefniadau sy'n debyg i brydlesi y cytunir arnynt lle mai 'nil' neu 'nominal' yw'r ystyriaeth a gyfnewidir, felly'n ymhell islaw gwerth y farchnad. Disgrifir y trefniadau hyn fel prydlesi hedyn pupur. Unwaith eto, mae'n ofynnol i drefniadau o'r fath fodloni diffiniad prydles ym mhob ffordd arall cyn cael ei gynnwys yng nghwmpas IFRS 16. Mae rhoi cyfrif am drefniadau hedyn pupur yn alinio â'r rhai a bennwyd ar gyfer asedau sydd wedi'u rhoi'n rhodd. Mae prydlesi hedyn pupur yn wahanol mewn sylwedd i drefniadau lle bo ystyriaeth islaw gwerth y farchnad ond heb fod ymhell islaw gwerth y farchnad.

Mae natur y newid polisi cyfrifyddu ar gyfer y lesddeiliad yn fwy arwyddocaol nag ydyw ar gyfer y prydleswr o dan IFRS 16. Mae IFRS 16 yn cyflwyno ymagwedd unigol ar gyfer y lesddeiliad tuag at fesur a dosbarthu lle bydd lesddeiliaid yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio.

Ar gyfer y prydleswr, mae prydlesi'n parhau i gael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid pan gaiff yr holl risgiau a dyfarniadau mewn sylwedd sy'n achlysurol i fod yn berchen ar asedau gwaelodol eu trosglwyddo i'r lesddeiliad. Lle nad yw'r trosglwyddiad hwn yn digwydd, caiff prydlesi eu dosbarthu fel prydlesi gweithredu.

### **1.11.1 Yr endid fel prydlesai**

Ar ddyddiad dechrau'r trefniant prydlesu bydd prydlesai'n cydnabod ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles cyfatebol. Mae'r endid yn defnyddio model ailbriso ar gyfer mesur ei asedau hawl i ddefnyddio dilynol oni bai bod cost yn cael ei hystyried yn amnewidyn priodol ar gyfer gwerth cyfredol y defnydd presennol neu werth teg yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer asedau sydd yn eiddo iddynt. Lle gwelir bod y tâl a geir mewn cyfnewid yn is na gwerth y farchnad, nid yw cost yn cael ei hystyried yn amnewidyn priodol er mwyn priso'r ased hawl i ddefnyddio.

Caiff TAW anadferadwy ei thalu yn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo ac felly nid yw wedi'i gynnwys wrth fesur atebolrwydd y brydles ac o ganlyniad gwerth yr ased hawl i ddefnyddio.

Mae'r gyfradd fenthyca gynyddrannol o 0.95% wedi'i osod ar atebolrwydd prydlesi a gydnabyddir ar ddyddiad cymhwyso cychwynnol IFRS 16.

Pan fydd newidiadau mewn taliadau prydlesi yn y dyfodol o ganlyniad i newid mewn mynegai neu gyfradd neu adolygiad rhent, caiff atebolrwydd y brydles eu hailfesur gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt heb ei newid.

Lle bo newid i delerau prydles neu opsiwn i brynu'r ased sylfaenol, mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gosod cyfradd ddiwygiedig ar weddill y brydles.

Lle caiff prydlesi presennol eu haddasu, rhaid i BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr benderfynu a yw'r trefniant yn brydles ar wahân a gosod y safon yn unol â hynny.

Mae taliadau prydles yn cael eu cydnabod fel traul ar sail linol neu systematig arall dros gyfnod y brydles, lle mae cyfnod y brydles yn ei hanfod yn para 12 mis neu lai, neu'n cael ei nodi fel prydles sy'n cynnwys ased gwaelodol gwerth isel gan BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr.

### **1.11.2 BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr fel prydleswr (lle bo hynny'n berthnasol)**

Bydd prydleswr yn dosbarthu pob un o'i brydlesi yn brydles weithredol neu'n brydles gyllidol. Mae prydles yn cael ei dosbarthu'n brydles gyllidol pan fo'r brydles yn trosglwyddo, yn eu hanfod, yr holl risgiau a buddion sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth ased sylfaenol. Lle na chaiff yr holl risgiau a buddion eu trosglwyddo yn eu hanfod, caiff prydles ei dosbarthu fel prydles weithredol.

Mae symiau sy'n ddyledus gan lesddeiliaid o dan brydlesi cyllid yn cael eu cofnodi fel symiau derbyniadwy ar swm buddsoddiad net Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y prydlesi. Dyrennir incwm prydlesi ariannol i gyfnodau cyfrifyddu i adlewyrchu cyfradd adennill gyfnodol gyson ar fuddsoddiad net sy'n ddyledus gan BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â'r prydlesi.

Cydnabyddir incwm o brydlesi gweithredu ar sail linol neu systematig arall dros gyfnod y brydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol a ddaw wrth drafod a threfnu prydles weithredol yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased ar brydles a'u cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles.

Pan fo BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr yn brydlesai cyfryngol, yn brydlesai ac yn brydleswr o ran yr un ased sylfaenol, mae angen i'r prydlesai cyfryngol dddosbarthu'r isbrydles gan ystyried tymor y trefniant a natur yr ased hawl i ddefnyddio sy'n codi o'r brif brydles.

Wrth drosglwyddo, mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ailasesu dosbarthiad ei threfniadau isbrydlesu parhaus i gyd i gynnwys prydlesi rhad.

## 1.12 Rhestrau Eiddo

Er ei bod hi'n gonfensiwn cyfrifyddu i restrau eiddo gael eu prisio ar y gost isaf, a gwerth gwiredadwy net gan ddefnyddio fformiwla'r gost cyfartaledd wedi'u pwysoli neu gost cyntaf i mewn y cyntaf allan, dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig o ran nad yw rhestrau eiddo yn cael eu cadw yn gyffredinol ar gyfer y bwriad o ailwerthu, ac yn wir nid oes marchnad eisoes ar gael lle gellir gwerthu'r eitemau o'r fath. Mae rhestrau eiddo yn cael eu prisio ar gost, ac mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn fras amcan rhesymol i werth teg oherwydd y trosiant uchel o stoc. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau mewn cyfnodau canolraddol cynhyrchu. Nid yw contractau sydd wedi'u cwblhau yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion yn cael eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

## 1.13 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn arian parod mewn llaw ac arian cadw gydag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad y caffael, ac sy'n drosadwy yn rhwydd i nifer sy'n hysbys o arian parod gyda risg ddinod o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad o Lifau Arian (SoCF), dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb gynnwys gorddrafft banc sy'n ad-daladwy ar gais, ac sy'n rhan anhepgor o reoli arian parod.

## 1.14 Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan mae gan y sefydliad GIG Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddiwyddiad o'r gorffennol, mae'n debygol y bydd hi'n ofynnol i'r sefydliad GIG Cymru setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd. Lle mae darpariaeth yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r llifau arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth, ei swm dwyn ymlaen yw'r gwerth presennol o'r llifau gwaith hynny gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt a ddefnyddir gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Lle disgwylir i ychydig neu'r holl fuddion economaidd sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael eu hadennill gan drydydd parti, mae'r eitem dderbyniadwy yn cael ei chydabod fel ased os yw'n bron iawn yn sicr y bydd ad-daliadau yn cael eu derbyn, a gellir mesur swm yr eitemau derbyniadwy yn ddibynadwy.

Mae rhwymedigaethau presennol sy'n codi dan gontractau beichus yn cael eu cydnabod a'u mesur fel darpariaeth. Ystyrir bod contract beichus yn bodoli os oes gan y sefydliad GIG Cymru contract lle mae'r costau na ellir eu hosgoi o fodloni'r rhwymedigaethau dan y contract yn fwy na'r buddion economaidd a ddisgwylir i'w derbyn oddi tano.

Mae darpariaeth ailstrwythuro yn cael ei chydabod pan mae'r sefydliad GIG Cymru wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro, ac wedi codi disgwyliad dilys o ran y rhai a effeithir arnynt y bydd yn cynnal yr ailstrwythuro drwy ddechrau gweithredu'r cynllun neu gyhoeddi ei brif nodweddion i'r rhai a effeithir arnynt ganddo. Mae mesur darpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys y gwariant uniongyrchol yn unig sy'n codi o'r ailstrwythuro, sef y symiau hynny sydd eu hangen oherwydd ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus yr endid.

### 1.14.1 Costau esgeulustod clinigol ac anaf personol

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn gweithredu cynllun cronni risg sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r opsiwn o gael mynediad at gytundeb rhannu risg a ariennir gan gyrrff GIG Cymru cyfranogol. Gweithredwyd yr opsiwn rhannu risg yn 2021-22 a 2022-23. Mae'r WRP yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

### **1.14.2 Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol (FLS) - Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)**

Mae'r FLS yn gynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI) ar gyfer esgeulustod clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaeth GMP yng Nghymru.

Ym Mawrth 2019, cyhoeddoedd y Gweinidog Gyfeiriad i Ymddiriedolaeth GIG Felindre i alluogi'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i weithredu'r Cynllun. Tanategir y GMPI gan ddeddfwriaeth eilaidd newydd, Rheoliadau (Cynllun Esgeulustod Clinigol) y GIG (Cymru) 2019 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019.

Nid yw Darparwyr Gwasanaeth GMP yn aelodau uniongyrchol o'r GMPI FLS, mae eu rhwymedigaethau cymhwysol yn destun trefniant rhyngddynt a'r BILI perthnasol, sy'n aelod o'r cynllun. Nid yw'r ad-daliadau cymwys i'r BILI yn destun i'r gormodedd o £25,000.

### **1.15 Offerynnau Ariannol**

Ers 2018-19 mae Offerynnau Ariannol IFRS 9 wedi'u gosod, fel y'u dehonglir ac addaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus yn y FReM. Prif effaith mabwysiadu IFRS 9 gan sefydliadau GIG Cymru, oedd i newid y sail gyfrifyddu ar gyfer darpariaethau dyled ddrwg, newid o sail colledion a ysgwyddir i sail colledion credyd disgwylidig am oes (ECL).

Roedd yr holl endidau a weithredodd y FReM yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen blaenorol a'r swm dwyn ymlaen ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynyddol oedd yn cynnwys y dyddiad ymgeisio dechreuol wrth agor y gyllideb gyffredinol o fewn yr ecwiti Trethdalwyr.

### **1.16 Asedau ariannol**

Cydnabyddir asedau ariannol ar y SoFP pan fo'r sefydliad GIG Cymru yn arwyddo cytundeb offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau wedi eu darparu. Rhoddir y gorau i gydnabod asedau ariannol pan fydd hawliau'r contract wedi dod i ben neu pan fydd yr asedau wedi eu trosglwyddo.

Mae'r dewis polisi cyfrifyddu a ganiateir dan IFRS 9 ar gyfer eitemau masnach hirdymor sy'n dderbyniadwy, asedau cytundeb sy'n cynnwys elfen cyllid sylweddol (yn unol ag IFRS 15), ac eitemau prydles sy'n dderbyniadwy, o fewn cwmpas IAS 17 wedi cael eu tynnu'n ôl, a dylai endidau bob amser gydnabod lwfans colled am swm sy'n hafal i Golledion Credyd oes gyfan Disgwylidig. Dylai bob endid sy'n defnyddio'r FReM ddefnyddio'r dull IFRS 9 wedi'i symleiddio at ostyngiadau ar gyfer asedau perthnasol.

Ar gyfer gofynion IFRS 9, roedd angen ymagwedd ddiwygiedig ar gyfer cyfrifio'r ddarpariaeth dyled ddrwg, gan weithredu egwyddorion colledion credyd disgwylidig, gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol o fewn IFRS9 i adeiladu matricesau darpariaeth.

#### **1.16.1 Cydnabyddir asedau ariannol ar werth teg i ddechrau**

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i'r categorïau canlynol: asedau ariannol 'ar werth teg drwy SoCNE'; 'buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd'; asedau ariannol 'ar gael i'w gwerthu', a 'benthyciadau ac eitemau derbyniadwy'. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol, gaiff ei benderfynu ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol.

#### **1.16.2 Asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE**

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

### **1.16.3 Buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedwydd**

Mae buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedwydd yn asedau ariannol anneiliadol gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy ac aeddfedwydd sefydlog, ac mae yna fwrriad a gallu positif i'w dal hyd aeddfedwydd. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cânt eu dal ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

### **1.16.4 Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu**

Mae asedau ariannol ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneiliadol sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd ar gael i'w gwerthu neu yn rhai nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r tri dosbarthiad arall o asedau ariannol. Cânt eu mesur ar werth teg a chymerir newidiadau mewn gwerth i'r gronfa ailbriso wrth gefn, ac eithrio colledion amhariad. Ailgyrchir enillion neu golledion cronedig i'r SoCNE wrth roi'r gorau i gydnabod.

### **1.16.5 Benthyciadau a symiau derbyniadwy**

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau ariannol anneiliadol a chanddynt daliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad actif. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw amhariadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Penderfynir ar werth teg trwy gyfeirio at brisiau'r farchnad a ddyfynnir lle bo'n bosibl, fel arall trwy dechnegau prisio.

Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a dderbynnir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net yr ased ariannol.

Ar ddyddiad y SoFP, mae sefydliad GIG Cymru yn asesu a oes yna unrhyw asedau ariannol, ar wahân i'r amhariadau i'r rhai hynny wedi eu dal ar 'werth teg drwy elw a cholled'. Mae asedau ariannol wedi eu hamharu a cholledion amhariadau wedi eu cydnabod os oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy a gafwyd wedi cydnabyddiaeth gychwynnol yr ased ac sy'n effeithio ar lifau arian amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol.

O ran asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio, caiff swm colled yr amhariad ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen yr ased a gwerth presennol y llifau arian diwygiedig y dyfodol wedi ei leihau ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yn y SoCNE a chaiff swm dwyn ymlaen yr ased ei leihau ar unwaith, neu drwy ddarparu ar gyfer amhariadau mewn symiau derbyniadwy.

Os, mewn cyfnod dilynol, bydd swm colled yr amhariad yn gostwng a gellir cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl cydnabod yr amhariad, caiff colled yr amhariad a gydnabuwyd yn flaenorol ei wrthdroi drwy'r SoCNE i'r graddau bod swm dwyn ymlaen y swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r amhariad ddim yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi ei hamorteiddio wedi bod pe na fyddai'r amhariad wedi'i gydnabod

## **1.17 Rhwymedigaethau ariannol**

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y SoFP pan fo sefydliad GIG Cymru yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n daladwy, pan fo'r nwyddau neu wasanaethau wedi eu derbyn. Rhoddir y gorau i gydnabod rhwymedigaethau ariannol pan fo'r rhwymedigaeth drosodd, hynny yw, mae'r rhwymedigaeth wedi ei thalu neu wedi dod i ben.

### **1.17.1 Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar werth teg i ddechrau**

Dosberthir rhwymedigaethau ariannol fel un ai rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy SoCNE neu rhwymedigaethau ariannol eraill.

### **1.17.2 Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy'r SoCNE**

Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

### **1.17.3 Rhwymedigaethau ariannol eraill**

Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob rhwymedigaeth ariannol arall eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'r union amcangyfrif arian parod a delir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net y rhwymedigaeth ariannol. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

### **1.18 Treth ar Werth (TAW)**

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau sefydliad GIG Cymru y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bryniant yn adferadwy. Mae TAW anadferadwy yn cael ei godi i'r categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yn y gost prynu cyfalafu o asedau sefydlog. Lle mae'r dreth allbrint yn cael ei godi neu TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

### **1.19 Arian tramor**

Mae trafodion o werth arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Mae enillion a cholledion amnewid dilynol yn cael eu cymryd i'r SoCNE. A r ddyddiad y SoFP, mae eitemau ariannol o werth arian tramor yn cael eu hail drosi ar y cyfraddau sydd yn eu lle ar y dyddiad adrodd.

### **1.20 Asedau trydydd parti**

Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (megis arian a gedwir ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan sefydliad GIG Cymru unrhyw ddiddordeb buddiol ynddynt. Mae manylion asedau trydydd parti yn cael eu rhoi yn y Nodiadau yn y cyfrifon

### **1.21 Colledion a Thaliadau Arbennig**

Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried pan y cytunodd ar arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylai godi yn ddelfrydol. Maent felly yn amodol ar weithdrefnau rheoli arbennig o'i gymharu â chyffredinolrwydd taliadau. Maent wedi cael eu rhannu i gategoriâu gwahanol, sy'n rheoli'r ffordd y mae bob achos unigol yn cael ei drin.

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cael eu codi i'r penawdau swyddogaethol perthnasol yn y SoCNE ar sail cronïadau, yn cynnwys colledion a fyddai wedi cael eu gwneud yn iawn drwy yswiriant pe na bai sefydliad GIG Cymru wedi bod yn goddef eu risgiau eu hunain (gyda phremiwm yswiriant yna'n cael ei gynnwys fel gwariant refeniw arferol). Er hynny, mae'r nodyn ar golledion a thaliadau arbennig wedi'u casglu yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion sy'n cael ei pharatoi ar sail arian parod.

Mae sefydliad GIG Cymru yn rhoi cyfrif am yr holl golledion a chyfanswm taliadau arbennig (yn cynnwys cymorth gan y WRP).

Mae sefydliad GIG Cymru yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau'r dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau penodol, ac mae'n datgelu pob taliad posibl arall fel rhwymedigaethau amodol, onid yw tebygrwydd y rhwymedigaethau yn dod yn daladwy yn annhebygol.

Mae pob hawliad am golledion neu daliadau arbennig yn cael eu darparu ar eu cyfer, lle mae tebygrwydd o setlo hawliad unigol dros 50%. Lle gellir gwneud amcangyfrifon dibynnol, mae digwyddiadau o esgeulustod clinigol yn erbyn lle nad yw hawliad wedi ei dderbyn, hyd yn hyn, yn cael eu darparu yn yr un ffordd. Mae addaliadau disgwylidig gan y WRP yn cael eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer yr hawliadau hynny lle mae'r tebygrwydd setlo rhwng 5-50%, mae'r rhwymedigaeth yn cael ei datgelu fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

## **1.22 Cyllidebau wedi'u cyfuno**

Mae'r BILL wedi dod yn rhan o drefniadau cyllidebau wedi'u cyfuno gyda'r awdurdodau lleol ar draws gogledd Cymru. Dan y trefniadau mae cyllidebau'n cael eu cyfuno yn unol ag adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn Nodyn 32 - Cyllidebau wedi'u cyfuno.

Mae'r BILL yn gyfrifol am ei gyfran o'r asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant o'r gweithgareddau yn unol â'r trefniadau pob cyllideb wedi'u cyfuno.

## **1.23 Dyfarniadau Cyfrifyddu Critigol a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif**

Wrth ddefnyddio polisiau cyfrifyddu, mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau dwyn ymlaen o asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a'r thybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio os yw'r diwygiadau yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu gyfnod y diwygiad a chyfnodau'r dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a'r dyfodol.

## **1.24 Prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif**

Y prif dybiaethau sy'n ymwneud â'r dyfodol yw'r canlynol, a ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif ar ddyddiad y SoFP, sydd â risg sylweddol o achosi addasu deunydd i'r gwerth dwyn ymlaen os yw'r asedau a'r rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.

Gwneir amcangyfrifon arwyddocaol o ran esgeulustod clinigol parhaus a hawliadau anafiadau personol. Darperir thybiaethau o ran canlyniadau tebygol, y rhwymedigaethau posibl ac amseru'r hawliadau ymgyfreithiadau hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Bydd unrhyw newidiadau materol mewn rhwymedigaethau a gysylltir â'r hawliadau hyn yn gallu cael eu hadfer drwy Gronfa Risg Cymru.

Gwneir amcangyfrifon arwyddocaol hefyd ar gyfer costau gofal parhaus yn deillio o hawliadau ôl 1 Ebrill 2003. Gwneir asesiad o ganlyniadau tebygol, rhwymedigaethau posibl ac amseru'r hawliadau hyn ar sail pob achos unigol. Addasir newidiadau materol cysylltiedig â'r hawliadau hyn yn y cyfnod y'u hadolygir.

Gwneir amcangyfrifon hefyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol dan gontract. Mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y lefelau taliad diweddaraf. Addasir y newidiadau cysylltiedig â'r rhwymedigaethau hyn yn y cyfnod adrodd canlynol.

### **1.24.1 Darpariaethau**

Mae sefydliad GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol ar gyfer esgeulustod clinigol, anaf personol a chostau amddiffyniad y mae eu hamseru neu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol ar gyfer setlo'r rhwymedigaeth.

Mae hawliadau yn cael eu hariannu drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu cost ceisiadau ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob yn ail fis. Ar ôl i sefydliad GIG Cymru setlo hawliadau unigol, mae'r gost lawn yn cael ei chydnabod o fewn y flwyddyn, ac yn cyd-fynd ag incwm (tynnu trosvariant o £25,000) drwy ddyledwr WRPS, nes i ad-daliad gael ei dderbyn gan Bwyllgor WRPS.

### 1.24.2 Achosion Pendant a Thebygol – Triniaeth Gyfrifyddu

Mae darpariaeth ar gyfer yr achosion hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 37. Mae achosion yn cael eu hasesu a'u rhannu yn bedwar categori yn unol â'u tebygolrwydd o setlo;

<b>Gwan</b>	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifyddu	0 - 5% Rhwymedigaeth Ddigwyddiadol wan
<b>Posibl</b>	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifyddu	6% - 49% Ffi'r Amddiffynnydd - Darpariaeth Rhwymedigaeth Ddigwyddiadol ar gyfer pob gwariant arall a amcangyfrifir.
<b>Tebygol</b>	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifyddu	50% - 94% Darpariaeth lawn
<b>Pendant</b>	Tebygolrwydd Setlo Triniaeth Gyfrifyddu	95% - 100% Darpariaeth lawn

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol a phendant yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a adroddir arnynt gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Bydd y cyfreithiwr yn amcangyfrif gwerth yr achos yn cynnwys ffioedd amddiffyniad, gan ddefnyddio barn broffesiynol a thrwy ofyn am gyngor y cwnsler. Mae elfennau colled y dyfodol yn cael eu tynnu o'r prisiad gan ddefnyddio disgwyliaid oes unigol a thablau Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a chyfradd Disgownt Anaf Personol o minws 0.25%.

Mae rhwymedigaethau'r dyfodol ar gyfer achosion pendant a thebygol gyda thebygolrwydd o 95%-100% a 50-94% yn y drefn honno yn cael eu cadw fel darpariaeth ar y fantolen. Mae achosion fel arfer yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel, ble mae cyfnod o ddatblygiad yn angenrheidiol i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

### 1.25 Cyfraddau Disgownt

Mae'r BILI yn cymhwyso cyfraddau disgownt a roddir gan System Gwariant Cyhoeddus (PES) Trysorlys EF, i'r darpariaethau ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth a adroddir yn Nodyn 20 Darpariaethau ar dudalennau 56A a 57A. Y gyfradd ddisgownt berthnasol ar gyfer 2022-23 yw 1.7% (2021-22: -1.3%)

Adroddir ar effaith dad-ddirwyn disgowntiau yn Nodyn 7 Costau Cyllid ar dudalen 31A.

### 1.26 Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)

Mae Trysorlys EF wedi penderfynu y bydd cyrff llywodraeth yn rhoi cyfrif am gynlluniau isadeiledd PFI lle mae'r corff llywodraeth yn rheoli defnyddio'r isadeiledd a'r buddiant gweddilliol yn yr isadeiledd ar ddiwedd y trefniant fel rhan o drefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae sefydliad GIG Cymru felly yn cydnabod yr ased PFI fel eitem o eiddo, peiriannau ac offer ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel costau gweithredu.

Rhennir y taliad unedol blynyddol i'r cydrannau a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

- a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd;
- b) Taliad am yr ased PFI, gan gynnwys costau cyllid;
- c) Taliad am amnewid elfennau'r ased yn ystod 'amnewid ar ddiwedd cylch oes' y contract.

### **1.26.1 Gwasanaethau a dderbyniwyd**

Cofnodir gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn o dan benawdau gwariant perthnasol 'costau gweithredu'.

### **1.26.2 Ased PFI**

Cydnabyddir yr asedau PFI fel eiddo, peiriannau a chyfarpar, pan fyddant yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf. I ddechrau, caiff yr asedau eu mesur ar werth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Ar ôl hynny, caiff yr asedau eu mesur yn ôl gwerth teg a gaiff ei ddiweddu'n gyson yn unol â dull sefydliad GIG Cymru ar gyfer pob dosbarth perthnasol o ased yn unol ag egwyddorion IAS 16.

### **1.26.3 Rhwymedigaeth PFI**

Cydnabyddir rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd ag y cydnabyddir asedau PFI. I ddechrau, fe'i mesurir ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI ac ar ôl hynny, fe'i mesurir fel rhwymedigaeth les cyllid yn unol ag IAS 17.

Cyfrifir y gost ariannu blynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd log sydd ymhlyg yn y brydles i rwymedigaeth y les agoriadol am y cyfnod, ac fe'i codir ar 'Gostau Ariannu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol a ddyrennir fel rhent prydles cyllid yn cael ei chymhwyso i fodloni'r gost ariannu blynyddol ac i ad-dalu rhwymedigaethau'r brydles dros gyfnod y contract.

Dyrennir elfen o'r cynnydd yn y taliad unedol blynyddol sy'n ganlyniad i fynegeio cronol, i'r brydles gyllid. Yn unol ag IAS 17, nid yw'r swm hwn wedi'i gynnwys yn lleiafswm taliadau'r brydles, ond yn hytrach caiff ei drin fel rhent digwyddiadol ac fe'i codir fel treuliau a ysgwyddir. Yn ei hanfod, mae'r swm hwn yn gost ariannol mewn perthynas â'r rhwymedigaeth a chyflwynir y gost fel cost ariannu digwyddiadol yn y SoCNE.

### **1.26.4 Amnewid ar ddiwedd cylch oes**

Caiff cydrannau o'r ased a amnewidir gan y gweithredwr yn ystod y contract ('amnewid ar ddiwedd cylch oes') eu cyfalafu lle y maent yn bodloni meini prawf sefydliad GIG Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf. Maent yn cael eu cyfalafu ar yr adeg y mae'r gweithredwr yn eu darparu, ac i ddechrau, maent yn cael eu mesur yn ôl eu gwerth teg.

Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol a ddyrennir i amnewid ar ddiwedd cylch oes ar gyfer pob blwyddyn y contract, yn cael ei phennu o flaen llaw o raglen gynlluniedig y gweithredwr ar gyfer amnewid ar ddiwedd cylch oes. Lle darperir yr elfen cylch oes yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl, cydnabyddir rhwymedigaeth brydles cyllid byrdymor neu ragdaliad yn y drefn honno.

Os yw gwerth teg y gydran cylch oes yn llai na'r swm a bennir yn y contract, cydnabyddir y gwahaniaeth fel costau pan ddarperir yr amnewidiad. Os yw'r gwerth teg yn fwy na'r swm a bennir yn y contract, caiff y gwahaniaeth ei drin fel ased 'rhydd' a chydabyddir balans incwm gohiriedig. Caiff yr incwm gohiriedig ei ryddhau i'r incwm gweithredu dros y cyfnod contract sy'n weddill neu dros oes economaidd ddefnyddiol y gydran amnewidiol, pa un bynnag yw'r byrraf.

### **1.26.5 Asedau a gyfrannwyd gan sefydliad GIG Cymru i'r gweithredwr i'w defnyddio yn y cynllun**

Mae asedau a gyfrannwyd i'w defnyddio yn y cynllun yn parhau i gael eu cydnabod fel eitemau o eiddo, peiriannau a chyfarpar yn y Natganiad Sefyllfa Ariannol (SoFP) sefydliad GIG Cymru.

### **1.26.6 Asedau eraill a gyfrannwyd gan y sefydliad GIG Cymru i'r gweithredwr**

I ddechrau, cydnabyddir asedau a gyfrannwyd gan sefydliad GIG Cymru i'r gweithredwr cyn i'r ased gael ei ddefnyddio ac y bwriedir iddynt dalu costau cyfalaf y gweithredwr (e.e. taliadau arian parod, eiddo dros ben), fel rhagdaliadau yn ystod cyfnod adeiladu'r contract. Ar ôl hynny, pan fydd yr ased ar gael i sefydliad GIG Cymru, caiff y rhagdaliad ei drin fel taliad cychwynnol tuag at y rhwymedigaeth brydles cyllid a chaiff ei osod yn erbyn gwerth cario ymlaen y rhwymedigaeth.

Cydnabyddir rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd ag y cydnabyddir asedau PFI. Caiff ei fesur ar werth presennol isafswm y taliadau prydles wedi eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd log ymhlwg. Ar ôl hynny, caiff ei fesur fel rhwymedigaeth brydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Wrth nodi'r ased i ddechrau, mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased a'r rhwymedigaeth gychwynnol yn cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig, sy'n cynrychioli potensial y gwasanaeth y bydd sefydliad GIG Cymru yn ei dderbyn yn y dyfodol drwy sicrhau bod yr ased ar gael i ddefnyddwyr trydydd parti.

## **1.27 Eitemau digwyddiadol**

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond gan ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad ansicr yn y dyfodol nad yw'n gyfan gwbl o fewn rheolaeth sefydliad GIG Cymru, neu mae'n rhwymedigaeth gyfredol nad yw'n cael ei chydabod oherwydd nad yw'n debygol y bydd angen taliad i setlo'r rhwymedigaeth neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd sy'n ddigon dibynadwy. Datgelir rhwymedigaeth ddigwyddiadol oni bai bod y posibilrwydd o daliad yn annhebygol.

Mae ased digwyddiadol yn ased bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad ansicr yn y dyfodol nad yw'n gyfan gwbl o fewn rheolaeth sefydliad GIG Cymru. Datgelir ased digwyddiadol lle mae mewnllif o fuddion economaidd yn debygol.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, datgelir eitemau digwyddiadol ar eu gwerth presennol.

Datgelir rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol o dan ofynion adrodd Seneddol ac nid o dan IAS 37 a, lle bo'n ymarferol, mae'n ofynnol rhoi amcangyfrif o'u heffaith ariannol.

## **1.28 Cyfrifyddu amsugnlol**

Cyfrifir am drosglwyddo swyddogaethau naill ai drwy gyfrifyddu cyfuno neu drwy gyfrifyddu amsugnlol yn dibynnu ar y driniaeth a ragnodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FRoM). Mae cyfrifyddu amsugnlol yn ei gwneud yn ofynnol i endidau roi cyfrif am eu trafodion yn y cyfnod y maent yn digwydd ynddo heb fod angen ailddatgan perfformiad.

Lle trosglwyddir swyddogaethau rhwng BILlau, mae'r enillion neu'r colledion a ddaw yn sgil yr asedau a'r rhwymedigaethau'n cael eu trosglwyddo yn cael eu cydnabod yn y SoCNE a'u datgelu ar wahân i'r costau gweithredu.

### **1.29 Safonau cyfrifyddu sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yma**

Mae'r safonau cyfrifyddu canlynol wedi eu cyhoeddi a/neu eu diwygio gan yr IASB ac IFRIC ond nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu oherwydd nad yw FReM wedi ei gwneud hi'n ofynnol:

- IFRS 14 Cyfrifon Gohiriedig Rheoleiddiol  
Yn berthnasol i'r rhai sy'n mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2016. Felly nid yw'n berthnasol.
- IFRS 17 Contractau Yswiriant  
Dylid ei gymhwyso ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021, ond nid yw wedi'i fabwysiadu eto gan FReM: ni chaniateir mabwysiadu'n gynnar.

### **1.30 Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi eu mabwysiadu'n gynnar**

Yn ystod 2022-23 ni fabwysiadwyd unrhyw safonau cyfrifyddu yn gynnar. Arweinir y broses o fabwysiadu safonau cyfrifyddu yn gynnar gan Drysorlys EF.

### **1.31 Elusennau**

Yn dilyn cytundeb y Trysorlys i gymhwyso IAS 27 i Elusennau GIG o 1 Ebrill 2013, mae'r BILI fel ymddiriedolwr corfforaethol yr elusen gysylltiedig "Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Elusennau Cysylltiedig Eraill", wedi sefydlu bod ganddo, ar gyfer cydymffurfio â safonau cyfrifyddu, reolaeth dros yr Elusen fel is-gorff. Mae felly'n ofynnol cydgrynhoi canlyniadau'r Elusen yng nghyfrifon statudol y BILI.

Pennir a oes rheolaeth drwy ddefnyddio'r prawf safonol cyfrifyddu ar gyfer rheolaeth. Ni fu unrhyw newid i weithrediad yr Elusen na'i hannibyniaeth o ran rheoli cronfeydd elusennol.

Fodd bynnag, mae'r BILI, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu eithriad IAS 27 (10) o ran cydgrynhoi. Bydd Llywodraeth Cymru fel rhiant eithaf y Byrddau Iechyd Lleol yn datgelu Cyfrifon Elusennol Byrddau Iechyd Lleol yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Mae manylion y trafodion gyda'r elusen wedi'u cynnwys yn Nodyn 30 Trafodion Partïon Cysylltiedig.

## 2. Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

Daeth Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 i rym ar 1 Ebrill 2014. Diwygiodd y Ddeddf ddyletswyddau ariannol Byrddau Iechyd Lleol o dan adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. O 1 Ebrill 2014, mae adran 175 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn gosod dwy ddyletswydd ariannol ar Fyrddau Iechyd Lleol:

—Dyletswydd o dan adran 175(1) i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na chyfanswm y cyllid a ddyrennir iddo dros gyfnod o 3 blwyddyn ariannol.

- Dyletswydd o dan adran 175(2A), i baratoi cynllun yn unol â'r cyfarwyddiadau cynllunio a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 175(1) wrth wella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a darparu gofal iechyd i bobl o'r fath, ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.

Daeth yr asesiad cyntaf o berfformiad yn erbyn y ddyletswydd statudol 3 blynedd o dan adran 175(1) sef y cyfnod asesu tair blynedd gyntaf, ar ddiwedd 2016-17.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 "Dyletswyddau Statudol ac Ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG" yn egluro dyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru sydd wedi bod mewn grym ers 2016-17.

### 2.1 Perfformiad Adnoddau Refeniw

	Perfformiad Ariannol Blyneddol			Cyfanswm £000
	2020-21 £000	2021-22 £000	2022-23 £000	
<b>Costau gweithredol net am y flwyddyn</b>	1,808,719	1,873,353	1,991,335	<b>5,673,407</b>
Llai gwaraint gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant cyfyngedig heb fod yn arian parod eraill	538	637	1,790	<b>2,965</b>
Llai oblygiadau Refeniw os deuir â chynlluniau PFI at SoFP	0	0	0	<b>0</b>
Llai canlyniadau refeniw heb eu hariannu o roi Prydlesi RoU ar y SoFP	0	0	0	<b>0</b>
Cyfanswm gwariant gweithredol	1,809,257	1,873,990	1,993,125	<b>5,676,372</b>
Dyraniad Adnoddau Refeniw	1,809,747	1,874,279	1,993,514	<b>5,677,540</b>
<b>Tan / (dros)wariant yn erbyn dyraniad</b>	<b>490</b>	<b>289</b>	<b>389</b>	<b>1,168</b>

Mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bodloni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y 3 blynedd 2020-21 i 2022- 23.

Ni dderbyniodd y Bwrdd Iechyd unrhyw gymorth arian parod ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd cymorth arian parod yn unig o £149.694 miliwn mewn cyfnodau ariannol blaenorol i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i wneud taliadau i staff a chyflenwyr; nid oes gofyniad i'r balans hwn gael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru.

## 2.2 Perfformiad Adnoddau Cyfalaf

	2020-21	2021-22	2022-23	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000
<b>Gwariant cyfalaf gros</b>	35,587	47,598	29,683	<b>112,868</b>
Adio: Colledion wrth waredu ar asedau a gyfrannwyd	0	0	0	<b>0</b>
Tynnu NBV o eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anddiriaethol a waredwyd	(100)	(513)	0	<b>(613)</b>
Tynnu grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	(782)	(779)	0	<b>(1,561)</b>
Tynnu cyfraniadau a dderbyniwyd	(808)	(442)	(460)	<b>(1,710)</b>
Llai incwm Hedyn Pupur IFRS16	0	0	0	<b>0</b>
Llai cydnabyddiaeth gychwynnol o Ddadfeiliadau Asedau RoU	0	0	0	<b>0</b>
Ychwanegu: cydnabod Dadfeiliadau Asedau RoU ar grisialu	0	0	0	<b>0</b>
Cost yn erbyn Dyraniad Adnodd Cyfalaf	33,897	45,864	29,223	<b>108,984</b>
Dyraniad Adnodd Cyfalaf	33,958	45,886	29,252	<b>109,096</b>
<b>(Tros) / Tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnodd Cyfalaf</b>	<b>61</b>	<b>22</b>	<b>29</b>	<b>112</b>

Mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bodloni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd 2020-21 i 2022-23.

## 2.3 Dyletswydd i baratoi cynllun integredig 3 blynedd

Gosododd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer y cyfnod 2022-2025 ofyniad ar Fyrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) i Lywodraeth Cymru.

Cyflwynodd y BILI Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod 2022-2025, a luniwyd gan ein strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach, ac yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru. Roedd yn cynnwys Cynllun Ariannol cytbwys ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 30 Mawrth 2022.

Fodd bynnag, yn dilyn proses graffu gadarn ac o ystyried nifer yr heriau yr oedd y BILI yn eu hwynebu, penderfynodd y Gweinidog nad oedd yr IMTP yn bodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn llawn. Yn lle hynny, derbyniodd y Gweinidog y cyflwyniad fel Cynllun Blyneddol ar gyfer 2022-23, a oedd yn destun monitro parhaus.

Felly, yn unol ag adran 175(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014) a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, methodd y sefydliad â chyflawni ei ddyletswydd statudol i baratoi cynllun integredig 3 blynedd

Cymeradwyaeth y Gweinidog Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n bodoli

**Statws**  
**Dyddiad**

Heb ei gymeradwy  
Ddim yn berthnasol

Felly nid yw BILI Betsi Cadwaladr wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol o gael cynllun ariannol cymeradwy.

## 2.4 Taliadau i gredydwy

Mae'n ofynnol i'r BILI dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag yw'r hwyraf). Mae'r BILI wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol:

	2022-23	2021-22
Cyfanswm nifer y biliau heb fod yn GIG a dalwyd	<b>389,329</b>	348,666
Cyfanswm y nifer o filiau heb fod yn GIG a dalwyd o fewn y targed	<b>370,046</b>	332,630
Canran y biliau heb fod yn GI a dalwyd o fewn targed	95.0%	95.4%

Mae'r BILI wedi cwrdd â'r targed.

### 3. Dadansoddiad o gostau gweithredu gros

#### 3.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol

	Cyfyngedig i arian parod £000	Cyfyngedig i nwyddau heb fod yn arian £000	2022-23 Cyfanswm £000	2021-22 Cyfanswm £000
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	146,147		146,147	148,642
G Williams	Aelod Annibynnol	2022-23	27.02.23 - 31.03.23	Llywodraeth Cymru - Cadeirydd y panel arbenigol sy'n cefnogi'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru Cyfarwyddwr - Galdeford Investments Ltd Cyfarwyddwr - Ludlow and District Community Association Ltd yn masnachu fel Ludlow Assembly Rooms Cadeirydd a Chyfarwyddwr - Opera Canolbarth Cymru Cyf
K Balmer CPFA	Aelod Annibynnol	2022-23	27.02.23 - 31.03.23	Aelod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) Prif Swyddog Gweithredol Groundwork Gogledd Cymru Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru Sylfaenydd ac ymddiriedolwr Cycling 4 All Cyfarwyddwr, IK Tech Limited Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth Gymunedol Melin y Nant Cyfarwyddwr, Skill Hive CIC
R Watcyn Jones	Aelod Annibynnol	2022-23	27.02.23 - 31.03.23	Ymddiriedolwr a Chadeirydd Hanes Llandocho
<b>Aelodau Cyswilt y Bwrdd</b>				
M Edwards	Aelod Cyswilt y Bwrdd	2021-22 *	01.04.22 - 25.06.22	Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd Cyfarwyddwr Arweiniol ADSS Cymru ynghylch y Gymraeg Aelod o Fwrdd Partneriaeth y Gymraeg Cadeirydd Bwrdd Comisiynu Integredig Rhanbarthol Aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
F Roberts	Aelod Cyswilt y Bwrdd	2022-23	29.07.22 - 31.03.23	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn Aelod Grŵp Arwain ADSS Cymru Cadeirydd Dawns i Bawb Aelod - Plaid Cymru
C Budden	Aelod Cyswilt y Bwrdd	2022-23	01.04.22 - 31.03.23	Prif Weithredwr o Cymdeithas Dai Clwyd Alyn Cyfarwyddwr, Tai Elwy Cyfyngedig Cyfarwyddwr, Tir Tai Cyfyngedig Cyfarwyddwr, Penarian Housing Finance plc Aelod o Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cymorth Tai Llywodraeth Cymru Is-gadeirydd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy Cymrawd y Sefydliad Tai Siartredig
J Wild	Aelod Cyswilt y Bwrdd	2022-23	01.04.22 - 31.03.23	Ymddiriedolwr a Swyddog Cymdeithas Awdioleg Prydain Mae ei chwaer yn feddyg teulu

Roedd trafodion materol rhwng y Bwrdd Iechyd a phartion cysylltiedig yn ystod 2022-2023 fel a ganlyn (oni adroddwyd amynt eisoes ar dudalen 69A):	Gwariant gyda pharti cysylltiedig £000	Incwm gan barti cysylltiedig £000	Symiau sy'n ddyledus i barti cysylltiedig £000	Symiau sy'n ddyledus gan barti cysylltiedig £000
Prifysgol Bangor	872	593	668	234
Fferyllfa Boots	4,337	0	0	0
CIPFA	61	0	44	0
Cymdeithas Dai Clwyd Alyn	953	0	124	0
Groundwork Gogledd Cymru	3	0	0	0
Cyfoeth Naturiol Cymru	8	0	0	0
Meditech	16	0	3	0
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)	1	0	0	0

## Troednodyn \*

Ni wnaeth unrhyw aelodau o'r Bwrdd Iechyd a wasanaethodd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 ddatgelu unrhyw fuddiannau parti cysylltiedig.

Lle'r oedd Cyfarwyddwyr wedi gwneud datganiadau mewn blynyddoedd blaenorol ond nad oedd y rhain wedi cael eu diweddarau yn ystod 2022-23, mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys y flwyddyn ddatgan, wedi cael ei chynnwys yn y nodyn hwn.

Gwnaeth y Cyfarwyddwyr canlynol ddatganiadau dim i'w ddatgan yn 2021-22 ond ni chafodd y rhain eu diweddarau na'u cadarnhau ar gyfer 2022-23:

Enw	Manylion swydd	Dyddiad gweithio yn y swydd
A L Brereton	Ysgrifennydd Bwrdd	01.04.22 - 03.04.22
G Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Darpariaeth Glinigol Integredig a Dirprwy Brif Weithredwr Prif Weithredwr Dros Dro	01.04.22 - 15.11.22 16.11.22 - 31.03.23

Gwnaeth H Hesketh Evans ymuno â'r Bwrdd Iechyd a'i adael yn ystod y flwyddyn ond ni chyflwynodd ddatganiad. Cafodd gwybodaeth yn y nodyn ei chyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd yn ystod cyfnod y swydd.

## 31. Asedau Trydydd Parti

Ar 31 Mawrth 2023, roedd y Bwrdd Iechyd yn dal £179,914 o arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ran trydydd partiön (31 Mawrth 2022: £195,807) yn cynnwys:

	2022-23	2021-22
	£	£
Arian a ddelir ar ran cleifion - cyfrifon cynilo	68,932	70,320
Arian a ddelir ar ran cleifion - cyfrifon cyfredol ac arian parod mewn llaw	72,682	101,637
Adneuon ar gyfer llety preswyl staff	38,300	23,850
	<u>179,914</u>	<u>195,807</u>

Mae'r balansau hyn wedi'u heithrio o'r ffigur Arian Parod a Symiau sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yr adroddir arno yn Nodyn 17 y Cyfrifon hyn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd stoc ar anfoneb sy'n parhau i fod yn eiddo i gyflenwyr nes caiff ei ddefnyddio, ac felly caiff ei ystyried yn ased trydydd parti. Gwerth y stoc ar anfoneb ar 31 Mawrth 2023 oedd £3,269,221 (31 Mawrth 2022: £3,364,898).

## 32. Cyllidebau cyfun

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i bum trefniant cyllideb gyfun sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf GIG (Cymru) 2006:

- Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd Ddwyrain Cymru - cynhelir gan Gyngor Sir y Fflint
- Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Sir Ddinbych - dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a Chymdeithasol Sir Ddinbych - dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych
- Storfa Cyfarpar Cymunedol Bryn-y-Neuadd - dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyllideb Gyfun Llety Pobl Hŷn Gogledd Cymru - dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r trefniadau ariannol pob un o'r pum cytundeb hyn yn ddarostyngedig i ofynion archwilio blynyddol arferol sefydliadau partner, gyda phob corff arweiniol yn gyfrifol am archwilio cyfrifon trefniadau unigol yn unol â'u gofynion archwilio statudol.

Mae nodiadau memorandwm ar dudalennau 76A-80A o'r cyfrifon hyn yn rhoi manylion y trafodion incwm a gwariant ar y cyd ar gyfer pob un o'r trefniadau.

### Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (RIF)

Cronfa bum mlynedd i gyflawni rhaglen o newid o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027 yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y RIF). Mae'r RIF yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd a'r cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig (ICF) flaenorol a'r Gronfa Trawsnewid (TF) a bydd yn ceisio creu newid cynaliadwy yn y system drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nodweddion a gwerthoedd allweddol y Gronfa yn cynnwys:

- Ffocws cryf ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Datblygu a sefydlu modelau gofal integredig cenedlaethol
- Rhannu'r dysgu ledled Cymru drwy Gymunedau Ymarfer
- Adnoddau cynaliadwy hirdymor i wreiddio a phrif ffrydio modelau gofal newydd
- Creu trefniadau cronfa gyfun hirdymor
- Buddsoddi cyson mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth

Mae'r RIF yn ysgogydd allweddol i sbarduno newid a thrawsnewid ar draws y system iechyd a chymdeithasol a thrwy wneud hynny, bydd yn cefnogi gweithredu sawl darn allweddol o bolisi a deddfwriaeth yn uniongyrchol.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) yn hwyluso'r trefniadau partneriaeth a wneir rhwng Bwrdd Iechyd Lleol ac un neu fwy o Awdurdodau Lleol. Mae amcanion Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u nodi yn Rheoliad 10 o'r Rheoliadau Partneriaeth a'u diben yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol, a'u bod yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth. Yn ogystal â phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, mae aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o blith tai, addysg, y trydydd sector, darparwyr, dinasyddion, er mwyn bwrw ymlaen â darparu gwasanaethau integredig yng Nghymru yn effeithiol. Eu diben yw gwella canlyniadau a llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth, yn ogystal â gofalu sydd angen cymorth. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio fel partneriaeth i gynllunio'n strategol, rheoli a datblygu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion eu poblogaethau yn y ffordd orau.

Cyfanswm cyllid y Gronfa a ddyrannwyd drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2022-23 oedd £32.9m (2021-22: £23.4m) o gyllid refeniw ynghyd â chyllid grant cyfalaf RIF o £2.1m (2021-22: £10.5m). Rheolir y llifau cyllid hyn drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr y Bwrdd Iechyd ac adroddir am hyn arno yn Nodyn 3.3, Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a Nodyn 4, Incwm Amrywiol.

### 33. Segmentau gweithredu

Mae safon cyfrifo IFRS 8 yn diffinio segment gweithredu fel cydran o endid:

1. Sy'n ymwneud â gweithgareddau y gall ennill refeniw ohonynt a mynd i gostau (gan gynnwys yn fewnol);
2. y mae eu canlyniadau gweithredu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Prif Swyddog Gweithredu Gwneud Penderfyniadau i wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad;
3. y mae gwybodaeth arwahanol ar gael.

Ar 1 Awst 2022, symudodd y Bwrdd Iechyd i fodel gweithredu newydd, sy'n seiliedig ar waith ymchwil a datblygu a gynhaliwyd drwy raglen Mewn Undod Mae Nerth.

Mae'r model newydd yn dod â Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, Gofal Eilaidd (aciwt) a gwasanaethau Plant at ei gilydd yn dair Cymuned Iechyd - y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin, a phob un yn cael ei harwain gan Gyfarwyddwr atebol. Mae Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Gwasanaethau Merched, Gwasanaethau Canser, Gwasanaethau Diagnostig a Chymorth Clinigol yn parhau i fod yn wasanaethau gogledd Cymru gyfan. Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol yn y nodyn hwn wedi'u hailddatgan i adlewyrchu strwythur y model gweithredu newydd.

Ystyrir bod pedair o swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd yn cynrychioli segmentau gweithredu yn unol â'r safon cyfrifyddu, ac adroddir ar eu perfformiad yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd.

Mae gwybodaeth am uwch adrannau nad ydynt wedi mynd yn uwch na'r trothwyon adrodd wedi'i datgelu yn y tabl canlynol er mwyn rhoi manylion ychwanegol am weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn.

	2022-23 £'000	2021-22 Ailddatganwyd £'000
<b>Cymunedan Iechyd Integredig</b>		
Cymuned Iechyd Integredig y Gorllewin *	320,094	300,972
Cymuned Iechyd Integredig y Canol *	407,043	381,935
Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain *	416,694	394,884
	<b>1,143,831</b>	<b>1,077,791</b>
Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Merched	44,479	42,354
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	155,124	145,189
Comisiynu Contractau *	257,679	234,773
Darpariaeth Glinigol Integredig Gofal Sylfaenol	54,538	74,258
Darpariaeth Glinigol Integredig Gwasanaethau Rhanbarthol	107,063	98,866
Swyddogaethau Cynnal Gwasanaeth	150,890	133,603
	<b>769,773</b>	<b>729,043</b>
<b>Cyllidebau Eraill</b>	<b>41,164</b>	<b>31,573</b>
6.3% Cyfraniadau pensiwn staff gan y cyflogwr - gwariant tybiannol (gweler Nodyn 34.1)	38,357	35,583
<b>Is-gyfanswm Costau Gweithredu</b>	<b>1,993,125</b>	<b>1,873,990</b>
<b>Terfyn Adnoddau Refeniw</b>	<b>1,993,514</b>	<b>1,874,279</b>
<b>Tan / (gor) wariant gyferbyn â Therfyn Adnoddau Refeniw</b>	<b>389</b>	<b>289</b>

\* Segmentau gweithredu sy'n bodloni'r meini prawf safonol ar gyfer adrodd yn unol â pharagraff 1.470, Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2022-23.

## 34. Gwybodaeth Arall

### 34.1 6.3% Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr Staff - Eifen Dybiannol

Mae gwerth trafodion tybiannol yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig ar gyfer y cyfnod deuddeng mis rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae hyn wedi'i gyfrifo o wariant gwirioneddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfraniadau o 6.3% o bensiwn cyflogwr staff rhwng Ebrill 2022 a Chwefror 2023 ochr yn ochr â data'r Bwrdd Iechyd ar gyfer mis Mawrth 2023.

Mae'r trafodion yn cynnwys gwariant tybiannol mewn perthynas â'r 6.3% a dalwyd i NHS BSA gan Llywodraeth Cymru a chyllideb dybiannol i ariannu'r gwariant hwnnw fel a ganlyn:

	2022-23	2021-22
	£000	£000
<b>Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023</b>		
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Dechreuol	1,027	883
Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill	0	0
Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol	37,330	34,700
<b>Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023</b>		
Cost weithredol net am y flwyddyn	38,357	35,583
Cyllideb Tybiannol Llywodraeth Cymru	38,357	35,583
<b>Datganiad o Ffrydiau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023</b>		
Cost weithredol net am y flwyddyn ariannol	38,357	35,583
Addasiadau ffrydiau arian parod eraill	38,357	35,583
<b>2.1 Perfformiad Adnoddau Refeniw</b>		
Dyraniad Adnoddau Refeniw	38,357	35,583
<b>3. Dadansoddiad o gostau gweithredu gros</b>		
<b>3.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol</b>		
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	856	795
Gwasanaethau Fferyllol	9	8
Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol	43	27
Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol arall	119	53
<b>3.3 Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol</b>		
Costau cyfarwyddwyr	47	45
Costau Staff	37,283	34,655
<b>9.1 Costau gweithwyr Staff Parhaol</b>		
Cyfraniadau'r cyflogwr at Gynllun Pensiwn y GIG	38,357	35,583
Codwyd i gyfalaf	0	0
Codwyd i refeniw	38,357	35,583
<b>18. Masnach a thaliadau eraill Cyfredol</b>		
Pensiynau: staff	0	0
<b>28. Addasiadau llif arian eraill</b>		
Symudiadau eraill	38,357	35,583

### 34. Gwybodaeth Arall (parhad)

#### 34.2 Cyllid Covid-19 Llywodraeth Cymru

Manylion am symiau cyllid Pandemig Covid-19 a ddarparwyd i gyrrff GIG Cymru gan Lywodraeth Cymru:

	2022-23 £000	2021-22 £000
<b>Cyfalaf</b>		
Ysbytai Maes Cyllid Cyfalaf		0
Offer a Gwaith Cyllid Cyfalaf		6,901
Cyllid Cyfalaf arall (nodwch)		0
	<b>0</b>	<b>6,901</b>
<b>Cyllid Cyfalaf Covid-19 Llywodraeth Cymru</b>	<b>0</b>	<b>6,901</b>
<b>Refeniw</b>		
Cyllid Sefydlogrwydd	18,823	65,198
Adveriad Covid	0	18,517
Safonau Glanhau	0	1,282
PPE (gan gynnwys Offer Cymru Gyfan trwy NWSSP)	1,538	3,519
TTP- Profi a Samplu - yn ymwneud â Chyflog a heb fod yn ymwneud â Chyflog	2,591	4,007
TTP - Orlhain y GIG ac Awdurdodau Lleol - yn ymwneud â Chyflog a heb fod yn ymwneud â Chyflog	4,610	13,088
Brechu Estynedig rhag y Ffliw / Brechu – Rhaglen Ffliw Estynedig	1,777	1,585
Brechu Torfol Covid-19 – Brechu – COVID-19	11,780	14,643
Croniad Gwyliau Blynyddol- Cynnydd Oherwydd Covid		5,383
Gofal Argyfwng a Brys		1,407
Darparwyr Preifat Gofal Oedolion / Cymorth ar gyfer Darparwyr Gofal Cymdeithasol Oedolion		3,427
Hosbisau		0
Iechyd Meddwl Arall / Iechyd Meddwl		343
Gofal Cychwynnol Arall	0	0
Gofal Cymdeithasol		2,360
Taliadau Cleifion Deintyddol	2,975	0
Cyllid C19 Nosocomiaidd	879	0
Arall	750	318
	<b>45,723</b>	<b>135,077</b>
<b>Cyllid Refeniw Covid-19 Llywodraeth Cymru</b>	<b>45,723</b>	<b>135,077</b>

Cyllid Refeniw Covid 19 Arall Llywodraeth Cymru yn ymwneud â:

2021-22 - £318,000 - Meddyginiaethau Therapiwtig (Triniaeth) Covid.

2022-23 - £750,000 - C19 Covid 19 Hir.

Cafodd y Bwrdd Iechyd £70,000 (2021-22: £81,000) o Gyllid Refeniw Covid-19 Llywodraeth Cymru fel incwm amrywiol, sydd wedi'i gynnwys yn Nodyn 4 ar dudalen 29A. Cafwyd yr holl incwm arall y manylir arno uchod trwy Ddyraniadau Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf y Bwrdd Iechyd.

## 34. Gwybodaeth Arall (parhad)

### 34.4 Cyllidebau Cyfun

#### Nodyn Memorandwm - Nodyn 32 - Cyllidebau Cyfun

#### Cyfrifon Memorandwm Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru 2022-23

Caiff Cronfa Gogledd-ddwyrain Cymru ei chynnal gan Gyngor Sir y Fflint a dechreuodd y bartneriaeth ffurfiol ar 8 Gorffennaf 2009. Mae memorandwm cyfrifon wedi'i lunio gan Gyngor Sir y Fflint, fel a ganlyn:

	2022-23	2021-22
	£ 000	£ 000
<b>Cyfraniadau Cyllideb Gyfun</b>		
Cyngor Sir y Fflint	318	306
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	301	290
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	455	430
Arall	227	225
<b>Cyfanswm cyfraniadau cyllideb gyfun ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>1,301</b>	<b>1,251</b>
<b>Gwariant</b>		
Prynu Offer	486	506
Gwariant Gweithredu	780	789
Gwariant nad yw'n ymwneud â Gweithredu	0	0
<b>Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>1,266</b>	<b>1,295</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn</b>	<b>35</b>	<b>(44)</b>

#### Cyfrifon Memorandwm Gwasanaeth Offer Cymunedol Sir Ddinbych 2022-23

Caiff Cronfa Sir Ddinbych ei chynnal dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych. Dechreuodd y cytundeb partneriaeth tair blynedd cychwynnol ar 1 Ebrill 2009 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2012.

Dechreuodd yr ail cytundeb partneriaeth ar 1 Ebrill 2012 ac roedd yn weithredol tan 31 Mawrth 2015. O 2015-16 ymlaen, penderfynwyd dychwelyd at gyfundebau blwyddyn.

Mae memorandwm cyfrifon wedi'i lunio gan Gyngor Sir Ddinbych fel a ganlyn:

	2022-23	2021-22
	£ 000	£ 000
<b>Cyfraniadau cyllideb gyfun</b>		
Cyngor Sir Ddinbych	219	219
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Craidd)	138	138
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr (Gwasanaethau Gwely)	51	51
Arall - HEC / CHC / Gofal Canolraddol	217	225
<b>Cyfanswm cyfraniadau'r Gyllideb Gyfun ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>625</b>	<b>633</b>
<b>Gwariant</b>		
Prynu offer (Craidd a CHC)	189	150
Gwariant gweithredu	529	437
<b>Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>718</b>	<b>587</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn</b>	<b>(93)</b>	<b>46</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) Cronnus net ar y Gyllideb Gyfun</b>	<b>(1)</b>	<b>92</b>

### 34. Gwybodaeth Arall (parhad)

#### 34.4 Cyllidebau Cyfun (parhad)

##### Nodyn Memorandwm - Nodyn 32 - Cyllidebau Cyfun

##### **Gwasanaeth Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych - Memorandwm Cyfrifon 2022-23**

Cynhelir Cronfa Gwasanaethau Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych. Mae memorandwm cyfrifon ar gyfer trefniant y gyllideb gyfun isod.

	2022-23	2021-22
	£ 000	£ 000
<b>Cyfraniadau cyllideb gyfun</b>		
Cyngor Sir Ddinbych	50	50
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	50	50
Dyraniad Grant RIF	55	53
Dyraniad Grant RIF - o lithriant	3	0
<b>Cyfanswm cyfraniadau'r Gyllideb Gyfun ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>158</b>	<b>153</b>
<b>Gwariant</b>		
Treuliau Gweithwyr	147	151
Gwariant Gweithredu Arall	11	6
<b>Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>158</b>	<b>157</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn</b>	<b>0</b>	<b>(4)</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) net cronnus ar y Gyllideb Gyfun</b>	<b>38</b>	<b>38</b>

##### **Memorandwm Cyfrifon Storfa Gyfarpar Cymuned Bryn-y-Neuadd 2022-23**

Cynhelir Storfa Gyfarpar Cymuned Bryn-y-Neuadd dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd. Darperir cyfrif memorandwm ar gyfer trefniant y gyllideb gyfun isod.

	2022-23	2021-22
	£ 000	£ 000
<b>Cyfraniadau</b>		
Cyngor Ynys Môn	156	156
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	183	183
Cyngor Gwynedd	204	196
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	497	497
Archebion Arbennig	90	90
<b>Cyfanswm cyfraniadau cyllideb gyfun</b>	<b>1,130</b>	<b>1,122</b>
<b>Gwariant</b>		
Costau Gweithredu	797	688
Prynu Cyfarpar (gan gynnwys Archebion Arbennig)	524	512
<b>Cyfanswm Gwariant</b>	<b>1,321</b>	<b>1,200</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn</b>	<b>(191)</b>	<b>(78)</b>
<b>Gweddill/(Diffyg) Cronnus net ar y Gyllideb Gyfun</b>	<b>(362)</b>	<b>(171)</b>

### 34. Gwybodaeth Arall (parhad)

#### 34.4 Cyllidebau Cyfun (parhad)

##### Nodyn Memorandwm - Nodyn 32 - Cyllidebau Cyfun

##### **Cyllideb Gyfun Llety Pobl Hŷn Gogledd Cymru - Cyfrifon Memorandwm 2022-23**

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cytuno ar drefniant cyllideb gyfun mewn perthynas â darparu llety cartref gofal i bobl hŷn.

Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn awdurdod sy'n arwain yn ystod tymor cychwynnol y cytundeb. Mae'r trafodion sy'n ymwneud â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'u cynnwys yn Nodyn 3.3 Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Dangosir incwm a gwariant ar gyfer trefniadau'r cyllidebau cyfun hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 isod. Bydd cyfraniadau Chwarter 4 2022-23 yn cael eu talu mewn ôl-daliadau yn ystod 2023-24 yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth:

	2022-23	2021-22
	£ 000	£ 000
<b>Cyfraniadau</b>		
Cyngor Sir Ddinbych	10,236	9,340
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	15,864	14,221
Cyngor Sir y Fflint	10,556	10,095
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	14,434	15,317
Cyngor Gwynedd	11,214	9,143
Cyngor Ynys Môn	5,708	5,209
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	43,020	35,657
<b>Cyfanswm cyfraniadau'r gyllideb gyfun</b>	<b>111,032</b>	<b>98,982</b>
<b>Gwariant</b>		
Costau Cartrefi Gofal	111,032	98,982
<b>Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>111,032</b>	<b>98,982</b>
<b>Gweddill /(Diffyg) Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

**CYFARWYDDYD CYFRIFON Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU A RODDWDYD GAN WEINIDOGION CYMRU YN UNOL AG ATODLEN 9 ADRAN 178 PARAGRAFF 3(1) O DDEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006 (PENNOD 42) A GYDA CHYMERADWYAETH Y TRYSORLYS**

**BYRDDAU IECHYD LLEOL**

1. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo y caiff cyfrif ei baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn perthynas â'r Byrddau Iechyd Lleol (BILI) 1, ar y ffurfiau y manylir arnynt ym maragraffau [2] hyd at [7] isod.

**SAIL PARATOI**

2. Bydd cyfrif y BILI yn cydymffurfio ag:

(a) arweiniad cyfrifyddu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol pan mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi, ac mae wedi cael ei gymhwyso gan Lywodraeth Cymru a manylir arno yn Llawlyfr Cyfrifon BILlau GIG Cymru;

(b) unrhyw arweiniad neu ddatgeliadau penodol eraill sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

**FFURF A CHYNNWYS**

3. Bydd cyfrif y BILI ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol yn cynnwys datganiad o wariant net cynhwysfawr, datganiad o sefyllfa ariannol, datganiad o lif arian parod a datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr cyn belled â bod y datganiadau hyn yn ofynnol gan y FReM ac yn cael eu cymhwyso gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y nodiadau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol am y cyfrifon.

4. Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol, bydd cyfrif y BILI yn rhoi golwg gwirioneddol a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r costau gweithredu, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llif arian parod yn ystod y flwyddyn

5. Caiff y cyfrif ei lofnodi a'i ddyddio gan Brif Weithredwr y BILI.

**AMRYWIOL**

6. Caiff y cyfarwyddyd ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddiedig.

7. Bydd y nodiadau i'r cyfrifon, ymysg pethau eraill, yn cynnwys manylion am y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

Llofnodwyd trwy awdurdod Gweinidogion Cymru.

Llofnod: Chris Hurst

Dyddiad :

1. Gweler rheoliad 3 Gorchymyn 2009 Rhif 1559 (W.154); Gorchymyn GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU; Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwydd) (Cymru) 2009.

Gadawyd y dudalen hon yn wag yn fwriadol

## 1. Cwmpas y Cyfrifoldeb

- 1.1 Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd, fi sy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, gan ddiogelu safonau ansawdd, arian cyhoeddus ac asedau adrannau yr wyf i'n bersonol yn gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru. Dylid nodi yn achos y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn fy mod i wedi cychwyn yn fy rôl ar 3 Mai 2023 ac felly, rwy'n seilio'r datganiad hwn ar y wybodaeth sydd ar gael i mi yn hytrach na chyfranogiad uniongyrchol yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â hi.
- 1.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu sut yn union y mae'r sefydliad wedi gorfod gweithio'n fewnol a chydweithio â phartneriaid wrth gynllunio a darparu ein gwasanaethau ar gyfer pobl Gogledd Cymru. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i roi. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol; fodd bynnag, bwriedid lleihau dyblygu lle bo modd. Felly, mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.
- 1.3 Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â blwyddyn 2022/23. Fodd bynnag, hoffwn gyfeirio'n benodol yng nghyflwyniad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn fod gan y Bwrdd Iechyd, ar adeg datblygu a goruchwyllo'r datganiad hwn, yn ogystal â Phrif Swyddog Gweithredol Dros Dro newydd, Gadeirydd newydd, Aelodau Annibynnol newydd o'r Bwrdd a Phwyllgor Archwilio newydd, gan gynnwys Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Archwilio, ac nid y bobl hyn yw'r rhai a wnaeth lenwi'r swyddi hyn tan ddiwedd mis Chwefror 2023. Yn ogystal, credaf ei bod yn bwysig nodi bod y Datganiad hwn wedi'i lunio â'r Bwrdd Iechyd yn destun Mesurau Arbennig ers mis Chwefror 2023. Cyfeirir ymhellach at y statws uwchgyfeiriedig hwn yn y datganiad hwn.
- 1.4 Rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael ei weinyddu'n ddarbodus, yn ddiwastraff ac yn briodol, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.
- 1.5 Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau i Brif Weithredwr GIG Cymru, rwy'n atebol yn uniongyrchol i Gadeirydd y Bwrdd Iechyd am y gwaith o weithredu'r Bwrdd Iechyd ac am weithredu penderfyniadau'r Bwrdd.

## 2. Y Gallu i Reoli Risg

- 2.1 Fel Prif Weithredwr, fi sy'n bennaf gyfrifol am systemau rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd ac am fodloni'r holl ofynion statudol a chadw at y canllawiau a gyhoeddir gan GIG Cymru. Mae gan Dîm y Gweithredwyr cylch gwaith i sicrhau digonolrwydd y strwythurau, prosesau a chyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad, cyn eu trafod yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

- 2.2 Fe wnaeth y Bwrdd ystyried ei archwaeth o ran risg yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn mynegi barn y Bwrdd lechyd yn glir: nid yw'n goddef risgiau heb eu lliniaru/risgiau annerbyniol i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Er mwyn darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel, bydd y Bwrdd lechyd yn annog staff i weithio gan gydweithredu â'i gilydd ac â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i leihau risg i'r eithaf a hybu lles cleifion. Cynhaliwyd gweithdy rheoli risg blynyddol y Bwrdd ar 8 Mawrth 2022 i adolygu'r archwaeth am risg, yn unol â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ac yn Ebrill 2022 i adolygu'r risgiau strategol a oedd yn bodoli ar ddiwedd 2021/22, gan ystyried yr amcanion a ddisgrifir yn Strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach. Bwriedir trefnu Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ynghylch ei archwaeth o ran risg ar gyfer 2023 ar 23 Awst 2023.
- 2.3 Mae arweinwyr a rheolwyr unigol a thimau'n gyfrifol am dasgau beunyddiol yn ymwneud â rheoli risgiau, a hwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod asesiadau o risgiau yn cael eu cynnal yn rhagweithiol ym mhob rhan o'r maes y maent yn gyfrifol amdano a bod camau unioni yn cael eu gweithredu pan nodir risgiau. Ceir proses o uwchgyfeirio i Gyfarwyddwyr Gweithredol, y Grŵp Rheoli Risgiau a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (sy'n ymgymryd â rôl Pwyllgor Risg y Bwrdd lechyd), yn ogystal â Phwyllgorau eraill y Bwrdd lechyd sy'n adolygu risgiau sy'n rhan o'u cylch gwaith, at ddibenion rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu lliniaru'n drylwyr ac yn brydlon.
- 2.4 Er mwyn sicrhau bod staff allweddol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i reoli risg, darperir hyfforddiant sy'n ymgorffori agweddau ar reoli risg, a'r nod yw sicrhau y caiff yr holl uwch staff eu hyfforddi i nodi a rheoli risg glinigol. Yn benodol, mae'r hyfforddiant yn cynnig arweiniad i staff ynghylch y camau y gallant eu gweithredu ar ôl iddynt nodi risg, yn cynnwys sefydlu mesurau rheoli, camau lliniaru ac uwchgyfeirio'r risg.
- 2.5 Yn ystod 2022/23, darparwyd hyfforddiant ynghylch rheoli risg i 126 aelod o'r staff, ledled yr ystod lawn o grwpiau o staff. Mae hyn yn llai na'r 744 aelod o'r staff a hyfforddwyd yn 2021/22. Mae'r tîm risg yn gweithio i gynyddu niferoedd y staff sy'n cael eu hyfforddi trwy sicrhau bod yr hyfforddiant yn haws ei gyrchu trwy gyfrwng ESR, fel rhan o gyfnodau cynefino staff newydd a hyfforddiant gorfodol ar gyfer grwpiau penodol o'r staff, a bod hyfforddiant ar lefel uwch yn cael ei gynnal i uwch aelodau o'r staff. Sicrwydd cyfyngedig a nodwyd yn sgil yr Archwiliad Mewnol ac felly mae'r Fframwaith yn cael ei adolygu, ac mae hynny'n cynnwys hyfforddiant.
- 2.6 Cynghorir staff ynghylch sut i uwchgyfeirio risgiau ond fe'u hatgoffir hefyd nad yw hyn yn lleihau eu cyfrifoldeb personol am y risg. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cofrestrau risg lleol, ymdrechwyd hefyd i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r broses o nodi risgiau a'u rheoli ledled y Bwrdd lechyd.
- 2.7 Nodwyd nifer o risgiau newydd a rhai a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23. Parhaodd gweithredu sylweddol ar y lefelau cenedlaethol a lleol er mwyn parhau i ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad ac ar y boblogaeth yn sgil Covid-19.
- 2.8 Ar 27 Chwefror 2023, daeth y sefydliad yn destun Mesurau Arbennig, ac yn sgil hynny, mae wedi datblygu Cynllun Ymateb i fynd i'r afael â'r materion. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn yn sail i'r ymateb hwn, ynghyd a'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

### 3 Ein Fframwaith Llywodraethu

- 3.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnig adroddiad am lywodraethu corfforaethol, yn cynnwys asesiad y Bwrdd ynghylch ei gydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforol, ynghyd ag esboniadau ynghylch unrhyw wyriadau. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydymffurfio'n rhannol yn unig â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a phrofwyd rhywfaint o heriau o ran sicrhau cworymau mewn cyfarfodydd ac fe wnaeth hynny effeithio ar brosesau gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, fe wnaeth gydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth gyfoes o ansawdd dda ar ei wefan; darparu adroddiadau dwyieithog; a gwahodd y cyhoedd i gyfrannu at gyfarfodydd perthnasol y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol o ran yr Ymateb i'r Mesurau Arbennig, ac mae adolygiad annibynnol ynghylch Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd wedi cael ei gynnal. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw'r corff gwneud penderfyniadau allweddol yn y Bwrdd lechyd, ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion. Cyhoeddodd y Gweinidog lechyd ar 27 Chwefror 2023 ei bod hi'n gosod y Bwrdd lechyd o dan Fesurau Arbennig a fyddai'n dod i rym yn ddi-oed, a derbyniwyd Gorchymyn Ymyrryd ar 13 Mawrth 2023.
- 3.2 Yn ystod cyfnod 2022/23, newidiodd aelodaeth y Bwrdd yn sylweddol.
- Gadawodd y Prif Weithredwr, Jo Whitehead, ar 14 Tachwedd 2022, a phenodwyd Gill Harris yn Brif Weithredwr Dros Dro. Cychwynnais i (Carol Shillabeer) fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro ar 3 Mai 2023.
  - Cafodd Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, ryddhad o'i gwaith ar 5 December 2022, a daeth Steve Webster yn Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro yn Ionawr 2023.
  - Fe wnaeth y Cadeirydd a holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd roi'r gorau i'w rolau ar 27 Chwefror 2023. Yn eu lle, fe wnaeth y Gweinidog benodi Cadeirydd newydd, ac erbyn adeg ysgrifennu'r datganiad hwn, mae chwe Aelod Annibynnol wedi'u penodi. Cânt eu cynorthwyo gan ddau Aelod Cysylltiol sydd (ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn) wedi cael eu penodi.
- Mae cynnydd yn digwydd o ran datblygu Bwrdd sy'n gweithredu'n dda a all arwain y gwaith o gyflawni'r gwelliannau gofynnol. Cafwyd newidiadau i'r Rheolau Sefydlog gan Lywodraeth Cymru i adlewyrchu nifer aelodau'r Bwrdd a'r gymysgedd o ran aelodau, a mabwysiadu'r newidiadau hynny'n swyddogol yng nghyfarfod y Bwrdd ym Mai 2023.
- 3.3 Fel rhan o Raglen Datblygu'r Bwrdd yn ystod y cyfnod y mae'r datganiad hwn yn ei gwmpasu, fe wnaeth Cronfa'r Brenin ('The King's Fund'), elusen sy'n 'felin drafod' annibynnol ym maes gofal iechyd, hwyluso gwerthusiad ynghylch effeithiolrwydd y Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi'r gwaith a gyflawnwyd o gymharu â gwaith a gynlluniwyd, presenoldeb, nifer y cyfarfod â chworwm, ac arolygon blynyddol o'r aelodau gan gwmpasu strategaeth, perfformiad, risg a sicrwydd, perfformiad Pwyllgorau a pherfformiad y Bwrdd drwyddo draw. Digwyddodd hyn ar 14 Mehefin 2022, ond canslwyd sesiwn ddeuddydd dilynol y bwriedid ei chynnal yng Ngorffennaf 2022. Lluniwyd y broses i gydymffurfio â gofynion o ran arferion gorau megis y Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Archwilio, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, canllaw The Healthy NHS Board ac astudiaeth 'Taking It on Trust', lle'r oedd hynny'n briodol.
- 3.4 Roedd y Bwrdd lechyd wedi ymgorffori'r gofynion o ran arfer gorau a bennir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU yng nghylch gwaith y pwyllgor a'r strwythurau cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach yn dilyn yr Adolygiad o Lywodraethu fel rhan o'r Cynllun i Ymateb i'r Mesurau Arbennig.

- 3.5 Mae'r Bwrdd yn cyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau â chymorth ei Gylch Busnes Blynyddol, sy'n ystyried pennu strategaethau a monitro risgiau allweddol, perfformiad, llywodraethu, a materion yn ymwneud â diwylliant ac ansawdd. Trwy law ei Bwyllgorau, cafodd y Bwrdd lechyd adroddiadau ynghylch straeon am brofiadau dysgwyr a gwersi a ddysgwyd, cyllid, ansawdd, diogelwch cleifion, perfformiad, diogelu, strategaethau, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac archwiliadau manwl o wasanaethau megis y gwasanaethau fasgwlaidd ac iechyd meddwl.
- 3.9 Ceir rhagor o fanylion ynghylch presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn atodiad 3. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y presenoldeb cyfartalog yn 89%, a chynhaliwyd saith o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd lechyd yn sicrhau bod adroddiadau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ar gael a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd lechyd. Cyhoeddir papurau'r Bwrdd ar y wefan wythnos cyn bob cyfarfod a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.
- 3.7 Yn ystod y cyfnod, y rhain oedd Pwyllgorau'r Bwrdd:
- Y Pwyllgor Archwilio;
  - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad;
  - Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth;
  - Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth;
  - Y Pwyllgor Pobl, Partneriaethau ac Iechyd Cyhoeddus;
  - Y Pwyllgor Galluedd a Chydymffurfiaeth Iechyd Meddwl;
  - Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.
- 3.8 Mae Pwyllgorau'r Bwrdd lechyd a'r is-bwyllgorau perthnasol yn cadw golwg ar drefniadau statudol a rheoleiddiol y Bwrdd lechyd, ac mae eu hawdurdod wedi'i ddirprwyo iddynt gan y Bwrdd. Caiff yr holl gofnodion a'r logiau camau gweithredu eu cynnal a'u cyhoeddi (os yn berthnasol) mewn perthynas â chyfarfodydd a phwyllgorau'r Bwrdd lechyd.
- 3.9 Ceir Aelodau Annibynnol ym mhob pwyllgor, i wella effeithiolrwydd busnes y Pwyllgorau. Mae Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau Ansawdd a Chyllid yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio hefyd.
- 3.10 Diben Pwyllgorau'r Bwrdd yw galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar ei fusnes craidd, ac ar yr un pryd, cael sicrwydd rheolaidd trwy gyfrwng adroddiadau ynghylch sicrwydd gan Gadeiryddion Pwyllgorau, yn unol ag arferion gorau. Ni chynhaliwyd cyfarfodydd ym Mawrth 2023 oherwydd diffyg Aelodau Annibynnol i sicrhau cworymau mewn cyfarfodydd. Effeithiodd hyn ar Bwyllgorau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod ar ôl 27 Chwefror 2023 hyd at 31 Mawrth 2023 ym mlwyddyn weithredu 2022/23.
- 3.11 Caiff effeithiolrwydd y Pwyllgorau ei wella trwy gyfrwng cynlluniau gwaith cynhwysfawr a thrwy sicrhau bod cyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd ei bwyllgorau yn cyd-fynd a'r cynlluniau hynny. Mae hyn yn sicrhau bod meysydd cyfrifoldebau sydd wedi'u dirprwyo gan y Bwrdd i'r Pwyllgorau yn cael eu monitro'n brydlon trwy dderbyn adroddiadau sicrwydd gan y Cadeirydd a chofnodion, a cheir dull o uwchgyfeirio materion at sylw'r Bwrdd, pan fo hynny'n briodol.
- 3.12 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynorthwyo'r Bwrdd â'r gwaith o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol, trwy gynllun gwaith blynyddol strwythuredig sy'n cyd-fynd â gofynion y Llawlyfr i Bwyllgorau Archwilio a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Prif rôl y Pwyllgor yw ceisio sicrwydd bod systemau llywodraethu a rheoli risg y Bwrdd lechyd yn addas i'w diben, bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo mewn perthynas â hwy, a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

- 3.13 I gynorthwyo i roi'r sicrwydd hwn, mae cynllun gwaith y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys adolygu prosesau rheoli risg y sefydliad, a'r gofrestr risgiau corfforaethol. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael sicrwydd gan y swyddogaethau Archwilio Mewnol ac Allanol, trwy bennu'r cynllun Archwilio Mewnol blynyddol a monitro'r dull o'i gyflawni yn rheolaidd, a goruchwyllo'r gwaith o roi argymhellion archwiliadau ar waith. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cadw golwg ar waith pwyllgorau eraill fel rhan o'r system rheolaethau mewnol.
- 3.14 Mae gan aelodau'r Pwyllgor Archwilio rôl allweddol mewn perthynas â chraffu'n annibynnol ar effeithiolrwydd camau gweithredu rheolwyr o ran lliniaru risgiau, trwy adolygu cofrestr risgiau'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn, dylid nodi bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi ymgymryd (yn unol â Strategaeth Rheoli Risgiau'r Bwrdd Iechyd) â rôl o ran craffu ar y gwaith o gyflawni camau lliniaru mewn perthynas â risgiau penodol a herio hynny, gan sicrhau bod perchnogion risgiau yn atebol am fethu â chyflawni camau gweithredu neu unrhyw amrywiadau mewn perthynas â darpariaethau'r strategaeth hon. Yn ychwanegol, mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys:
- Monitro cynnydd rheolwyr o ran gweithredu argymhellion Archwiliadau Mewnol ac Allanol;
  - Craffu ar effeithiolrwydd y trefniadau atal twyll, ac olrhain cynnydd o ran cyflawni cynllun gwaith blynyddol yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol;
  - Cynnal adolygiadau o'r system rheolaethau mewnol yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd, trwy gael sicrwydd ynghylch dulliau o reoli risgiau manwl yn eu tro.
- 3.15 Yn ystod cyfnod 2022/23, cafodd y Pwyllgor Archwilio adroddiadau archwiliadau mewnol yn trafod ystod eang o systemau llywodraethu a rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Oherwydd yr amser yr oedd ei angen i graffu ar gyfrifon blynyddol 2021/22 a'r gweithgarwch ymchwilio dilynol a materion yn ymwneud â chworymau cyfarfodydd, ni allai'r Pwyllgor gwblhau ei adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd yn unol â gofynion y Llawlyfr Archwilio.
- 3.16 Bydd y Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd gan Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Fforwm y Bartneriaeth Leol a Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd trwy law'r Pwyllgorau. Mae rhagor o naratif ynghylch trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd ar gael yn adran 10 y ddogfen hon.
- 3.17 Ar 23 Chwefror 2023, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad ynghylch eu gwaith i asesu Effeithiolrwydd y Bwrdd Iechyd, ac roedd yr adroddiad hwnnw yn galw am weithredu'n ddi-oed er mwyn gwella perthnasoedd gwaith yn y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Wrth i'r Bwrdd Iechyd barhau i wynebu heriau digynsail yn sgil galwadau ar wasanaethau a phryderon hirdymor ynghylch perfformiad, ansawdd a diogelwch nifer o wasanaethau penodol, mae'n hanfodol sicrhau bod ein Bwrdd yn gweithio'n gydlynol ac yn unedig er mwyn ysgogi'r gwelliannau gofynnol. Fe wnaeth yr adroddiad nodi camau di-oed y mae Archwilio Cymru yn credu eu bod yn ofynnol i gyflawni hyn. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ymateb i'r gofynion hyn mewn modd sy'n cyd-fynd â dull BIPBC o ymdrin â gofynion y Mesurau Arbennig.

## 4. Sicrhau Ansawdd Data

- 4.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i fynd ati'n barhaus i wella ei drefniadau mewn perthynas ag ansawdd data er mwyn gwella ansawdd a manwl gywirdeb gwybodaeth allweddol a metrigau eraill. Mae'r Grŵp Trawsnewid ac Adfer Gofal wedi'i Gynllunio yn adolygu ac yn monitro data rhestrau aros byw mewn perthynas â manwl gywirdeb a pherfformiad o gymharu â thargedau. Hefyd, mae gan y Grŵp Trawsnewid Gofal wedi'i Gynllunio system i ddilysu ac archwilio ei ddata ynghylch amseroedd aros am wasanaethau sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw yn wythnosol ac yn fisol, a chynhelir hapwiriadau ar arbenigeddau i sicrhau ansawdd y broses ddilysu. Mae'r Grŵp hwn bellach wedi cael ei ddisodli gan Fwrdd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio.
- 4.2 Caiff y risgiau mewn perthynas ag ansawdd a manwl gywirdeb y data hyn ynghylch amseroedd amser eu harchwilio'n wythnosol i sicrhau y caiff gweithgarwch ei gofnodi'n gywir ac yn brydlon. Os bydd anawsterau'n codi, caiff camau unioni eu cytuno, eu gweithredu a'u monitro'n ddi-oed.
- 4.3 Bydd y gwaith blynyddol o ddilysu rhestrau aros hefyd yn digwydd trwy law'r tîm rheoli ac ystod o adroddiadau ar ansawdd data byw sy'n cael eu datblygu i fonitro ansawdd data ynghylch dangosyddion perfformiad allweddol, yn wythnosol ac yn fisol.
- 4.4 Bydd gwaith ehangach ynghylch asesu ansawdd data (ac os bydd hynny'n ofynnol, gwella'r ansawdd hwnnw) yn ofynnol yn ystod 2023/24.

## 5. Diben y System Rheolaethau Mewnol

- 5.1 Lluniwyd y system rheolaethau mewnol i reoli risgiau ar lefel resymol yn hytrach na diddymu pob risg.
- 5.2 Mae'r system rheolaethau mewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i llunio i nodi a blaenoriaethu risgiau a allai atal cyflawni polisiâu, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaethau mewnol wedi bod ar waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

## 6. Asesu Risgiau

- 6.1 Mae gan y sefydliad broses i nodi ac asesu risgiau.
- 6.2 Caiff y gofrestr risgiau ei llenwi ar lefel leol/weithredol ac ar lefel gorfforaethol. Mae'r gofrestr risgiau yn hysbysu'r broses cynllunio busnes ac mae'n ystyriaeth allweddol o safbwynt rheoli gweithrediadau cyffredinol ar lefelau unedau gwasanaethau, unedau busnes clinigol, a chorfforaethol.
- 6.3 Caiff risgiau strategol (a ddisgrifir isod) eu nodi a'u hasesu mewn perthynas â'u bygythiad i'r gallu i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Caiff risgiau 'o'r gwaelod i fyny' eu nodi trwy gyfrwng staff lleol yn rhoi gwybod am ddigwyddiadau ac asesiadau o risgiau, a chaiff risgiau sefydliadol eu nodi trwy gyfrwng cynlluniau busnes, prosesau ynghylch Digwyddiadau Difrifol, a phrosesau yn ymwneud â Phobl, er enghraifft, recriwtio. Caiff risgiau 'o'r brig i lawr' eu hasesu trwy ddatblygu ac adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, cynlluniau busnes strategol, a rheoli contractau.

- 6.4 Yn ystod y flwyddyn, digwyddodd gwaith hollbwysig i liniaru risgiau allweddol yn ymwneud â phrif amcanion y Bwrdd Iechyd. Ar sail sgôr risgiau anodd cael gwared arnynt, caiff y prif risgiau arwyddocaol i'r sefydliad a oedd yn weddill yng nghyfnod 2022/23 ac yn effeithio'n sylweddol ar y system rheolaethau mewnol eu nodi yn adran 8.2.

Nod Strategol 1: Gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb / Gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau;

Nod Strategol 2: Targedu ein hadnoddau at bobl sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghyfartaleddau;

Nod Strategol 3: Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl (unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau) i gyflawni eu llesiant eu hunain;

Nod Strategol 4: Parchu pobl a'u hurddas, a dysgu o'u profiadau.

## 7. Y Fframwaith Risgiau a Rheolaethau

- 7.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses i nodi, asesu a rheoli risgiau. Mae'n ddull systematig sy'n asesu canlyniadau a thebygolrwydd pob digwyddiad risg, a'r mesurau lliniaru a'r rheolaethau cysylltiedig. Mae hyn yn ein galluogi i nodi risgiau y gellid ystyried eu bod yn annerbyniol i'r sefydliad.

- 7.2 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull strwythuredig i nodi, asesu, rheoleiddio a lliniaru risgiau a'u rheoli, er mwyn cyflawni ei amcanion gweithredol a strategol. Caiff dull rheoli risgiau'r Bwrdd Iechyd ei lywio gan fframwaith a strwythur rheoli risgiau cryf, yn cynnwys prosesau a systemau sy'n cynorthwyo staff i sganio'r gorwel yn rheolaidd i ganfod risgiau sy'n dod i'r amlwg, eu lliniaru a'u rheoli'n briodol. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Strategaeth Rheoli Risgiau ddiwygiedig yn 2022, a lansiodd y strategaeth honno ar 18 Hydref 2022, ond mae'r sicrwydd cyfyngedig yn deillio o adroddiad yr Archwiliad Mewnol yn golygu y bydd angen gwneud rhagor o waith.

- 7.3 Yn ystod cyfnod 2022/23, parhaodd y Grŵp Rheoli Risgiau i roi sylw i weithgareddau ei fusnes craidd er mwyn sicrhau cyngor gwell a sicrwydd a chynnig argymhellion effeithiol i Dîm y Gweithredwyr ynghylch uwchgyfeirio risgiau a'u rheoli'n briodol. Mae'r Grŵp hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Bwrdd Iechyd systemau, prosesau a threfniadau llywodraethu cryf fel y gellir hwyluso lliniaru a rheoli effeithiol ac ymgorffori arfer gorau o ran rheoli risgiau ar draws y sefydliad. Bu'n rhaid canslo dau gyfarfod oherwydd diffyg cworymau yn ystod y cyfnod hwn, sef cyfarfodydd Rhagfyr 2022 a Chwefror 2023.

- 7.4 Mae'r Strategaeth Rheoli Risgiau yn nodi fframwaith i danategu dull cyffredinol y Bwrdd Iechyd a'i weledigaeth a'i drefniadau o ran rheoli ar bob lefel ledled ei holl Wasanaethau ac Adrannau. Mae hefyd yn llywio'r dulliau priodol o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â Covid-19 (a oedd yn dal yn berthnasol yn ystod 2022/23), gan sicrhau y caiff risgiau eu huwchgyfeirio a'u dad-ddwysáu yn brydlon ac ar adegau priodol. Lluniwyd canllawiau symlach ar reoli risgiau'r ymateb i COVID-19, er mwyn hwyluso'r broses o ddynodi risgiau COVID-19, eu hasesu, eu lliniaru, eu rheoli a'u huwchgyfeirio/dad-ddwysáu yn brydlon. Roedd y canllaw hwn yn cynnwys y gofynion mewn perthynas â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (fel y'i diwygiwyd) yn ogystal â chanllawiau Arfer Da ar gyfer ymatebwyr Categori 1 yn unigol ac ar y cyd fel rhan o "Gymuned" Cydnerthedd Lleol i fabwysiadu dull rhagweithiol, deinamig a seiliedig ar risgiau o fynd ati i reoli Covid-19 a risgiau cysylltiedig.

- 7.5 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos ag ystod eang o bartneriaid a Llywodraeth Cymru. Mae angen sicrhau bod trefniadau rheoli risgiau integredig a chadarn yn sail i hyn, ynghyd â'r gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei amcanion strategol.

7.6 Mae'r fframwaith risgiau a rheolaethau yn ymgorffori ystod o systemau cefnogi a pholisïau cysylltiedig sy'n sicrhau dull rheoli risgiau strwythuredig a chyson.

7.7 Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill):

- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Gorchmynion Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo;
- Strategaeth a Pholisi Rheoli Risgiau;
- Safonau Ymddygiad Busnes;
- Rheoli Rhestrau Aros;
- Polisi a Gweithdrefn Mynegi Pryderon (Chwythu'r Chwiban);
- Polisi Rheoli Digwyddiadau a Digwyddiadau Difrifol;
- Polisi Datrys Cwynion a Phryderon;
- Polisi Rheoli Hawliadau;
- Polisi Didwylledd.

Defnyddir y Rheolau Ariannol Sefydlog i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir ar lefel sydd ag awdurdod priodol.

7.8 Fel rhan o ymdrechion i gynnal busnes yn ddidwyll a thryloyw, gweithredwyd y camau canlynol:

- Defnydd o dechnoleg er mwyn cynnal cyfarfodydd rhithiol, gan gynnwys darparu cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg. Recordiwyd cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a/neu cawsant eu ffrydio'n fyw, a sicrhawyd eu bod ar gael i'r cyhoedd ar-lein;
- Mae'n rhaid cyhoeddi agendâu a phapurau saith diwrnod ymlaen llaw yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog, ond nid yw'r Bwrdd wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn bob tro.
- Cynyddu nifer yr adroddiadau llafar a gofnodir yng nghofnodion cyfarfodydd.

7.9 Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol am y gwaith o reoli risgiau.

7.10 Mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau digonol ar gael at ddibenion rheoli risgiau, ac ar hyn o bryd, mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn cynorthwyo i gyflawni'r rôl hon.

7.11 Ar lefel weithredol, caiff risgiau eu cofnodi ar system rheoli risgiau Datix a'u cynnal ar lefel cofrestrau risgiau lleol a/neu gorfforaethol, yn dibynnu ar sgôr y risg.

7.12 Caiff risgiau lleol eu monitro a'u lliniaru mewn cofrestrau risgiau lleol a chofrestrau risgiau gwasanaethau, a chânt eu monitro ar lefel Cyfarwyddwyr Gweithredol os oes rhoddwyd sgôr o 15 neu ragor iddynt.

7.13 Caiff y gofrestr risg gorfforaethol ei hadolygu gan bob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn unigol er mwyn iddynt gadw golwg ar eu priod risgiau. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu'n annibynnol ar y broses er mwyn cynnal y gofrestr risg yn effeithiol. Dylid nodi, bod gan y Pwyllgor QSE yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd, rôl o ran craffu a herio'r modd y cyflawnir mesurau lliniaru yn erbyn risgiau penodol, gan alw perchnogion risg i gyfrif am beidio â chyflawni cynlluniau gweithredu neu am wyro oddi ar ddarpariaethau'r strategaeth hon.

7.14 Pan fo sgoriau risg yn debygol o effeithio'n sylweddol ar gyflawni amcanion strategol, cânt eu hychwanegu at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a adolygir gan y Bwrdd bob chwarter, a chan y Pwyllgorau fel eitem sefydlog.

- 7.15 Mae'r Grŵp Rheoli Risg yn chwarae rhan allweddol ym mhrosesau sicrwydd rheolaeth fewnol, gan graffu ar effeithiolrwydd camau rheoli i liniaru risgiau drwy adolygu cofrestr risg y Bwrdd Iechyd yn rheolaidd, yn ogystal ag adolygu cofrestrau risg swyddogaethau corfforaethol a llinellau gwasanaeth ar sail dreigl.
- 7.16 Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn gyfrifol am elfennau o'r system rheoli risgiau, gyda'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd ar yr effeithiolrwydd cyffredinol drwy ystyried yr adolygiad blynyddol a gynhelir gan y Swyddogaeth Archwilio Mewnol.
- 7.17 Mae Strategaeth Rheoli Risg y Bwrdd Iechyd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu'r broses rheoli risg yn barhaus, gan adeiladu ar yr egwyddorion a'r cynlluniau sy'n gysylltiedig â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd, y Gofrestr Risg, gofynion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a blaenoriaethau cenedlaethol.
- 7.18 Mae naratif manwl ar atal risgiau rhag codi, ac atal twyll wedi'i ymgorffori yn adran 17 (Trefniadau Atal Twyll, Atal Llwgrwobrwyo a Llygredd) y ddogfen hon.

## **8. Elfennau o'r Fframwaith Sicrwydd**

8.1 Mae elfennau allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys:

- Amcanion sefydliadol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, a nodi'r prif risgiau a allai fygwth cyflawni'r amcanion hyn;
- Nodi'r rheolaethau y bwriedir iddynt reoli'r prif risgiau hyn;
- Gosod trefniadau ar gyfer sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau allweddol ar draws pob maes o'r prif risgiau;
- Nodi sicrwydd a meysydd lle mae bylchau mewn rheolaethau a/neu sicrwydd;
- Rhoi cynlluniau ar waith i gymryd camau i gywiro lle mae bylchau wedi'u nodi mewn perthynas â'r prif risgiau;
- Cynnal trefniadau rheoli risg deinamig gan gynnwys cofrestr risg ag iddi sail gadarn.

### **8.2 Risgiau Allweddol Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

8.2.1 Amcan Strategol: Gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol i bawb / Gwella diogelwch ac ansawdd yr holl wasanaethau:

Risg 1.1 Methu â darparu gofal diogel yn gyson i gleifion yn Ysbyty Glan Clwyd, gan arwain at niwed sylweddol i gleifion, profiad gwael i gleifion a nifer uchel o gwynion a hawliadau, yn ogystal â cholli hyder y cyhoedd.

Risg 1.2 Risg o ddarparu gofal o safon isel i gleifion a phoblogaeth Gogledd Cymru, sy'n disgyn islaw'r safonau ansawdd a diogelwch disgwylidig, gan arwain at ddirywiad mewn gofal a niwed i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth.

Risg 1.3 Methu â rheoli'r galw am ofal heb ei drefnu a'r seilwaith capasiti yn effeithiol, gan effeithio'n andwyol ar ansawdd gofal a phrofiad cleifion.

Risg 1.4 Risg o fethu â chyrraedd targedau perfformio'n gyson, gan arwain at effaith andwyol ar brofiad cleifion ac ansawdd gofal, yn ogystal â cholli hyder y cyhoedd.

- Risg 1.5 Diffyg capasiti i reoli maint y galw am ofal wedi'i gynllunio, gan effeithio'n andwyol ar ansawdd gofal a phrofiad cleifion, gan achosi i gleifion fod yn agored i niwed sylweddol.
- Risg 1.6 Risg o ansefydlogrwydd ym model arweinyddiaeth lechyd Meddwl oherwydd trefniadau staffio dros dro ansefydlog a throsiant staff uchel, gan arwain at berfformiad gwael, diffyg sicrwydd a llywodraethu, a darparu gwasanaeth aneffeithiol.
- Risg 1.7 Mae risg i ddarparu gwasanaethau lechyd Meddwl yn ddiogel ac yn effeithiol, gan arwain at ganlyniadau gwael ac anghyson, defnydd gwael o adnoddau, methu dysgu o ddigwyddiadau neu anghydraddoldebau o ran mynediad.
- 8.2.2 Amcan Strategol: Targedu ein hadnoddau at y bobl sydd â'r anghenion mwyaf a lleihau anghydraddoldebau:
- Risg 2.1 Methu â denu neu gadw digon o staff (craidd a hyblyg) i ddarparu adnoddau ar gyfer y blaenoriaethau strategol oherwydd diffyg cynllunio gweithlu integredig, diffyg systemau lleoli diogel, a chefnogaeth annigonol ar gyfer recriwtio a chynefino staff. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar allu'r Bwrdd i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy.
- Risg 2.3 Methu â chyrraedd targedau ariannol unwaith y daw cyllid Cefnogaeth Strategol i ben, gan arwain at fethiant i fodloni'r ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb.
- Risg 2.4 Methu â chyflawni cynllun tymor canolig integredig cymeradwy sy'n ymgorffori gwasanaeth, gweithlu, balans ariannol a chyflawni targedau perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru (i fodloni dyletswyddau statudol) gan arwain at farn archwilio reoleiddiol.
- Risg 2.5 Mae risg na fyddwn yn cyflawni ein hamcanion strategol a gweithredol oherwydd bod ein trefniadau ar gyfer nodi, comisiynu a chyflawni newid a alluogir gan yr Adran Digidol, Data a Thechnoleg yn annigonol. Bydd hyn yn arwain at fethu â darparu modelau gofal newydd yn unol â Strategaethau Cenedlaethol a Lleol, a fydd yn ei dro'n arwain at ddiraddiad sylweddol mewn diogelwch cleifion, ansawdd gofal, hyder y cyhoedd, rheolaethau ariannol ac enw da.
- Risg 2.6 Mae risg na fyddwn yn gallu cynnal y lefel ofynnol o wasanaeth i'n cleifion a'n poblogaeth oherwydd bod ein cymwysiadau digidol, seilwaith, diogelwch ac adnoddau yn annigonol, a allai arwain at fethiannau TGCh mawr neu seibr-ymosodiad. Bydd hyn yn ei dro, yn arwain at beryglu diogelwch ac ansawdd gofal, diffyg hyder ymhlith y cyhoedd, niwed i enw da a diffyg cydymffurfio rheoleiddiol a chyllid.
- Risg 2.7 Methu â chyrraedd targed arbedion 2022/23 o £35m, gan arwain at dorri ein dyletswydd ariannol statudol.
- 8.2.3 Amcan Strategol: Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl (unigolion, teuluoedd, gofalwyr, cymunedau) i gyflawni eu hamcanion llesiant eu hunain:
- Risg 3.1 Gall methu â darparu amgylchedd adeiledig diogel sy'n cydymffurfio â rheoliadau a methu â darparu offer a thirwedd ddigidol oherwydd cyfyngiadau mewn cyllid cyfalaf, gan effeithio'n andwyol ar allu'r Bwrdd lechyd i weithredu gwasanaethau diogel a chynaliadwy drwy raglen adnewyddu briodol, arwain at niwed y gellir ei osgoi i gleifion, staff, a'r cyhoedd, difrod i enw da ac ymgyfreitha.

- Risg 3.2 Methu â gweithredu a gwreiddio dysgu o brofiad er mwyn gwella gwasanaethau, gan arwain at forâl staff gwael a diffyg ymddiriedaeth a hyder mewn uwch reolwyr, gan arwain at ganlyniadau gwael sy'n effeithio ar ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy ac enw da'r Bwrdd Iechyd. Gall hyn gael ei achosi gan ddiffyg mecanweithiau clir ar gyfer codi pryderon ar unrhyw lefel, ac ar bob lefel.
- Risg 3.3 Risg o oedi sylweddol i fynediad at Wasanaethau Gofal Sylfaenol i'r boblogaeth oherwydd galw a chymhlethdod cynyddol, gweithlu sy'n heneiddio a symud mwy o wasanaethau allan o'r ysbyty, gan arwain at ddirywiad yn iechyd y boblogaeth a fydd yn effeithio ar wasanaethau iechyd a gofal i eraill a lles y gweithlu gofal sylfaenol.
- Risg 3.4 Methu â hyrwyddo lles yn effeithiol a methu â lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws poblogaeth Gogledd Cymru, oherwydd cyfyngiadau yn y model gwasanaeth, gan arwain at alw sy'n fwy na'r capasiti.

#### 8.2.4 Amcan Strategol: Parchu pobl a'u hurddas, a dysgu o'u profiadau:

- Risg 4.1 Risg sylweddol o niwed y gellir ei osgoi i gleifion a staff, oherwydd methiant y Bwrdd Iechyd i ddarparu systemau cyflenwi a gwaith diogel yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig.

- 8.3 Mae'r Bwrdd yn derbyn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rheolaidd a chaiff risgiau eu monitro drwy'r Grŵp Rheoli Risg a phwyllgorau perthnasol mewn perthynas â'r amcanion strategol. Datblygir cynlluniau gweithredu gan bob arweinydd risg. Cânt eu monitro bob chwarter a chyflwynir unrhyw gynnydd/newidiadau i'r Grŵp Rheoli Risg.

## 9. Archwilio Mewnol

- 9.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu prosesau ar gyfer rheoli risgiau sy'n effeithio ar ansawdd a diogelwch gwybodaeth, staff a chleifion. Mae Archwilio Mewnol yn rhoi llif sicrwydd i mi, fel Swyddog Atebol, ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio, ar y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunwyd ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon bod digon o sylw archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer darparu Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth lunio'r farn mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau sydd heb eu cwblhau'n llawn.

9.2 Yn 2022/23, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiadau sefydliadol o'r meysydd canlynol, gan nodi'r graddfeydd sicrwydd isod:

Teitl yr Adolygiad	Graddfa Sicrwydd
Rheoli cyfleustodau	Sylweddol
Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau	Sylweddol
Adolygiad gwella recriwtio - dilysu cyn cyflogi a'r broses benodi	Sylweddol
Codi Llais yn Ddiogel	Rhesymol
Gweithredoedd y Cadeirydd	Rhesymol
Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol (VERS)	Rhesymol
Rheoli Cyllidebau: Mynediad i ddefnyddwyr a therfynau dirprwyedig	Rhesymol
Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Rhesymol
Gwaith dilynol - Archwilio Cymru: Trefniadau Gofal Iechyd Parhaus a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020	Rhesymol
Strategaeth Ddigidol	Rhesymol
Iechyd y Cyhoedd – Safleoedd Di-fwg	Rhesymol
Gwaith dilynol yn deillio o adroddiad Archwilio Cymru: Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Rhesymol
Cam 1 Parhad Ysbyty Maelor Wrecsam	Rhesymol
Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Cyfyngedig
Comisiynydd y Gymraeg: Dogfennau ar y Wefan	Cyfyngedig
Llywodraethu Effeithiol: Ysbyty Gwynedd	Cyfyngedig
Llywodraethu Effeithiol: Ysbyty Maelor Wrecsam	Cyfyngedig
Adroddiadau'r Bwrdd a Phwyllgorau - Digonolrwydd ac ansawdd papurau i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau	Cyfyngedig
Cronfeydd Elusennol	Cyfyngedig
Gofal heb ei drefnu: Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys – canlyniadau Achos Busnes a gyflawnwyd	Cyfyngedig
Recriwtio Swyddi Gweithredol ac Uwch Swyddi Dros Dro a Pharhaol	Cyfyngedig
Dadansoddi Data a Thriogli	Cyfyngedig
Grŵp Adfer a Thrawsnewid Gofal Wedi'i Gynllunio	Cyfyngedig
Rheoli Perfformiad (trefniadau IQPR ac Atebolrwydd)	Cyfyngedig
Cyflawni arbedion y Bwrdd Iechyd	Dim Sicrwydd
Gwasanaethau Cleifion ar Gontract: Trefniadau Ansawdd a Diogelwch	Dim Sicrwydd
Parodrwydd ar gyfer Newid Hinsawdd/Datgarboneiddio	Cynghori
Trawsnewid a Gwella – adrodd ar gynnydd	Cynghori

- 9.3 Yn ystod y flwyddyn, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu gyda'r Archwilwyr Mewnol ar gyfer pob archwiliad, gan ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau archwilio 'dim sicrwydd' neu 'sicrwydd cyfyngedig'. Gofynnir am sicrwydd, a chaiff cynnydd ei fonitro drwy'r pwyllgorau perthnasol er mwyn mynd i'r afael â'r methiannau a nodwyd drwy archwilio mewnol. Bydd angen i'r broses hon gael ei chryfhau yn 2023/24.
- 9.4 Fel rhan o'm hadolygiad, rwyf hefyd yn dibynnu ar farn annibynnol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar sicrwydd cyfyngedig. Mae'r farn yn seiliedig ar adolygiad o'r systemau a'r prosesau sy'n sail i'r Fframwaith Sicrwydd, a'r cynlluniau archwilio mewnol ar sail risg yr adroddwyd arnynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi camau gweithredu ar waith sy'n deillio o'r adolygiadau archwilio mewnol ac yn rhoi sicrwydd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio.

## **10. Llywodraethu Ansawdd**

- 10.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith llywodraethu ansawdd sy'n cefnogi monitro risgiau a pherfformiad sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaethau. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer monitro risgiau sylweddol i gyflawni amcanion strategol y sefydliad, sy'n cynnwys ein hymrwymiad i wasanaethau o ansawdd uchel.
- 10.2 Arweinir llywodraethu ansawdd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gyda chefnogaeth y Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a'r Tîm Ansawdd. Mae ein Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) yn rhoi cyngor amserol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Bwrdd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd. Mae'r Pwyllgor QSE yn derbyn adroddiadau sicrwydd rheolaidd sy'n rhoi trosolwg o ansawdd ar draws y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag methodd y Pwyllgor â chyfarfod ym mis Mawrth 2023 oherwydd newidiadau yn Aelodau Annibynnol y Bwrdd. Cefnogwyd y Pwyllgor QSE gan Grŵp Cyflawni Gweithredol ar gyfer Ansawdd a nifer o grwpiau arbenigol eraill, sy'n cynnwys Fforwm Dysgu Sefydliadol newydd.
- 10.3 Yn ystod y flwyddyn, bu'r Bwrdd Iechyd yn weithredol yn cynllunio cyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd statudol.

## **11. Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru**

- 11.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn adolygu ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd yn erbyn ystod o safonau, polisiâu a rheoliadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofal iechyd, gan amlygu meysydd i'w gwella. Mae AGIC hefyd yn monitro defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ac yn adolygu gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau bod unigolion sy'n agored i niwed yn cael gofal o ansawdd da gan y gwasanaeth hwn. Mae Arolygiaeth Carchardai EF hefyd yn gofyn i AGIC ddarparu adolygiad clinigol o ofal iechyd carcharorion os ydynt yn marw yn y ddalfa. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

- 11.2 Mae systemau a rheolaethau ar waith i sicrhau bod disgwyliadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn parhau i gael eu hymgorffori yn y Bwrdd Iechyd ac y cynhelir arolygiadau a cheisiadau am sicrwydd yn briodol. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gronfa ddata newydd i olrhain a monitro ceisiadau am sicrwydd ac arolygiadau, gan gynnwys tystiolaeth yn erbyn cynlluniau gweithredu. Adroddir ar weithgarwch AGIC i'r Pwyllgor QSE. Yn ogystal â hyn, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Grŵp Sicrwydd Rheoleiddio newydd i oruchwyllo materion rheoleiddio yn fanylach, a gwella'r hyn a ddysgir o arolygiadau ar draws y sefydliad. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i berthynas waith gadarnhaol ag AGIC drwy gyfarfodydd ymgysylltu misol ag arweinydd perthynas dynodedig a thrwy ddeialog barhaus reolaidd.
- 11.3 Cynhaliodd AGIC ddeg arolygiad o wasanaethau a reolir gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Mae'n werth nodi bod AGIC wedi dynodi'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd yn Wasanaeth y mae Angen Gwelliant Sylweddol arno. Manylir ar hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae gwasanaethau fasgwlaidd y Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i fod yn Wasanaeth y mae Angen ei Wella'n Sylweddol, sef dynodiad a roddwyd yn wreiddiol ar 27 Chwefror 2022.

Lleoliad	Dyddiad	Argymhellion	Camau Gweithredu
Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Bryn Hesketh	1/11/2022	17	33
Canolfan Feddygol Hillcrest	11/01/2023	Dim	Dim
Meddygfa Cambria	28/02/2023	Dim	Dim
Bryn y Neuadd, Foelas	22/03/2023	45	46
Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd - Cynllun Dilynol Di-oed	28/11/2022	6	42
Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd	03/05/2022	30	134
Gwasanaeth Cathertereiddio Cardiaidd IRMER a Theatr Hybrid Ysbyty Glan Clwyd	03/05/2022	10	18
Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu Uned Heddfan	09/11/2022	45	90
Adran Achosion Brys Ysbyty Maelor Wrecsam	10/08/2022	17	45
Adolygiad Cenedlaethol ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant	20/12/2022	Dim	Dim

- 11.4 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n rheoleiddio gwasanaethau oedolion megis cartrefi gofal i oedolion, gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd. Yn ystod y flwyddyn, daeth y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o wasanaethau gofal cartref nad oeddent wedi'u cofrestru. Ers hynny mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio ei gofrestrriad i gynnwys y gwasanaethau hyn.

- 11.5 Ar 9 Mai 2022, nododd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yr Adran Achosion Brys, Ysbyty Glan Clwyd fel Gwasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol (SRSI). Roedd y materion canlynol wedi peri pryder:
- Nid oedd argymhellion y Cynllun Sicrwydd a Gwelliant ar Unwaith yn cael eu gweithredu i safon dderbyniol ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.
  - Codwyd materion cyffelyb yn ystod gweithgarwch sicrwydd blaenorol ac ni wnaed digon o welliannau.
  - Nodwyd mater yr oedd angen gweithredu arno ar frys drwy wybodaeth a dderbyniwyd neu dystiolaeth a gasglwyd.
  - Casgliad o dystiolaeth, yn deillio o Ionawr 2022, a arweiniodd at gwblhau Gwiriad Ansawdd ar 8 Mawrth 2022 ac arolygiad dirybudd o'r safle a gynhaliwyd ar 3-5 Mai 2022. Nodwyd nifer o bryderon ynghylch diogelwch cleifion yn ystod y cyfnod hwn.
- 11.6 Yn dilyn arolygiad ym mis Tachwedd 2022, dywedodd AGIC wrth y Bwrdd Iechyd y byddai'r adran yn parhau i fod wedi'i dynodi'n wasanaeth sydd angen Gwelliant Sylweddol. Gwelodd AGIC welliannau mewn sawl maes yn yr adran ond roedd rhai meysydd o her sylweddol, nad oeddent yn datblygu ar y cyflymder anghenrheidiol. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu cynllun gwella manwl mewn ymateb i ganfyddiadau AGIC, sydd wedi'i fonitro drwy Dîm Arwain IHC a'r Grŵp Sicrwydd rheoleiddio a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r Grŵp wedi trefnu Adolygiad Achredu Wardiau mewnol a dull gwirio ansawdd / ffug arolygiad i geisio sicrwydd ar gyflawni'r cynllun gwella hwn i gadarnhau bod y gwelliannau wedi'u sefydlu a'u cynnal.

## 12. Diogelwch Data

- 12.1 Ar ddechrau 2022/23 y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid oedd Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) y sefydliad, gan ddarparu arbenigedd rheoli risg gwybodaeth ar lefel y Bwrdd. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwn i'r Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth ym mis Ionawr 2023. Mae'r SIRO yn goruchwyllo gweithrediad cyson y broses asesu risg gwybodaeth gan Berchnogion Asedau Gwybodaeth, fel y disgrifir yn y fframwaith a'r polisi Rheoli Risg Gwybodaeth.
- 12.2 Trosglwyddwyd y prif gyfrifoldeb dros lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd o'r Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol i'r Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth ym mis Mehefin 2022, gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Sicrwydd Gwybodaeth yn ymgymryd â rôl ddynodedig Swyddog Diogelu Data'r Bwrdd Iechyd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.
- 12.3 Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott penodedig y Bwrdd Iechyd. Rhoddir sicrwydd ffurfiol i'r Bwrdd ar ansawdd data trwy adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth (PPPH). Drwy gydol cyfnod 2022/23, rhoddwyd sicrwydd ar Strategaeth Ddigidol i'r Pwyllgor PPPH gyda sicrwydd ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Ni chynhaliwyd Pwyllgor PPPH yn gyson ers 17 Ionawr 2023 oherwydd bod angen symleiddio'r trefniadau Llywodraethu o ganlyniad i'r lleihad yn nifer yr Aelodau Annibynnol ar gael i fynychu Pwyllgorau ers mis Chwefror 2023. Mae pwyllgorau eraill a oedd ar gael wedi gallu trafod busnes PPPH ar gyfer 2023/24.

- 12.4 Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch cydymffurfriad â dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd systemau gwybodaeth y bydd perfformiad y Bwrdd lechyd yn cael ei asesu yn eu herbyn yn rheolaidd.
- 12.5 Fe wnaeth y Bwrdd lechyd hunan-gofnodi saith achos o dorri diogelwch data a ysgogodd gyfeiriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a Llywodraeth Cymru. Mae'r holl ddogwyddiadau hunangofnodedig wedi'u cau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac nid oes angen unrhyw gamau pellach o ganlyniad i'r camau gweithredu a'r gwelliannau uniongyrchol a roddwyd ar waith gan y Bwrdd lechyd.
- 12.6 Gwnaeth yr ICO ddeuddeg o argymhellion i'r Bwrdd lechyd. Mae'r themâu allweddol yn cynnwys:
1. Gwirio bod polisïau a gweithdrefnau'n dal i fod yn addas i'r diben ac y dylai'r holl staff sy'n trin data personol dderbyn hyfforddiant diogelu data rheolaidd.
  2. Adolygu'r rheolaethau sydd ar waith o amgylch data personol i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel. Cynnal archwiliadau cyfnodol, gan gynnwys archwiliadau ar gyfer prosiectau penodol, i fonitro a yw staff yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth.
  3. Profi effeithiolrwydd y mesurau sydd gan bartneriaid prosiect ar y cyd, yn rheolaidd, gan gynnwys gwirio ar hap a yw eu staff yn cadw at fesurau megis y polisi defnydd derbyniol. Dylai'r sefydliad fod yn fodlon bod camau digonol ar waith i atal y digwyddiad hwn rhag digwydd eto.
  4. Sicrhau bod unrhyw systemau a phrosesau newydd, megis y cytundeb lefel gwasanaeth, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod yr amodau ar gyfer diogelu data, mynediad at gofnodion, a hyfforddiant yn cael eu bodloni.
  5. Adolygu prosesau ar gyfer dogfennau copi caled i sicrhau bod y rhain yn cael eu storio'n briodol. Ystyried rhoi proses gofnodi ar waith i staff lofnodi dogfennau i mewn ac allan i helpu i olrhain dogfennau, ac ystyried a ellid darparu a storio'r wybodaeth hon yn electronig.
  6. Sicrhau bod y canllawiau ar sut i uwchgyfeirio gwrthdaro buddiannau posibl yn cael eu cyfleu i'r holl staff a'u bod ar gael yn hawdd pan gânt eu cynhyrchu.
- 12.7 Mae'r holl argymhellion hyn wedi cael eu gweithredu neu'n mynd i gael eu gweithredu gan y Bwrdd lechyd. Maent yn cael eu monitro gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth a'u goruchwyllo gan y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid.
- 12.8 Ni chafodd y Bwrdd lechyd unrhyw gosb ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â'n tor diogelwch data llywodraethu gwybodaeth wedi'i chynnwys yn adran 21.4 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### **13. Cynllun Pensiwn y GIG a Threfniadau Cyflogres**

- 13.1 Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gan y Bwrdd lechyd fesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau cyflogwyr rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau'n cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

- 13.2 Mae'r systemau a'r prosesau hyn yn destun archwiliad ac adolygiad rheolaidd gan Archwilio Cymru fel rhan o archwiliad blynyddol y datganiadau ariannol, ac archwiliad mewnol o systemau cyflogres.
- 13.3 Fel un o brif gyflogwyr pobl, mae gan y Bwrdd lechyd hefyd reolaethau sy'n sicrhau ei fod yn ymdrin â didynnu trethi gweithwyr a hefyd yn ymdrin â thalu trethi cyflogwyr yn gywir. Yn ogystal, mae gennym reolaethau ar waith i sicrhau ein bod yn rheoli trethi sylweddol eraill yn gywir (e.e. TAW). Mae CthEF wedi rhoi sgôr risg busnes isel i'r Bwrdd lechyd sy'n seiliedig ar eu hasesiad nhw a'n hanes ni yn y gorffennol. Mae hyn wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio.

#### **14. Addasu i Newid yn yr Hinsawdd**

- 14.1 Gwnaethpwyd ymdrechion sylweddol i weithredu gofynion GIG Cymru mewn perthynas â chynaliadwyedd gan gynnwys cynllun Datgarboneiddio. Mae'r Bwrdd lechyd yn comisiynu arbenigwr annibynnol i wneud adolygiad o eiddo'r Bwrdd lechyd a nodi'r cyfleoedd ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar ffurf cost/budd/amser fel y gallwn weld beth sy'n gweddu orau i'n hanghenion. Mae disgwyliad y bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal fel rhan o'r gwaith hwn. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd y Bwrdd lechyd mewn sefyllfa well i ddeall a chynllunio'r llwybr i 2030 a thu hwnt.

#### **15. Parodrwydd ar gyfer Argyfwng**

- 15.1 Mae Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng (EPRR) yn swyddogaeth graidd i'r Bwrdd lechyd ac mae'n ofyniad statudol yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Mae ymateb i argyfyngau hefyd yn swyddogaeth allweddol yn Neddf y GIG (2006) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (2012).
- 15.2 Mae rôl y Bwrdd lechyd yn EPRR yn ymwneud â bygythiadau a allai fod yn aflonyddol a amlinellir yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol, a'r angen i weithredu'r trefniadau gorchymyn, rheoli, cydlynu a chyfathrebu angenrheidiol yn ystod yr ymateb i argyfyngau. Gallai'r aflonyddwch fod wedi codi o dywydd eithafol, achosion o glefyd heintus, damwain drafnidiaeth fawr neu ddigwyddiad terfysgol.
- 15.3 Yn ystod 2022/23 darparodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig, fel y Swyddog Argyfwng Atebol, gyda chefnogaeth yr Arweinydd EPRR dros dro, drosolwg o'r trefniadau EPRR.

- 15.4 Mae Cynllun Gwaith EPRR ar gyfer 2022/2023 wedi cynnwys cymorth parhaus i weithgareddau ymateb i ddioglyddiadau ac wedi arwain at resymoli'r cynllun gwaith i ddiogelu a chynnal gweithgarwch craidd, ac i greu capasiti ar gyfer blaenoriaethau megis hyfforddiant, trefniadau Rheoli Parhad Busnes ynghyd â gwydnwch y gaeaf a pharodrwydd ar gyfer gweithredu diwydiannol. Cynhyrchwyd dogfennau allweddol megis:
- Gweithdrefn Gweithredu Safonol Rheoli Parhad Busnes (BCM), sy'n darparu fframwaith ac yn gosod y disgwyliadau a'r gofynion corfforaethol ar gyfer BCM effeithiol i gynorthwyo'r cyfarwyddiaethau, yr uwch adrannau a'r gwasanaethau i gynhyrchu eu Cynlluniau Parhad Busnes eu hunain;
  - Cynllun Digwyddiad Argyfyngus Mewnol (ICI) i egluro'r trefniadau ar gyfer adnabod y sbardunau a'r broses ar gyfer datgan Digwyddiadau Argyfyngus Mewnol. Mae datgan ICI yn ddatganiad addas ac yn llawer mwy dymunol na datgan digwyddiad mawr. Y bwriad yw cynnwys y cynllun a gadarnhawyd yn gorfforaethol ar gyfer Digwyddiadau Argyfyngus Mewnol fel atodiad i Gynllun Argyfwng Mawr y Bwrdd Iechyd;
  - Adolygu a diweddarau'r deunyddiau hyfforddi ar gyfer Aur Ar Alwad;
  - Mae adolygiad a diweddariad o ddeunyddiau hyfforddi Rheoli Parhad Busnes a chyfres o weithdai misol wedi eu sefydlu;
  - Mae Cynllun Gwaith EPRR yn cydnabod pwysigrwydd a goblygiadau ar gyfer anghydraddoldebau gofal iechyd a'r angen i roi ystyriaeth ar draws yr holl brosiectau a ffrydiau gwaith.
- 15.5 Mae Tîm EPRR yn cefnogi cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus ac Atal a Rheoli Heintiau i reoli'r broses weithredu ar gyfer achosion Clefyd Heintus Canlyniad Sylweddol (HCID) a gadarnhawyd. B ydd achosion unigol cychwynnol yn mynd i Ysbyty Glan Clwyd fel yr ysbyty derbyn ar gyfer achosion HCID ac os bydd angen bydd achosion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Ysbyty Brenhinol Lerpwl neu Ysbyty Brenhinol Hallamshire, Sheffield. Mae'r Tîm hefyd wedi cefnogi ymateb y Bwrdd Iechyd i'r achosion o Mpox yn ystod 2022.
- 15.6 Mewn ymateb i'r Adroddiad Archwilio Terfynol ar drefniadau Ar Alwad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, cefnogodd yr Arweinydd EPRR Dros Dro y Cyfarwyddwr Cyflawni Rhanbarthol Dros Dro i roi argymhellion yr adroddiad a'r camau rheoli y cytunwyd arnynt ar waith. Sefydlwyd Gweithgor Adolygu Ar Alwad ym mis Gorffennaf 2022, wedi'i gefnogi gan Gylch Gorchwyl, a chynllun gweithredu.
- 15.7 Ers mis Gorffennaf 2022, mae Tîm EPRR wedi cefnogi'r Gyfarwyddiaeth Feddygol i fonitro a chynorthwyo tîm y Rhwydwaith Fasgwlaidd i baratoi cynlluniau wrth gefn a chynlluniau parhad busnes ar gyfer colled sylweddol o staff allweddol. Roedd y tîm wedi darparu cymorth ysgrifenyddol a chymorth EPRR i'r cyfarfodydd Gweithrediadau Fasgwlaidd, Fasgwlaidd Arian ac Aur. Mae'r gwaith o baratoi'r trefniadau cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru yn parhau er y byddai'r broses yn elwa o fwy o ymgysylltu â gwasanaethau cysylltiedig.
- 15.8 Mae gwaith parhaus wedi'i wneud i ddarparu cymorth EPRR i'r Cymunedau Iechyd Integredig. Ym mis Medi 2022, ailstrwythurwyd tîm EPRR gyda'r Pennaeth Parodrwydd ar gyfer Argyfwng, Gwydnwch ac Adferiad presennol yn gweithio o fewn Cymuned Iechyd Integredig y Dwyrain. Roedd y fenter interim hon yn cefnogi ailgynnull y Cyfarfodydd Cynllunio Digwyddiadau Mawr, adolygu a diweddarau'r Cynllun Digwyddiad Mawr a'r cardiau gweithredu. Daeth y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn ganolog i hyrwyddo adolygu, diweddarau a chwblhau Cynlluniau Parhad Busnes.

- 15.9 Er mwyn i'r dull hwn barhau ac i ailadrodd y dull gweithredu o fewn y tair Cymuned Iechyd Integredig, bydd angen i Dîm EPRR gael adnoddau priodol a recriwtio gweithwyr proffesiynol cynllunio brys a pharhad busnes uwch, yn dilyn ymddiswyddiadau Pennaeth EPRR a'r Rheolwr Parhad Busnes. Ein nod yw llenwi'r swyddi hyn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24.
- 15.10 Daeth Cynlluniau Parhad Busnes adrannol ac ardal gwasanaeth i rym ac fe'u hadolygwyd er mwyn paratoi ar gyfer y Gaeaf a Gweithredu Diwydiannol. Ar 15 Tachwedd 2022, cynhaliwyd sesiwn gweithdy Parhad Busnes i ystyried y camau lliniaru sydd eu hangen yn barod ar gyfer colli staff sylweddol mewn ymateb i Weithredu Diwydiannol, absenoldeb salwch staff a swyddi gwag ar y pryd. Mae Cynlluniau Parhad Busnes yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn.
- 15.11 Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Syr John Saunders Gyfrol 2 o'i adroddiad ar farwolaethau'r 22 dioddefwr yn ymosodiad y Manchester Arena ym mis Mai 2017. Mae Tîm EPRR am roi'r argymhellion iechyd ar waith a sicrhau dulliau cyson o fewn y Bwrdd Iechyd ac ar draws y Cymunedau Iechyd Integredig.
- 15.12 Mae'r Rheolwyr Aur ac Efydd ar alwad ar draws y Bwrdd Iechyd wedi derbyn hyfforddiant Rheoli Iechyd i sicrhau bod gan staff y Bwrdd Iechyd yr adnoddau a'r sgiliau sy'n benodol i'w rolau penodedig. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu'r deunyddiau hyfforddi ac i gyflwyno hyfforddiant i'r Rheolwyr Arian ar alwad.
- 15.13 Mae'r Grŵp Sicrwydd Argyfyngau Sifil Posibl (CCAG) yn parhau i adolygu ac asesu effeithiolrwydd y trefniadau EPRR a ddatblygwyd gan y tîm, ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Mae'r CCAG yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys y cyfarwyddwyr gweithredol, y cyfarwyddwyr a'r Uwch Reolwyr Pennaf. Mae'r is-grwpiau tactegol, y Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl a'r Gweithgor Parhad Busnes hefyd yn cyfarfod bob chwarter i drafod cynllunio, hyfforddi ac ymarfer yn ogystal ag adolygu a diweddarau cynlluniau.
- 15.14 Yn fwy diweddar, ddiwedd mis Mawrth 2023, mae Tîm EPRR, ynghyd â gweithrediadau, cyfathrebu a'r gyfarwyddiaeth feddygol wedi cymryd rhan yn Exercise Mighty Oak trawslywodraethol, y DU a LIC. Mynychodd cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd gyfarfodydd a thrafodaethau'r Grŵp Cydgysylltu Strategol a gynhaliwyd dros gyfnod o dri diwrnod, gydag asiantaethau partner, ym mhencadlys strategol Heddlu Gogledd Cymru ym Mae Colwyn.

## **16. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol**

- 16.1 Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff ar wefan y Bwrdd Iechyd sy'n unol â dyletswyddau cyhoeddi statudol.
- 16.2 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi ystod o systemau, prosesau a threfniadau llywodraethu ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cael eu monitro gan y Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant strategol yn rheolaidd.
- 16.3 Mae'r Fforwm Strategol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Bwrdd Iechyd a chynlluniau gwaith cysylltiedig, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd y Fforwm hefyd yn goruchwyllo datblygiad y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a Safon Cydraddoldeb Hiliol Gweithlu Cymru pan gaiff y rhain eu cyflwyno yng Nghymru.

- 16.4 Mae Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn goruchwyllo'r broses o gyhoeddi adroddiadau statudol gan gynnwys Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y sefydliad, Adroddiadau Gweithlu ac Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, a chyhoeddir yr olaf ar wefan y Bwrdd Iechyd a phorth y Llywodraeth ar gyfer adrodd ledled y DU.
- 16.5 Adolygwyd adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol 2022/23 ac adroddiadau Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau gan y tîm Gweithredol ym mis Gorffennaf 2023 cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.
- 16.6 Mae ystod o ddogfennau a chanllawiau ategol wedi'u cyhoeddi, i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol trwy ganllawiau penodol a ddsberthir trwy Nodyn Briffio Cydraddoldeb BIPBC a'r safle mewnwyd cydraddoldeb (BetsiNet).
- 16.7 Bydd Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn goruchwyllo datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn ogystal â gwaith parhaus i brif ffrydio'r Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar draws y sefydliad, ac yn parhau i oruchwyllo hyn a rhoi sicrwydd.
- 16.8 Mae hyfforddiant, arweiniad a digwyddiadau ymwybyddiaeth yn cael eu cynnal gan Dîm Cydraddoldeb Corfforaethol y Bwrdd Iechyd.

## **17. Trefniadau Gwrth-dwyll, Gwrth-Lwgrwobrwo a Llygru**

- 17.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion atal twyll a llygredd, fel y'i nodir yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i Gyrrff y GIG ar Fesurau Atal Twyll a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2005 i Gyrrff y GIG yng Nghymru.
- 17.2 Creodd y Ddeddf Llwrwobrwo bedair prif drosedd, sef llwrwobrwo, derbyn llwrwobrwoaeth, llwrwobrwo swyddog cyhoeddus tramor, a methu ag atal llwrwobrwo gan sefydliad masnachol. Cafodd llwrwobrwo ei gynnwys yng ngofynion cyfarwydddeb Llywodraeth Cymru o 2010.
- 17.3 Nid yw'r tîm Gwasanaethau Atal Twyll Lleol yn ymchwilio i honiadau o lwgrwobrwo a llygredd, ac fe'u hanfonir ymlaen at Wasanaeth Atal Twyll Cymru iddynt hwy ymchwilio.
- 17.4 Ar lefel weithredol, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid wedi dirprwyo cyfrifoldeb am reolaeth weithredol y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol i'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol. Pennaeth y Gwasanaethau Atal Twyll Lleol sy'n rheoli'r Gwasanaeth Atal Twyll Lleol o ddydd i ddydd.
- 17.5 Mae cynllun gwaith gwrth-dwyll wedi bod yn ei le gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2022/23 ac mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol (LCFS) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, drwy'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol, yn rheolaidd er mwyn monitro'r gwaith o weithredu'r cynllun a thrafod achosion yn ôl yr angen.
- 17.6 Cynhelir asesiadau risg o dwyll yn flynyddol i asesu a chanfod pa mor agored yw'r Bwrdd Iechyd i risgiau twyll. Defnyddir canlyniad yr asesiad yn erbyn y polisi risg corfforaethol i lenwi cofrestr risg twyll sy'n cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i werthuso, lliniaru a monitro risgiau sy'n deillio o dwyll. Lle bo hynny'n briodol, mae'r risgiau hyn yn bwydo i mewn i gofrestr risg corfforaethol y Bwrdd Iechyd.

#### 17.7 Mae'r trefniadau canlynol yn eu lle:

- Cymerir camau rhagweithiol ac adweithiol gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol i atal a chanfod, yn ogystal ag annog staff i hysbysu achosion o dwyll; caiff gwrthdaro buddiannau eu datgan ym mhob cyfarfod Bwrdd, Pwyllgor ac is-bwyllgor;
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyflwyno rhaglen hyfforddiant gorfodol ar gyfer Ymwybyddiaeth o Dwyll drwy e-ddysgu, sydd wedi'i chyflawni gan nifer dda;
- Mae prosesau'r Bwrdd lechyd wedi'u cyflunio er mwyn parhau i gydymffurfio â'r canllawiau polisi presennol ar wrthdaro buddiannau; sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd;
- Mae trefniadau gweithredol yn eu lle i alluogi hysbysu'r LCFS neu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn brydlon am bryderon sy'n ymwneud â thwyll, trwy'r Cyfarwyddwr Cyllid: Cyllid Gweithredol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael ei hysbysu am y rhain;
- Mae Archwilio Mewnol a'r LCFS wedi cydgysylltu yn ystod y flwyddyn er mwyn trafod meysydd risg uchel, yn ôl yr angen. Os bydd rheolwyr yn nodi risgiau sy'n ymwneud â thwyll caiff y rhain eu gosod yn y gofrestr risg, ynghyd â chamau lliniaru;
- Mae Pennaeth y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol yn cyfarfod yn breifat â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio er mwyn trafod unrhyw faterion perthnasol yn breifat, cyn i'r Pwyllgor Archwilio gael ei gynnal.

17.8 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau cynnydd chwarterol ac adroddiad blynyddol ar weithredu cynllun gwaith yr LCFS a chanlyniad adroddiadau ymchwiliol lle bo'n briodol. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu polisiau a gweithdrefnau gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd y Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, ni aeth adroddiad 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio yn 2022/23 ac adroddwyd arno yng nghyfarfod mis Awst 2023.

17.9 Mae'r Bwrdd lechyd yn cwblhau hunanasesiad blynyddol o'i drefniadau atal twyll, yn unol â Ffurflen Safonol Swyddogaethol Atal Twyll Swyddfa Cabinet y DU (CFFSR), yn unol â nifer o Ofynion y GIG o fewn Safon Swyddogaethol y Llywodraeth GovS013: Atal Twyll, a gyflwynir i'r rheolydd gwrth-dwyll, Awdurdod Atal Twyll y GIG. Mae'r CFFSR wedi'i raddio'n Wyrdd mewn asesiad cyffredinol yn 2022/23, y radd uchaf y gellir ei dyrannu, a hynny ar draws yr ystod o ofynion. Nid yw'r sgôr hwn wedi'i gwrthwynebu gan CFA y GIG. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn sicrwydd o'r gwaith hwn, sy'n sicrhau bod amcanion sefydliadol a gweithgareddau ymchwiliol yn cael eu hymchwilio'n briodol a'u cwblhau mewn modd amserol i leihau risgiau posibl yn systemau rheolaeth fewnol y Bwrdd lechyd yn y dyfodol.

### 18. Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)

18.1 Roedd y Bwrdd lechyd wedi gweithio i ddatblygu Cynllun tair blynedd ar gyfer y flwyddyn 2022/23 ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022. Ni dderbyniwyd y Cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru fel Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy o dan delerau'r GIG. (Cymru) Cyllid 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd o ran ymgysylltu ac o ran creu cynllun cydlynol, felly derbyniwyd y Cynllun yn lle cynllun blynyddol.

18.2 Yn sgil datblygiad amgylchedd cynllunio cyfnewidiol a heriol i wasanaethau iechyd yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar ddiwedd mis Tachwedd 2022 ac roedd hwn yn cynnwys set symlach o flaenoriaethau craidd i'w cyflawni, tra'n cyfeirio at yr angen i barhau i wneud cynnydd mewn meysydd ehangach sydd angen eu gwella. Mae'r Fframwaith yn parhau i adeiladu ar yr uchelgais a nodir yn Cymru Iachach fel y cyd-destun polisi trosfwaol.

- 18.3 Mae'r blaenoriaethau craidd yn cynnwys cyfres o flaenoriaethau Gweinidogol penodol i'w gweithredu yn y meysydd a ganlyn:
- Oedi wrth Drosglwyddo Gofal;
  - Mynediad i Ofal Sylfaenol;
  - Gofal Brys ac Argyfwng;
  - Adfer Gofal wedi'i Gynllunio, Diagnosteg a Llwybrau;
  - Adferiad Canser;
  - Iechyd Meddwl a CAMHS.
- 18.4 Yn sgil pwysau heriol o ran cyllid a systemau, penderfynodd y Bwrdd Iechyd na fyddai'n ymarferol llunio IMTP cymeradwy a oedd yn bodloni holl ofynion Deddf y GIG a'r Fframwaith Cynllunio. Felly cyflwynwyd llythyr Swyddog Atebol i Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023 yn cadarnhau'r sefyllfa ac y byddai'r Bwrdd yn datblygu Cynllun Gweithredu Blynyddol.
- 18.5 Yn dilyn uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd i Fesurau Arbennig ar 27 Chwefror 2023, anfonwyd ail lythyr gan y Swyddog Atebol ym mis Mawrth 2023 yn gofyn am estyniad i'r amser a bennwyd ar gyfer datblygu'r Cynllun Gweithredu Blynyddol, er mwyn caniatáu i godi lefel gofynion y Mesurau Arbennig yn uwch gael ei adlewyrchu ac i ganiatáu ymgysylltiad a chyfarwyddyd gan Aelodau Annibynnol y Bwrdd sydd newydd eu penodi.
- 18.6 Caniatwyd estyniad gan Lywodraeth Cymru, sef y 30 Mehefin 2023. Cymeradwyodd a chyflwynodd y Bwrdd Gynllun Gweithredu Blynyddol 23/24, erbyn y terfyn amser diwygiedig, gan ragweld sefyllfa gyffredinol o £134.2m o ddiffyg. Mae'r Bwrdd wedi cydnabod na fyddai'r sefyllfa hon yn dderbyniol.

## 19. Ymyrraeth wedi'i thargedu

- 19.1 Ers mis Tachwedd 2020, gosodwyd statws Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn dilyn pryderon parhaus yn ymwneud â safle ysbyty Ysbyty Glan Clwyd (YGC), cyhoeddwyd statws pellach Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar 7 Mehefin 2022 ar gyfer safle YGC. Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai statws ymyrraeth BIPBC yn cael ei uwchgyfeirio i fesurau arbennig ar unwaith.
- 19.2 Ym mis Tachwedd 2022 cytunodd y Bwrdd i adolygu'r Matrics Aeddfedrwydd Maes Perfformiad a gwahanu'r Adran Achosion Brys (ED) a'r Gwasanaethau Fasgwlaidd oddi wrth fatrics YGC erbyn Rhagfyr 2022. Gwnaethpwyd hyn ac ehangwyd cylch y fframwaith Ymyrraeth wedi'i thargedu i'r meysydd canlynol:
- Iechyd Meddwl (Oedolion a Phlant);
  - Strategaeth a Chynllunio;
  - Arweinyddiaeth (Llywodraethu, Trawsnewid a Diwylliant);
  - Ymgysylltu (Cleifion, y Cyhoedd, Staff a Phartneriaid);
  - Perfformiad
  - Ysbyty Glan Clwyd
    - Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Diwylliant
    - Adran Achosion Brys
    - Gwasanaethau Fasgwlaidd
- 19.3 Yn ystod 2022/23, cafodd y Bwrdd sicrwydd drwy'r Grŵp Llywio Ymyrraeth wedi'i Thargedu (TISG), a fu'n goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau gwella.

- 19.4 Bu'r TISG yn goruchwyllo'r cynnydd o ran gweithredu targedau ymestyn yn ymwneud â'r pedwar Maes a nodwyd yn y Fframwaith Gwella a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 19.5 Mae lefelau'r aeddfedrwydd sefydliadol a gyflawnir yn cael eu mesur yn ôl y raddfa ganlynol:
- 0 - Dim Cynnydd
  - 1 - Lefel Sylfaenol
  - 2 - Cynnydd Cynnar
  - 3 - Canlyniadau
  - 4 - Aeddfedrwydd
  - 5 - Enghreifftiol.
- 19.6 Ym mis Tachwedd 2022 cytunodd y Bwrdd ar y targedau a argymhellwyd ar gyfer hunanasesiad Mai 2023. Ym mis Mawrth 2023, cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Tystiolaeth o Ganlyniadau Ymyrraeth wedi'i Thargedu. Yn ystod y cyfarfod hwn, cafwyd crynodeb gan bob Parth Ymyrraeth wedi'i Thargedu o'r dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r paneli adolygu a rhoddwyd sylw i'r argymhellion ar gyfer pob parth. Cynhaliwyd Adolygiad Panel Eithriadol hefyd ar 12 Ebrill 2023 lle'r ystyriwyd tystiolaeth ychwanegol ar gyfer YGC (gan gynnwys Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Diwylliant, yr Adran Achosion Brys a Fasgwlaidd), Ymgysylltu ac Iechyd Meddwl Oedolion. Mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn dangos pwynt amser penodol mewn perthynas â'r broses Ymyrraeth wedi'i Thargedu. Fodd bynnag, mae symud i Fesurau Arbennig yn disodli llawer o hyn ac felly dylid cadw hynny mewn golwg wrth ei ddarllen. Mae'r argymhellion ar gyfer pob un o'r parthau isod:

<b>PARTH</b>	<b>ARGYMHELLIAD</b>
YGC ( gan gynnwys Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Diwylliant, Adran Achosion Brys a Fasgwlaidd)	Argymhellwyd y dylai Parth Adran Achosion Brys YGC symud i lefel 2, gan gydnabod bod rhagor o waith i'w wneud, yn enwedig felly o ran strategaeth ddiogelwch YGC a bod angen mynd i'r afael â'r bylchau hyn. Argymhellwyd hefyd bod Arweinyddiaeth, Llywodraethu a Diwylliant YGC ac YGC Fasgwlaidd ill dau yn aros ar lefel 1, gan gydnabod bod tystiolaeth bellach ar gael a fydd yn cynorthwyo'r Parthau i symud i lefel 2 yn y dyfodol.
Ymgysylltu	Cytunwyd bod gan y parth gynlluniau credadwy ar waith sy'n teimlo'n gynaliadwy ac mae'r dystiolaeth ychwanegol a ddarparwyd yn adlewyrchu'r bylchau blaenorol yn y dystiolaeth a gyflwynwyd. Argymhellodd y Panel fod y parth Ymgysylltu ar y trywydd iawn er mwyn symud i lefel 3.
Iechyd Meddwl Oedolion	Cyflwynwyd tystiolaeth bellach i'r panel adolygu ychwanegol ym mis Ebrill yn ymwneud â Hysbysiad Tramgwydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Model Gweithredu Newydd. Cefnogwyd hyn gan y Grŵp. Cytunwyd bod y dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn rhoi sicrwydd bod y maes ar y trywydd iawn i gyrraedd lefel 3 erbyn Tachwedd 2023 a dyma oedd yr argymhelliad y cytunwyd arno.
CAMHS	Mae'r parth ar y trywydd iawn i gyrraedd targed Tachwedd 2023, cefnogwyd hyn gan y Grŵp.

Strategaeth a Chynllunio	Mae'r parth ar y trywydd iawn i gyrraedd targed Tachwedd 2023, ond mae rhai meysydd y mae angen eu hadolygu a hynny mewn cysylltiad â'r maes Perfformiad.
Perfformiad	Mae'r parth ar y trywydd iawn i gyrraedd targed Tachwedd 2023, fodd bynnag mae angen eglurder o ran adroddiadau / data, gwaith pellach i'w gwblhau ar gyfer pob gwasanaeth / swyddogaeth gorfforaethol i gyrraedd y cerrig milltir a chefnogaeth i'r fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd er mwyn cyrraedd lefel 2.
Arweinyddiaeth	Mae LIC wedi gofyn i'r parth hwn gael ei ailosod, fodd bynnag mae angen i ni sicrhau bod gwelliannau arfaethedig yn parhau hyd nes y cawn eglurder gan LIC ynghylch y camau nesaf.

- 19.7 Bu'r Bwrdd lechyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol y daith wella. Mae'r gwaith ar feysydd Cynllun Gwelliant wedi'i Dargedu unigol yn parhau ond erbyn hyn o fewn fframwaith Mesurau Arbennig.

## 20. Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru

- 20.1 Mae negeseuon allweddol Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y'u nodir yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol yn tynnu sylw at fethiant y Bwrdd i gael digon o dystiolaeth briodol bod cronladau, symiau taladwy a gwariant penodol wedi'u datgan a'u cyfrif yn gywir o fewn y cyfnod cyfrifo cywir. Mae'r archwiliad yn gweld bod y Bwrdd lechyd wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd, ac (ynghyd ag wyth o gyrff eraill y GIG yng Nghymru) wedi gwneud gwariant afreolaidd yn ystod y flwyddyn gan gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion i ariannu rhwymedigaethau treth pensiynau clinigwyr. Disgrifiodd yr adroddiad lefel o gamweithredu o fewn y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ehangach a oedd yn ei hanfod yn peryglu gallu'r bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau.

Ceir rhagor o fanylion am yr adroddiad llawn ar wefan Archwilio Cymru :

<https://www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/bwrdd-iechyd-prifysgol-betsi-cadwaladr-adroddiad-archwilio-blynyddol-2022>

- 20.2 Derbyniwyd adroddiad Drafft adolygiad yr Asesiad Strwythuredig gan Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2023. *“Yn gyffredinol, canfu Archwilio Cymru fod y Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu heriau a risgiau sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â rhai agweddau ar ansawdd gwasanaethau, perfformiad, cyllid, digidol ac ystadau. Er bod BIPBC wedi cryfhau dulliau cynllunio ar gyfer datblygu IMTP 2022-23 ac wedi mireinio rhai trefniadau llywodraethu, mae llawer mwy i'w wneud.”*

## 21. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

### 21.1 Ymchwiliad HSE, Uned Hergest

21.1.1 Derbyniwyd llythyr hysbysiad tramgwyddo rheolau ar 9 Mai 2022, yn manylu ar dramgwyddo sylweddol o reolau a nodwyd yn dilyn ymchwiliad i farwolaeth claf trwy rwymo yn Uned Hergest. Manylwyd ar y tramgwydd rheolau o ran safon yr asesiad risg o rwymo, y gwely a'r rhwymiad a ddefnyddiwyd. Derbyniwyd llythyr hefyd ar 15 Mai 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu datganiad o eglurhad i gyd-fynd ag achos HSE i dîm cyfreithiol annibynnol i ystyried camau gorfodi pellach. Derbyniwyd llythyr pellach ar 15 Mawrth 2023 yn cadarnhau bwriad yr HSE i gymryd camau gorfodi pellach parthed y mater hwn, sef achos erlyniad. Darparwyd ar gyfer hyn yng nghyfrifon 2022/23 gan ddefnyddio cyllid wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru. Pan fydd canlyniad yr achos wedi'i benderfynu, bydd y cyllid a ddarparwyd yn dychwelyd i Lywodraeth Cymru yn 2023/24 a bydd unrhyw wariant pellach yn ystod y flwyddyn yn cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd; mae hyn wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Blynyddol 2023/24.

21.1.2 Mae cynllun gweithredu helaeth wedi'i ddrafftio gan y tîm Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a chytunwyd bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Cafodd y rhain eu cymeradwyo trwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad gan y bydd y rhain yn gamau gweithredol parhaus yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

### Ymchwiliad HSE, Cwmpïadau Cleifion

21.2.1 Mae HSE wrthi'n ymchwilio i ddau glaf sydd wedi cwmpo yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn Ysbyty Maelor Wrecsam a Ward Gogarth, Ysbyty Gwynedd. Mae yna glaf pellach sydd wedi cwmpo sydd yn parhau i fod yn destun ymchwiliad agored yn Ward Aran, Ysbyty Gwynedd. Mae adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn cwmpïadau cleifion mewnol lle cwblhawyd asesiad cwmpïadau annigonol neu lle nodwyd bod ymyriadau wedi'u dogfennu fel rhai a weithredwyd a allai liniaru'r risg o gwmpo neu leihau lefel y niwed o gwmp claf mewnol. Mae Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cadarnhau eu bod hefyd yn adolygu bod yr hyfforddiant cwmpïadau a gwblhawyd gan staff asiantaeth yn unol â pholisi cwmpïadau BIPBC

21.2.2 Rhoddwyd hyfforddiant cwmpïadau ar waith i holl staff BIPBC ym mis Ionawr 2022 cyn dechrau'r flwyddyn 2022/23 (lefel 1a) ac mae'r cydymffuriad cyfredol gan y Bwrdd Iechyd (Ebrill 2023) yn 83%. Mae'r hyfforddiant ar gyfer cwblhau'r asesiad risg cwmpïadau cleifion mewnol (lefel 1b) ar gyfer staff Clinigol mewn meysydd Cleifion Mewnol i Oedolion ar hyn o bryd ar 82.84%. Mae'r tîm amlddisgyblaethol sy'n cefnogi staff gyda dysgu wrth erchwyn gwely yn parhau i fod yn ei le ac maent yn canolbwyntio ar feysydd lle mae niferoedd uwch o gwmpïadau. Argymhellwyd bod timau arweiniol IHC yn canfod adnoddau i gefnogi'r rhaglen ddysgu wrth erchwyn gwely.

### 21.3 Ymchwiliad HSE i Ddirgryniad Llaw-Braich (Dwyrain)

21.3.1 Cafwyd diagnosis o Syndrom Dirgryniad Llaw-Braich adroddadwy i'r RIDDOR gan ein Hymgyngorydd Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn dilyn cadw gwyliadwriaeth ar iechyd staff sydd mewn perygl oherwydd dirgryniad. Mae hyn yn parhau i gael ei ymchwilio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

21.3.2 Mae'r tîm Ystadau wedi cael ei gefnogi gan ymgynghorydd allanol arbenigol mewn Sain a Dirgryniad er mwyn cael gwybodaeth glir am y dirgryniad o'r offer sy'n cael ei ddefnyddio. Mae'r tîm wedi datblygu rhaglen amnewid ar gyfer offer petrol megis peiriannau torri clawdd gydag offer sy'n cael ei bweru gan fatri sydd â dirgryniad is. Mae asesiadau risg wedi'u cwblhau ac mae amlygiadau yn cael eu cofnodi bob dydd i sicrhau nad oes amlygiad dros y Gwerth Terfyn Amlygiad dyddiol (ELV). Mae'r tîm yn cael ei gefnogi gan y tîm Iechyd Galwedigaethol o dan y rhaglen Arolygu Iechyd. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro gan y Grŵp Diogelwch Dirgryniad ac mae'r adroddiadau yn cael eu diweddarau i'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Ystadau a chrynodeb i'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol.

## 22. Torri Diogelwch Data

22.1 Gwnaeth y Bwrdd Iechyd hunan-gofnodi saith achos o dorri rheolau diogelwch data a sbardunodd gyfeiriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain mewn perthynas â:

Colli Data	1
Defnydd amhriodol o dechnoleg	1
Torri Cyfrinachedd - Allanol	2
Mynediad Amhriodol	2
Ymosodiad Seiber/ Meddalwedd Wystlo	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>7</b>

22.2 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cau pob digwyddiad hunan-gofnodedig ac nid oes angen unrhyw gamau pellach ganddynt oherwydd y camau a'r gwelliannau uniongyrchol a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd.

22.3 Gwnaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddeuddeg o argymhellion i'r Bwrdd Iechyd; mae'r themâu allweddol wedi'u hamlygu yn adran 12.6.

22.4 Mae'r holl argymhellion hyn wedi cael eu gweithredu gan y Bwrdd Iechyd neu byddant yn cael eu gweithredu ganddo yn y dyfodol ac maent yn cael eu monitro gan y tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

22.5 Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd fynd i unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Ni wnaethom chwaith dderbyn na setlo unrhyw hawliau anafiadau personol am niwed a gofid a achoswyd gan dorri data yn 2022/23.

## 23. Barn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2022/23

23.1 Er mwyn sicrhau nad yw camgymeriadau yn y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cyfrif am ei sefyllfa ariannol yn digwydd eto mewn cyfrifon statudol yn y dyfodol, bydd ystod o gamau gweithredu sylweddol yn cael eu rhoi ar waith i gryfhau'r amgylchedd rheoli ariannol, at ddibenion ymgorffori'r tair llinell o amddiffyn sicrwydd. Roedd prif ganfyddiadau'r Archwiliad yn 2022/23 yn ymwneud ag amodau'r flwyddyn flaenorol ac amodau rheoleidd-dra ar gyfer y flwyddyn bresennol.

23.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod ei fod wedi derbyn barn reoleiddio gymwys ynghylch penodi Cyfarwyddwr Gweithredol ar bwynt cyflog sy'n uwch na therfynau cymeradwyo ac nad oedd hyn yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

23.3 Mae'r materion sylweddol hyn yn nodi gofyniad i'r Bwrdd Iechyd Flaenoriaethu Adolygiad o'r trefniadau sicrwydd ar gyfer cydymffurfio, diogelwch perfformiad a rheoli risg, drwy weithredu model sicrwydd integredig. Cafodd Cynllun Gweithredu Amgylchedd Rheolaeth Ariannol ei ddatblygu yn ystod 2022/3, er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau yn ogystal ag argymhellion penodol eraill ar gyfer cryfhau rheolaeth ariannol ar draws y sefydliad, megis adroddiadau Archwilio Mewnol 2022/23. Cafodd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) ei ddiweddarau ar y camau gweithredu i wella prosesau rheolaeth ariannol mewn cyfarfodydd ym mis Awst 2022 ac ym mis Chwefror 2023. Ers hynny, mae sylwadau adolygiad annibynnol Ernst ac Young wedi cael eu hadlewyrchu mewn Cynllun Gweithredu diwygiedig a chafodd cynnydd yn erbyn y camau gweithredu eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2023. Yn dilyn cwblhau Cyfrifon Blynyddol 2022/23, bydd materion pellach sy'n codi o'r archwiliad yn cael eu hymgorffori yng nghynlluniau gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

## 24. Adolygu Effeithlonrwydd

24.1 Fel Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

24.2 Mae fy adolygiad hefyd wedi'i lywio gan:

- Adborth gan Lywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a datganiadau penodol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Arolygiadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru;
- Darpariaeth cynlluniau ac adroddiadau archwilio gan Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol;
- Adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned a'i olynydd, sef sefydliad Llais;
- Adborth gan GIG Cymru
- Adborth gan staff, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd;
- Sicrwydd a ddarparwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Phwyllgorau eraill y Bwrdd.

24.3 Ni allaf fod yn gwbl fodlon gydag effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol, yn seiliedig ar y materion arwyddocaol a gyfeirir atynt yn y datganiad hwn ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd o dan Fesurau Arbennig o 27 Chwefror 2023 yn rhannol oherwydd yr angen i wella Llywodraethu yn sylweddol.

24.4 Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn dangos lefel o fanwl-gywirdeb a her wedi'i seilio ar elfennau allweddol sy'n cefnogi effeithlonrwydd, megis Sicrwydd Cadeiryddion Aelodau Annibynnol yn adrodd i'r Bwrdd llawn ac allbynnau'r Pwyllgor Archwilio.

24.5 Fodd bynnag, fel y nodwyd gan Archwilio Cymru ac mewn ffynonellau tystiolaeth eraill, ac a adlewyrchir yn y cynnydd mewn Mesurau Arbennig, mae lle i wella'r system o drefniadau rheoli a llywodraethu mewnol yn sylweddol. O'r herwydd, mae cydweithwyr yn gweithio i wella effeithiolrwydd systemau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn barhaus mewn amryw o ffyrdd drwy:

- Adolygu strwythurau llywodraethu sy'n canolbwyntio ar adroddiadau pwyllgorau a Grwpiau sy'n adrodd drwy Weithredwyr atebol;
- Rhaglen Datblygu'r Bwrdd sydd wedi'i hwyluso a'i strwythuro yn unol ag anghenion cyfunol ac unigol;
- Gweithredu argymhellion adolygu allanol;
- Adroddiadau perfformiad integredig a fframwaith atebolrwydd diwygiedig;
- Parhau i ymdrechu i fodloni disgwyliadau Uwchgyfeirio Mesurau Arbennig;
- Argymhellion gan adroddiadau archwilio mewnol;
- Gwaith parhaus i wella'r ffordd y caiff pryderon a chwynion eu rheoli;
- Adolygiad o'r Trefniadau Parhad Busnes a chryfhau ein gwytnwch rhag ymosodiadau seiber;
- Ymgysylltiad rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun clinigol;
- Cryfhau'r trefniadau cynllunio gan gynnwys adolygiad annibynnol o'r swyddogaeth.

## 25. Casgliad

25.1 Rwyf wedi cael fy hysbysu o oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd Iechyd a gefnogir gan:

- Y Pwyllgor Archwilio sy'n ystyried cynlluniau ac adroddiadau blynyddol Archwilio Allanol a Mewnol.
- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad sy'n cynnal goruchwyliaeth o systemau a phrosesau sydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol ac ansawdd o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth, a gynhaliodd oruchwyliaeth o lywodraethu cyllid, perfformiad a gwybodaeth.
- Y Tîm Rheoli Gweithredol sy'n goruchwyllo gweithrediad cyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd.

25.2 Yn ogystal, mae gan y Pennaeth Archwilio Mewnol fecanwaith ar gyfer nodi a chofnodi mewn adroddiadau Archwilio Mewnol, y bylchau mewn rheolaethau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Cytunwyd ar gynlluniau gweithredu gydag uwch reolwyr a chofnodir rhagor o fanylion yn yr adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod.

25.3 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar reolaethau systemau gwybodaeth a weithredir gan drydydd partïon dros gontractau a drafodwyd gan yr Adran Iechyd ac nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw ddylanwad o ran contractau na dylanwad arall dros y darparwyr gwasanaethau a reolir. Ar gyfer system Cyflogres ESR ac Adnoddau Dynol (AD), mae'r Adran Iechyd wedi sefydlu trefniadau lle cafodd y Bwrdd Iechyd sicrwydd ffurfiol ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol.

- 25.4 Fel y nodwyd drwy gydol y datganiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol, mae angen defnyddio'r cyfle a ddaw yn sgil y Mesurau Arbennig i fynd i'r afael â materion Llywodraethu allweddol. Mae'n parhau i ofyn am ymateb deinamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â'r risgiau. Byddaf yn sicrhau bod y Fframwaith Mesurau Arbennig a'r Fframwaith Llywodraethu yn ystyried yr angen hwn yn ogystal ag ymateb iddo.
- 25.5 Mae materion sylweddol wedi'u hamlinellu yn adran 10, 11, 12 a 21 o'r adroddiad hwn.
- 25.6 Mae fy adolygiad, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi cael ei darparu i mi a'r wybodaeth yr wyf wedi'i hasesu, yn dangos bod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr system reolaeth fewnol gyfyngedig sy'n cefnogi cyflawni ei bolisiau, nodau ac amcanion, ac mae angen gwella rhai prosesau'n sylweddol mewn perthynas ag ystod o faterion gan gynnwys diogelwch cleifion a sicrhau cydymffurfiaeth fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

**Llofnodwyd:**

**Carol Shillabeer**  
**Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Atebol**

**Dyddiad: 24 Awst 2023**

## Atodiad 1 - Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2022/23

Cyfarfod	Dyddiad								
Bwrdd Iechyd	26/05/22	04/08/22	24/08/22	29/09/22	24/11/22	26/01/23	30/03/23		
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE)	03/05/22	26/05/22	05/07/22	06/09/22	01/11/22	20/01/23			
Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG)	28/04/22	30/06/22	25/08/22	27/10/22	22/12/22	19/01/23	23/02/23		
Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth (PPPH)	10/05/22	20/05/22	12/07/22	13/09/22	08/11/22	17/01/23			
Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth	26/04/22	12/07/22	01/09/22	03/10/22	25/10/22	22/12/22	09/02/23		
Pwyllgor Cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol (MHCC)	29/07/22	04/11/22	23/02/23						
Pwyllgor Archwilio	30/06/22	13/07/22	22/07/22	24/08/22	13/01/23				
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	18/10/22	18/01/23	02/03/23 (anffurfiol)						

## Atodiad 2 - Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2022/23

Mae amryw o newidiadau wedi digwydd i aelodaeth y Bwrdd, gan gynnwys trefniadau dros dro a dirprwyo yn ystod 2022/23 ac fe'u hadlewyrchir yn y tabl isod:

Enw	Swydd	Tymor
<b>Aelodau Annibynnol y Bwrdd o 1 Ebrill 2022 i 27 Chwefror 2023</b>		
Mark Polin	Cadeirydd	Hyd at 27 Chwefror 2023
Lucy Reid	Is-gadeirydd	Hyd at 27 Chwefror 2023
Y Cynghorydd Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
Nichola Callow	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
John Cunliffe	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
Hugh Evans	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
John Gallanders	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
Jaqueline Hughes	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
Y Cyng. Richard Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
Richard Micklewright	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
Linda Tomos	Aelod Annibynnol	Hyd at 27 Chwefror 2023
<b>Aelodau Annibynnol y Bwrdd o 27 Chwefror 2023</b>		
Dyfed Edwards	Cadeirydd	Penodwyd 27 Chwefror 2023
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol	Penodwyd 27 Chwefror 2023
Karen Balmer	Aelod Annibynnol	Penodwyd 27 Chwefror 2023
Gareth Williams	Aelod Annibynnol	Penodwyd 27 Chwefror 2023
<b>Aelodau Cyswllt y Bwrdd</b>		
Clare Budden	Aelod Cyswllt	Amherthnasol
Morwena Edwards	Aelod Cyswllt	Cyfnod ei swydd wedi dod i ben ym Mehefin 2022
Jane Wild	Aelod Cyswllt	Amherthnasol
Fôn Roberts	Aelod Cyswllt	Penodwyd 29 Gorffennaf 2022
<b>Aelodau Gweithredol y Bwrdd</b>		
Jo Whitehead	Prif Swyddog Gweithredol	Hyd at 15 Tachwedd 2022
Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig/Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro o 16 Tachwedd 2022 i 27 Mawrth 2023
Dr Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol	Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro o 27 Mawrth 2023 i 2 Mai 2023
Molly Marcu	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd	Amherthnasol
Gaynor Thomason	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth	Hyd at 31 Gorffennaf 2022
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Penodwyd 1 Awst 2022
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Amherthnasol
Rob Nolan	Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid	O 2 Medi 2022 i 12 Hydref 2022
Steve Webster	Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid	Penodwyd 3 Ionawr 2023

Enw	Swydd	Tymor
<b>Chris Stockport</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu	Amherthnasol
<b>Gareth Evans</b>	Cyfarwyddwr Dros DroTherapiau a Gwasanaethau Iechyd	Amherthnasol
<b>Adrian Thomas</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwasanaethau Iechyd	Hyd at 16 Hydref 2022
<b>Teresa Owen</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru	Amherthnasol
<b>Sue Green</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Amherthnasol

## Aelodaeth y Pwyllgor

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl gynrychioli	Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd	Rolau Hyrwyddo
Mark Polin	Cadeirydd (i 27.02.23)		<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadeirydd y Bwrdd</li> <li>Cadeirydd Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> </ul>	
Lucy Reid	Aelod Annibynnol Is-gadeirydd (i 27.02.23)	Cymunedol  Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Cadeirydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> <li>Cadeirydd y Pwyllgor Cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol</li> <li>Aelod o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pryderon</li> </ul>
Y Cyng. Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> <li>Aelod o'r Pwyllgor Cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol</li> <li>Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofalwyr</li> <li>Plant a Phobl Ifanc</li> </ul>
Y Cyng. Richard Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Awdurdod Lleol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Cadeirydd o'r Pwyllgor Archwilio</li> <li>Is-gadeirydd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnwys y cleifion a'r cyhoedd</li> <li>Y Gymraeg</li> </ul>
Yr Athro Nichola Callow	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Prifysgol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Is-gadeirydd y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> </ul>	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl gynrychioli	Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd	Rolau Hyrwyddo
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Undeb Llafur	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> <li>• Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> <li>• Ex Officio Fforwm Partneriaeth Leol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trais ac Ymddygiad Ymosodol</li> <li>• Cydraddoldeb</li> </ul>
John Cunliffe	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> </ul>	
Hugh Evans	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> </ul>	
Richard Micklewright	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> </ul>	
Linda Tomos	Aelod Annibynnol (i 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Cadeirydd y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> </ul>	
Dyfed Edwards	Aelod Annibynnol (o 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadeirydd y Bwrdd</li> <li>• Cadeirydd Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> </ul>	

<b>Enw</b>	<b>Swydd</b>	<b>Maes arbenigedd / rôl gynrychioli</b>	<b>Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd</b>	<b>Rolau Hyrwyddo</b>
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol (o 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (o 19.05.23)</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (o 28.04.23)</li> </ul>	
Karen Balmer	Aelod Annibynnol (o 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio (o 15.05.23)</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (o 28.04.23)</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (o 12.05.23)</li> </ul>	
Gareth Williams	Aelod Annibynnol (o 27.02.23)	Cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Cadeirydd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (o 12.05.23)</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth (o 28.04.23)</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Archwilio (o 15.05.23)</li> </ul>	
Jo Whitehead	Prif Weithredwr (i 15.11.22)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Presennol yn y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> <li>• Presennol yn y Pwyllgor Archwilio (yn flynyddol)</li> <li>• Cyd-gadeirydd / Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol</li> </ul>	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl gynrychioli	Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd	Rolau Hyrwyddo
Gill Harris	Dirprwy Brif Weithredwr (i 15.11.22)  Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflenwi Clinigol Integredig (o 01.04.23) Gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro (o 16.11.22 i 27.03.23)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (i Orffennaf 2022)</li> <li>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Leol</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio</li> </ul>	
Gaynor Thomason	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrso a Bydwreigiaeth (i 31.7.22)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (i Awst 2022)</li> <li>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Leol</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> </ul>	
Angela Wood	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso a Bydwreigiaeth (o 01.08.22)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (o Awst 2022)</li> <li>• Aelod o'r Fforwm Partneriaeth Leol</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> </ul>	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl gynrychioli	Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd	Rolau Hyrwyddo
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Fforwm Partneriaeth Leol</li> </ul>	
Rob Nolan	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid (o 02.09.22 i 12.10.22)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Fforwm Partneriaeth Leol</li> </ul>	
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid (o 03.01.23)		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelod o'r Bwrdd</li> <li>• Yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> <li>• Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Fforwm Partneriaeth Leol</li> </ul>	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl gynrychioli	Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd	Rolau Hyrwyddo
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> <li>Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol</li> </ul>	
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (OD)		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Cyfarwyddwr Arweiniol / Presennol, Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> <li>Cyfarwyddwr Arweiniol / Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol</li> <li>Yn bresennol, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> </ul>	
Dr Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> <li>Aelod o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth</li> </ul>	
Dr Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> <li>Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Pwyllgor Partneriaethau, Pobl ac Iechyd y Boblogaeth</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth</li> </ul>	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl gynrychioli	Aelodaeth Pwyllgor y Bwrdd	Rolau Hyrwyddo
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd (i 16.10.22)		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> </ul>	
Gareth Evans	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Cyfarwyddwr Arweiniol / Yn bresennol yn y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> </ul>	
Molly Marcu	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd		<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod o'r Bwrdd</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth</li> </ul>	
<b>Aelodau Cyswllt y Bwrdd</b>				
Morwena Edwards	Aelod Cyswllt (i 25.06.22)	Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod Cyswllt y Bwrdd</li> </ul>	
Clare Budden	Aelod Cyswllt	Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod Cyswllt y Bwrdd</li> </ul>	
Jane Wild	Aelod Cyswllt	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod Cyswllt y Bwrdd</li> <li>Yn bresennol yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</li> </ul>	
Fôn Roberts	Aelod Cyswllt (o 29.07.22)	Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Aelod Cyswllt o'r Bwrdd</li> </ul>	

### Atodiad 3 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus 2022/23

Y = Presennol N = Ddim yn Bresennol

Enw	Swydd	26/05/22	04/08/22	24/08/22	29/09/22	24/11/22	26/01/23	30/03/23
Mark Polin	Aelod Annibynnol/Cadeirydd	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Dyfed Edwards	Aelod Annibynnol/Cadeirydd							Y
Lucy Reid	Aelod Annibynnol/Is-gadeirydd	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Y Cyng. Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Nichola Callow	Aelod Annibynnol	N	Y	Y	Y	Y	Y	
John Cunliffe	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
John Gallanders	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Jaqueline Hughes	Aelod Annibynnol	Y	N	Y	Y	Y	Y	
Y Cyng. Richard Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Richard Micklewright	Aelod Annibynnol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	
Linda Tomos	Aelod Annibynnol	N	N	N	Y	Y	Y	
Hugh Evans	Aelod Annibynnol	N	N	Y	N	N	Y	
Karen Balmer	Aelod Annibynnol							Y
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol							Y
Gareth Williams	Aelod Annibynnol							Y
Clare Budden	Aelod Annibynnol	Y	Y	N	N	N	Y	Y
Morwena Edwards	Aelod Annibynnol	Y						
Fôn Roberts	Aelod Annibynnol			Y	Y	N	N	Y
Jane Wild	Aelod Cyswllt	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y
Jo Whitehead	Prif Swyddog Gweithredol	Y	Y	Y	N	N		
Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Clinigol Integredig Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro (o 14.11.22)	Y	Y	Y	Y	Y	Y	N
Dr Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y

Enw	Swydd	26/05/22	04/08/22	24/08/22	29/09/22	24/11/22	26/01/23	30/03/23
<b>Gaynor Thomason</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Nyrsio a Bydwreigiaeth	Y						
<b>Angela Wood</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth		Y	N	Y	Y	Y	N
<b>Sue Hill</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Y	Y	Y	N	N		
<b>Rob Nolan</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid					Y		
<b>Steve Webster</b>	Cyfarwyddwr Dros Dro Cyllid						Y	Y
<b>Chris Stockport</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid a Chynllunio	Y	Y	N	Y	Y	N	Y
<b>Adrian Thomas</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwasanaethau Iechyd	N	N	N	N	N	N	N
<b>Gareth Evans</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwasanaethau Iechyd	Y	Y	Y	Y	Y	Y	N
<b>Teresa Owen</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru	Y	Y	N	Y	Y	N	Y
<b>Sue Green</b>	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	Y	Y	N	N	Y	N	
<b>Molly Marcu</b>	Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y

## Atodiad 4 - Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2022/23

Cylchlythyr Iechyd Cymru	Arweinydd Gweithredol	Cadarnhau camau a gymerwyd
Cynllun Cenedlaethol Adolygu Archwilio Clinigol a Chanlyniadau GIG Cymru - Rhaglen Flwyddyn Dreigl 2022/23 <b>(WHC2022 02) Er gwybodaeth</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Derbyniwyd cadarnhad o fewn BIPBC, bod y CDG (Fersiwn 11) wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Polisiâu a'i fod wedi uwchlwytho i'r fewnwyd a'i fod ar gael i staff yno.
Cynnyrch Ymataliaeth i Oedolion <b>(WHC2022 03) Er gwybodaeth</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ac Angela Wood, Chyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Rhaeadrwyd gwybodaeth er mwyn sicrhau bod BIPBC yn alinio ag argymhellion Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan.
Cynnyrch dal ymataliaeth bediatrig (diweddarwyd 2022) <b>(WHC2022 04) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ac Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Rhaeadrwyd gwybodaeth er mwyn sicrhau bod BIPBC yn alinio ag argymhellion Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan.
Codio Clinigol Blaenoriaeth Covid-19 <b>(WHC2022 09) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Chris Stockport, Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio Strategol a Chomisiynu	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Brechlynnau ad-daladwy a charfanau cymwys - ar gyfer Rhaglen Frechu Rhag Ffliw Tymhorol (ffliw) y GIG 2022/2023 <b>(WHC2022 10) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Mae cyfathrebu ynghylch y brechlyn ad-daladwy wedi cael ei gylchredeg trwy Rybuddion Cymru Gyfan ac mae wedi cael ei rannu gyda Phractisau Cyffredinol.
Arweiniad monitro ariannol byrddau iechyd, awdurdodau iechyd arbennig ac ymddiriedolaethau o 2022 hyd at 2023 <b>(WHC2022 13) I'w Weithredu</b>	Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
NODAU GWELLA AMR a HCAI AR GYFER 2021-23 <b>(WHC 2022 14) I'w weithredu a gwybodaeth</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.

<b>Cylchlythyr Iechyd Cymru</b>	<b>Arweinydd Gweithredol</b>	<b>Cadarnhau camau a gymerwyd</b>
Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru 2022-2026 <b>(WHC 2022 17) Er gwybodaeth</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Orthopedeg Peditrig heb fod yn Arbenigol <b>(WHC 2022 019) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Mae'r terfyn amser erbyn 2025 felly byddai'n cael ei gylchredeg ymysg yr arweinwyr perthnasol a byddai gofyn iddynt ei ddiweddarau'n rheolaidd.
Llwybrau Cenedlaethol Canser wedi'u Hoptimeiddio (Diweddariad 2022) <b>(WHC 2022 021) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Derbyniwyd cadarnhad bod y tîm llwybrau corfforaethol a'r Grŵp Cynghori Clinigol wedi adolygu'r holl lwybrau canser yn erbyn y llwybrau cenedlaethol wedi'u hoptimeiddio.
Diweddariad ar Raglen Imiwneiddio HPV - Newidiadau i'r brechlyn ar gyfer rhaglen imiwneiddio HPV <b>(WHC 2022 023) Er gwybodaeth</b>	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth trwy'r sefydliad.
Llythyr Gofal Nyrsio a Ariennir (FNC) - 16 Rhagfyr 2022 <b>(WHC 2022 024) Er gwybodaeth</b>	Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Ymagwedd tuag at Feirysau Anadlol - Arweiniad Technegol ar gyfer Cynllunio Gofal Iechyd <b>(WHC 2022 026) I'w Weithredu</b>	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Rhaglen Frys Dal i Fyny Polio ar gyfer plant o dan bum mlwydd oed <b>(WHC 2022 026) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Cwrs ymwybyddiaeth iaith o'r Gymraeg, Mwy na Geiriau <b>(WHC 2022 028) I'w Weithredu</b>	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth trwy'r sefydliad.
Rhaglen Frys Dal i Fyny Polio ar gyfer plant o dan bum mlwydd oed <b>(WHC 2022 029) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Brechlynnau ad-daladwy a charfanau cymwys - ar gyfer Rhaglen Frechu Rhag Ffliw Tymhorol (ffliw) y GIG 2023/2024 <b>(WHC 2022 031) I'w Weithredu</b>	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.

<b>Cylchlythyr Iechyd Cymru</b>	<b>Arweinydd Gweithredol</b>	<b>Cadarnhau camau a gymerwyd</b>
Gwaith adolygu dosbarthu Rhaglen Frechu rhag y Ffliw 2022 - 2023 <b>(WHC 2022 035) I'w Weithredu</b>	Teresa Owen Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Gwaredu Hepatitis B a C fel pryder iechyd cyhoeddus yng Nghymru <b>(WHC 2023 01) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Llwybr Cenedlaethol wedi'i Optimeiddio Newydd 'FIT' ar gyfer y Bibell Gastroberfeddol Isaf - i'w gyhoeddi <b>(WHC 2023 02) I'w Weithredu</b>	Nick Lyons, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Rhaglen brechiad atgyfnerthu ar gyfer y gwanwyn COVID-19 2023 <b>(WHC 2023 03) I'w Weithredu</b>	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.
Fframwaith Profion Cleifion (Arweiniad wedi'i ddiweddarau) <b>(WHC 2023 07) I'w Weithredu</b>	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Rhaeadrwyd gwybodaeth i wasanaethau perthnasol yn y sefydliad.